

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 14/05/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)  
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)  
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Cynnydd o ran Rhoi 'Ynni Cymru' ar waith](#)  
[Statement: Progress on Implementing 'Energy Wales'](#)

[Datganiad: Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16: Adroddiad Terfynol](#)  
[Statement: Post-16 Planning and Funding Review: Final Report](#)

[Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Adroddiad Guilford](#)  
[Statement: The Welsh Government Response to the Guilford Report Recommendations](#)

[Datganiad: Twf Swyddi Cymru—Flwyddyn yn Ddiweddarach](#)  
[Statement: Jobs Growth Wales—One Year In](#)

[Cryfhau Democratiaeth Llywodraeth Leol](#)  
[Strengthening Local Government Democracy](#)

[Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau](#)  
[Motions to Elect Members to Committees](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd  
(Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer  
(Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
The National Assembly for Wales is now in session.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Gofal Iechyd yng Ngorllewin Cymru

### Healthcare in West Wales

13:30 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1052(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve healthcare provision in west Wales? OAQ(4)1052(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Rydyn ni'n gweithio gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i sicrhau bod pobl gorllewin Cymru yn parhau i dderbyn gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn cael eu darparu mor agos â phosibl at eu cartrefi.

We are working with the Hywel Dda Local Health Board to ensure that the people of west Wales continue to receive high-quality services that are safe, sustainable, and provided as close to their homes as possible.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

- 13:31 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, un peth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau gwell gofal iechyd i'm hetholwyr i yw sicrhau nad yw'r uned gofal arbennig i fabanod yn cau yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Fel yr ydym i gyd yn gwybod, mae'r penderfyniad hwn wedi cael ei gyfeirio at eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan y cyngor iechyd cymuned. A allwch ddweud pryd fydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud? Rwy'n eich annog chi a'ch Llywodraeth i wrando ar bryderon fy etholwyr, a sicrhau nad yw'r uned hon yn cau.
- First Minister, one thing that the Welsh Government could do to ensure better healthcare for my constituents would be to ensure that the special care baby unit at Wityhush General Hospital does not close. As we all know, this decision has been referred to your Minister for Health and Social Services by the community health council. Can you tell us when this decision will be taken? I urge you and your Government to listen to the concerns of my constituents and ensure that this unit does not close.
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Nid yw'n bosibl cwrdd â phobl, oherwydd, os ydych yn cwrdd ag un, mae'n rhaid cwrdd â phawb. Fodd bynnag, bydd y Gweinidog Iechyd yn ystyried popeth sy'n berthnasol i'r mater hwn, ac yn gwneud penderfyniad yn y pen draw.
- It is not possible to meet people because, of course, if you meet one, you must meet everyone. However, the Minister for health will consider all relevant issues in this case and will make the ultimate decision.
- 13:31 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Earlier this month, during a health debate, Darren Millar suggested that people who suffer injuries as a result of high-risk activity should foot that bill. Does the First Minister agree that a reckless policy, such as the one that was suggested by the Tory health spokesperson, will seriously discriminate against people who take part in healthy activity, and who simply cannot afford to pay for private healthcare? Do you think that that is a responsible approach to healthcare, First Minister?
- Yn gynharach y mis hwn, yn ystod trafodaeth iechyd, awgrymodd Darren Millar y dylai pobl sy'n dioddef anafiadau o ganlyniad i weithgarwch risg uchel dalu'r pris am hynny. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y bydd polisi anystyriol, fel yr un a awgrymwyd gan lefarydd iechyd y Torïaid, yn gwahaniaethu'n ddifrifol yn erbyn pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau iach, ac nad ydynt yn gallu fforddio talu am ofal iechyd preifat? A ydych chi'n credu bod hon yn agwedd gyfrifol at ofal iechyd, Brif Weinidog?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- That was the announcement of a sports club tax by the Conservatives. At a time when we are trying to encourage people to take part in more activities, and to take more exercise, the only proposal that the health spokesperson could come up with—distanced from his colleagues—is that those who play sport should have to pay for any injuries that they receive when playing sport. I cannot imagine anything more inequitable or wrong. I suggest that he writes to the sports clubs around Wales to tell them of his plans that, when people play sport in the future, they will have to pay if they get injured.
- Cyhoeddiad treth ar glybiau chwaraeon gan y Ceidwadwyr oedd hwnnw. Ar adeg pan rydym ni'n ceisio annog pobl i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau, ac i wneud mwy o ymarfer corff, yr unig gynnydd y gallai'r lefarydd iechyd ei gyflwyno—ar wahân i'w gydweithwyr—yw y dylai'r rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon orfod talu am unrhyw anafiadau y maen nhw'n eu dioddef wrth gymryd rhan mewn chwaraeon. Ni allaf ddychmygu unrhyw beth mwy annheg nac anghyfiawn. Rwy'n awgrymu ei fod yn ysgrifennu at y clybiau chwaraeon ledled Cymru i'w hysbysu am ei gynlluniau, sef y bydd yn rhaid i bobl, pan fyddant yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn y dyfodol, dalu os byddan nhw'n cael eu hanafu.
- 13:33 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, i fynd yn ôl at ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru, mae'r cyngor iechyd cymuned, sy'n cynrychioli cleifion, yn datgan bod pryderon sylweddol yn parhau ynglŷn â chynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i ad-drefnu ei wasanaethau. A ydych yn credu bod hynny'n ddigon o reswm i'r Gweinidog edrych o'r newydd ar y cynlluniau hyn, ac edrych arnynt â llygaid beirniadol?
- First Minister, to return to the reconfiguration of health services in west Wales, the community health council, which represents patients, states that substantial concerns continue to be voiced about Hywel Dda Local Health Board's plans to reconfigure its services. Do you think that that is reason enough for the Minister to look afresh at these plans with a critical eye?

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Bydd pob ffaith berthnasol yn cael ei hystyried gan y Gweinidog, ac, fel y dywedais, bydd penderfyniad yn cael ei wneud wedi ystyried pob ffaith.

All pertinent facts will be taken into account by the Minister and, as I said, a decision will be made having considered all those facts.

13:33 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
First Minister, I recently met with representatives of Aberystwyth University Students' Union, who expressed concern about the rising number of mental health crises that students are facing, and the lack of after-care that they receive from the local health board. Will you ask the local health board to explore the cause of the increase in crises, as well as holding it to account in terms of providing that after-care service?

Brif Weinidog, cefais gyfarfod yn ddiweddar â chynrychiolwyr o Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, a fynegodd bryder am y nifer cynyddol o argyfyngau iechyd meddwl y mae myfyrwyr yn eu hwynebu, a'r diffyg ôl-ofal maen nhw'n ei gael gan y bwrdd iechyd lleol. A wnewch chi ofyn i'r bwrdd iechyd lleol ymchwilio i achos y cynnydd mewn argyfyngau, yn ogystal â'i wneud yn atebol o ran darparu'r gwasanaeth ôl-ofal hwnnw?

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Yes. Depending on the nature and the severity of the problem, you would expect any individual who has been discharged from crisis care to be offered follow-up care that is appropriate to their clinical need. We understand that students can face a series of particular challenges, not least being away from home for the first time. However, we are grateful to colleges, to university staff, and to student unions across Wales, for promoting the wellbeing agenda, and that work must continue.

Gwnaf. Yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y broblem, byddech yn disgwyl i unrhyw unigolyn sydd wedi cael ei ryddhau o ofal argyfwng gael cynnig ôl-ofal sy'n briodol i'w anghenion clinigol. Rydym yn deall y gall myfyrwyr wynebu cyfres o heriau penodol, a gall hynny gynnwys bod oddi cartref am y tro cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn ddiolchgar i golegau, i staff prifysgolion, ac i undebau myfyrwyr ledled Cymru, am hyrwyddo'r agenda lles, ac mae'n rhaid i'r gwaith hwnnw barhau.

## Cyffuriau Priodol ar gyfer Afiechydon Prin

## Appropriate Drugs for Rare Illnesses

13:34 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd cyffuriau priodol ar gyfer afiechydon prin?*  
OAQ(4)1049(FM)

*2. Will the First Minister make a statement on the availability of appropriate drugs for rare illnesses?*  
OAQ(4)1049(FM)

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
On 10 May, the Minister for Health and Social Services issued a written statement confirming that he has asked the Chief Pharmaceutical Officer to set up a review of the appraisal process in Wales for new, innovative medicines used in the treatment of rare diseases.

Ar 10 Mai, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig yn cadarnhau ei fod wedi gofyn i'r Prif Swyddog Fferyllol sefydlu adolygiad o'r broses arfarnu yng Nghymru ar gyfer meddyginiaethau newydd, arloesol a ddefnyddir i drin clefydau anghyffredin.

13:35 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you for that answer, First Minister. I very much welcome the statement by the Minister for Health and Social Services last week. It was common sense being applied to this issue. Will you give us a rough idea of the timetable for this review and when it is likely to report?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy'n croesawu'n fawr y datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos diwethaf. Daethpwyd â synnwyr cyffredin i'r mater hwn. A wnewch chi roi syniad bras i ni o'r amserlen ar gyfer yr adolygiad hwn a phryd y mae'n debygol y cawn ni adroddiad?

13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The announcement has only just been made, of course, but the review will report back in due course. There are issues regarding the way in which medicines are recommended for approval, but the Minister is able to not follow the guidance and that is appropriate in many circumstances. Of course, he has done so on this occasion.

Dim ond newydd ei wneud mae'r cyhoeddiad hwn, wrth gwrs, ond bydd yr adolygiad yn adrodd yn ôl maes o law. Mae problemau o ran y ffordd yr argymhellir meddyginiaethau i'w cymeradwyo, ond gall y Gweinidog beidio â dilyn y canllawiau ac mae hynny'n briodol mewn llawer o amgylchiadau. Wrth gwrs, mae wedi gwneud hynny ar yr achlysur hwn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:35 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, many people were delighted with the announcement that the Minister for health made last week regarding the drug Kalydeco for patients in Wales. This is a drug that has been available in England, Scotland and Northern Ireland for some time now. It was disappointing that it was not already available here and that people had to be dragged kicking and screaming to make that announcement. That said, given that that decision has been made and the length of time that it took, I wonder whether you can guarantee to us that the rarer disease process, which is now being looked at in terms of access to medicines, will result in shorter timescales for decisions being made, rather than the very lengthy ones that seem to occur in Wales at the moment.

Brif Weinidog, roedd llawer o bobl wrth eu boddau gyda'r cyhoeddiad a wnaed gan y Gweinidog iechyd yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r cyffur Kalydeco i gleifion yng Nghymru. Mae hwn yn gyffur sydd wedi bod ar gael yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ers cryn amser bellach. Roedd yn siomedig nad oedd ar gael yma eisoes ac y bu'n rhaid llusgo pobl yn cicio ac yn sgrechian i wneud y cyhoeddiad hwnnw. Wedi dweud hynny, o ystyried bod y penderfyniad wedi ei wneud a faint o amser a gymerodd, tybed a allwch chi ein sicrhau y bydd y broses clefydau anghyffredin, sy'n cael ei ystyried bellach o ran mynediad at feddyginiaethau, yn arwain at amserlenni byrrach ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn hytrach na'r rhai hir iawn y mae'n ymddangos sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They have to be appropriately considered. There has to be an appraisal process otherwise the pharmaceutical companies could claim whatever they wanted to for their drugs. They do that on a number of occasions. Clearly, that would not be right. There has to be an appraisal process. There will be occasions when a Minister feels that he or she should not follow the guidance that has been put in place by that appraisal process. Nevertheless, it is important that that process is in place so that a Minister has all the facts before him or her before taking a full decision.

Mae'n rhaid iddynt gael eu hystyried yn briodol. Mae'n rhaid cael proses arfarnu neu fel arall gallai'r cwmnïau fferyllol hawlio beth bynnag maen nhw'n ei ddymuno am eu cyffuriau. Maen nhw'n gwneud hynny ar sawl achlysur. Yn amlwg, ni fyddai hynny'n iawn. Mae'n rhaid cael proses arfarnu. Bydd adegau pan fydd Gweinidog yn teimlo na ddylai ef neu hi ddilyn y canllawiau a roddwyd ar waith gan y broses arfarnu honno. Serch hynny, mae'n bwysig fod y broses honno ar waith fel bod yr holl ffeithiau gerbron y Gweinidog cyn iddo ef neu hi wneud penderfyniad llawn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:36 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, fel eraill rwyf hefyd yn croesawu'r penderfyniad ar Kalydeco yr wythnos ddiwethaf. Er hyn, mae penderfyniad fel hwn wedi tynnu sylw at gyffuriau eraill sydd wedi cael eu gwrthod o ran ariannu gan yr NHS yng Nghymru, fel yn achos fetholwraig i sydd wedi cael ei gwrthod ar gyfer y cyffur pegvisomant. A wnewch chi sicrhau yn y gwaith y bydd Prif Swyddog Fferyllol Cymru yn ymgymryd ag ef, y bydd ef neu hi—ymddiheuriadau, ond nid wyf yn siŵr os mai ef neu hi ydyw—yn edrych ar y cyffuriau sydd wedi cael eu gwrthod yn hanesyddol yng Nghymru, ac sy'n dal i gael eu gwrthod, ond sy'n cael eu hariannu gan yr NHS naill ai yn Lloegr neu yn yr Alban?

First Minister, like others I also welcome last week's decision on Kalydeco. Despite that, a decision such as that has drawn attention to other drugs that have been rejected in terms of funding by the NHS in Wales, as in the case of my constituent who has been rejected for the drug pegvisomant. Will you ensure in the work that the Chief Pharmaceutical Officer for Wales is going to undertake that he or she—my apologies, but I do not know if it is a he or a she—will look at the drugs that have historically been rejected in Wales, and continue to be rejected, but are funded by the NHS either in England or in Scotland?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Mae hwn yn ffactor y mae'n rhaid ei ystyried. Roedd hwn yn ffactor y soniodd y Gweinidog amdano wrth ddod i'w benderfyniad ef. Dywedodd ei bod yn bwysig o ran cydraddoldeb bod y cyffuriau hyn ar gael yng Nghymru. Wrth ddweud hynny, mae'n bwysig cael rhyw fath o broses i asesu pa mor effeithiol yw cyffuriau achos mae'r cwmnïau, yn naturiol, yn gallu dweud beth bynnag maen nhw mo'yn am y cyffuriau maen nhw'n eu cynhyrchu. Felly, mae'n rhaid cael rhyw fath o broses annibynnol er mwyn sicrhau bod pobl yn deall pa mor effeithiol yw unrhyw gyffur cyn gwneud penderfyniad.

This is a factor that must be taken into consideration. This is a factor that the Minister mentioned in his decision. He said that it was important from the point of view of equality that these drugs should be available in Wales. Having said that, it is important to have some sort of process to assess how effective these drugs are because, naturally, companies are able to say whatever they wish about the drugs that they produce. So, you have to have some sort of independent process to ensure that people understand the efficacy of any drug before taking any decision.

13:38 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
The UK Government has accepted an EU recommendation that all member states should have a plan in place by the end of this year to improve the care, treatment and support for people with rare diseases. I understand that your officials have been working on a four-nation basis to develop that plan. Could you tell us what mechanisms you will be putting in place to ensure that plan is delivered in Wales?

Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn argymhelliad yr Undeb Ewropeaidd y dylai pob aelod-wladwriaeth fod â chynllun ar waith erbyn diwedd y flwyddyn hon i wella'r gofal, y driniaeth a'r gefnogaeth i bobl â chlefydau anghyffredin. Rwy'n deall bod eich swyddogion wedi bod yn gweithio ar sail pedair gwlad i ddatblygu'r cynllun hwnnw. A allech chi ddweud wrthym pa ddulliau y byddwch yn eu rhoi ar waith i sicrhau y darperir y cynllun hwnnw yng Nghymru?

13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Welsh Government officials are working on a four-country document. A large group has been set up to offer advice in Wales. A group of officials, chaired by the Deputy Chief Medical Officer for Wales, will oversee our approach and we will work with the NHS in terms of ensuring that that response is comprehensive.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ddogfen pedair gwlad. Sefydlwyd grŵp mawr i gynig cyngor yng Nghymru. Bydd grŵp o swyddogion, dan gadeiryddiaeth Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru, yn goruchwyllo ein dull gweithredu a byddwn yn gweithio gyda'r GIG o ran sicrhau bod yr ymateb hwnnw'n gynhwysfawr.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We now move to questions from the party leaders. The first question this afternoon is from the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Daw'r cwestiwn cyntaf y prynhawn yma gan arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*  
First Minister, the Confederation of British Industry said yesterday that the economy, generally, was on the right track. It also levelled some accusations against your Government about not helping the construction sector and, importantly, not spending wisely the money that the Treasury gave you. Your Government was offered the opportunity to speak on these issues, but declined. Would you care to comment on your support for the construction sector and, more importantly, the accusation that you are not spending the money to best effect to help the economy in Wales?

Brif Weinidog, dywedodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain ddoe bod yr economi, yn gyffredinol, ar y trywydd iawn. Gwnaeth rai cyhuddiadau hefyd yn erbyn eich Llywodraeth chi am beidio â helpu'r sector adeiladu ac, yn bwysig, am beidio â gwario'r arian a roddwyd i chi gan y Trysorlys yn ddoeth. Cynigwyd cyfle i'ch Llywodraeth siarad ar y materion hyn, ond gwrthododd. A hoffech chi gynig sylwadau ar eich cefnogaeth i'r sector adeiladu ac, yn bwysicach, y cyhuddiad nad ydych yn gwario'r arian yn y ffordd orau i helpu'r economi yng Nghymru?

- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- In the last three quarters of the last year, construction levels in Wales increased by 8.9%. It went backwards by 2.6% in general across the UK. Those figures speak for themselves.
- Cynyddodd lefelau adeiladu yng Nghymru 8.9% yn ystod tri chwarter olaf y llynedd. Gostyngodd 2.6% ledled y DU yn gyffredinol. Mae'r ffigurau hynny'n adrodd y stori eu hunain.
- 13:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, the CBI, which is a major industrial, employer organisation has clearly identified failures by your Government to support the construction sector and, in particular, a failure to spend the money that is sent down the M4 by the UK Treasury. It also highlighted that other parts of the UK are benefiting from the proactive measures that the Westminster Government has brought in to support the construction industry. It said,
- Brif Weinidog, mae'r CBI, sy'n sefydliad cyflogi diwydiannol mawr wedi nodi'n eglur methiannau gan eich Llywodraeth i gefnogi'r sector adeiladu ac, yn benodol, methiant i wario'r arian sy'n cael ei anfon i lawr yr M4 gan Drysorlys y DU. Amlygodd hefyd bod rhannau eraill o'r DU yn elwa o'r mesurau rhagweithiol y mae Llywodraeth San Steffan wedi eu cyflwyno i gefnogi'r diwydiant adeiladu. Meddai:
- 'The construction industry across the UK is finding it tough but here in Wales undoubtedly it is even worse.'
- Mae'r diwydiant adeiladu yn ei chael hi'n anodd ledled y DU ond nid oes amheuaeth ei bod hyd yn oed yn waeth yng Nghymru.
- With the shelving of your homebuy Cymru scheme and your lack of ability to use the money that the Treasury has given you, is there any wonder that you cannot gain the confidence of a major employer organisation such as the CBI with your economic policies?
- Ar ôl diddymu eich cynllun cymorth prynu Cymru a'ch diffyg gallu i ddefnyddio'r arian y mae'r Trysorlys wedi ei roi i chi, a oes unrhyw syndod nad ydych chi'n gallu ennill hyder sefydliad cyflogi mawr fel y CBI gyda'ch polisiau economaidd?
- 13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I do find it incredibly patronising when the leader of the opposition talks about the Treasury giving us money. Welsh people pay taxes as well, in case he has not noticed, and they are entitled to a share of that money. Let me remind him once again of the figures. In the last quarter, Welsh construction was up 8.9%; construction was down 2.6% across the rest of the UK. In all three quarters of 2012, construction in Wales was up by 1.5% and construction across the UK was down by 12%. That shows us that we are doing something right in Wales. It is the UK Government that should be looking at itself in terms of helping construction elsewhere in the UK.
- Rwy'n credu ei bod yn anhygoel o nawddoglyd pan fo arweinydd yr wrthblaid yn siarad am y Trysorlys yn rhoi arian i ni. Mae pobl Cymru yn talu trethi hefyd, rhag ofn nad yw wedi sylwi, ac mae ganddyn nhw hawl i gyfran o'r arian hwnnw. Gadewch i mi ei atgoffa unwaith eto o'r ffigurau. Yn ystod y chwarter diwethaf, roedd adeiladu yng Nghymru wedi cynyddu 8.9%; roedd adeiladu wedi gostwng 2.6% ar draws gweddill y DU. Ym mhob un o dri chwarter 2012, roedd adeiladu yng Nghymru 1.5% yn fwy, ac roedd adeiladu ar draws y DU 12% yn llai. Mae hynny'n dangos i ni ein bod yn gwneud rhywbeth yn iawn yng Nghymru. Llywodraeth y DU ddylai fod yn edrych ar ei hun o ran helpu adeiladu mewn mannau eraill yn y DU.
- 13:41 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, it is evident from employers, house builders, and anyone else involved in the construction sector that the actions that you are taking are not helping the construction sector here in Wales. Any growth is down to the innovation and drive of the individuals concerned in the construction sector. All you need to focus on are the comments levelled at your Government day in, day out about the lack of delivery. Last year, for example, the CBI pointed out that there was a lot of talk, but little delivery. Is it not the case that all we are getting from your Government is talk? We have had shelved schemes, more red tape and letting down the people of Wales. Is it not the case that you have failed the construction sector, you have failed to revive the Welsh economy and, above all, you are failing to deliver for the people of Wales?
- Weinidog, mae'n amlwg o safbwynt cyflogwyr, adeiladwyr tai, ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r sector adeiladu nad yw'r camau rydych chi'n eu cymryd yn helpu'r sector adeiladu yma yng Nghymru. Mae unrhyw dwf yn ganlyniad i arloesedd ac egni'r unigolion dan sylw yn y sector adeiladu. Y cwbl y mae angen i chi ganolbwyntio arnynt yw'r sylwadau sy'n cael eu gwneud am eich Llywodraeth ddydd ar ôl dydd am y diffyg cyflawni. Y llynedd, er enghraifft, nododd y CBI bod llawer o siarad, ond ychydig iawn o gyflawni. Onid yw'n wir mai'r cwbl rydym ni'n ei gael gan eich Llywodraeth yw siarad? Rydym ni wedi gweld cynlluniau'n cael eu diddymu, mwy o fiwrocratiaeth a gadael pobl Cymru i lawr. Onid yw'n wir eich bod wedi siomi'r sector adeiladu, eich bod wedi methu ag adfywio economi Cymru ac, yn anad dim, eich bod yn methu â chyflawni dros bobl Cymru?

- 13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
He has dug himself into so much of a hole that I can barely see the top of his head. You always know when the leader of the opposition has lost the argument because he talks for a long time, trying to dig himself out. Again, I refer him to the figures: construction in Wales has improved; construction across the UK has gone backwards. That shows that the Welsh Government is working for the people of Wales. It is the UK Government and his party who are not delivering for the people of the UK. They need to get off their backsides and do their part.  
Mae wedi cael ei hun i mewn i mewyn i gymaint o dwll fel mai prin y gallaf weld top ei ben. Rydych chi bob amser yn gwybod pan fydd arweinydd yr wrthblaid wedi colli'r ddadl gan ei fod yn siarad am amser maith, yn ceisio cael ei hun allan o dwll. Unwaith eto, rwy'n ei gyfeirio at y ffigurau: mae adeiladu yng Nghymru wedi gwella; mae adeiladu ledled y DU wedi gostwng. Mae hynny'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn gweithio dros bobl Cymru. Llywodraeth y DU a'i blaid ef yw'r rhai nad ydynt yn cyflawni dros bobl y DU. Mae angen iddyn nhw godi oddi ar eu penolau a gwneud eu rhan.
- 13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood. Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Symudwn yn awr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.
- 13:42 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*  
First Minister, the latest analysis of child poverty figures from the Institute for Fiscal Studies and the Institute for Public Policy Research shows that, on a UK level, relative child poverty will rise once again throughout the decade. You have been First Minister for three years; can you tell us what is happening to child poverty? Is it increasing?  
Brif Weinidog, mae'r dadansoddiad diweddaraf o ffigurau tlodi plant gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus yn dangos y bydd tlodi plant cymharol, ar lefel y DU, yn codi unwaith eto drwy gydol y degawd. Rydych chi wedi bod yn Brif Weinidog ers tair blynedd; a allwch chi ddweud wrthym beth sy'n digwydd i dlodi plant? A yw'n cynyddu?
- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
It is inevitable that there will be pressures on child poverty. We expect that poverty will increase in Wales in line with the rest of the UK. However, as a Government, we will soon be launching the tackling poverty action plan, which will outline clearly what we will do with our levers in order to alleviate poverty in Wales.  
Mae'n anochel y bydd pwysau ar dlodi plant. Rydym yn disgwyl y bydd tlodi yn cynyddu yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Fodd bynnag, fel Llywodraeth, byddwn yn lansio cynllun gweithredu trechu tlodi yn fuan, a fydd yn amlinellu'n eglur yr hyn y byddwn yn ei wneud gyda'n hysgogiadau i liniaru tlodi yng Nghymru.
- 13:43 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Of course we recognise that economic and social security policies that are handed down from Westminster are very damaging to Wales. I hear you say now, finally, after I do not know how many years, that you are going to introduce an action plan. You have no real strategy to deal with this, do you? Coming up is the second year of the council tax benefit cut and you have no plan. On end-of-life social care, First Minister, you have no plan. To deal with the impact of universal benefits, you have no plan. First Minister, do you really have a strategy to protect the people of Wales against all of these? Are you really standing up for Wales?  
Rydym yn cydnabod wrth gwrs bod polisiau economaidd a nawdd cymdeithasol sy'n cael eu cyflwyno o San Steffan yn niweidiol iawn i Gymru. Rwy'n eich clywed yn dweud nawr, o'r diwedd, ar ôl wn i ddim faint o flynyddoedd, eich bod yn mynd i gyflwyno cynllun gweithredu. Nid oes gennych chi unrhyw strategaeth go iawn i ymdrin â hyn, nac oes? Mae ail flwyddyn y gostyngiad i'r budd-dal treth gyngor yn dynesu ac nid oes gennych chi unrhyw gynllun. O ran gofal cymdeithasol diwedd oes, Brif Weinidog, nid oes gennych chi unrhyw gynllun. I ymdrin ag effaith budd-daliadau cyffredinol, nid oes gennych chi unrhyw gynllun. Brif Weinidog, a oes gennych chi strategaeth i amddiffyn pobl Cymru rhag pob un o'r rhain mewn gwirionedd? A ydych chi wir yn sefyll dros Gymru?

13:44

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of Plaid Cymru will know what we did with council tax benefit: we took a cut of £20 million and we reinstated it, and we are looking to help people in the course of the coming year as well. We have our own universal benefits in Wales that we have protected and that we will continue to protect. There are many people in Wales who will benefit from what we have done, not least, of course, free prescriptions. I would like to know, as I am sure would the whole Chamber, what Plaid Cymru's plans would be in the same circumstances. We have delivered: we have a tackling poverty action plan; we have protected universal benefits; we have increased school spending; and we have made sure that those who are most vulnerable in society have been protected the most. If she has an argument with that, I would love to know what she thinks we should be doing differently.

Bydd arweinydd Plaid Cymru yn gwybod yr hyn a wnaethom ni gyda'r budd-dal treth gyngor: cafwyd toriad o £20 miliwn ac fe'i hadferwyd gennym, a'n nod yw helpu pobl yn ystod y flwyddyn sydd i ddod hefyd. Mae gennym ni ein budd-daliadau cyffredinol ein hunain yng Nghymru, yr ydym ni wedi eu diogelu, ac y byddwn yn parhau i'w diogelu. Ceir llawer o bobl yng Nghymru a fydd yn elwa o'r hyn rydym ni wedi ei wneud, yn enwedig, wrth gwrs, presgripsiynau am ddim. Hoffwn wybod, fel rwy'n siŵr y byddai'r Siambr gyfan, beth fyddai cynlluniau Plaid Cymru dan yr un amgylchiadau. Rydym ni wedi cyflawni: mae gennym ni gynllun gweithredu trechu tlodi; mae gennym ni fudd-daliadau cyffredinol wedi'u diogelu; rydym ni wedi cynyddu gwariant ysgolion; ac rydym ni wedi gwneud yn siŵr bod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas wedi cael eu diogelu fwyaf. Os oes ganddi hi ddadl â hynny, byddwn wrth fy modd yn clywed beth y mae hi'n ei gredu y dylem ni fod yn ei wneud yn wahanol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the council tax benefit was dealt with at the very last minute. You clearly had no plan. Your Minister for Communities and Tackling Poverty appeared before the Enterprise and Business Committee last week, and he told the committee that the Government is tackling poverty on a departmental basis, with no cross-cutting strategy. With 31% of children in Wales living in relative poverty and with many people unaware of the changes to social security that are on their way, the fact that your Minister says that your Government has no overarching strategy to deal with child poverty should be a cause of deep concern for all of us. First Minister, what is your strategy? How will you deliver it, and who is right on this question: is it you or is it your Minister for tackling poverty?

Brif Weinidog, ymdriniwyd â budd-dal y dreth gyngor ar y funud olaf un. Mae'n amlwg nad oedd gennych chi unrhyw gynllun. Ymddangosodd eich Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi gerbron y Pwyllgor Menter a Busnes yr wythnos diwethaf, a dywedodd wrth y pwyllgor fod y Llywodraeth yn trechu tlodi ar sail adrannol, heb unrhyw strategaeth gyffredinol. Gan fod 31% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi cymharol a bod llawer o bobl heb fod yn ymwybodol o'r newidiadau i nawdd cymdeithasol sydd ar eu ffordd, dylai'r ffaith fod eich Gweinidog yn dweud nad oes gan eich Llywodraeth unrhyw strategaeth gyffredinol i drechu tlodi plant fod yn achos sy'n destun pryder mawr i bob un ohonom. Brif Weinidog, beth yw eich strategaeth? Sut y byddwch chi'n ei darparu, a phwy sy'n iawn o ran y cwestiwn hwn: ai chi neu eich Gweinidog trechu tlodi?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

She is now drowning in a whirlpool of spin. If she looks at what the Minister actually said, he said nothing of the sort. He said that there are problems with obtaining data from the UK Government, but to suggest that somehow there is no—[Interruption.] Do check the Record, please. However, if you are suggesting that he said that there was no cross-cutting plan, that is simply not correct. He has quite often said that tackling poverty is important, and we have said as a Government that the tackling poverty action plan is a cross-government programme that is supported by all departments; that has always been the Government's view. Once again, we are left wondering what Plaid Cymru's policies actually are.

Mae hi'n boddi mewn trobwl o sbin bellach. Pe bai hi'n edrych ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog mewn gwirionedd, ddywedodd e ddim byd o'r fath. Dywedodd fod problemau gyda chael data gan Lywodraeth y DU, ond mae awgrymu rywsut nad oes unrhyw—[Torri ar draws.] Edrychwch ar y Cofnod, os gwelwch yn dda. Fodd bynnag, os ydych chi'n awgrymu ei fod wedi dweud nad oedd unrhyw gynllun cyffredinol, nid yw hynny'n gywir o gwbl. Mae wedi dweud yn eithaf aml fod trechu tlodi yn bwysig, ac rydym ni fel Llywodraeth wedi dweud bod y cynllun gweithredu trechu tlodi yn rhaglen draws-lywodraeth a gefnogir gan bob adran; dyna fu safbwynt y Llywodraeth erioed. Unwaith eto, rydym ni'n cael ein gadael yn pendroni beth yn union yw polisiau Plaid Cymru mewn gwirionedd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, will you tell us who will be eligible for social care and services under your Government's Social Services and Well-being (Wales) Bill?

Brif Weinidog, a wnewch chi ddweud wrthym pwy fydd yn gymwys i dderbyn gofal cymdeithasol a gwasanaethau dan Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) eich Llywodraeth?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



13:46	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>That is something that is being developed during the course of the Bill's passage through the Assembly.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei ddatblygu wrth i'r Bil gael ei gyflwyno drwy'r Cynulliad.</p>
13:46	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Unbelievable. The key point of this Bill is to create a set of national criteria for who receives care. Vulnerable people in Wales need to know whether they will qualify for help or not. I do not think that it is too much to ask the Government to publish those criteria before we are asked to vote on the Bill. When will your Government publish the criteria to determine who will be eligible for help under this legislation, and who will not?</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Anhygoel. Pwynt allweddol y Bil hwn yw creu set o feini prawf cenedlaethol ar gyfer pwy sy'n derbyn gofal. Mae angen i bobl sy'n agored i niwed yng Nghymru wybod pa un a fyddant yn gymwys i gael cymorth ai peidio. Nid wyf yn credu ei bod yn ormod i ofyn i'r Llywodraeth gyhoeddi'r meini prawf hynny cyn y gofynnir i ni bleidleisio ar y Bil. Pa bryd fydd eich Llywodraeth yn cyhoeddi'r meini prawf i benderfynu pwy fydd yn gymwys i dderbyn cymorth dan y ddeddfwriaeth hon, a phwy na fydd?</p>
13:47	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I cannot quite understand the Leader of the Welsh Liberal Democrats when she claims that secondary legislation should precede primary legislation; I have never heard that said in any chamber before.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Nid wyf yn deall Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn iawn pan mae'n honni y dylai deddfwriaeth eilaidd ragflaenu deddfwriaeth sylfaenol; nid wyf erioed wedi clywed hynny'n cael ei ddweud mewn unrhyw siambr o'r blaen.</p>
13:47	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, I want to know, as do the very many organisations across Wales that responded to the consultation on this Bill, who will be eligible and who will not. It is not too much to ask a Government to publish the plans before we vote on the primary legislation, so that we know how our constituents will be affected. You may be happy to, but I am certainly not.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Brif Weinidog, hoffwn i wybod, fel yr hoffai'r nifer fawr o sefydliadau ledled Cymru a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Bil hwn, pwy fydd yn gymwys a phwy na fydd. Nid yw'n ormod i ofyn i Lywodraeth gyhoeddi'r cynlluniau cyn i ni bleidleisio ar y ddeddfwriaeth sylfaenol, fel ein bod yn gwybod sut y bydd ein hetholwyr yn cael eu heffeithio. Efallai eich bod chi'n hapus i wneud hynny, ond yn sicr nid wyf fi.</p>
	<p>The other concern with the Bill is the issue of finances. Last week, the Welsh Local Government Association said that the idea that the Bill is cost-neutral simply cannot be the case. Do you stand by your Deputy Minister for Social Services's statement that, if the Bill passes, no additional money will be needed to implement it?</p>	<p>Y pryder arall gyda'r Bil yw'r mater o gyllid. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr wythnos diwethaf na all y syniad bod y Bil yn niwtral o ran cost fod yn wir. A ydych chi'n cytuno â datganiad eich Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol na fydd angen unrhyw arian ychwanegol i roi'r Bil ar waith, os caiff ei gymeradwyo?</p>
13:48	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes, and, in answer to the first question, it is normal practice for criteria to be developed once primary legislation is in place. Otherwise, what is the point of developing criteria if there is no primary legislation upon which to hook those criteria? It is right to say that people need to know what the criteria are, and those criteria will be made available as soon as possible. The other thing that I noticed about the WLGA is the criticism that it levelled at her party, particularly regarding its continuing acquiescence in the shambles in London at the moment, because there seem to be several Governments in place in London, and its acquiescence in reducing the finances available for Wales as a whole. That is bound to have an impact on finances in Wales. When will her party stand up for Wales at Westminster? It is important that we understand that the Lib Dems have kept hold of their principles, rather than following the Conservative party down a European hole, which is where it is going at the moment.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Ydw, ac, i ateb y cwestiwn cyntaf, mae'n arferol i feini prawf gael eu datblygu unwaith y bydd deddfwriaeth sylfaenol wedi'i sefydlu. Fel arall, beth yw pwynt datblygu meini prawf os nad oes unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol i seilio'r meini prawf hynny arni? Mae'n iawn i ddweud bod angen i bobl wybod beth yw'r meini prawf, a bydd y meini prawf hynny ar gael cyn gynted â phosibl. Y peth arall y sylwais am CLILC yw'r feirniadaeth a wnaeth ar ei phlaid hi, yn enwedig o ran y ffaith ei bod yn parhau i gyd-fynd â'r traed moch yn Llundain ar hyn o bryd, oherwydd mae'n ymddangos bod nifer o Lywodraethau ar waith yn Llundain, a'r ffaith ei bod yn cyd-fynd â lleihau'r arian sydd ar gael i Gymru gyfan. Mae hynny'n sicr o gael effaith ar gyllid yng Nghymru. Pryd wnaiff ei phlaid hi sefyll dros Gymru yn San Steffan? Mae'n bwysig ein bod yn deall bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cadw gafael ar eu hegwyddorion, yn hytrach na dilyn y blaidd Geidwadol i lawr twll Ewropeaidd, a dyna lle mae'n mynd ar hyn o bryd.</p>

## Gwasanaeth Cludo Cleifion

## Patient Transport Service

13:49 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Gwasanaeth Cludo Cleifion mewn Achosion nad ydynt yn rhai Brys? OAQ(4)1057(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*3. Will the First Minister make a statement on the Non-Emergency Patient Transport Service? OAQ(4)1057(FM)*

13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Yes. We are nearing the completion of a three-year national programme of non-emergency patient transport pilot schemes, involving the Welsh ambulance service, the local health boards and the voluntary sector. These will test out different models of transport provision and identify methods for improving non-emergency transport for service users.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Gwnaf. Rydym ni ar fin cwblhau rhaglen genedlaethol tair blynedd o gynlluniau arbrofol cludiant deifion di-argyfwng, gan gynnwys gwasanaeth ambiwlans Cymru, y byrddau iechyd lleol a'r sector gwirfoddol. Bydd y rhain yn profi gwahanol fodolau o ddarparu cludiant ac yn nodi dulliau ar gyfer gwella cludiant di-argyfwng i ddefnyddwyr gwasanaeth.

13:49 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you, First Minister. A number of constituents of mine have raised concerns with me about the joined-up nature of the service in Powys, whereby out-patient appointments for treatments are not being properly taken into account in the scheduling and delivery of non-emergency transport services, particularly as many of my constituents have to travel long distances to district general hospitals such as Aberystwyth, Wrexham, Shrewsbury and Telford. The current service is not fit for purpose, because its hours are between 8.30 a.m. and 4.30 p.m. Will you examine this issue, please? It may well be a wider, Wales issue in terms of joined-up delivery of health services.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae nifer o'm hetholwyr wedi codi pryderon gyda mi ynghylch natur gydgyssylltiedig y gwasanaeth ym Mhowys, lle nad yw apwyntiadau cleifion allanol ar gyfer triniaethau yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn briodol o ran trefnu a darparu gwasanaethau cludiant di-argyfwng, yn enwedig gan fod rhaid i lawer o'm hetholwyr deithio pellteroedd maith i ysbytai cyffredinol dosbarth fel Aberystwyth, Wrecsam, yr Amwythig a Telford. Nid yw'r gwasanaeth presennol yn addas i'w diben, gan fod ei oriau rhwng 8:30a.m. a 4:30p.m. A wnewch chi ymchwilio i'r mater hwn, os gwelwch yn dda? Efallai'n wir ei fod yn fater ehangach, trwy Gymru gyfan, o ran darpariaeth gydgyssylltiedig o wasanaethau iechyd.

13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I can inform the Member that Powys has recently commenced its own pilot scheme. It has learned from the initial four pilot schemes that were in place. In terms of the next steps, the Minister will receive a report on the initial pilot schemes next month and that report will inform our response to non-urgent patient transport in the future.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Gallaf hysbysu'r Aelod fod Powys wedi cychwyn ei chynllun arbrofol ei hun yn ddiweddar. Mae wedi dysgu o'r pedwar cynllun arbrofol cychwynnol a oedd ar waith. O ran y camau nesaf, bydd y Gweinidog yn derbyn adroddiad ar y cynlluniau arbrofol cychwynnol y mis nesaf a bydd yr adroddiad hwnnw'n llywio ein hymateb i gludiant cleifion di-argyfwng yn y dyfodol.

13:50 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Brif Weinidog, mae nifer o gleifion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn methu apwyntiadau achos bod toriadau i wasanaethau bysys, ac mae toriadau yn y gymdeithas yn gyffredinol, wrth gwrs. Mae methu â chadw apwyntiadau yn arwain at broblemau yn y system yn gyffredinol. A oes modd i'r Llywodraeth ystyried rhoi rhyw fath o warant i bobl i sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn iddynt gadw eu hapwyntiadau? Mae hyn yn allweddol i'r system newydd y mae eich Gweinidog yn ei rhagweld ar gyfer y gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau yn y gymuned weithio, sydd yn golygu bod yn rhaid i bobl gyrraedd mewn pryd ar gyfer eu hapwyntiadau.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

First Minister, many patients, especially in rural areas, are missing appointment because of cuts in bus services, and there are cuts in general in society, of course. Failure to attend appointments leads to general problems in the system. Can the Government give consideration to some sort of guarantee system for people in order to ensure that arrangements are in place for them to keep their appointments? This is crucial for the new system that your Minister envisages for the health service in Wales. Services in the community must work, which means that people have to reach their appointments in time.

13:51	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae swyddog o'r Adran Drafnidiaeth yn awr yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn ystyried hyn a sicrhau bod trafnidiaeth ar gael ac yn fforddiadwy. Mae'r gwaith hwnnw'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n well ac sy'n gydweithredol yn y dyfodol.</p>	<p>An official from the Department for Transport is now working with the Department of Health and Social Services to give consideration to this issue and to ensure that transport is available and affordable. That work is currently ongoing in order to ensure that we provide services that are better and more collaborative in the future.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:51	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Brif Weinidog, mae'r gwasanaeth o dan bwysau ar hyn o bryd a bydd yn newid wrth i'r holl gynlluniau ad-drefnu ddod i rym. Yn y gogledd, nid oes asesiad wedi cael ei wneud gan y bwrdd iechyd ynghylch y pwysau ychwanegol fydd ar y gwasanaeth. A fyddwch chi fel Llywodraeth yn mynnu bod yr asesiadau hynny'n digwydd cyn i'r gwasanaethau hyn gael eu had-drefnu?</p>	<p>First Minister, the service is under pressure at present and it will change as all the reorganisation plans come into force. In north Wales, the health board has made no assessment of the additional pressures that the service will face. Will you as a Government insist on such assessments before these services are reorganised?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:52	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae'n bwysig dros ben bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y bydd cleifion yn teithio i ysbytai dros Gymru. Mae hynny'n rhan o'r broses adnewyddu sy'n digwydd yn y gwasanaeth iechyd.</p>	<p>It is vital that consideration is given to how patients will travel to hospitals across Wales. That is part and parcel of the renewal process taking place in the health service.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Polisiau ar Ynni Gwynt</b>		<b>Policies for Wind Power</b>	
13:52	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cymru ar ynni gwynt? OAQ(4)1053(FM)</i></p>	<p><i>4. Will the First Minister make a statement on Welsh Government policies for wind power? OAQ(4)1053(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:52	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Fel y nodir yn 'Ynni Cymru', ein nod yw gwneud y defnydd gorau o ffynonellau ynni adnewyddadwy sydd wedi'u profi'n fasnachol, gyda gwynt y mwyaf datblygedig o'r rhain. Rydym am hwyluso defnydd priodol er mwyn cyflawni'n hamcanion carbon isel a sicrhau manteision sylweddol i bobl a chymunedau Cymru.</p>	<p>As stated in 'Energy Wales', our aim is to make the best use of commercially proven renewable energy sources, of which wind is the most developed. We want to facilitate appropriate deployment to deliver against our low-carbon objectives and ensure that the people and communities of Wales derive significant benefits.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:53	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Brif Weinidog, rydych wedi dweud eich bod chi eisiau hwyluso datblygiadau ynni gwynt. Er hyn, a ydych yn ymwybodol bod un o gynlluniau mwyaf Cymru ar gyfer ynni gwynt, sef Nant y Moch yn fy etholaeth i, gan gwmni SSE, wedi cael ei roi 'on hold'? Y rheswm cyhoeddus mae wedi ei roi am hyn yw'r hinsawdd fuddsoddi ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Ni fydd y cwmni yn buddsoddi mwy yn y cynllun hwn nes y bydd polisi Cymru ar ynni adnewyddadwy yn fwy clir iddo. A yw'n fwiad gennyh i roi mwy o eglurder a hyder i gwmnïau fel SSE ynglŷn â datblygu ynni gwynt yng Nghymru?</p>	<p>First Minister, you have said that you want to facilitate wind energy developments. However, did you know that one of Wales's biggest wind energy schemes, the SSE scheme at Nant y Moch in my constituency, has been put on hold? The publicly given reason for that is the investment climate for renewable energy in Wales. The company will not invest more in that scheme until it has more clarity on the Welsh policy on renewable energy. Do you intend to give companies such as SSE more clarity and confidence on wind energy developments in Wales?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

13:53

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fe wnes i drafod hyn gyda'r cwmni. Y broblem yw na fydd pethau'n gliriach heb fod datganoli ar y pwerau sydd eu hangen arnom fan hyn. Heb fod yn yr un sefyllfa â'r Alban a Gogledd Iwerddon, nid oes gennym obaith o fod yn ddigon clir ynglŷn â sicrhau buddsoddiad yng Nghymru yn dyfodol.

I discussed this with the company. The problem is that things will not become clearer without the devolution of the powers that we need here. Until we have the same powers as Scotland and Northern Ireland, we have no hope of being clear enough to secure future investment in Wales.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:54

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, technical advice note 8 is a document that your Government is not prepared to review at present. However, it says that

'there is a balance to be struck between the desirability of renewable energy and landscape protection.'

It goes on to say that

'there is a case for avoiding a situation where wind turbines are spread across the whole of a county.'

First Minister, what can you do to ensure that local authorities have cumulative impact assessments? In areas such as Pembrokeshire and Carmarthenshire, people are banging up one, two or three wind turbines as solo applications or triple applications. However, when you put them all together in a small area, it is, by any other standard, a windfarm. Do you think that it is acceptable that areas of rural Wales that depend so much on tourism for their business are allowed to become part of the industrial landscape?

Brif Weinidog, mae nodyn cyngor technegol 8 yn ddogfen nad yw eich Llywodraeth yn fodlon ei hadolygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n dweud:

'bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng dymunoldeb ynni adnewyddadwy a diogelu'r tirlun.'

Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud

'ceir achos dros osgoi sefyllfa lle mae tyrbinau gwynt yn cael eu gwasgaru ar draws sir gyfan.'

Brif Weinidog, beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau effaith ar y cyd? Mewn ardaloedd fel Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, mae pobl yn cyflwyno un, dau neu dri tyrbinau gwynt fel ceisiadau unigol neu geisiadau triphlyg. Fodd bynnag, pan fyddwch chi'n eu rhoi nhw i gyd gyda'i gilydd mewn ardal fach, yna mae'n fferm wynt yn ôl unrhyw safon arall. A ydych chi'n credu ei bod yn dderbyniol caniatáu i rannau o Gymru wledig sy'n dibynnu cymaint ar dwristiaeth am eu busnes ddod yn rhan o'r dirwedd ddiwydiannol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:54

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are matters for local authorities. If they feel that planning applications should not proceed, they are free to do so. TAN 8 makes it clear that, when it comes to the larger planning applications within the devolved competence of the National Assembly, there is an expectation that those applications would be considered more favourably within the strategic search areas. There is no ban on development outside of those areas, but it is for local authorities to decide how they approach this issue, and how they examine each planning application in terms of its impact in the particular area.

Materion i awdurdodau lleol yw'r rhain. Os ydynt yn teimlo na ddylai ceisiadau cynllunio fynd yn eu blaenau, maen nhw'n rhydd i wneud hynny. Wrth ystyried y ceisiadau cynllunio mwy o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad Cenedlaethol, mae TAN 8 yn ei gwneud yn eglur bod disgwyliad y byddai'r ceisiadau hynny'n cael eu hystyried yn fwy ffafriol o fewn yr ardaloedd chwilio strategol. Nid oes gwaharddiad ar ddatblygu y tu allan i'r ardaloedd hynny, ond mater i awdurdodau lleol yw penderfynu sut maen nhw'n ymdrin â'r mater hwn, a sut maen nhw'n edrych ar bob cais cynllunio o ran ei effaith yn yr ardal benodol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Cyfranogiad mewn Chwaraeon yn Nhorfaen

## Participation in Sport in Torfaen

13:55

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog pobl yn Nhorfaen i gymryd rhan mewn chwaraeon? OAQ(4)1061(FM)*

*5. How is the Welsh Government encouraging people in Torfaen to participate in sport? OAQ(4)1061(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

- 13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
The Welsh Government, via Sport Wales, is working with local organisations and Torfaen County Borough Council to provide opportunities for people of all ages to participate in sport.
- 13:55 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First Minister, I recently attended the relaunch of the Fighting Fit Gym in Griffithstown, which has been transformed into a state-of-the-art community fitness facility, thanks to a £100,000 investment from Sport Wales, the community economic development programme and the community facilities and activities programme. I was totally bowled over by the enthusiasm, knowledge and dedication of the staff and volunteers whom I met. It is a testament to all their hard work that Griffithstown now boasts a first-class sport and fitness facility. Will you join me, First Minister, in congratulating Jo Draper and all at the Fighting Fit Gym on the fantastic work that they do, day in, day out, promoting sport and sporting success in Torfaen?
- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Yes, I will. The gym is a very good example of how Sport Wales is working with local organisations and enthusiastic individuals from the community. I note, of course, that the gym received a cash boost from the European regional development fund; a cash boost that some in the Conservative party would not have wanted it to receive.
- We know, in terms of sport, that we can look, just at random, at Colwyn Bay and its water sports centre with the regeneration fund; it received significant European money. That would not have gone ahead if it were not for the European regional development fund. Surely, nobody would argue for us leaving the European Union, given the largesse that has been showered on that project in a random constituency.
- 13:57 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First Minister, the active adults survey revealed that only 29% of adults in Torfaen participated in any sport or physical recreation compared with 41% in Blaenau Gwent and 58% in Caerphilly. What reason can the First Minister give for such wide variance in figures for sports participation in South Wales East, and what is he going to do about it?
- Mae Llywodraeth Cymru, trwy Chwaraeon Cymru, yn gweithio gyda sefydliadau lleol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gynig cyfleoedd i bobl o bob oed gymryd rhan mewn chwaraeon.
- Brif Weinidog, mynychais ail-lansiad Campfa Fighting Fit yn Griffithstown yn ddiweddar, sydd wedi cael ei droi'n gyfleuster ffitrwydd cymunedol gyda'r holl offer diweddaraf, diolch i fuddsoddiad o £100,000 gan Chwaraeon Cymru, y rhaglen datblygu economaidd cymunedol a'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol. Cefais fy syfrdanu'n llwyr gan frwdfrydedd, gwybodaeth ac ymroddiad yr aelodau staff a'r gwirfoddolwyr i mi gyfarfod â nhw. Mae'n glod i'w holl waith caled y gall Griffithstown frolio cyfleuster chwaraeon a ffitrwydd o'r radd flaenaf erbyn hyn. A wnewch chi ymuno â mi, Brif Weinidog, i longyfarch Jo Draper a phawb yng Nghampfa Fighting Fit, ar y gwaith gwych maen nhw'n ei wneud, ddydd ar ôl dydd, i hyrwyddo chwaraeon a llwyddiant mewn chwaraeon yn Nhorfaen?
- Gwnaf, mi wna. Mae'r gampfa'n enghraifft dda iawn o sut mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda sefydliadau lleol ac unigolion brwdfrydig o'r gymuned. Nodaf, wrth gwrs, fod y gampfa wedi derbyn hwb ariannol o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop; hwb ariannol na fyddai rhai yn y blaid Geidwadol wedi dymuno iddi dderbyn.
- Rydym yn gwybod, o ran chwaraeon, y gallwn edrych, dim ond ar hap, ar Fae Colwyn a'i chanolfan chwaraeon dŵr gyda'r gronfa adfywio; derbyniodd arian Ewropeaidd sylweddol. Ni fyddai hynny wedi mynd yn ei flaen heb gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. 'Does bosib y byddai unrhyw un yn dadlau y dylem ni adael yr Undeb Ewropeaidd, o ystyried yr haelioni a ddangoswyd i'r prosiect hwnnw mewn etholaeth ar hap.
- Brif Weinidog, datgelodd yr arolwg oedolion egnïol mai dim ond 29% o oedolion yn Nhorfaen gymerodd ran mewn unrhyw chwaraeon neu weithgareddau hamdden corfforol o'i gymharu â 41% ym Mlaenau Gwent a 58% yng Nghaerffili. Pa reswm all y Prif Weinidog ei roi am amrywiaeth mor eang yn y ffigurau ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon yn Nwyrain De Cymru, a beth mae e'n mynd i'w wneud am y peth?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:57	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Of course, the gym is one good example of how to increase participation. I can say that, over the last four financial years, Torfaen has received a total of £225,000 from the Sport Wales community chest fund. He asked me what we are going to do about it; one thing that we will not do is impose a tax on people who play sport and get injured, by forcing to pay for their own hospital treatment. That is a very good way to reduce participation in sport and that is exactly what the party opposite wants to see.</p>	<p>Wrth gwrs, mae'r gampfa'n un enghraifft dda o sut i gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan. Gallaf ddweud bod Torfaen, dros y pedair blynedd ariannol diwethaf, wedi derbyn cyfanswm o £225,000 o gronfa cist gymunedol Chwaraeon Cymru. Gofynnodd i mi beth rydym ni'n mynd i'w wneud am y peth; un peth na fyddwn ni'n ei wneud fydd trethu pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac yn cael eu hanafu, trwy eu gorfodi i dalu am eu triniaeth ysbyty eu hunain. Mae honno'n ffordd dda iawn o leihau'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a dyna'n union yr hoffai'r blaid gyferbyn ei weld.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Yr Uned Gyflawni</b>		<b>The Delivery Unit</b>	
13:58	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>6. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yr uned gyflawni dros y chwe mis diwethaf? OAQ(4)1063(FM)</i></p>	<p><i>6. Will the First Minister provide an update on the work of the delivery unit in the past six months? OAQ(4)1063(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:58	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes, indeed. The delivery unit—</p>	<p>Gwnaf, yn wir. Mae'r uned gyflawni—</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:58	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you. [Laughter.]</p>	<p>Diolch yn fawr. [Chwerthin.]</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:58	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The delivery unit reports directly to me and is working alongside departments to help ensure the integrated and streamlined delivery of Government priorities.</p>	<p>Mae'r uned gyflawni yn adrodd yn uniongyrchol i mi ac yn gweithio ochr yn ochr ag adrannau er mwyn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth integredig a syml o flaenoriaethau'r Llywodraeth.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:58	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I was a little surprised at the length of your answer; I thought I was only going to get a 'yes' out of you, First Minister, given your previous form on updating this Chamber on the delivery unit.</p> <p>How many delivery units does your Government actually require? You have set up a delivery unit for the energy sector, you have set up a delivery group for the programme for government, and you have your own delivery unit within the First Minister's office. How many delivery units does it actually take to deliver the priorities of your Government, given the plethora of Ministers that you have around that table?</p>	<p>Cefais fy synnu braidd gan hyd eich ateb; roeddwn i'n meddwl mai dim ond 'gwnaf' yr oeddwn i'n mynd i'w gael allan ohonoch chi, Brif Weinidog, o ystyried eich hanes blaenorol o ddiweddarau'r Siambr hon ar yr uned gyflawni.</p> <p>Faint o unedau cyflawni sydd eu hangen ar eich Llywodraeth mewn gwirionedd? Rydych chi wedi sefydlu uned gyflawni ar gyfer y sector ynni, rydych chi wedi sefydlu grŵp cyflawni ar gyfer y rhaglen ar gyfer llywodraethu, ac mae gennych chi eich uned gyflawni eich hun yn swyddfa'r Prif Weinidog. Faint o unedau cyflawni sydd eu hangen mewn gwirionedd i gyflawni blaenoriaethau eich Llywodraeth, o ystyried y llu o Weinidogion sydd gennych chi o gwmpas y bwrdd yna?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:58	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>One. [Laughter.]</p>	<p>Un. [Chwerthin.]</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

13:59 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Beth sydd wedi ei gyflawni gan eich uned chi na fyddai wedi digwydd oni bai am fodolaeth yr uned? What has your unit delivered that would not have been delivered if it did not exist?

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Mae'n anodd iawn i wybod hynny. Yr uned yw'r olew sy'n rhedeg trwy injan y Llywodraeth, ac felly ym mha ffordd y byddem yn dweud wrth bobl am fynegi barn ar waith yr uned gyflawni? Edrychwch ar yr adroddiad ar y rhaglen lywodraethu. Dyna'r ffordd i weld yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn ystod y flwyddyn. It is very difficult to tell. The unit is the oil that runs through the engine of Government, so how would we tell people to express a view on the work of the delivery unit? Look at the report on the programme for government. That is how you will see what the Government is doing during the year.

## Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU

## The UK Government's Legislative Programme

13:59 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar Gymru? OAQ(4)1055(FM)*  
*7. Will the First Minister make a statement on the implications of the UK Government's legislative programme on Wales? OAQ(4)1055(FM)*

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Yes. We will continue to consider the legislative proposals announced in the Queen's Speech, as they develop. We work to ensure that the impact on Wales is clearly understood and that we are fully consulted about any impact on devolved matters. Gwnaf. Byddwn yn parhau i ystyried y cynigion deddfwriaethol a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines, wrth iddynt ddatblygu. Rydym yn gweithio i sicrhau bod yr effaith ar Gymru yn cael ei deall yn eglur ac yr ymgynghorir â ni'n llawn ar unrhyw effaith ar faterion datganoledig.

14:00 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
The UK Government's programme seems, to me, anyway, to offer little comfort to Wales, and its welfare reforms alone are having a devastating impact on people and on our communities. Your protection from the Tory strategy is piecemeal at best. When will your party stand up for Wales at Westminster and unite with all the other parties, including the Lib Dems, and oust Cameron and Osborne now? Nid yw'n ymddangos, i mi, beth bynnag, bod rhaglen Llywodraeth y DU yn cynnig fawr o gysur i Gymru, ac mae ei diwygiadau lles yn unig yn cael effaith ofnadwy ar bobl ac ar ein cymunedau. Mae eich amddiffyniad rhag strategaeth y Torïaid yn dameidiog ar y gorau. Pryd wnaiff eich plaid sefyll dros Gymru yn San Steffan ac uno â'r holl bleidiau eraill, gan gynnwys y Democratiaid Rhyddfrydol, i gael gwared ar Cameron ac Osborne nawr?

14:00

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is a matter for the Lib Dems, really. They are the ones who control the situation. There is not much that my party can do, given the numbers that we have at Westminster. It depends on other parties and on the Lib Dems. The point that the Member makes is an important one. There are some policies that are now being produced by the UK Government against which it is difficult to guard in Wales. The bedroom tax is one. I will reiterate a statistic that I used last week in the Chamber: in Bridgend, 1,700 people are waiting for one-bedroomed accommodation, and about 100 units become available every year. That means that 1,600 people will be in a position of either facing possible eviction or paying more. It is particularly iniquitous in rural areas where, proportionally, there are far fewer one-bedroomed properties. It means, for example, that in many parts of Wales, people will have to leave the villages where they have lived all their lives and move quite a distance to towns where there are one-bedroomed apartments. That cannot be right, and I join with her party in opposing what is one of the most iniquitous policies ever to have come out of Westminster.

Mater i'r Democratiaid Rhyddfrydol yw hwnnw, mewn gwirionedd. Nhw yw'r rhai sy'n rheoli'r sefyllfa. Nid oes llawer y gall fy mhlaid i ei wneud, o ystyried y niferoedd sydd gennym ni yn San Steffan. Mae'n dibynnu ar bleidiau eraill ac ar y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud yn un pwysig. Ceir rhai polisiau sy'n cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth y DU nawr, y mae'n anodd amddiffyn yn eu herbyn yng Nghymru. Mae'n dreth ystafell wely yn un ohonynt. Ailadroddaf ystadegyn a ddefnyddiais yr wythnos diwethaf yn y Siambr: ym Mheny-bont ar Ogwr, mae 1,700 o bobl yn aros am lety un ystafell wely, ac mae tua 100 o unedau yn dod ar gael bob blwyddyn. Mae hynny'n golygu y bydd 1,600 o bobl mewn sefyllfa o gael eu troi allan neu orfod talu mwy. Mae'n arbennig o anghyfiawn mewn ardaloedd gwledig lle, ar gyfartaledd, mae llawer llai o gartrefi un ystafell wely. Mae'n golygu, er enghraifft, mewn llawer o rannau o Gymru, y bydd yn rhaid i bobl adael y pentrefi lle maen nhw wedi byw ar hyd eu hoes a symud cryn bellter i drefi lle mae fflatiau un ystafell wely ar gael. Ni all hynny fod yn iawn, ac rwy'n ymuno â'i phlaid hi i wrthwynebu un o'r polisiau mwyaf anghyfiawn a gyflwynwyd gan San Steffan erioed.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A lot of fuss has been made by Conservative Members of Parliament about what is being left out of the Queen's Speech, ending up with the ridiculous situation of Government parliamentary private secretaries being allowed to vote against their own Government's programme for government. What are the First Minister's views about some of the other important omissions, such as that of minimum alcohol pricing and plain packaging for cigarettes, which would have had a big impact and helped the people of Wales?

Mae Aelodau Seneddol Ceidwadol wedi gwneud llawer o helynt am yr hyn sy'n cael ei adael allan o Araith y Frenhines, gan arwain at y sefyllfa hurt o ganiatáu ysgrifenyddion preifat seneddol y Llywodraeth i bleidleisio yn erbyn rhaglen ar gyfer llywodraethu eu Llywodraeth eu hunain. Beth yw barn y Prif Weinidog am rai o'r pethau pwysig eraill a adawyd allan, fel isafswm pris ar gyfer alcohol a pheycynnau sigarêts plaen, a fyddai wedi cael effaith fawr ac a fyddai wedi helpu pobl Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What worries me about the Queen's Speech is that it has been hijacked by the issue of Europe. At a time when people are concerned about jobs and the economy, and at a time when people want a roof over their heads and to make sure that they have a higher disposable income, all that we get day after day is an obsession with Europe. UKIP has an incredibly narrow-minded nationalism, with which it has infected the Conservative party. It is not in Wales's interests, because we benefit by £144 million from our membership of the European Union. We are net beneficiaries from that membership. Anybody who suggests that Wales should leave the EU is not acting in Wales's best interests, because we would lose out and we would not get that money back from the UK Government; that much we know. It also means that the £350 million a year that Welsh farmers get would disappear and that Welsh farming would end. That would be the end of it; there is no question about it. These are serious matters, but, at the moment, we see an obsession, not from the Liberal Democrats, but the Conservative part of the UK Government, on Europe that has more to do with flag waving than the benefit of the people of Wales.

Yr hyn sy'n fy mhoeni i am Araith y Frenhines yw ei bod wedi cael ei herwgipio gan fater Ewrop. Ar adeg pan fo pobl yn poeni am swyddi a'r economi, ac ar adeg pan fo pobl eisiau to uwch eu pennau a gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw fwy o incwm gwario, y cwbl yr ydym ni'n ei gael ddydd ar ôl dydd yw obsesiwn gydag Ewrop. Mae gan UKIP feddylfryd cenedlaetholgar hynod gul, sydd wedi heintio'r blaidd Geidwadol. Nid yw o fudd i Gymru, gan ein bod yn elwa o £144 miliwn o'n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Rydym ni'n cael budd net o'r aelodaeth honno. Nid yw unrhyw un sy'n awgrymu y dylai Cymru adael yr UE yn gweithredu er lles Cymru, gan y byddem yn colli allan ac ni fyddem ni'n cael yr arian hwnnw yn ôl gan Lywodraeth y DU; rydym ni'n gwybod cymaint â hynny. Mae hefyd yn golygu y byddai'r £350 miliwn y flwyddyn y mae ffermwyr Cymru yn ei gael yn diflannu ac y byddai ffermio yng Nghymru yn dod i ben. Dyna fyddai ei diwedd hi; nid oes amheuaeth am hynny. Mae'r rhain yn faterion difrifol, ond, ar hyn o bryd, rydym yn gweld obsesiwn, nid gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ond gan y rhan Geidwadol o Lywodraeth y DU, ar Ewrop sydd â mwy i'w wneud â chwifio baner na lles pobl Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:03

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will get back to the question. One of the proposed Bills in the legislative programme announced in the Queen's Speech was the Care Bill, which, among other things, proposes to cap care costs and extend the threshold for financial assistance from some £23,000 to £118,000 to protect people from catastrophic costs. My understanding is that that is England only, although, presumably, Barnettised money will come to the Welsh Government. How does the Welsh Government propose to address this particular problem, on a similar basis or otherwise, to protect people from those catastrophic costs in Wales?

Dychwelaf at y cwestiwn. Un o'r Biliau arfaethedig yn y rhaglen ddeddfwriaethol a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines oedd y Bil Gofal, sydd, ymhlith pethau eraill, yn cynnig capio costau gofal ac ymestyn y trothwy ar gyfer cymorth ariannol o tua £23,000 i £118,000 i amddiffyn pobl rhag costau trychinebus. Fy nealltwriaeth i yw bod hynny ar gyfer Lloegr yn unig, er, yn ôl pob tebyg, y byddai arian fformiwla Barnett yn dod i Lywodraeth Cymru. Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r broblem benodol hon, ar sail debyg neu fel arall, i amddiffyn pobl rhag y costau trychinebus hynny yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We will keep a close eye on the Care Bill in England. What is important is the monetary transfer that accompanies the Care Bill. This is an issue on which we have to accept that there is a substantial cross-border flow of people who, potentially, will need to access care, and so, putting Wales in a better or worse position, as people might see it, will have an effect on where people would seek that care. Therefore, we will have to keep a close eye on the situation in England as we formulate our policy in Wales.

Byddwn yn cadw golwg manwl ar y Bil Gofal yn Lloegr. Yr hyn sy'n bwysig yw'r trosglwyddiad ariannol sy'n cyd-fynd â'r Bil Gofal. Mae hwn yn fater lle mae'n rhaid i ni dderbyn bod llif traws-ffiniol sylweddol o bobl a fydd, o bosibl, angen cael mynediad at ofal, ac felly, bydd rhoi Cymru mewn sefyllfa well neu waeth, fel y gallai pobl ei weld, yn cael effaith ar ble y byddai pobl yn chwilio am y gofal hwnnw. Felly, bydd yn rhaid i ni gadw llygad barcud ar y sefyllfa yn Lloegr wrth i ni lunio ein polisi yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I am sure you will join me in welcoming the announcement of a national insurance contributions Bill, given the priority that your Government has consistently given to talking about the economy. More than 35,000 businesses in Wales could potentially benefit from assistance with national insurance contributions when they expand their workforce. What assessment has your Government made so far to try to work out how you can support that and make sure that the maximum number of opportunities are taken up to expand workforces in Wales?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y gwnewch chi ymuno â mi i groesawu cyhoeddiad Bil cyfraniadau yswiriant gwladol, o ystyried y flaenoriaeth mae eich Llywodraeth wedi ei rhoi yn gyson i siarad am yr economi. Mae'n bosibl y gallai mwy na 35,000 o fusnesau yng Nghymru elwa o gymorth gyda chyfraniadau yswiriant gwladol pan fyddant yn ehangu eu gweithlu. Pa asesiad mae eich Llywodraeth wedi ei wneud hyd yn hyn i geisio darganfod sut y gallwch chi gefnogi hynny a gwneud yn siŵr bod y nifer mwyaf posibl o gyfleoedd yn cael eu cymryd i ehangu gweithluoedd yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We welcome anything that helps to rebuild the economy. As you will know, we have in place schemes such as Jobs Growth Wales, the Wales SME fund, the Wales economic growth fund, the digital development fund and the loans to microbusinesses. We are working closely with business in order to maximise opportunities. Of course, we can put in place various schemes to help businesses, as we have done, and we welcome anything that the UK Government might be able to do in order to assist.

Rydym ni'n croesawu unrhyw beth sy'n helpu i ailadeiladu'r economi. Fel y gwyddoch, rydym ni wedi sefydlu cynlluniau fel Twf Swyddi Cymru, cronfa BBaChau Cymru, cronfa twf economaidd Cymru, y gronfa datblygu digidol a'r benthyciadau i ficrofusnesau. Rydym ni'n gweithio'n agos â byd busnes i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Wrth gwrs, gallwn sefydlu cynlluniau amrywiol i helpu busnesau, fel yr ydym ni wedi ei wneud, ac rydym yn croesawu unrhyw beth y gallai Llywodraeth y DU ei wneud i gynorthwyo.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, we have talked about the bedroom tax, and we have heard that it is having a devastating effect on constituencies across Wales, yet the Tories here still want to keep saying that it is a proactive initiative. Those were the words used by the Member for Aberconwy when she called on your Government to stop carping, whingeing and moaning about the bedroom tax. We must have heard, over the weekend, of the tragic case of a grandmother and a mother who sadly committed suicide over the fact that she was having to pay more for having an additional bedroom. Now that we can see that devastating impact, perhaps people will begin to realise that this tax is having an effect on people in our constituencies. What can we do here to ensure that such tragedies never happen in Wales?

Brif Weinidog, rydym ni wedi trafod y dreth ystafell wely, ac rydym ni wedi clywed ei bod yn cael effaith ddifrifol ar etholaethau ledled Cymru, ac eto mae'r Toriaid yma yn dal i fod eisiau parhau i ddweud ei bod yn fenter ragweithiol. Dyna oedd y geiriau a ddefnyddiwyd gan yr Aelod dros Aberconwy pan alwodd ar eich Llywodraeth i roi'r gorau i swnian a chwyno am y dreth ystafell wely. Mae'n rhaid ein bod wedi clywed, dros y penwythnos, am achos trasig y fam-gu a mam a laddodd ei hun oherwydd y ffaith ei bod yn gorfod talu mwy am fod ganddi ystafell wely ychwanegol. Nawr ein bod yn gallu gweld yr effaith ddifrifol honno, efallai y bydd pobl yn dechrau sylweddoli bod y dreth hon yn cael effaith ar bobl yn ein hetholaethau. Beth allwn ni ei wneud yma i sicrhau na fydd trasiectiau o'r fath byth yn digwydd yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are working with local authorities to address this issue. We want to ensure that advice services are available to people who need that advice. Unfortunately, we cannot change the policy. It does trouble me greatly. Like other Members, I am sure, I have people coming to my surgeries who are in despair because, quite often, they want to downsize but there is nowhere for them to downsize. They will have to pay a penalty in any case or face the threat of eviction. That cannot be right. I noticed that if you live in a 15-bedroomed mansion, you will not have to pay more; but if you live in rented accommodation, where you may have lived for much of your life, you will suddenly have to pay more money even though there is nowhere else for you to live. That is absolutely iniquitous. It is a particularly metropolitan policy, if I can put it that way, aimed at cities such as London, with no account taken of rural Wales where there is no variety of accommodation size, particularly in rural villages. However, that just sums up where the Conservative party and the Liberal Democrats in London are at the moment, thinking purely along the lines of what might work in London—and we have opposed it there as well—and not considering at all what the effect would be elsewhere in the UK.

Rydym ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Ein nod yw sicrhau bod gwasanaethau cyngor ar gael i bobl sydd angen y cyngor hwnnw. Yn anffodus, ni allwn newid y polisi. Mae'n achosi pryder mawr i mi. Fel Aelodau eraill, rwy'n siŵr, mae gen i bobl yn dod i'm cymorthfeydd sy'n anobeithio oherwydd, yn aml iawn, eu bod nhw eisiau symud i dŷ llai ond nid oes tŷ llai ar gael iddyn nhw symud iddo. Bydd yn rhaid iddynt dalu'r gosb beth bynnag, neu wynebu'r bygythiad o gael eu troi allan. Ni all hynny fod yn iawn. Sylwais os ydych yn byw mewn plasty 15 ystafell wely, na fydd yn rhaid i chi dalu mwy; ond os ydych chi'n byw mewn llety rhent, lle rydych chi wedi bod yn byw am lawer o'ch bywyd efallai, bydd yn rhaid i chi dalu mwy o arian yn sydyn, er nad oes unrhyw le arall i chi fyw ynddo. Mae hynny'n gwbl anghyfiawn. Mae'n bolisi arbennig o fetropolitan, os caf ei roi felly, wedi'i fwriadu ar gyfer dinasoedd fel Llundain, heb roi unrhyw ystyriaeth i gefn gwlad Cymru lle nad oes amrywiaeth o ran maint cartrefi, yn enwedig mewn pentrefi gwledig. Fodd bynnag, mae hynny'n crynhoi meddylfryd y blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain ar hyn o bryd, yn meddwl am yr hyn a allai weithio yn Llundain yn unig—ac rydym ni wedi ei wrthwynebu yno hefyd—heb ystyried o gwbl beth fyddai'r effaith mewn rhannau eraill o'r DU.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Tai Fforddiadwy yng Ngogledd Cymru

## Affordable Housing in North Wales

14:07

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*8. Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy yng Ngogledd Cymru?  
OAQ(4)1065(FM)*

*8. What are the Welsh Government's priorities for affordable housing construction in North Wales?  
OAQ(4)1065(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our priorities for new housing supply across Wales are to provide more homes, more affordable homes, homes of a better quality and to deliver housing that meets people's needs.

Ein blaenoriaethau ar gyfer cyflenwad tai newydd ledled Cymru yw darparu mwy o gartrefi, cartrefi mwy fforddiadwy, cartrefi o ansawdd gwell a darparu tai sy'n diwallu anghenion pobl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like other areas, North Wales faces an acute shortage of affordable housing. When I have spoken with housing associations and private house builders, they have expressed their frustration at the competitive disadvantages that they face in meeting this demand; not least the additional regulations, which add £10,000 to the cost of each new home when compared with England. Are you listening to the growing number of voices in the house building industry that are telling you to rethink your Government's approach to house building, and what are you going to do to restore their confidence following the decision to axe the NewBuy scheme?

Fel ardaloedd eraill, mae Gogledd Cymru yn wynebu prinder difrifol o dai fforddiadwy. Pan rwyf wedi siarad â chymdeithasau tai ac adeiladwyr tai preifat, maen nhw wedi mynegi eu rhwystredigaeth â'r anfantseion cystadleuol y maen nhw'n eu hwynebu wrth fodloni'r galw hwn; a'r rheoliadau ychwanegol yn arbennig, sy'n ychwanegu £10,000 at gost pob cartref newydd o'i gymharu â Lloegr. A ydych chi'n gwrandao ar y nifer cynyddol o leisiau yn y diwydiant adeiladu tai sy'n dweud wrthyhych am ailystyried dull eich Llywodraeth o ran adeiladu tai, a beth ydych chi'n mynd i'w wneud i adennill eu hyder yn dilyn y penderfyniad i gael gwared ar gynllun NewBuy?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

She is talking about sprinklers, of course. I have to remind her that her party voted for the sprinklers legislation. You voted for it. You cannot support it and then suddenly turn around and say, 'This is something that we never supported in the first place'. That is, quite simply, disingenuous as far as the people of Wales are concerned. The figure that she quoted is not one that I have heard before. It is one of many figures that I have heard quoted over the course of the past year. It is the law in Wales that sprinklers should be fitted in the way that is described, and it is certainly not the case that the Government can suddenly change a law that was passed by the Assembly itself. I refer her back, of course, to the figures that I gave earlier in terms of the construction industry in Wales, which do not support what she said.

Mae hi'n sôn am systemau chwistrellu, wrth gwrs. Mae'n rhaid i mi ei hatgoffa bod ei phlaid hi wedi pleidleisio dros y ddeddfwriaeth systemau chwistrellu. Rydych wedi pleidleisioch drosti. Ni allwch chi ei chefnogi ac yna newid eich meddwl a dweud yn sydyn bod 'hyn yn rhywbeth na wnaethom ni erioed ei gefnogi yn y lle cyntaf'. Mae hynny, yn syml iawn, yn annidwyll cyn belled ag y mae pobl Cymru yn y cwestiwn. Nid yw'r ffigur a ddyfynnwyd ganddi yn un yr wyf i wedi ei glywed o'r blaen. Mae'n un o nifer o ffigurau yr wyf wedi eu dlywed yn cael eu dyfynnu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y gyfraith yng Nghymru yw y dylai systemau chwistrellu gael eu gosod yn y ffordd a ddisgrifir, ac yn sicr nid yw'n wir y gall y Llywodraeth, yn sydyn, newid deddf a gymeradwywyd gan y Cynulliad ei hun. Hoffwn ei chyfeirio yn ôl, wrth gwrs, at y ffigurau a roddais yn gynharach o ran y diwydiant adeiladu yng Nghymru, nad ydynt yn cefnogi'r hyn a ddywedodd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, she will be aware that there was an event recently in the north discussing stamp duty and how it could be used for beneficial effect in Wales. There was strong support for the devolution of stamp duty to Wales. We would like to use stamp duty to particularly help those who are new buyers in the market. The question is this: will her party deliver it for Wales? If we get stamp duty, there is a lot that we can do. It was recommended by the Silk commission; it is going to Scotland, but will her party deliver it for Wales?

Yn ail, bydd yn ymwybodol y bu digwyddiad yn y gogledd yn ddiweddar yn trafod y dreth stamp a sut y gellid ei defnyddio i sicrhau effaith fuddiol yng Nghymru. Roedd cefnogaeth gref o blaid datganoli'r dreth stamp i Gymru. Hoffem ddefnyddio'r dreth stamp yn arbennig i helpu'r rhai sy'n brynwyr newydd yn y farchnad. Dyma'r cwestiwn: a wnaiff ei phlaid ei ddarparu i Gymru? Os cawn ni'r dreth stamp, mae llawer y gallwn ni ei wneud. Argymhellwyd hyn gan Gomisiwn Silk; mae'n mynd i'r Alban, ond a wnaiff ei phlaid hi ei ddarparu i Gymru?

14:09

**Llyr Huws Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, un o'r rhwystredigaethau y mae nifer o'm hetholwyr, yn enwedig y rhai sydd angen gweld tai fforddiadwy yn cael eu codi, yw gweld enghreifftiau o gwmnïau datblygu tai yn cael caniatâd cynllunio gyda'r amod bod hyn a hyn o dai fforddiadwy yn cael eu codi, ond wedyn, ymhellach i lawr y lein, bod y cwmnïau yn llwyddo i leihau nifer y tai fforddiadwy sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r datblygiad. Mae enghreifftiau o hynny yn digwydd yn Llangollen, Wrexham a nifer o ardaloedd eraill ar draws Cymru. A wnaiff eich Llywodraeth chi fynd i'r afael â'r broblem hon, naill ai drwy'r Bil cynllunio neu drwy ba bynnag gyfrwng sydd fwyaf addas yn eich barn chi, er mwyn sicrhau bod nifer y tai fforddiadwy sydd i fod i gael eu darparu o fewn y datblygiadau hyn yn cael eu hamddiffyn?

First Minister, one of the frustrations that many of my constituents have raised with me, particularly those who need affordable housing constructed, is seeing examples of housing development companies being granted planning permission with the proviso that a certain number of affordable houses are constructed, but that, a little further down the line, the companies manage to reduce the number of affordable houses that need to be included as part of the development. There have been examples of that in Llangollen, Wrexham and a number of other areas across Wales. Will your Government, either through the planning Bill or through whichever medium you think most appropriate, tackle that problem to ensure that the level of provision of affordable housing that is supposed to be provided within such developments is protected?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Rwyf yn cydymdeimlo â'r pwynt hwnnw. Mewn achosion pan fydd caniatâd yn cael ei roi mewn perthynas â datblygiadau, mae'n bwysig dros ben sicrhau bod y caniatâd hwnnw yn aros fel y mae. Mae'n bosibl y bydd yna amgylchiadau pan fydd pethau'n newid, ond dylai'r amgylchiadau hynny fod yn rhai eithriadol. Mae hwn yn fater i awdurdodau lleol i'w ystyried. Fodd bynnag, os oes modd cryfhau'r sefyllfa hon, efallai drwy ganllawiau cynllunio yn hytrach na thrwy Ddeddf, byddem yn ystyried gwneud hynny.
- I sympathise with that point. It is extremely important that we ensure that the planning consent given to developments stays as it was when it was issued. It is possible that there will be some circumstances under which things change, but those circumstances should be exceptional. This is a matter that can be considered locally. However, if there is any means of strengthening the position, perhaps through planning guidelines rather than through legislation, we will consider doing it.
- Gwasanaethau Gofal Iechyd yn Ne Cymru** **Healthcare Services in South Wales**
- 14:10 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynlluniau arfaethedig i ad-drefnu gwasanaethau gofal iechyd ledled de Cymru, sef Rhaglen De Cymru? OAQ(4)1051(FM)*  
*9. Will the First Minister make a statement on the proposed reorganisation of health care services across south Wales known as the South Wales Programme? OAQ(4)1051(FM)*
- 14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
The Minister provided Members with a written report on 25 April. I understand that the programme board intends to publish its formal proposals for public consultation by the end of the month.
- Rhoddodd y Gweinidog adroddiad ysgrifenedig i'r Aelodau ar 25 Ebrill. Rwy'n deall bod bwrd y rhaglen yn bwriadu cyhoeddi ei gynigion ffurfiol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus erbyn diwedd y mis.
- 14:11 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you for that answer. That is really what I wanted to ask about. I understand that the clinicians leading the process convened a special conference to discuss the programme and to make recommendations on 16 April. I also understand that the recommendations should now be with the local health boards to be agreed and worked on as individual proposals. Could you be a little more specific? In our local areas, we are having individual consultations on certain schemes, and it is very difficult to see the big picture when we do not have access to the content of the south Wales programme. Could you enlighten us, First Minister?
- Diolch i chi am yr ateb yna. Dyna oeddwn i eisiau gofyn amdano a dweud y gwir. Rwy'n deall bod y clinigwyr sy'n arwain y broses wedi cynnal cynhadledd arbennig i drafod y rhaglen ac i wneud argymhellion ar 16 Ebrill. Rwyf hefyd ar ddeall y dylai'r argymhellion fod gyda'r byrddau iechyd lleol i gytuno arnynt ac i weithio arnynt fel cynigion unigol bellach. A allech chi fod ychydig yn fwy manwl? Yn ein hardaloedd lleol, rydym ni'n cael ymgynghoriadau unigol ar gynlluniau penodol, ac mae'n anodd iawn gweld y darlun mawr pan nad oes gennym fynediad at gynnwys rhaglen de Cymru. A allwch chi ein goleuo, Brif Weinidog?
- 14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I am aware of that meeting. There will be consultation on the programme as a whole. I understand that that consultation document will be available before the end of this month. I would expect that that consultation will put forward a preferred option, and that the public's views will be sought on that option.
- Rwy'n ymwybodol o'r cyfarfod hwnnw. Bydd ymgynghoriad ar y rhaglen yn ei chyfanwydd. Rwy'n deall y bydd y ddogfen ymgynghori honno ar gael cyn diwedd y mis hwn. Rwyf yn disgwyl y bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n cynnig dewis a ffefrir, ac y bydd barn y cyhoedd yn cael ei geisio ar y dewis hwnnw.
- 14:12 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
First Minister, in my view, Neath Port Talbot Hospital has seen some impact on doctor recruitment following the deanery's decision to remove training recognition of departments. What assurances has the Welsh Government received from the deanery that, once the south Wales programme is agreed, no further changes to the training status will be made, so that recruitment patterns can be established and stability provided?
- Brif Weinidog, yn fy marn i, bu rhywfaint o effaith ar recriwtio meddygon yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn dilyn penderfyniad y ddeoniaeth i gael gwared ar gydnabyddiaeth hyfforddi i adrannau. Pa sicrwydd mae Llywodraeth Cymru wedi ei dderbyn gan y ddeoniaeth na fydd unrhyw newidiadau pellach yn cael eu gwneud i'r statws hyfforddi, ar ôl cytuno ar raglen de Cymru, fel y gellir sefydlu patrymau recriwtio a darparu sefydlogrwydd?

- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
That is clearly crucial. It is important that the new structure should be robust enough to ensure that there is proper training available for those who are training as doctors, and that they should be seen as robust enough to attract consultants in the future. That is one of the major reasons why reconfiguration is taking place.
- Mae hynny'n amlwg yn hanfodol. Mae'n bwysig bod y strwythur newydd yn ddigon cadarn i sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i'r rhai sy'n hyfforddi fel meddygon, ac y dylent gael eu hystyried fel bod yn ddigon cadarn i ddenu ymgynghorwyr yn y dyfodol. Dyna un o'r prif resymau pam mae ad-drefnu'n digwydd.
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:12 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First Minister, I agree with Bethan Jenkins completely on this. You are probably aware that the neonatology directorate for Aneurin Bevan Local Health Board is very worried that the south Wales programme will downgrade the neonatal service at the Royal Gwent Hospital in south-east Wales from a level 3 service to a level 2 service, potentially leaving Wales with only two level 3 services. It is worried that this could compromise the safety of mothers and babies at the unit. Could you give a reassurance that that will not happen, and that there will not be a centralisation to Cardiff that will cast out the current locally supported element of the existing scheme?
- Brif Weinidog, rwy'n cytuno'n llwyr â Bethan Jenkins ynglŷn â hyn. Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol bod y gyfarwyddiaeth neonatoleg ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn bryderus iawn y bydd rhaglen de Cymru yn israddio'r gwasanaeth newyddenedigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn ne-ddwyrain Cymru o wasanaeth lefel 3 i wasanaeth lefel 2, gan adael Cymru gyda dim ond dau wasanaeth lefel 3. Mae'n poeni y gallai hyn beryglu diogelwch mamau a babanod yn yr uned. A allech chi roi sicrwydd na fydd hynny'n digwydd, ac na fydd canoli i Gaerdydd a fydd yn cael gwared ar elfen a gefnogir yn lleol gyfredol o'r cynllun presennol?
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
We do not know yet what the proposals will be. It is important that the board produces its proposals and its preferred consultation option, so that Members here and members of the public can express their views.
- Nid ydym yn gwybod beth fydd y cynigion eto. Mae'n bwysig bod y bwrdd yn cynhyrchu ei gynigion a'i ddewis a ffefrir ar gyfer ymgynghori, fel y gall Aelodau yma ac aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn.
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:13 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First Minister, under the plan, accident and emergency services will almost definitely be removed from Nevill Hall Hospital, and they could also be removed from Merthyr Tydfil. My constituents in mid and south Powys already endure some of the longest trips for emergency treatment anywhere in Wales. What steps will your Government take to ensure that the south Wales plans take into consideration the populations of south and mid Powys, who rely on hospitals in south Wales for their emergency services?
- Brif Weinidog, o dan y cynllun, mae bron yn sicr y bydd gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn cael eu symud o Ysbyty Nevill Hall, a gallent gael eu symud o Ferthyr Tudful hefyd. Mae fy etholwyr yng nghanolbarth a de Powys yn dioddef rhai o'r teithiau hiraf i gael triniaeth frys yn unrhyw le yng Nghymru eisoes. Pa gamau wnaiff eich Llywodraeth chi eu cymryd i sicrhau bod cynlluniau de Cymru yn ystyried poblogaeth de a chanolbarth Powys, sy'n dibynnu ar ysbytai yn ne Cymru ar gyfer eu gwasanaethau brys?
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
That is clearly an important factor. However, I have to reiterate the point that no plans have been produced as of yet. When they are, Members will be able to express their views.
- Mae hwnnw'n amlwg yn ffactor pwysig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ailadrodd y pwynt nad oes unrhyw gynlluniau wedi eu cynhyrchu hyd yn hyn. Pan gânt eu cynhyrchu, bydd yr Aelodau'n gallu mynegi eu barn.
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:14 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you will be aware that, under the current proposals—which have not been published yet but which have been under discussion—it is suggested that the number of fully fledged accident and emergency departments in south Wales will be reduced from seven to just four or five. With demand for emergency services being on the rise, with the unprecedented demand that we saw earlier in the year, and with the College of Emergency Medicine describing our services as they are as being at the point of meltdown, do you agree that it is not a wise time to be downgrading our A&E departments and that, if anything, we should be bolstering them and investing in this important part of our health service?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol, dan y cynigion presennol—nad ydynt wedi'u cyhoeddi eto ond sydd wedi cael eu trafod—yr awgrymir y bydd y nifer o adrannau damweiniau ac achosion brys llawn yn ne Cymru yn cael ei ostwng o saith i ddim ond pedwar neu bump. Wrth i'r galw am wasanaethau brys gynyddu, a'r galw nas gwelwyd o'r blaen a welwyd yn gynharach yn y flwyddyn, ac wrth i'r Coleg Meddygaeth Frys ddweud bod ein gwasanaethau ar fin bod mewn argyfwng dwfn, a ydych chi'n cytuno nad yw'n amser doeth i fod yn israddio ein hadrannau damweiniau ac achosion brys ac, os rhywbeth, y dylem ni fod yn eu hatgyfnerthu ac yn buddsoddi yn y rhan bwysig hon o'n gwasanaeth iechyd?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I notice that he has changed his message slightly since this morning when he appeared on Radio Wales, where he suggested that the whole plan should be shelved. The reality is that we hear very much what emergency medical practitioners are saying to us, and yet his response is to do absolutely nothing. We know that there are challenges in the future that A&E will face. We listen very carefully to what those on the front line tell us, and he wishes us to disregard all of that. That is an approach that this Government will not take. We prefer to be proactive, rather than sitting back and taking what I have to say is an exceptionally lazy approach.

Rwy'n sylwi ei fod wedi newid rhywfaint ar ei neges ers y bore yma pan ymddangosodd ar Radio Wales, pryd yr awgrymodd y dylid diddymu'r cynllun cyfan. Y gwir amdani yw ein bod yn clywed yn iawn yr hyn y mae ymarferwyr meddygol brys yn ei ddweud wrthym ni, ac eto ei ymateb ef yw gwneud dim byd o gwbl. Rydym yn gwybod bod heriau y bydd adrannau damweiniau ac achosion brys yn eu hwynebu yn y dyfodol. Rydym ni'n gwrando'n ofalus iawn ar yr hyn y mae'r rhai ar y rheng flaen yn ei ddweud wrthym, ac mae ef yn dymuno i ni anwybyddu hynny i gyd. Mae hwnnw'n ddull na wnaiff y Llywodraeth hon ei fabwysiadu. Mae'n well gennym ni fod yn rhagweithiol, yn hytrach nag eistedd yn ôl a mabwysiadu dull y mae'n rhaid i mi ei ddweud sy'n eithriadol o ddiog.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

## Gofalwyr Maeth

## Foster Carers

14:15 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gofalwyr maeth yng Nghymru? OAQ(4)1060(FM)*

*10. Will the First Minister outline what the Welsh Government is doing to support foster carers in Wales? OAQ(4)1060(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have taken a range of measures to support foster carers, including the establishment of a national maintenance allowance. Provision within the Social Services and Well-being (Wales) Bill will strengthen that support.

Rydym ni wedi cymryd amrywiaeth o gamau i gefnogi gofalwyr maeth, gan gynnwys sefydlu lwfans cynhaliath cenedlaethol. Bydd y ddarpariaeth yn y Bil Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn cryfhau'r gefnogaeth honno.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. This week marks the start of Foster Care Fortnight—the annual Fostering Network's campaign to raise the profile of fostering. First Minister, will you commit your support for Foster Care Fortnight and work to help to recruit the 600 new foster carers that we require in Wales to provide a supportive home for some of our most vulnerable children?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae Pythefnos Gofal Maeth—ymgyrch flynyddol y Rhwydwaith Maethu i godi proffil maethu—yn cychwyn yr wythnos hon. Brif Weinidog, a wnewch chi roi eich cefnogaeth i Bythefnos Gofal Maeth a gweithio i helpu i recriwtio'r 600 o ofalwyr maeth newydd sydd eu hangen arnom yng Nghymru i ddarparu cartref cefnogol i rai o'n plant mwyaf agored i niwed?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Very much so. I know that the Deputy Minister for Social Services has sent a message of support for the Foster Care Fortnight campaign, in which she thanks foster carers for providing a loving, stable environment for some of the most vulnerable children in our society. I wholeheartedly endorse that message and would encourage anyone who may feel that they can offer a child a home to contact their local council or, indeed, an independent fostering agency.
- Gwnaf yn sicr. Gwn fod y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi anfon neges o gefnogaeth i'r ymgyrch Pythefnos Gofal Maeth, lle mae'n diolch i ofalwyr maeth am ddarparu amgylchedd cariadus a sefydlog i rai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rwy'n cymeradwyo'n llwyr y neges honno a byddem yn annog unrhyw un sy'n teimlo y gallant gynnig cartref i blentyn gysylltu â'u cyngor lleol neu, yn wir, asiantaeth faethu annibynnol.
- 14:16 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
First Minister, you will know that there is wide acknowledgement of the wonderful work that foster carers do. Would you particularly acknowledge that they should be regarded as core professionals and therefore not marginalised when it comes to care planning considerations? Would you also give support, where necessary, to there being adequate periods of respite care?
- Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod cydnabyddiaeth eang o'r gwaith gwych y mae gofalwyr maeth yn ei wneud. A fydddech chi'n cydnabod yn benodol y dylid eu hystyried fel gweithwyr proffesiynol craidd ac felly na ddylid eu hymyleiddio o ran ystyriaethau cynllunio gofal? A wnewch chi hefyd roi cefnogaeth, pan fo angen, i sicrhau bod cyfnodau priodol o ofal seibiant ar gael?
- 14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
These are all options that are being considered at the moment. I very much admire the work that foster carers do; they take so many children under their wings. They form an emotional attachment to those children, some of whom come to them as babies. Providing a home for those children and then, possibly, seeing those children being placed for adoption does take its toll on people. I have no doubt about that, as I have seen it. I know that it takes its toll on people, and that is why I admire so much what they do, because, without them, many children would start life with very little hope and without the loving care that they need.
- Mae'r rhain i gyd yn ddewisiadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. Rwy'n edmygu'n fawr iawn y gwaith y mae gofalwyr maeth yn ei wneud; maen nhw'n rhoi lloches i gymaint o blant. Maen nhw'n datblygu ymlyniad emosïynol i'r plant hynny, ac mae rhai ohonynt yn dod atyn nhw yn fabanod. Mae darparu cartref i'r plant hynny ac yna, o bosibl, gweld y plant hynny'n cael eu mabwysiadu yn cael cryn effaith ar bobl. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth am hynny, gan fy mod i wedi ei weld. Rwy'n gwybod ei bod yn cael cryn effaith ar bobl, a dyna pam rwy'n edmygu'r hyn y maen nhw'n ei wneud gymaint, oherwydd, hebddynt, byddai llawer o blant yn dechrau bywyd gyda fawr ddim gobaith a heb y gofal cariadus sydd ei angen arnynt.
- 14:17 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
First Minister, just over a year ago, the Welsh Government recognised that foster carers—who do a marvellous job—need a range of skills, but that they need training and support to meet the diverse needs of children. What action has your Government taken to provide adequate training for prospective foster carers?
- Brif Weinidog, ychydig dros flwyddyn yn ôl, cydnabu Llywodraeth Cymru fod angen amrywiaeth o sgiliau ar ofalwyr maeth—sy'n gwneud gwaith ardderchog—ond bod angen hyfforddiant a chefnogaeth arnynt i ddiwallu anghenion amrywiol y plant. Pa gamau y mae eich Llywodraeth wedi'u cymryd i ddarparu hyfforddiant priodol i ddarpar ofalwyr maeth?
- 14:18 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I can say that a proposal has been received from Fostering Network Wales to undertake a research project into the motivations and values modes of foster carers in Wales. That will of course help to inform future training. The research will be invaluable in the development of future foster carer recruitment campaigns. Ministers will shortly be considering an application for funding of £25,000 to enable the network to undertake that research.
- Gallaf ddweud bod cynnig wedi ei dderbyn gan Rwydwaith Maethu Cymru i gyflawni prosiect ymchwil i gymhellion a moddau gwerthoedd gofalwyr maeth yng Nghymru. Bydd hynny, wrth gwrs, yn helpu i lywio hyfforddiant yn y dyfodol. Bydd yr ymchwil yn hynod werthfawr wrth ddatblygu ymgyrchoedd recriwtio gofalwyr maeth yn y dyfodol. Yn fuan, bydd Gweinidogion yn ystyried cais am gyllid o £25,000 i alluogi'r rhwydwaith i wneud y gwaith ymchwil hwnnw.

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have two changes to report to this week's business. The Business Committee has agreed to schedule a motion to elect Members to committees as the last item of business today. As no questions have been tabled for answer by the Counsel General this week, I have adjusted the timings for tomorrow. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Mae gennyf ddau newid i'w hysbysu i fusnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau fel yr eitem olaf o fusnes heddiw. Gan nad oes unrhyw gwestiynau wedi eu cyflwyno i'w hateb gan y Cwnsler Cyffredinol yr wythnos hon, rwyf wedi addasu'r amseroedd ar gyfer yfory. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda, sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#)

Could I call for a single Welsh Government statement in response to the new report on access to care and wellbeing in Wales, published by the Social Services Improvement Agency, which found that the current approaches to assessment and eligibility for care and support are inconsistent across different parts of the population, and ineffective in helping people to get the right support at the right time? It concluded that new arrangements are needed to promote greater voice and control for the citizen, to help to maximise their independence and ensure that future arrangements promote and support the future implementation and development of citizen-directed support across Wales in its entirety.

A gaf i alw am ddatganiad sengl gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r adroddiad newydd ar fynediad at ofal a lles yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Gwellla Gwasanaethau Cymdeithasol, a ganfu fod y dulliau presennol o ymdrin ag asesu a chymhwysedd ar gyfer gofal a chymorth yn anghyson ar draws gwahanol rannau o'r boblogaeth, ac yn aneffeithiol o ran helpu pobl i gael y cymorth cywir ar yr amser cywir? Daeth i'r casgliad bod angen trefniadau newydd i hyrwyddo mwy o lais a rheolaeth i'r dinesydd, er mwyn helpu i sicrhau bod ganddynt gymaint â phosibl o annibyniaeth a bod trefniadau yn y dyfodol yn hyrwyddo ac yn cefnogi gweithrediad a datblygiad cefnogaeth a gyfeirir gan ddinasyddion ledled Cymru yn ei chyfanrwydd yn y dyfodol.

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)

I do think that you raise a very important point. I am sure that the Deputy Minister will be considering that report and will report in due course.

Rwyf wir yn credu eich bod yn codi pwynt pwysig iawn. Rwy'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn ystyried yr adroddiad hwnnw ac y bydd yn adrodd maes o law.

**Julie Morgan** [Bywgraffiad Biography](#)

Following the twentieth anniversary of Children in Wales, which was celebrated last Friday evening, would the business Minister consider organising a debate to recognise the contribution that the voluntary sector makes towards childcare policy in Wales?

Yn dilyn ugeinfed pen-blwydd Plant yng Nghymru, a ddathlwyd nos Wener diwethaf, a wnaiff y Gweinidog busnes ystyried trefnu trafodaeth i gydnabod y cyfraniad y mae'r sector gwirfoddol yn ei wneud at lunio polisi gofal plant yng Nghymru?

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for that question. The Member may be aware that a consultation on the relationship between the Welsh Government and the third sector will be commencing very shortly. It will be a 12-week consultation that will consider the third sector's contribution to public service delivery. It would probably be better to schedule a debate once the consultation has ended.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Efallai fod yr Aelod yn ymwybodol y bydd ymgynghoriad ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector yn dechrau yn fuan iawn. Bydd yn ymgynghoriad 12 wythnos a fydd yn ystyried cyfraniad y trydydd sector at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n debyg y byddai'n well trefnu trafodaeth ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.



14:20

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ofyn i'r Gweinidog ystyried cynnal dadl yn amser y Llywodraeth ar waith yr awdurdodau tân yng Nghymru. Rhoddaf enghraifft leol o bwysigrwydd hyn: yn Llanelli, mae pryder am y newidiadau sydd wedi digwydd i'r gwasanaeth a'r orsaf dân yno, ac fe wnes i gwrdd â'r prif swyddog yr wythnos diwethaf i drafod hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn digwydd mewn cyd-destun ehangach lle mae nifer y damweiniau a'r marwolaethau yn dilyn tân wedi gostwng yn y rhanbarth ac ardal yr awdurdod hwnnw. Felly, mae modd cydbwysu'r ddau beth yn ofalus wrth edrych ar unrhyw gynlluniau gan yr awdurdod. Buasai dadl yn y Cynulliad yn galluogi Aelodau i gyfrannu a mynegi eu barn ar ran eu cymunedau ac yn rhoi cyfle i'r Llywodraeth ddweud ei dweud hefyd. Rwy'n cofio, sawl blwyddyn yn ôl, eich rhagflaenydd—gan taw chi yw'r Gweinidog sydd nawr yn gyfrifol am y gwasanaeth tân, oherwydd dyna'r het arall yr ydych yn ei gwisgo, wrth gwrs—yn ymyrryd yn benodol pan oedd Hwlfordd yn newid yn yr un ffordd ag y mae Llanelli yn newid yn awr. Felly, mae hyn yn rhywbeth arall i chi ei ystyried, Weinidog. Buasai dadl o'r fath yn helpu pawb sy'n ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon.

I would like to ask the Minister to consider holding a debate in Government time on the work of fire authorities in Wales. To give you a local example of the importance of this subject, there is concern in Llanelli about the changes made to the service and the fire station there, and I met the chief officer last week to discuss matters. However, this is happening in the wider context of a reduction in the number of fire-related accidents and deaths in the region and authority area. Therefore, we can balance those things carefully in the consideration of any proposals from the authority. An Assembly debate would enable Members to contribute and express their views on behalf of their communities, and it would provide an opportunity for the Government to have its say. I recall, several years ago, your predecessor—as you are now the Minister responsible for the fire service, when you are wearing your other hat of course—intervening when Haverfordwest was making changes similar to the ones happening in Llanelli at present. So, this is something for you to consider, Minister. A debate on this subject would assist everyone who is trying to tackle this problem.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased that you recognise that the number of deaths and injuries due to fire has decreased significantly. You will appreciate that I am new in portfolio and that this is something that I am looking at and discussing with fire authorities as to the most appropriate way forward. I will report in due course.

Rwy'n falch eich bod yn cydnabod bod nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân wedi gostwng yn sylweddol. Byddwch yn gwerthfawrogi fy mod yn newydd i'r portffolio a bod hyn yn rhywbeth rwy'n ei ystyried ac yn ei drafod ag awdurdodau tân o ran y ffordd fwyaf priodol ymlaen. Byddaf yn cyflwyno adroddiad maes o law.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I thank the Minister for making available the statement on motorcycles from the Minister for economic development, which I asked for last week. I am very grateful for that. Perhaps I can push my luck again this week by asking that the Minister for health gives us an update on the measles outbreak. I am aware from figures released today that numbers continue to rise. There are ongoing concerns about the lack of take-up of MMR, especially in the 10 to 18-year-old age group. I am sure that the Chamber would appreciate an update from the Minister for health regarding how the current epidemic stands and the steps being taken to ensure that all children in that most dangerous of age groups are vaccinated as soon as possible.

Yn gyntaf, diolchaf i'r Gweinidog am sicrhau bod y datganiad ar feiciau modur gan y Gweinidog datblygu economaidd ar gael, ar ôl i mi ofyn amdano yr wythnos diwethaf. Rwy'n ddiolchgar iawn am hynny. Efallai y gallaf wthio fy lwc unwaith eto yr wythnos hon gan ofyn i'r Gweinidog iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr achosion o'r frech goch. Rwy'n ymwybodol o ffigurau a gyhoeddwyd heddiw bod y niferoedd yn parhau i gynyddu. Ceir pryderon o hyd am y methiant i fanteisio ar MMR, yn enwedig yn y grŵp oedran 10 i 18 mlwydd oed. Rwy'n siŵr y byddai'r Siambr yn gwerthfawrogi diweddariad gan y Gweinidog iechyd am y sefyllfa o ran yr epidemig presennol a'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod pob plentyn yn y grŵp oedran mwyaf peryglus hwnnw yn cael eu brechu cyn gynted â phosibl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Minister for Health and Social Services is watching the situation very closely. All we can continue to do is to urge parents to ensure that their children are vaccinated, but I am sure that the Minister is watching this very closely and will give a statement in due course.

Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwylio'r sefyllfa'n ofalus iawn. Y cwbl y gallwn ni barhau i'w wneud yw annog rhieni i sicrhau bod eu plant yn cael eu brechu, ond rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn gwylio hyn yn ofalus iawn ac y bydd yn cyflwyno datganiad maes o law.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, is it possible to have a statement from the Minister for health in relation to IVF services? I questioned the First Minister on this last week and, from your previous experience, you will be conversant with the issues around the delay in the provision of that service. As I understand it, the licensing application has gone to the regulatory body, but there is no clear idea, even with a fair wind and that licence being granted, as to when the service will be available in Neath Port Talbot Hospital. Is it possible to have a clear statement from the Government on the process of regulation and certification and, above all, when exactly we can expect the new clinic to be available at the Neath Port Talbot Hospital?

Weinidog, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog iechyd ar wasanaethau IVF? Holais y Prif Weinidog am hyn yr wythnos diwethaf a byddwch yn gyfarwydd, o'ch profiad blaenorol, â'r materion sy'n ymwneud â'r oedi wrth ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Fel rwy'n ei deall hi, mae'r cais trwyddedu wedi mynd at y corff rheoleiddio, ond nid oes unrhyw syniad eglur, hyd yn oed gyda gwynt teg a'r drwydded honno'n cael ei chaniatáu, pryd y bydd y gwasanaeth ar gael yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. A yw'n bosibl cael datganiad eglur gan y Llywodraeth ar y broses o reoleiddio ac ardystio ac, yn anad dim, pryd yn union y gallwn ddisgwyl i'r clinig newydd fod ar gael yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:23 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The delay is in the licence application; the facilities are up and ready. As soon as the licence has been given, I am sure that the facility will start and IVF treatment will be available at Neath Port Talbot Hospital.

Mae'r oedi yn y cais am drwydded; mae'r cyfleusterau ar gael ac yn barod. Cyn gynted ag y bydd y drwydded wedi ei chaniatáu, rwy'n siŵr y bydd y cyfleuster yn dechrau ac y bydd triniaeth IVF ar gael yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to call on the Minister for Economy, Science and Transport to make a statement updating us on the current round of Wales's economic growth fund applications. Interested companies in my region—notably a specialist boat and yacht-building company in Ceredigion—have expressed concern to me regarding the shorter term focus of job creation, namely jobs to be created within the upcoming 12-month period, rather than a more sustainable period of three to five years. I feel that it would be of benefit to colleagues across the Chamber to have an update on how that is progressing and how fit for purpose the criteria currently are.

Hoffwn alw ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i wneud datganiad i'n diweddar ni ar y rownd gyfredol o geisiadau i gronfa twf economaidd Cymru. Mae cwmnïau sydd â diddordeb yn fy rhanbarth i—cwmni adeiladu cychod a chychod hwylio arbenigol yng Ngheredigion yn benodol—wedi mynegi pryder i mi am y pwyslais mwy byrdymor o greu swyddi, a swyddi i'w creu yn ystod y flwyddyn i ddod yn benodol, yn hytrach na chyfnod mwy cynaliadwy o dair i bum mlynedd. Rwy'n teimlo y byddai o fudd i gydweithwyr ar draws y Siambwr gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae hynny'n mynd yn ei flaen a pha mor addas i'w diben yw'r meini prawf ar hyn o bryd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure the Minister has heard your question and will give it her consideration.

Rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi clywed eich cwestiwn ac y bydd hi'n rhoi ystyriaeth iddo.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Datganiad: Cynnydd o ran Rhoi 'Ynni Cymru' ar waith**

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In March of this year I launched 'Energy Wales: A Low Carbon Transition', which outlines this Government's approach to taking full advantage of the transition to a low-carbon economy. Our aim is to harness Wales's natural assets in ways that work with and grow Welsh businesses and Welsh industries, and create long-term and skilled employment for the people of Wales.

Energy is a key sector and employer in Wales, and our approach to its development reflects the diversity of the industry itself and covers the full range of energy technologies from new nuclear on Anglesey to the emerging marine sector. It is the role of Energy Wales to co-ordinate our many actions across this huge area of activity, the main strands of which I will outline here.

**Statement: Progress on Implementing 'Energy Wales'**

Ym mis Mawrth eleni lansiais 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel', sy'n amlinellu ymagwedd y Llywodraeth hon at fanteisio i'r eithaf ar y newid i economi carbon isel. Ein nod yw harneisio asedau naturiol Cymru mewn ffyrdd sy'n gweithio gyda busnesau Cymru a diwydiannau Cymru ac yn eu tyfu, ac yn creu swyddi hirdymor â sgiliau uchel ar gyfer pobl Cymru.

Mae ynni'n sector allweddol ac yn gyflogwr allweddol yng Nghymru, ac mae ein hymagwedd at ei ddatblygu'n adlewyrchu amrywiaeth y diwydiant ei hun ac yn cwmpasu ystod lawn y technolegau ynni o niwclear newydd ar Ynys Môn i'r sector môr sy'n dod i'r amlwg. Gwaith Ynni Cymru yw cydlynu ein holl weithredoedd ar draws y maes gweithgarwch enfawr hwn; byddaf yn amlinellu'r prif feysydd yma.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

We have created Natural Resources Wales, which brings together a wide range of environmental regulatory responsibilities into a single body, giving an opportunity to create a streamlined single point of contact. Industry has told us that planning and consenting are major concerns. We recognise that a clear and accountable planning and consenting regime is vital if we are to achieve our energy ambitions and unlock Wales's energy potential. At the end of the year, we will publish a draft planning reform Bill and White Paper. Following this, a further planning consolidation Bill will bring together all existing Acts and further streamline the planning process.

Co-operation and leadership are key to our approach to energy development. This is why I will shortly be chairing the inaugural energy Wales strategic delivery group, which will provide an important forum to meet senior energy stakeholders and to collaborate in delivering a low-carbon economy for Wales. The work of this group is critical if we are to take communities with us in this transition. For me, this is about ensuring that Wales and those communities affected by infrastructure development genuinely see the benefits of that infrastructure.

The energy sector is an international industry facing many serious challenges and requires a long-term approach by Government. The protracted discussions on electricity market reform and the Energy Bill have created uncertainty, which has been worsened by very public disagreements within Whitehall. The split in consenting regimes, with some decisions devolved while others are a matter for the UK Government, does nothing to assist investors, adding as it does extra time, cost and risk to what are already challenging projects. That is why I continue to press UK Government with the support of parties in this Chamber for the devolution of powers for the consenting of all energy projects and related infrastructure, with the exception of nuclear power. These powers would enable us to realise our ambition to put in place a single, streamlined and transparent process for Wales.

Our approach to maximising economic benefits from energy developments is wide-ranging. We are supporting the Anglesey energy island programme to enable people, businesses and infrastructure to be competitive in order to secure employment and sourcing opportunities. Horizon will be holding the first of a series of supply-chain events in Llandudno later this month.

Working with the onshore wind industry has led to a better understanding of supply-chain opportunities for Welsh companies and how communities adjacent to windfarms can derive long-lasting benefit from the investment. This understanding is enabling us to develop more targeted approaches to achieving wider benefits for Wales, as demonstrated by the supply chain being built up around Vattenfall's Pen y Cymoedd onshore wind scheme. This is on Natural Resources Wales-managed woodland estate, and I congratulate Vattenfall on its leadership and willingness to collaborate widely to develop a scheme, which I expect will deliver a large Welsh content in its supply chain and deliver a 25-year community benefit package.

Rydym wedi creu Adnoddau Naturiol Cymru, sy'n dwyn ynghyd ystod eang o gyfrifoldebau rheoleiddio amgylcheddol mewn un corff, ac yn gyfle i greu un pwynt cyswllt symlach. Mae diwydiant wedi dweud wrthym fod cynllunio a chydysynio'n bryderon mawr. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol sicrhau trefn gynllunio a chydysynio glir ac atebol os ydym am gyflawni ein huchelgais o ran ynni a datgloi potensial ynni Cymru. Ar ddiwedd y flwyddyn, byddwn yn cyhoeddi Bil a Phapur Gwyn drafft ar ddiwygio'r drefn gynllunio. Wedi hyn, bydd Bil cydgrynhoi pellach ar gynllunio'n dwyn ynghyd yr holl Ddeddfau presennol ac yn symleiddio'r broses gynllunio ymhellach.

Mae cydweithredu ac arweinyddiaeth yn allweddol i'n dull o ddatblygu ynni. Dyna pam y byddaf cyn hir yn cadeirio grŵp cyflenwi strategol cyntaf ynni Cymru, a fydd yn fforwm pwysig i gwrdd â rhanddeiliaid uwch ym maes ynni ac i gydweithio i greu economi carbon isel i Gymru. Mae gwaith y grŵp hwn yn hollbwysig os ydym am fynd â chymunedau gyda ni yn y cyfnod pontio hwn. I mi, mae hyn yn fater o sicrhau bod Cymru a'r cymunedau hynny y mae datblygu seilwaith yn effeithio arnynt yn gweld manteision y seilwaith hwnnw mewn gwirionedd.

Mae'r sector ynni'n ddiwydiant rhyngwladol sy'n wynebu llawer o heriau difrifol ac mae'n rhaid wrth ymagwedd hirdymor gan y Llywodraeth. Mae'r trafodaethau maith am ddiwygio'r farchnad drydan a'r Bil Ynni wedi creu ansicrwydd, ac mae anghytuno cyhoeddus iawn o fewn Whitehall wedi gwaethygu hynny. Nid yw'r rhanid rhwng cyfundrefnau cydysnio, gyda rhai penderfyniadau wedi'u datganoli ac eraill yn fater i Lywodraeth y DU, yn gwneud dim i helpu buddsoddwyr; mae'n ychwanegu amser, cost a risg at brosiectau sydd eisoes yn heriol. Dyna pam yr wyf yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU gyda chefnogaeth y pleidiau yn y Siambr hon i ddatganoli pwerau i roi cysyniad i bob prosiect ynni a seilwaith cysylltiedig, ac eithrio ynni niwclear. Byddai'r pwerau hyn yn ein galluogi i wireddu ein huchelgais i sefydlu un broses syml a thryloyw ar gyfer Cymru.

Mae ein dull o sicrhau'r manteision economaidd mwyaf posibl o ddatblygiadau ynni yn eang ei gwmpas. Rydym yn cefnogi rhaglen ynys ynni Môn i alluogi pobl, busnesau a seilwaith i fod yn gystadleuol er mwyn sicrhau cyfleoedd cyflogaeth a chyrchu. Bydd Horizon yn cynnal y cyntaf o gyfres o ddiwyddiadau cadwyn gyflenwi yn Llandudno yn ddiweddarach y mis hwn.

Mae cydweithio â'r diwydiant gwynt ar y tir wedi arwain at well dealltwriaeth o gyfleoedd y gadwyn gyflenwi ymysg cwmnïau Cymru a sut y gall cymunedau cyfagos i ffermydd gwynt gael budd hirdymor o'r buddsoddiad. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ein galluogi i ddatblygu dulliau mwy penodol er mwyn sicrhau manteision ehangach i Gymru, ac mae'r gadwyn gyflenwi sy'n cael ei chreu o amgylch cynllun gwynt ar y tir Pen y Cymoedd Vattenfall yn tystio i hynny. Mae hyn yn digwydd ar ystâd coetir a reolir gan Adnoddau Naturiol Cymru, ac rwyf yn llongyfarch Vattenfall am eu harweiniad a'u parodrwydd i gydweithio'n eang i ddatblygu cynllun yr wyf yn disgwyl y bydd cryn dipyn o gynnwys Cymreig yn ei gadwyn gyflenwi ac a fydd yn darparu pecyn manteision cymunedol 25 mlynedd.

'Energy Wales' sets out the Welsh Government's commitments in relation to community benefits. To achieve these, I have set out principles for how the onshore wind industry should work not only with the Welsh Government, but with communities and a wide range of stakeholders. Our work with the onshore wind industry has led to agreement on an economic and community benefit register, which will show how the industry is delivering for Welsh businesses and communities. This co-operative approach has also led the industry to agree to a draft community benefits declaration.

Renewable energy is not just about wind power. We are also seizing the opportunity to enable future energy technologies to flourish in Wales. Marine Current Turbines' Skerries project has benefitted from Welsh Government support since its earliest days. I was delighted that the Welsh Government was able to consent the marine licence for its 10 MW tidal array in February of this year. I was able to announce earlier in the month that the Tidal Energy Ltd DeltaStream has secured £1.6 million of Welsh Government-supported European funding. This funding is the latest round of funding to be committed to the project by the Welsh Government.

To drive investment, the Minister for Economy, Science and Transport has created three energy-focused enterprise zones—in Anglesey, Snowdonia and the Haven Waterway. A programme to fill short-term skills gaps in the energy sector has been created for delivery by the end of 2014, and programmes to fill longer-term skills shortages are now being developed.

Success in a low-carbon economy also depends on Wales becoming more energy efficient in the home and in industry. Doing so will enable us to lift Welsh families out of the scourge of fuel poverty, and will enable our businesses to remain competitive. Our Arbed scheme will invest up to £45 million in three years to 2015, with a further £100 million in our Nest fuel poverty scheme over the five years to 2016. The Ynni'r Fro scheme, which provides support to Welsh businesses and communities in delivering small-scale renewable projects, has responded to over 190 expressions of interest from communities in Wales since 2010, with 24 projects—12 wind and 12 hydro—being given significant support. The 2014-20 European funding programmes—if they are still there—offer the Welsh Government an opportunity to further increase our energy efficiency and small-scale generation opportunities, and we are currently scoping out how this can best be achieved.

Strong leadership and collaboration with communities and business have been key to our approach to the transition to a low-carbon economy, to work in partnership with developers, to de-risk investment wherever possible, and to focus our efforts on the delivery of benefits to Wales, its businesses and communities. In the past year, we have delivered in many areas, and I am confident that we will be able to deliver more, to maintain progress and to demonstrate even greater results in the coming years.

Nodir yn 'Ynni Cymru' ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o ran manteision cymunedol. Er mwyn cyflawni'r rhain, rwyf wedi amlinellu egwyddorion ar gyfer y ffordd y dylai'r diwydiant gwynt ar y tir weithio, nid yn unig gyda Llywodraeth Cymru, ond gyda chymunedau ac amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae ein gwaith gyda'r diwydiant gwynt ar y tir wedi arwain at gytundeb ar y gofrestr manteision economaidd a chymunedol, a fydd yn dangos sut y mae'r diwydiant yn cyflawni ar gyfer busnesau a chymunedau Cymru. Yn sgil y dull cydweithredol hwn, mae'r diwydiant hefyd wedi cytuno ar ddatganiad manteision cymunedol drafft.

Mae ynni adnewyddadwy'n fwy na dim ond ynni gwynt. Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle i alluogi technolegau ynni'r dyfodol i ffynnu yng Nghymru. Mae prosiect Tyrbinau Ceryntau Môr Skerries yn elwa ar gymorth Llywodraeth Cymru ers y cychwyn. Roeddwn wrth fy modd bod Llywodraeth Cymru wedi gallu caniatáu trwydded forol i'w harae lanw 10 MW ym mis Chwefror eleni. Cyhoeddais yn gynharach y mis hwn fod DeltaStream Tidal Energy Cyf wedi sicrhau £1.6 miliwn o gyllid Ewropeaidd ac gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Yr arian hwn yw'r cylch cyllido diweddaraf i Lywodraeth Cymru ei roi i'r prosiect.

I sbarduno buddsoddi, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi creu tair ardal fenter sy'n canolbwyntio ar ynni—yn Ynys Môn, Eryri a Dyffordd y Ddau Gleddau. Mae rhaglen i lenwi bylchau sgiliau tymor byr yn y sector ynni wedi ei chreu a bydd yn cael ei darparu erbyn diwedd 2014, ac mae rhaglenni wrthi'n cael eu datblygu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau mwy hirdymor.

I lwyddo mewn economi carbon isel, mae angen i Gymru hefyd fod yn fwy effeithlon o ran ynni yn y cartref ac ym myd diwydiant. Drwy wneud hynny, bydd modd inni godi teuluoedd Cymru allan o felltith tlodi tanwydd, a bydd modd i'n busnesau barhau i fod yn gystadleuol. Bydd ein cynllun Arbed yn buddsoddi hyd at £45 miliwn mewn tair blynedd hyd at 2015, a £100 miliwn arall yn ein cynllun tlodi tanwydd Nest dros y pum mlynedd hyd at 2016. Mae cynllun Ynni'r Fro, sy'n cynorthwyo busnesau a chymunedau Cymru i ddarparu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yng Nghymru, wedi ymateb i dros 190 o ddatganiadau o ddiddordeb gan gymunedau yng Nghymru ers 2010, ac mae 24 o brosiectau—12 gwynt a 12 hydro—wedi cael cefnogaeth arwyddocaol. Mae rhaglenni arian Ewropeaidd 2014-20—os ydynt yn dal i fod yno—yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru i gynyddu eto ein cyfleoedd o ran cynhyrchu ar raddfa fach ac effeithlonrwydd ynni, ac rydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r ffordd orau o gyflawni hyn.

Mae arweiniad cryf a chydweithio â chymunedau a busnesau wedi bod yn allweddol i'n hymagwedd at y newid i economi carbon isel, i weithio mewn partneriaeth â datblygwyr, i leihau risg buddsoddi lle bynnag y bo'n bosibl, ac i ganolbwyntio ein hymdrechion i ddarparu budd i Gymru, ei busnesau a'i chymunedau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflawni mewn sawl maes, ac rwyf yn hyderus y gallwn gyflawni mwy, er mwyn parhau i symud yn ein blaenau a dangos canlyniadau gwell fyth yn y blynyddoedd i ddod.

I thank you for bringing forward this statement today, First Minister. The underpinning principle of your launching Energy Wales a year ago was to show that the Welsh Government was serious about the opportunities of developing a green economy, and is serious about developing a low-carbon economy. The document, and its ambitions, was about creating a step-change approach to meeting the challenges of decarbonising our energy supply, and reducing energy demand, in an effort to develop opportunities that would tackle local poverty and global climate change. While I appreciate that some important building blocks have been put in place, I must concur with the analysis that was made by the Climate Change Commission for Wales, in that we have yet to see that step change envisaged in the strategy.

I noted a few weeks ago that you have established an energy delivery unit in the Welsh Government. I would like some more details about the unit's remit, how it will help to facilitate the transition process and how it will engage with business and local planning authorities. Is it based on the recommendations that were made by the Environment and Sustainability Committee, or is it based on the model that was laid out in the Hyder report, which looks to centralise the decision-making process in Welsh Government? Could you also expand, First Minister, on how the Welsh Government has engaged with the UK Government to ensure that there is a credible framework for capital investment to support the transition to a low-carbon economy?

We have also heard in the Chamber over recent months about the need to harness hydro-electric generation in Wales, particularly community and micro hydro schemes. This issue is not just about the consenting regime, but also about how guidance is being inconsistently interpreted by statutory regulators. How are you working with Natural Resources Wales to ensure that the regulatory burden is reduced, and that staff will ensure consistency in dealings with developers, wherever they are in Wales?

Diolch ichi am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw, Brif Weinidog. Egwyddor sylfaenol lansio Ynni Cymru gennych flwyddyn yn ôl oedd dangos bod Llywodraeth Cymru o ddifrif am y cyfleoedd i ddatblygu economi werdd, ac o ddifrif am ddatblygu economi carbon isel. Roedd y ddogfen, a'i huchelgais, yn ymwneud â newid yn sylweddol ein hymagwedd at ateb heriau datgarboneiddio ein cyflenwad ynni, a lleihau'r galw am ynni, er mwyn ceisio datblygu cyfleoedd a fyddai'n trechu tlodi lleol a newid yn yr hinsawdd fyd-eang. Er fy mod yn cydnabod bod rhai blociau adeiladu pwysig wedi eu rhoi yn eu lle, rhaid imi gytuno â dadansoddiad Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, sef nad ydym eto wedi gweld y newid sylweddol hwnnw a ragwelwyd yn y strategaeth.

Nodais ychydig wythnosau yn ôl eich bod wedi sefydlu uned cyflenwi ynni yn Llywodraeth Cymru. Hoffwn gael rhagor o fanylion am gylch gwaith yr uned, sut y bydd yn helpu i hwyluso'r broses bontio a sut y bydd yn ymgysylltu â busnesau ac awdurdodau cynllunio lleol. A yw'n seiliedig ar yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ynteu a yw'n seiliedig ar y model amlinellwyd yn adroddiad Hyder, sy'n ceisio canoli'r broses o wneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru? A wnewch chi hefyd ymhelaethu, Brif Weinidog, ar sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau y ceir fframwaith credadwy ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf i gefnogi'r newid i economi carbon isel?

Rydym hefyd wedi clywed yn y Siambr dros y misoedd diwethaf fod angen harneisio cynhyrchu trydan dŵr yng Nghymru, yn enwedig cynlluniau trydan dŵr micro a chymunedol. Mae hyn yn ymwneud â mwy na dim ond y gyfundrefn gydsynio—mae'n ymwneud hefyd â'r ffaith nad yw'r canllawiau'n cael eu dehongli'n gyson gan reoleiddwyr statudol. Sut ydych chi'n gweithio gydag Adnoddau Naturiol Cymru i sicrhau bod y baich rheoleiddio'n cael ei leihau, ac y bydd y staff yn sicrhau cysondeb wrth ymwneud â datblygwyr, ble bynnag y maent yng Nghymru?

You are right to say that you need to properly engage with communities, and have them as key stakeholders to initiate change. However, the importance of local determination should be paramount to any large-scale energy development or associated infrastructure. The residents of mid Wales have not accepted that large-scale infrastructure development will take place, and, as First Minister, I would hope that you would stand by their position. I know that, from a mid Wales perspective, there is a real feeling of mistrust in the Welsh Government's active support of the wind industry, and the talk of community benefit in mid Wales is certainly too late. People are rightfully concerned about the economic disbenefits that overdevelopment will have on the regional economy. That is why it is important for communities, wherever they are in Wales, to be in control of their own destiny. The Government needs to deliver a more strategic and consistent approach to allow communities to develop more significant scale projects if they so wish. In terms of grid infrastructure, can the First Minister update us on the Government's discussions with National Grid plc regarding reinforcing the grid in north and mid Wales? How does he intend to minimise any future environmental impacts that such development might have?

While energy generation is important, it is also important to prioritise energy efficiency and to reduce the demand in the domestic and business sectors. What is the Government's future ambition regarding its domestic energy- efficiency improvement schemes, such as Arbed? How do you intend to lever in further investment to expand that programme in particular?

I am also interested in how you will tackle rural poverty, particularly those households that are off-network and where a more bespoke approach is necessary. What discussions is Welsh Government having with companies such as Calor to ensure that those harder-to-reach households are not losing out on Government-backed energy-efficiency grant programmes?

Rydych yn iawn yn dweud bod angen ymgysylltu'n briodol â chymunedau, a'u cynnwys yn rhanddeiliaid allweddol er mwyn ysgogi newid. Fodd bynnag, dylai pwysigrwydd penderfyniadau lleol fod yn hollbwysig i unrhyw ddatblygiad ynni ar raddfa fawr neu ddatblygu seilwaith cysylltiedig. Nid yw trigolion y canolbarth wedi derbyn y bydd datblygu seilwaith ar raddfa fawr yn digwydd, ac, fel Prif Weinidog, byddwn yn gobeithio y byddech yn cefnogi eu safbwynt. Gwn fod teimlad gwirioneddol yn y canolbarth o ddiffyg ymddiriedaeth yng nghefnogaeth weithredol Llywodraeth Cymru i'r diwydiant gwynt, ac mae'n sicr yn rhy hwyr i sôn am fantais gymunedol yn y canolbarth. Mae pobl yn pryderu, a hynny'n ddigon teg, am anfanteision economaidd gorddatblygu o ran yr economi ranbarthol. Dyna pam y mae'n bwysig bod cymunedau, lle bynnag y maent yng Nghymru, yn rheoli eu tynged eu hunain. Mae angen i'r Llywodraeth gyflwyno dull mwy strategol a chyson i alluogi cymunedau i ddatblygu prosiectau ar raddfa fwy os ydynt yn dymuno gwneud hynny. O ran seilwaith grid, a all y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am drafodaethau'r Llywodraeth â'r Grid Cenedlaethol ccc ynghylch atgyfnerthu'r grid yn y gogledd a'r canolbarth? Sut y mae'n bwriadu lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol y gallai datblygiad o'r fath eu cael yn y dyfodol?

Er bod cynhyrchu ynni'n bwysig, mae hefyd yn bwysig rhoi blaenoriaeth i effeithlonrwydd ynni a lleihau'r galw yn y sectorau domestig a busnes. Beth yw uchelgais y Llywodraeth yn y dyfodol o ran ei chynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref, megis Arbed? Sut ydych chi'n bwriadu denu mwy o fuddsoddiad i ehangu'r rhaglen honno'n benodol?

Mae gennyf ddiddordeb hefyd yn y ffordd y byddwch yn ymdrin â thlodi gwledig, ac yn enwedig yr aelwydydd hynny sydd oddi ar rwydwaith lle mae angen defnyddio dulliau mwy penodol. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cael â chwmnïau megis Calor i sicrhau nad yw'r cartrefi anos eu cyrraedd hynny ar eu colled o ran rhaglenni grantiau effeithlonrwydd ynni a gefnogir gan y Llywodraeth?

I thank the Member for his contribution. He is particularly affected by this issue in his constituency. The first point to make, as I said before, is that onshore wind is important, but it is not the only source of renewable energy that is available to us. I note that there are many in his party who oppose wind energy onshore full stop, and would not want to see any further development. The approach that we have taken as Government, through TAN 8, is to take a proportionate approach, to ensure that development would take place mainly in areas that are demarcated through the strategic search areas, and that development would take place on a small scale outside those areas. We also made sure that there would be an overall limit within SSAs, in terms of wind turbine development. The difficulty is that most of the applications for windfarms in his constituency will fall under the planning guidance in England, put in place by the UK Government. That planning guidance is nothing like as protective of communities as TAN 8. Why do I say that? There are no strategic search areas and no criteria. Potentially, if that planning guidance was followed, his constituency could be plastered with wind turbines. That would not happen if TAN 8 was followed and if it was the sole planning guidance applied in his constituency. It is right that it should be proportional. It would not be right for there to be overproliferation of any technology, including wind technology. We believe that TAN 8 strikes that balance.

It is important that there are community benefits, and that is where the register is exceptionally important, as will be the declaration. There are already communities in his constituency that benefit from wind turbines. I believe that Carmel is one of them, and I have no doubt that there will be others. However, it is essential—I agree with him on this—that community benefits are substantial and transparent. They also need to be broader than they have been in the past. There is a limit to the number of village halls that can be refurbished with money from community benefit; it has to go further than that, and that is important.

There are many in Wales who are employed in renewable energy, including many in Powys. They rely on renewable energy for their livelihoods, and we should not ignore the potential employment prospects that renewable energy provides, and that includes onshore wind, appropriately developed; I emphasise the word 'appropriately'.

To answer your question about consenting, we have taken steps to have one consenting regime via Natural Resources Wales. Previously, there were two: the Countryside Council for Wales and the Environment Agency. We believe that the new system is robust, but will provide a more streamlined consenting process than was previously the case.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Mae'r mater hwn yn effeithio'n arbennig arno yn ei etholaeth ef. Y pwynt cyntaf i'w wneud, fel y dywedais eisoes, yw bod gwynt ar y tir yn bwysig, ond nad dyma'r unig ffynhonnell o ynni adnewyddadwy sydd ar gael inni. Nodaf fod sawl un yn ei blaid sy'n gwrthwynebu ynni gwynt ar y tir yn llwyr, ac na fyddent am weld unrhyw ddatblygiad pellach. Mae ein hymagwedd ni fel Llywodraeth, drwy TAN 8, yn gymesur, er mwyn sicrhau y byddai datblygiadau'n digwydd yn bennaf mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi drwy'r ardaloedd chwilio strategol, ac mai ar raddfa fach y byddai datblygiadau'n digwydd y tu allan i'r ardaloedd hynny. Rydym hefyd wedi gwneud yn siŵr y byddai terfyn cyffredinol o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol, o ran datblygu tyrbinau gwynt. Y drafferth yw y bydd y rhan fwyaf o'r ceisiadau am ffermydd gwynt yn ei etholaeth ef yn dod o dan ganllawiau cynllunio Lloegr, wedi'u sefydlu gan Lywodraeth y DU. Nid yw'r canllawiau cynllunio hynny'n amddiffyn cymunedau i'r un graddau â TAN 8 o bell ffordd. Pam ydw i'n dweud hynny? Nid oes ardaloedd chwilio strategol na meini prawf. Mae'n bosibl, drwy ddilyn y canllawiau cynllunio hynny, y câi ei etholaeth ei gorchuddio â thyrbinau gwynt. Ni fyddai hynny'n digwydd drwy ddilyn TAN 8 a phe defnyddid canllawiau cynllunio TAN 8 yn unig yn ei etholaeth. Mae'n briodol bod hyn yn gymesur. Ni fyddai'n iawn rhoi gormodedd o unrhyw dechnoleg yno, gan gynnwys technoleg gwynt. Rydym yn credu bod TAN 8 yn taro'r cydbwysedd hwnnw.

Mae'n bwysig sicrhau manteision cymunedol, a dyna lle y mae'r gofrestr yn eithriadol o bwysig, fel y bydd y datganiad. Mae cymunedau yn ei etholaeth sydd eisoes yn un elwa ar dyrbinau gwynt. Rwyf yn credu bod Carmel yn un ohonynt, ac rwyf yn siŵr bod rhai eraill. Fodd bynnag, mae'n hanfodol—rwyf yn cytuno ag ef ar hyn—bod manteision cymunedol yn sylweddol ac yn dryloyw. Mae angen iddynt hefyd fod yn ehangach nag y maent wedi bod yn y gorffennol. Dim ond hyn a hyn o neuaddau pentref y gellir eu hadnewyddu gydag arian manteision cymunedol; rhaid mynd ymhellach na hynny, ac mae hynny'n bwysig.

Mae llawer o bobl yng Nghymru'n cael eu cyflogi ym maes ynni adnewyddadwy, gan gynnwys llawer ym Mhowys. Mae eu bywoliaeth yn dibynnu ar ynni adnewyddadwy, ac ni ddylem ddiystyru'r swyddi y gallai ynni adnewyddadwy o bosibl eu creu, ac mae hynny'n cynnwys gwynt ar y tir, wedi'i ddatblygu'n briodol; rwyf yn pwysleisio'r gair 'priodol'.

I ateb eich cwestiwn am gydsynio, rydym wedi cymryd camau i greu un gyfundrefn gydsynio drwy Adnoddau Naturiol Cymru. O'r blaen, roedd dwy: Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Rydym yn credu bod y system newydd yn gadarn, ond y bydd yn darparu proses gydsynio symlach nag o'r blaen.

He raised the issue of National Grid plc, and discussions that I have had with it. Our position has not changed in terms of the grid in his part of the world. We want to see undergrounding, and we believe that there are certain parts where undergrounding is absolutely necessary and that it should be considered elsewhere. However, there is an issue that it is important to remember, namely that, notwithstanding the development of windfarms, the grid in mid Wales is fragile. If a manufacturer was to look at Newtown, for example, as a place to make things, there would be serious issues about the grid's capacity that would need to be addressed. It does not have the same capacity, for example, as the grid in south Wales or the grid along the northern coast.

The Member asked about the grid in the north. The grid has to be reinforced because of the development of Wylfa B, otherwise it cannot go ahead. We are in discussions with the grid in terms of looking at the least intrusive way of taking power from Wylfa to the grid and, indeed, of finding ways for the community to look at some kind of benefit as well. Those discussions are ongoing.

He then asked me about issues relating to micro-energy—if I can put it that way—with individuals. Arbed and Nest are exceptionally important and effective schemes. He will have heard the commitments that we gave in terms of the investment that will be made over the next five years. They are substantial commitments to invest, and many people will benefit from that. There will still be people who are difficult to reach, particularly those who are reliant on oil in rural areas, and we will continue to examine what might be done in order to assist them.

Soniodd am y Grid Cenedlaethol ccc, a thrafodaethau yr wyf wedi'u cael â hwy. Nid yw ein safbwynt wedi newid o ran y grid yn ei ran ef o'r byd. Rydym am weld y grid o dan y ddaear, ac rydym yn credu bod rhai mannau lle mae'n gwbl angenrheidiol ei osod o dan y ddaear ac y dylid ystyried hynny mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio un peth, sef bod y grid yn y Canolbarth yn fregus, er gwaethaf datblygu ffermydd gwynt. Pe bai gwneuthurwr yn edrych ar y Drennewydd, er enghraifft, fel lle i gynhyrchu pethau, byddai angen ymdrin o ddirif â materion ynglŷn â gallu'r grid. Nid oes ganddo'r un gallu, er enghraifft, â'r grid yn y de neu'r grid ar hyd arfordir y gogledd.

Gofynnodd yr Aelod am y grid yn y gogledd. Mae'n rhaid atgyfnerthu'r grid oherwydd datblygiad Wylfa B; ni all fynd yn ei flaen fel arall. Rydym wrthi'n trafod â'r grid i edrych ar y ffordd leiaf ymwithiol o gymryd pŵer o Wylfa i'r grid a dod o hyd i ffyrdd, yn wir, i'r gymuned weld rhyw fath o fantais hefyd. Mae'r trafodaethau hynny'n parhau.

Yna gofynnodd imi am faterion yn ymwneud ag ynni micro—os caf ei alw'n hynny—gydag unigolion. Mae Arbed a Nest yn gynlluniau eithriadol bwysig ac effeithiol. Bydd wedi clywed yr ymrwymadau a wnaethom o ran y buddsoddiad a wneir dros y pum mlynedd nesaf. Maent yn ymrwymadau sylweddol i fuddsoddi, a bydd llawer o bobl yn elwa ar hynny. Bydd rhai pobl yn dal i fod yn anodd eu cyrraedd, yn enwedig y rheini sy'n dibynnu ar olew mewn ardaloedd gwledig, a byddwn yn parhau i edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i'w cynorthwyo hwy.

14:41

## Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the statement today, First Minister, particularly what you have said about community benefits and the Energy Wales strategic delivery group. I am specifically interested in the potential and the scale of ambition in relation to tidal and marine energy—I know that you have mentioned a couple of projects. I am interested in the scale of the ambition in terms of the amount of power that could be produced and the economic benefit that that could deliver to Wales, and the relative importance for that sector of collaboration and co-operation within Europe and the importance of European Union funding in this sector.

Croesawaf y datganiad heddiw, Brif Weinidog, ac yn arbennig yr hyn yr ydych wedi'i ddweud am fanteision cymunedol a grŵp cyflenwi strategol Ynni Cymru. Mae gennyf ddiddordeb penodol ym mhotensial a maint yr uchelgais o ran ynni llanw a morol—gwn eich bod wedi crybwyll un neu ddau o brosiectau. Mae gennyf ddiddordeb ym maint yr uchelgais o ran swm yr ynni y gellid ei gynhyrchu a'r budd economaidd y gallai hynny ei roi i Gymru, ac ym mhwsigrwydd cymharol cydweithio a chydweithredu o fewn Ewrop i'r sector hwnnw, a phwsigrwydd cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn y sector hwn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, indeed. DeltaStream, off the coast of Pembrokeshire, has received European funding and would not go ahead otherwise. That is true of many schemes in Wales. It will be difficult to plan for 2014-20 if we cannot be sure that there is funding there, perhaps, from 2017 onwards. That leaves an enormous hole in the Welsh budget, which is often not considered when these things are discussed.

Notwithstanding that, Wales has tremendous potential in terms of tidal energy. We are hamstrung by the fact that we cannot offer the same level of subsidy that the Scots can, because we are tied in to the English renewables obligation certificates. Scottish tidal energy has moved ahead of us, even though Scotland is far less promising because the North sea is a rougher sea than the Irish sea and the potential off the coast of Wales is far greater. However, in order to provide that level playing field to attract investment from Scotland and Northern Ireland, we need to see the devolution of the ROCs, as they are at the moment, and further devolution as they are replaced in due course.

le, wir. Mae DeltaStream, oddi ar arfordir sir Benfro, wedi cael arian Ewropeaidd ac ni fyddai'n gallu parhau fel arall. Mae hynny'n wir am lawer o gynlluniau yng Nghymru. Bydd yn anodd cynllunio ar gyfer 2014–20 os na allwn fod yn siŵr bod yr arian yno, efallai, o 2017 ymlaen. Mae hynny'n gadael twll enfawr yng nghyllideb Cymru, na chaiff ei ystyried pan gaiff y pethau hyn eu trafod, yn aml iawn. Er gwaethaf hynny, mae gan Gymru botensial enfawr o ran ynni llanw. Mae'r ffaith na allwn gynnig yr un lefel o gymhorthdal â'r Albanwyr yn ein llesteirio, gan ein bod wedi ein rhwymo wrth dystysgrifau ymrwymo i ynni adnewyddadwy (ROCs) Lloegr. Mae ynni llanw'r Alban wedi symud o'n blaenau, er bod yr Alban yn llai addawol o lawer oherwydd bod môr y Gogledd yn fôr mwy garw na môr Iwerddon a bod llawer mwy o botensial oddi ar arfordir Cymru. Fodd bynnag, er mwyn rhoi'r chwarae teg hwnnw i ddenu buddsoddi o'r Alban a Gogledd Iwerddon, mae angen inni weld datganoli'r ROCs, fel y maent ar hyn o bryd, a datganoli pellach wrth iddynt gael eu disodli maes o law.

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad. Yn gefndir i hyn mae perfformiad y Llywodraeth yn y gorffennol ym maes ynni adnewyddadwy. Targed Llywodraeth Cymru erbyn 2010 oedd cynhyrchu 5 TWh o ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Gwaetha'r modd, ac er mawr siom, y swm y llwyddwyd i'w gynhyrchu drwy ddulliau adnewyddadwy oedd 1.6 TWh, sef llai na 40% o'r targed. Felly, y cwestiwn cyntaf yw: beth fyddwch chi'n ei wneud yn wahanol er mwyn cyflawni eich amcanion clodwiw, o gymharu â'r hyn roeddech yn ei wneud o'r blaen?

Yn eich datganiad, rydych yn dweud rhywbeth rydym wedi dadlau o'i blaid yn gyson, sef bod angen datganoli pwerau dros greu ynni o Lundain i Gymru. Gallwn i gyd uno ar hynny. Cwestiwn amlwg yw: pam na chyflawnoch chi hynny pan oedd Llywodraeth Lafur yn Llundain?

Trof at y presennol. Hoffwn fynd yn ôl at gwestiwn y cyfeiriodd Elin Jones ato, sef y drafodaeth rhyngoch chi a chwmmi SSE Renewables parthed datblygiadau yn Nant y Moch. Dywedoch eich bod wedi cael trafodaethau gyda'r cwmni. Felly, ar ôl y trafodaethau hynny, a fydd y buddsoddiad yn mynd yn ei flaen neu beidio? A ydych wedi cael unrhyw sicrwydd ei fod wedi cael ei berswadio gan eich trafodaethau a'ch addewidion, ynteu a yw'r buddsoddiad hwnnw dal yn y fantol?

O ran yr hyn sydd yn eich datganiad—nid wyf yn anghytuno â braidd dim sydd ynddo—rydych yn dweud yn glir y dylai cymunedau dderbyn manteision tymor hir o ddatblygiadau yn y maes ynni adnewyddol. Fe ddywedon ni, pan roedd TAN 8 yn mynd allan, y dylai budd cymunedol fod yn rhan o amodau caniatâd pob cynllun yn y maes hwn. Os oes gennym adnoddau naturiol, dylai ein cymunedau fanteisio. Pam na wnwch chi ddiwygio TAN 8 fel eich bod yn rhoi budd cymunedol fel amod yn y caniatâd cynllunio, fel bod pawb yn glir am yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt?

I thank the First Minister for his statement. The background to this is the Government's past performance with regard to renewable energy. The Welsh Government's target was to produce 5 TWh of renewable energy in Wales by 2010. Unfortunately, and much to the disappointment of us all, the total amount produced by renewable means was 1.6 TWh, which is less than 40% of the target. Therefore, the first question is: what will you do differently in order to achieve your praiseworthy objectives, compared to what you were doing in the past?

In your statement, you say something that we have been arguing for consistently, namely the need to devolve powers for energy generation from London to Cardiff. That is something on which we all agree. The obvious question is: why did you not achieve that when Labour was in Government in London?

I will turn to the present. I would like to return to a question that was raised by Elin Jones, namely the negotiations between you and SSE Renewables with regard to developments in Nant y Moch. You said that you had had discussions with the company. Therefore, following those discussions, will the investment proceed, or not? Have you been given any assurance that it has been persuaded by your discussions and pledges, or does that investment still hang in the balance?

With regard to the content of your statement—I would not disagree with virtually anything within it—you state clearly that communities should receive long-term benefits from developments in renewable energy. We said, when TAN 8 was issued, that community benefits should be part of the conditions for planning consent for any proposal in this area. If we have natural resources, our communities should benefit. Why not revise TAN 8 and include community benefits as a condition for planning consent, so that everyone is clear on what is expected of them?

Yn olaf, rydych yn dweud yn eich datganiad y dylai bob punt o fuddsoddiad gyfrannu at gyfoeth tymor hir Cymru. Unwaith eto, pwy fyddai'n anghytuno? Fodd bynnag, y cwestiwn yw: sut allwn gyflawni hynny? Er enghraifft, cymerwch ddatblygiad fferm wynt Rhiannon oddi ar Ynys Môn. Sut fydd porthladd Caergybi yn elwa? Pa gynlluniau sydd yn eu lle er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd? Rydym yn y sefyllfa anffodus, er bod gennym ddiwydiant dur, nad oes, hyd y gwn i, yr un llafn o felin wynt yn cael ei chynhyrchu yng Nghymru, nid yw'r tyrrau'n cael eu cynhyrchu yma bellach, ac nid oes yr un tyrbin yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Felly, sut fyddwn yn elwa o'r buddsoddiadau hyn yng Nghymru? A ydym am weld sefyllfa debyg i'r hyn a welsom gyda'r diwydiant glo, lle cymerwyd yr adnodd allan o Gymru, gwnaethpwyd elw mawr, ond nid oedd dim ar ei ôl heblaw tlodi ac amddifadedd?

Finally, you say in your statement that every pound of investment should contribute to the long-term prosperity of Wales. Once again, who could disagree with that? However, the question is: how are we going to achieve that? If you take, for example, the Rhiannon windfarm development off Anglesey, how is Holyhead port going to benefit from that? What plans are in place to ensure that that happens? We are in the unfortunate situation that, although we have a steel industry, as far as I know, not a single turbine blade is being produced in Wales, the towers are not produced here now, and not a single turbine is made in Wales. Therefore, how will we benefit from these investments in Wales? Do we wish to see a similar situation to that which occurred with the coal industry, when the resource was removed from Wales, huge profits were made, and nothing was left behind other than poverty and deprivation?

14:46

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Roedd sawl cwestiwn yn y fan honno. Rwyf wedi dweud sawl gwaith y byddai'n help i gael pwerau tebyg i'r rhai sydd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw hynny'n meddwl ein bod yn gwneud dim; dyna pam y buom yn gweithio gyda'r diwydiant ar y gofrestr a'r datganiad. Rydym hefyd wedi cefnogi cynlluniau bach fel Ynni'r Fro er mwyn helpu cynlluniau cymunedol sydd o les i'r cymunedau hynny. O ran Nant y Moch, y broblem fawr gyda Nant y Moch yw bod ansicrwydd yn y farchnad. Mae'n anodd iawn buddsoddi ar hyn o bryd mewn cynlluniau mawr am fod cymaint o ansicrwydd ynglŷn â beth fydd yn digwydd yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Mae cymaint o negeseuon cymysg yn dod mas o Whitehall ar hyn o bryd. Mae ofn gan ddatblygwyr beth fydd yn digwydd yn y dyfodol os ydynt yn gwneud buddsoddiad yn awr. Nid yw hynny'n helpu, ac mae'n rhywbeth rwyf yn siŵr sy'n effeithio ar benderfyniadau ynglŷn â Nant y Moch.

O ran TAN 8, mae'n bwynt teg ynglŷn â lles cymunedol. Yr ateb i hynny yn fy marn i yw'r datganiad ei hun a'r gofrestr a fydd yn dangos beth sy'n cael ei roi ynglŷn â lles cymunedol. Bydd hefyd yn sicrhau bod cwmnïau yn gwybod beth rydym yn erfyn iddynt ei wneud pan fyddant yn datblygu yn y dyfodol. O ran Caergybi, mae trafodaethau wedi cymryd lle ynglŷn ag ym mha ffordd y gall Caergybi elwa o ddatblygiadau yn y dyfodol. Mae'r trafodaethau hynny yn parhau.

Mae hefyd yn wir dweud nad oes tyrbin yn cael ei wneud yn gyfan gwbl yng Nghymru. Mae Mabey Bridge yng Nghas-gwent, wrth gwrs. Mae'n bwysig dros ben bod lles economaidd i Gymru. Mae cwmnïau fel Dulas Cyf yng Nghymru ar hyn o bryd. Y broblem sydd gennym yw bod teimlad yn y diwydiant fod Cymru yn anfodlon ynglŷn ag ynni gwynt. Mae'n rhaid i hynny newid os ydym am gael mwy o swyddi yn y maes hwn. Mae llawer iawn o botensial ynglŷn ag ynni gwynt ar y môr, yn enwedig ym mhorthladdoedd Port Talbot ac Aberdaugleddau. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn gweld y datblygiadau hynny oherwydd y byddant yn dod â lles economaidd i'r lleoedd hynny.

There were several questions there. I have said a number of times that it would be a great help to have similar powers to those that Scotland and Northern Ireland have. That does not mean that we are not doing anything; that is why we were working with the industry on the register and the statement. We have also been supporting small schemes such as Ynni'r Fro in order to assist with community schemes that are of benefit to those communities. On Nant y Moch, the big problem with Nant y Moch is that there is uncertainty in the market. It is very difficult at the moment to invest in major schemes because there is so much uncertainty as regards what will happen in the United Kingdom in the future. There are so many mixed messages coming out of Whitehall at present. Developers are afraid of what will happen in the future if they make an investment now. That does not help matters, and I am certain that that is having an impact on decisions regarding Nant y Moch.

On TAN 8, it is a fair point regarding community benefit. The answer to that in my view is the statement itself and the register that will evidence what is given in terms of community benefit. It will also ensure that companies know what we expect of them when they create developments in the future. On Holyhead, discussions have taken place about how Holyhead can benefit from future developments. Those discussions are ongoing.

It is also true to say that a whole turbine is not produced in Wales. However, there is Mabey Bridge in Chepstow, of course. It is very important that there is economic benefit for Wales. There are companies such as Dulas Ltd in Wales at the moment. The problem that we have is that there is a feeling in the industry that Wales is uneasy about wind energy. That must change if we are to have more jobs in this field. There is a great deal of potential to offshore wind, particularly at the ports of Port Talbot and Milford Haven. It is exceptionally important that we see those developments because they will bring economic benefits to those places.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the First Minister for his timely statement, particularly for what he had to say on community benefits and the energy delivery unit that he announced initially at the recent RenewableUK Cymru conference. When 'Energy Wales' was first released just over a year ago, considerable optimism was expressed about some of the sentiments within it. In the time that has elapsed, as has already been stated, the climate change commissioner for Wales has had cause to express some concern about the pace of progress. Nevertheless, we are in a situation where we need to achieve a step change, as the First Minister outlined in response to some of the earlier questions.

I will confine myself to a small number of questions, given the pressure of time. At the end of last year, there was an important announcement made by Ed Davey, the Secretary of State for Energy and Climate Change, and Pat Rabbitte, his opposite number in Ireland. What role can the First Minister play, through his membership of the British-Irish Council, in ensuring that that collaboration between two European Union member states can deliver positively for all our energy needs?

The First Minister correctly stated that there is real importance in having a resilient grid network and mentioned the links between that and wider economic development. It is fair to say that, in Scotland, over a number of years, there has been a clearer preferred strategy for maximising the level of undergrounding of such infrastructure, despite the relatively higher cost. What scope is there for changing the debate in that respect, in terms of framing it so that there is a greater emphasis on undergrounding and the preservation of the natural environment, wherever that is possible and desirable?

Finally, in recent sessions of the Environment and Sustainability Committee, we heard some concerns expressed by representatives of Community Energy Wales. While acknowledging the benefits of Ynni'r Fro and what it had done in terms of rolling out specific showcase projects, they felt that there had been a degree of fall-away in progress over the course of the past year. What message will the First Minister have to encourage them to go forward in their important commitment to small and medium-sized projects in our communities?

Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad amserol, yn enwedig am yr hyn a ddywedodd am fanteision cymunedol ac am yr uned cyflenwi ynni a gyhoeddwyd ganddo gyntaf yng nghynhadledd ddiweddar RenewableUK Cymru. Pan ryddhawyd 'Ynni Cymru' gyntaf ychydig dros flwyddyn yn ôl, roedd cryn optimistiaeth am rai o'r syniadau ynddo. Ers hynny, fel y dywedwyd eisoes, mae comisiynydd newid yn yr hinsawdd Cymru wedi gorfod mynegi rhywfaint o bryder nad yw pethau'n symud yn eu blaenau'n ddigon cyflym. Serch hynny, rydym mewn sefyllfa lle mae angen inni gyflawni newid sylweddol, fel y dywedodd y Prif Weinidog wrth ateb rhai o'r cwestiynau cynharach.

Fe'm cyfyngaf fy hun i nifer bach o gwestiynau, ac ystyried y pwysau o ran amser. Ar ddiwedd y flwyddyn diwethaf, cafwyd cyhoeddiad pwysig gan Ed Davey, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, a Pat Rabbitte, y Gweinidog cyfatebol yn Iwerddon. Pa ran all y Prif Weinidog ei chwarae, drwy fod yn aelod o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, i sicrhau y gall y cydweithio hwnnw rhwng dwy o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd ddarparu rhywbeth cadarnhaol ar gyfer ein holl anghenion ynni?

Roedd y Prif Weinidog yn gywir i ddweud ei bod yn wirioneddol bwysig cael rhwydwaith grid gwydn a soniodd am y cysylltiadau rhwng hynny a datblygu economaidd ehangach. Mae'n deg dweud bod yr Alban, dros nifer o flynyddoedd, wedi ffafrio strategaeth gliriach o blaid rhoi cymaint â phosibl o'r seilwaith hwnnw o dan y ddaear, er gwaethaf y gost gymharol uwch. Faint o le sydd i newid y ddaedl yn hynny o beth, i'w fframio fel bod mwy o bwyslais ar roi'r seilwaith o dan y ddaear a chadw'r amgylchedd naturiol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn ddymunol?

Yn olaf, mewn sesiynau diweddar o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, clywsom gynrychiolwyr Ynni Cymunedol Cymru yn mynegi rhai pryderon. Er eu bod yn cydnabod manteision Ynni'r Fro a'r hyn yr oedd wedi'i wneud o ran cyflwyno prosiectau arddangos penodol, roeddent yn teimlo bod y cynnydd wedi arafu rhywfaint yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Pa neges sydd gan y Prif Weinidog i'w hannog i fwrw ymlaen â'u hymrwymiad pwysig i brosiectau bach a chanolig eu maint yn ein cymunedau?

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In relation to the first issue, we have been supportive of the collaboration between the UK Government and the Republic of Ireland. It is not an exaggeration to say that, unless there are solutions pretty soon to the UK's energy needs, at the end of this decade, it will not be possible to keep the lights on everywhere. It is that acute. Energy will, of course, be able to cross the Irish sea and that much is welcome.

O ran y mater cyntaf, rydym wedi bod yn gefnogol o'r cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Nid gor-ddweud yw hyn: oni cheir atebion yn fuan iawn i anghenion ynni'r DU, ar ddiwedd y degawd hwn, ni fydd yn bosibl cadw'r goleuadau ymlaen ym mhobman. Mae mor ddifrifol â hynny. Bydd ynni, wrth gwrs, yn gallu croesi môr Iwerddon ac mae hynny i'w groesawu.

In terms of the grid, undergrounding is being proposed in many parts of the country, particularly in areas of scenic beauty. However, it is important to emphasise that undergrounding is significantly more expensive. That will inevitably add to energy charges for the consumer. Also, underground cables are more difficult to maintain than cables that are in the air. That is not an argument for saying that, therefore, there should be no undergrounding, because our position as a Government is clear, but, nevertheless, it is the case that undergrounding carries significant issues, despite the fact that, inevitably, if there is undergrounding, the cables cannot be seen.

In terms of Ynni'r Fro, we believe that it has been very successful. We want to see it continue to be successful. If there are those who feel that the scheme is losing steam, I would encourage potential applicants not to see it that way and to see the examples that Ynni'r Fro has supported in the years gone by.

14:53

### **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the Climate Change Commission for Wales highlighted that the local construction sector might miss out on real business opportunities. That was not dealt with in your statement. It highlighted a risk that good-quality local businesses will become isolated from the energy efficient marketplace. Certainly, that has been experienced in north Wales with the small and medium-sized enterprise sector, which found the registration process under various schemes quite onerous. I wonder if you could deal with that.

In relation to your comments on Ynni'r Fro, although you noted in your statement that 24 projects have been helped, I had a written answer recently indicating that not a single Ynni'r Fro project had been completed in the last two years. Has your delivery unit identified why that is?

In relation to the proposals in the climate change commission's report about renewable energy projects being fast tracked through the planning process, is that something that you anticipate will be dealt with in the planning Bill?

Finally, I noted what you said about meeting with National Grid representatives. As you will be aware, I have questioned you about meetings with them on a number of occasions. There is a potential opportunity for an offshore cable to deal with the Wylfa connection. I wonder if you could update us on what discussions you have had about offshore connection, particularly to the island of Anglesey.

14:55

### **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ynni'r Fro has been given significant support, there are 24 projects that have been supported and they will be supported until their conclusion. In terms of SMEs having problems accessing energy efficiency schemes, without evidence it is difficult to comment on that.

O ran y grid, cynigir ei roi o dan y ddaear mewn sawl rhan o'r wlad, yn enwedig mewn ardaloedd o harddwch golygfaol. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio ei bod yn fwy costus o lawer ei roi o dan y ddaear. Bydd hynny'n anochel yn ychwanegu at gostau ynni'r defnyddiwr. Hefyd, mae ceblau o dan y ddaear yn fwy anodd eu cynnal a'u cadw na cheblau sydd yn yr awyr. Nid yw hynny'n ddadl dros ddweud, felly, na ddylid rhoi dim ohonynt o dan y ddaear, oherwydd mae ein safbwynt fel Llywodraeth yn glir, ond, serch hynny, mae'n wir bod materion arwyddocaol yn gysylltiedig â'u rhoi o dan y ddaear, er gwaetha'r ffaith na ellir, wrth gwrs, gweld ceblau o dan y ddaear.

O ran Ynni'r Fro, rydym o'r farn ei fod wedi bod yn llwyddiannus iawn. Rydym am ei weld yn parhau i fod yn llwyddiannus. Os oes rhai sy'n teimlo bod y cynllun yn colli stêm, byddwn yn annog darpar ymgeiswyr i beidio â gweld pethau felly, ac i edrych ar yr enghreifftiau y mae Ynni'r Fro wedi eu cefnogi yn y blynyddoedd a fu.

Brif Weinidog, tynnodd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd sylw at y ffaith y gallai'r sector adeiladu lleol gollu cyfleoedd busnes go iawn. Nid oedd eich datganiad yn ymdrin â hynny. Tynnwyd sylw at y perygl y bydd busnesau lleol o ansawdd da yn cael eu hynysu oddi wrth y farchnad ynni effeithlon. Yn sicr, cafwyd profiad o hynny yn y sector busnesau bach a chanolig yn y gogledd, a ganfu fod y broses gofrestru o dan wahanol gynlluniau yn eithaf beichus. Tybed a allech ymdrin â hynny?

O ran eich sylwadau am Ynni'r Fro, er ichi nodi yn eich datganiad bod 24 o brosiectau wedi cael cymorth, cefais ateb ysgrifenedig yn ddiweddar sy'n dangos nad oes yr un o brosiectau Ynni'r Fro wedi ei gwblhau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. A yw eich uned gyflenwi wedi cael gwybod pam?

O ran y cynigion yn adroddiad y comisiwn ar newid yn yr hinsawdd y dylai prosiectau ynni adnewyddadwy gael eu rhoi ar drywydd cyflym drwy'r broses gynllunio, a yw hynny'n rhywbeth yr ydych yn rhagweld y bydd y Bil cynllunio'n ymdrin ag ef?

Yn olaf, nodais yr hyn a ddywedasochn am gyfarfod â chynrychiolwyr y Grid Cenedlaethol. Fel y gwyddoch, rwyf wedi eich holi am gyfarfodydd â hwy ar nifer o achlysuron. Mae cyfle o bosibl i ddefnyddio cebl ar y môr i ymdrin â chysylltiad Wylfa. Tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y trafodaethau yr ydych wedi'u cael am gysylltiad ar y môr, yn enwedig ag ynys Môn.

Mae Ynni'r Fro wedi cael cryn dipyn o gefnogaeth; mae 24 o brosiectau wedi eu cefnogi a chânt eu cefnogi hyd nes y byddant wedi'u cwblhau. O ran y ffaith bod busnesau bach a chanolig yn ei chael yn anodd defnyddio cynlluniau effeithlonrwydd ynni, mae'n anodd gwneud sylwadau am hynny heb dystiolaeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have seen plans for an offshore cable and it is a very round-about cable, if I can put it that way, and it does make land fall very close to the national park, so it is far from an ideal solution. Nevertheless, we are working with National Grid to find the least obtrusive and most beneficial route, because without the reinforcement, there will be no Wylfa B—it needs it. But, I would—[Interruption.]

I expect that people are wondering why I have stopped. It is because there were some very strange noises being made; not by any of the Members, I might add.

The offshore cable issue is not quite as straightforward as it appears; nevertheless, we are continuing to talk to National Grid to find the best way forward.

Wryf wedi gweld cynlluniau ar gyfer cebl ar y môr ac mae'n gebl anuniongyrchol iawn, os caf ei roi felly, ac mae'n taro tir yn agos iawn at y parc cenedlaethol, felly mae'n bell o fod yn ateb delfrydol. Serch hynny, rydym yn cydweithio â'r Grid Cenedlaethol i ddod o hyd i'r llwybr lleiaf ymwithiol a'r mwyaf buddiol, oherwydd heb yr atgyfnerthu, ni fydd Wylfa B—mae'n angenrheidiol iddo. Ond, byddwn yn— [Torri ar draws.]

Mae'n siŵr gennyf fod pobl yn meddwl tybed pam yr wyf wedi stopio. Y rheswm yw bod rhai synau rhyfedd iawn yn cael eu gwneud; nid gan unrhyw un o'r Aelodau, dylwn ychwanegu.

Mae mater y cebl ar y môr yn fwy cymhleth nag y mae'n ymddangos; er hynny, rydym yn parhau i siarad â'r Grid Cenedlaethol i ddod o hyd i'r ffordd orau ymlaen.

14:57

## Datganiad: Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16: Adroddiad Terfynol

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Llywydd, in 2011, I introduced three-year budgets for post-16 education in Wales, in order to bring stability to the system, while my department undertook a full review of funding arrangements for post-16 learners.

In February this year, in an oral statement, I outlined an interim report on the post-16 planning and funding review. The interim report described a new system that would use programmes to drive planning and funding in line with the recommendations of the review of qualifications; reduce bureaucracy by planning and funding at programme rather than qualification level; strengthen and standardise planning; improve the use of information to provide evidence to drive change; and improve accountability by focusing on the outcomes of the learning funded.

The key points raised in the Plenary discussion in February focused on employer engagement, part-time learning, funding uplifts such as deprivation, Welsh-medium provision and sparsity, and the next steps and timescales for this project.

In respect of employer engagement, my officials have consulted with employer representatives to explain the routes for that engagement. The intention is to meet with employer representatives annually to discuss how the outcomes reported in the system meet employer expectations. The outcomes of these annual discussions will be fed to the network through the planning and reporting process.

In respect of part-time learning, my department is currently developing the approach for part-time delivery to describe programmes of learning. The key is that learning, whether part time or full time, needs to provide evidence of a clear purpose and outcome before an investment is made in that learning.

## Statement: Post-16 Planning and Funding Review: Final Report

Lywydd, yn 2011, cyflwynais gyllidebau tair blynedd ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghymru, er mwyn dod â sefydlogrwydd i'r system, tra bo fy adran yn cynnal adolygiad llawn o drefniadau ariannu ar gyfer dysgwyr ôl-16.

Ym mis Chwefror eleni, mewn datganiad llafar, amlinellais adroddiad interim ar yr adolygiad ariannu a chynllunio ôl-16. Roedd yr adroddiad interim yn disgrifio system newydd a fyddai'n defnyddio rhaglenni i sbarduno gwaith cynllunio ac ariannu yn unol ag argymhellion yr adolygiad o gymwysterau, yn lleihau biwrocratiaeth drwy gynllunio ac ariannu ar lefel rhaglen yn hytrach nag ar lefel cymhwyster, yn cryfhau ac yn safoni cynllunio, yn gwella'r ffordd y defnyddir gwybodaeth i ddarparu tystiolaeth i sbarduno newid, ac yn gwella atebolrwydd drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau'r dysgu a ariannwyd.

Roedd y prif bwyntiau a godwyd yn nhrafodaeth y Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chyflogwyr, dysgu rhan-amser, ychwanegiadau ariannu megis amddifadedd, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a theneurwydd y boblogaeth, a'r camau nesaf a'r amserlenni ar gyfer y prosiect hwn.

O ran ymgysylltu â chyflogwyr, mae fy swyddogion wedi ymgynghori â chynrychiolwyr cyflogwyr i egluro'r llwybrau ar gyfer yr ymgysylltu hwnnw. Y bwriad yw cwrrd â chynrychiolwyr y cyflogwyr bob blwyddyn i drafod sut y mae'r canlyniadau a nodwyd yn y system yn bodloni disgwyliadau'r cyflogwyr. Caiff canlyniadau'r trafodaethau blynyddol hyn eu bwydo i'r rhwydwaith drwy'r broses cynllunio ac adrodd.

O ran dysgu rhan-amser, mae fy adran wrthi'n datblygu'r ymagwedd at ddarpariaeth ran-amser i ddisgrifio rhaglenni dysgu. Yr hyn sy'n allweddol yw bod angen i ddisgrifio, boed yn rhan-amser neu'n llawn-amser, d dangos tystiolaeth o bwrpas a chanlyniadau dir cyn y gellir buddsoddi yn y dysgu hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In respect of uplifts, providers will be given a block allocation for each of the current uplifts that reflect the current level of funding that they attract. These block allocations for uplifts have been modelled and will be published in September 2013, along with the arrangements to collect and collate information on the use of these funds. My officials will be consulting with relevant stakeholders on current uplifts during this implementation phase and beyond, to discuss their purpose, use and level. Officials are reviewing each of the uplifts with relevant sub-groups of representatives from each of the post-16 sectors. These sub-groups will look at the original purpose of the uplifts and try to identify costs that relate to each uplift. For example, initial work has been undertaken regarding the Welsh-medium bilingual uplift. A sub-group has met to discuss options for moving the uplift into a block grant to meet Welsh Government policy requirements. Future meetings of the group will need to look at criteria for the use of the block grant along with monitoring and reporting arrangements.

The next steps for the successful implementation of the project involve holding information events in June 2013; publishing the new post-16 planning and funding guidance in September 2013; and then publishing the allocations to the sector in January 2014.

The final report concludes that the new system will focus on planning and monitoring rather than simply being driven by funding. It will plan and fund at programme level rather than qualification level, focusing on the package of learning studied. It will allocate funding on a rolling three-year basis to provide stability and help with planning. It will maintain the 'uplift' funding for deprivation, sparsity and Welsh-medium provision. It will standardise the approach to planning and monitoring between local authorities and colleges. It will also monitor the outcomes of the learning offer, so that learners better understand where that learning could take them.

The vision for this review is to create a new system that is about investing in learner journeys to improve learners' life chances as they prepare for employment or further learning. I believe that this new system will support learning journeys that are simpler to understand in terms of outcomes and content. From an employer perspective, this new system will support learning journeys that give our learners the right skills and qualifications that employers need. From the Welsh Government's perspective, it will give us a much better understanding of what we get for our investment.

O ran ychwanegiadau, bydd darparwyr yn cael dyraniad bloc ar gyfer pob un o'r ychwanegiadau presennol sy'n adlewyrchu lefel bresennol y cyllid y maent yn ei ddenu. Mae'r dyraniadau bloc hyn ar gyfer ychwanegiadau wedi eu modelu a chânt eu cyhoeddi ym mis Medi 2013, ynghyd â'r trefniadau i gasglu a choladu gwybodaeth am ddefnyddio'r cronfeydd hyn. Bydd fy swyddogion ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol am yr ychwanegiadau presennol yn ystod y cyfnod gweithredu hwn a thu hwnt, i drafod eu pwrpas, eu defnydd a'u lefel. Mae swyddogion yn adolygu pob un o'r ychwanegiadau ag is-grwpiau perthnasol o gynrychiolwyr pob un o'r sectorau ôl-16. Bydd yr is-grwpiau hyn yn edrych ar ddiben gwreiddiol yr ychwanegiadau ac yn ceisio nodi costau sy'n gysylltiedig â phob ychwanegiad. Er enghraifft, mae gwaith cychwynnol wedi ei wneud ar yr ychwanegiad dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Mae is-grŵp wedi cyfarfod i drafod opsiynau ar gyfer symud yr ychwanegiad i grant bloc i fodloni gofynion polisi Llywodraeth Cymru. Bydd angen i gyfarfodydd y grŵp yn y dyfodol edrych ar feini prawf ar gyfer defnyddio'r grant bloc ynghyd â threfniadau monitro ac adrodd.

Mae'r camau nesaf ar gyfer gweithredu'r prosiect yn llwyddiannus yn cynnwys cynnal digwyddiadau gwybodaeth ym mis Mehefin 2013, cyhoeddi'r canllawiau cynllunio ac ariannu ôl-16 newydd ym mis Medi 2013, ac yna gyhoeddi'r dyraniadau i'r sector ym mis Ionawr 2014.

Mae'r adroddiad terfynol yn dod i'r casgliad y bydd y system newydd yn canolbwyntio ar gynllunio a monitro ac na fydd yn seiliedig ar gyllid yn unig. Bydd yn cynllunio ac yn ariannu ar lefel rhaglenni yn hytrach nag ar lefel cymwysterau, gan ganolbwyntio ar y pecyn dysgu a astudiwyd. Bydd yn dyrannu cyllid ar sail dreigl dair blynedd i roi sefydlogrwydd ac i helpu â gwaith cynllunio. Bydd yn cynnal yr 'ychwanegiadau' ar gyfer amddifadedd, teneurwydd y boblogaeth a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd yn safoni'r dull o gynllunio a monitro rhwng awdurdodau lleol a cholegau. Bydd hefyd yn monitro canlyniadau'r cynnig dysgu, er mwyn ei gwneud yn haws i ddysgwyr ddeall i ble y gallai'r dysgu hwnnw fynd â hwy.

Y weledigaeth ar gyfer yr adolygiad hwn yw creu system newydd sy'n ymwneud â buddsoddi yn nhaith y dysgwr i wella cyfleoedd bywyd y dysgwr wrth baratoi at swydd newydd neu ddysgu pellach. Credaf y bydd y system newydd hon yn cefnogi teithiau dysgu sy'n symlach i'w deall o ran canlyniadau a chynnwys. O safbwynt y cyflogwyr, bydd y system newydd yn cefnogi teithiau dysgu sy'n rhoi i ddysgwyr y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyflogwyr. O safbwynt Llywodraeth Cymru, bydd yn rhoi dealltwriaeth well o lawer inni o'r hyn a gawn am ein buddsoddiad.

The new system will be simpler and more user friendly for our providers, but it will also call for a change in cultures and mindsets. The new system will be driven by the quality of the learning on offer, not the volume of learning. I believe that this approach will give providers the tools to approach provision planning and funding differently. Effective planning is challenging, but I support the fact that this system gives providers and Government the information to question and drive change. It is about ensuring that public investment in learning provides the best possible outcomes for learners, employers, providers and Government. It is about driving the system to do the very best for Welsh learners.

Bydd y system newydd yn symlach ac yn haws i'n darparwyr ei defnyddio, ond bydd hefyd yn galw am newid mewn diwyllianau a ffyrdd o feddwl. Bydd y system newydd yn seiliedig ar ansawdd y dysgu sydd ar gael, nid ar swm y dysgu. Credaf y bydd y dull hwn yn rhoi i ddarparwyr yr offer i gynllunio ac ariannu eu darpariaeth mewn ffordd wahanol. Mae'n her cynllunio'n effeithiol, ond rwyf yn cefnogi'r ffaith bod y system hon yn rhoi gwybodaeth i ddarparwyr ac i'r Llywodraeth i gwestiynu a sbarduno newid. Mae'n fater o sicrhau bod buddsoddi cyhoeddus mewn dysgu yn darparu'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr, i gyflogwyr, i ddarparwyr ac i'r Llywodraeth. Mae'n fater o sicrhau bod y system yn gwneud ei gorau i ddysgwyr yng Nghymru.

15:01

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement today, which I very much appreciate, and also for 'Post-16 Planning and Funding Review: Final Report'. I have a couple of questions that I would like to ask at the moment, although I am sure that I will have further questions as I go through the report in more detail.

I totally agree with you that it is incredibly important for us to start focusing on outcomes, and I agree that we need to look at uplifts for certain areas. Will there be an uplift of any sort for the provision of courses for people with special educational needs? How will you be treating that? Will that be a separate area of funding that you will look at? With regard to the uplifts, at the moment, the discussion here is about the providers being given block allocations to reflect their current levels of funding, but the whole process seems quite introspective, and I wondered what you might be doing to encourage them to look out to best practice in other institutions, which may inform better how they might fund all the courses that they might run.

You talk very briefly in the report about managing the gap between one system dying off and the other one taking its place. I wondered whether you could clarify for us who you will be holding accountable for managing that gap to ensure that one system steps in with the minimum of disruption.

You talk about having the right costs attached to courses and, for example, you say that a BTEC would be deemed equivalent to an A-level. Are you content that courses are being funded correctly and will you look at different types of courses with regard to how much face-time they involve? For example, I know that, in the horse care course at stages 1, 2 and 3 at my local college, the students had only two hours per week of face-time. You mentioned that courses are funded differently—obviously, physics, for example, will get more funding than another course—but will you be looking at that to improve standards of teaching or to review the amount of information that learners get?

Weinidog, diolch am eich datganiad heddiw—rwyf yn ei werthfawrogi'n fawr iawn—a hefyd am 'Adolygiad Cynllunio ac Ariannu Ôl-16: Adroddiad Terfynol'. Mae gennyf un neu ddau o gwestiynau yr hoffwn eu gofyn ar hyn o bryd, ond rwyf yn siŵr y bydd gennyf ragor o gwestiynau wrth imi fynd drwy'r adroddiad yn fanylach.

Cytunaf yn llwyr â chi ei bod yn eithriadol bwysig ein bod yn dechrau canolbwyntio ar ganlyniadau, ac rwyf yn cytuno bod angen inni edrych ar ychwanegiadau mewn rhai meysydd. A fydd ychwanegiad o unrhyw fath i ddarparu cyrsiau i bobl ag anghenion addysgol arbennig? Sut y byddwch yn trin hynny? A fydd hynny'n faes ariannu ar wahân y byddwch yn edrych arno? O ran yr ychwanegiadau, ar hyn o bryd, mae'r drafodaeth yma'n ymwneud â rhoi i ddarparwyr ddyraniadau bloc i adlewyrchu eu lefelau cyllid presennol, ond mae'r holl broses yn ymddangos yn eithaf mewnblyg, a thybed beth ydych chi'n ei wneud i'w hannog i edrych ar arfer gorau mewn sefydliadau eraill, a allai lywio'r ffordd y byddent yn ariannu'r holl gyrsiau y maent yn eu cynnal?

Rydych yn sôn yn fyr iawn yn yr adroddiad am reoli'r bwllch rhwng diwedd un system a rhoi un arall yn ei lle. Tybed a allech egluro inni pwy fydd yn atebol am reoli'r bwllch hwnnw i sicrhau bod un system yn camu i mewn gyda chyn lleied â phosibl o aflonyddwch?

Rydych yn sôn am sicrhau bod y costau cywir ynghlwm wrth gyrsiau ac, er enghraifft, rydych yn dweud yr ystyrir bod BTEC yn gyfwerth â Safon Uwch. A ydych yn fodlon bod cyrsiau yn cael eu hariannu'n gywir ac a wnewch chi edrych ar wahanol fathau o gyrsiau o ran faint o amser wyneb yn wyneb y maent yn ei gynnwys? Er enghraifft, rwyf yn gwybod, yng nghymau 1, 2 a 3 y cwrs gofalu am geffylau yn fy ngholeg lleol i, mai dim ond dwy awr yr wythnos o amser wyneb yn wyneb yr oedd y myfyrwyr yn ei gael. Roeddech yn sôn bod y cyrsiau'n cael eu hariannu'n wahanol—yn amlwg, bydd ffiseg, er enghraifft, yn cael mwy o arian na chwrs arall—ond a fyddwch yn edrych ar hynny i wella safonau addysgu neu i adolygu faint o wybodaeth y mae dysgwyr yn ei chael?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Given that we still have a lack of clarity on how well the Welsh baccalaureate will work post 16, I wondered whether you would be looking at this final report as a final report, or whether you will be preparing to review the funding depending on what happens with the Welsh baccalaureate. There are still a great many unanswered questions there as to how this will affect A-level students, teaching time and the study time of students and how this will be assessed by universities and employers.

I fear that I am probably beginning to run out of time now, Presiding Officer. There are a number of other issues that I would particularly have liked to have brought up, but I would be very happy, Minister, to write to you separately on them if you would be content for me to do so. Thank you.

Ac ystyried bod diffyg eglurder o hyd o ran pa mor dda y bydd bagloriaeth Cymru'n gweithio ar ôl 16 oed, tybed a ydych yn edrych ar yr adroddiad terfynol hwn fel adroddiad terfynol, ynteu a fyddwch yn paratoi i adolygu'r cyllid yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd â bagloriaeth Cymru? Mae nifer fawr o gwestiynau sydd heb eu hateb o hyd ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar fyfyrwyr Safon Uwch, amser addysgu ac amser astudio myfyrwyr a sut y bydd prifysgolion a chyflogwyr yn asesu hyn.

Mae'n debyg bod amser yn mynd yn brin mae arnaf ofn, Lywydd. Mae nifer o faterion eraill y byddwn wedi hoffi eu codi'n benodol, ond byddwn yn hapus iawn, Weinidog, i ysgrifennu atoch ar wahân amdanynt os ydych yn fodlon imi wneud hynny. Diolch.

15:05

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the opposition spokesperson for her broad support for what we are doing. She agrees with us that we have to use this system to address outcomes directly.

In respect of what she said about uplifts, there has always been separate provision for funding for additional learning needs in further education, for example, and for post-16 provision generally. We would certainly expect that to continue. In respect of block allocations and learning from best practice in terms of course provision, the real focus in developing this new funding system has been, initially, on ensuring that we have a degree of stability, but it will then drive providers to look at ensuring that they are providing programmes of study that are meaningful for the individual.

In respect of the switch from one system to another, we anticipate that, through effective dialogue with local authorities and further education colleges in the course of the roll-out over the next few months, and the information seminars that we are holding, we will be able to manage a smooth transition. If she has any particular concerns about particular courses where she feels that there is insufficient face time, as she put it, I suggest that she incorporates that in the letter that she is threatening to send me.

Diolch i lefarydd yr wrthblaid am ei chefnogaeth gyffredinol i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Mae'n cytuno â ni fod yn rhaid inni ddefnyddio'r system hon i ymdrin yn uniongyrchol â chanlyniadau.

O ran yr hyn a ddywedodd am ychwanegiadau, bu darpariaeth ar wahân erioed ar gyfer cyllid i anghenion dysgu ychwanegol mewn addysg bellach, er enghraifft, ac ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn gyffredinol. Byddem yn sicr yn disgwyl i hynny barhau. O ran dyraniadau bloc a dysgu o arfer gorau wrth ddarparu cyrsiau, canolbwyntiwyd mewn gwirionedd wrth ddatblygu'r system gyllido newydd hon, i ddechrau, ar sicrhau bod gennym rywfaint o sefydlogrwydd, ond bydd wedyn yn cymell darparwyr i sicrhau eu bod yn darparu rhaglenni astudio sy'n ystyrlon i'r unigolyn.

O ran y newid o un system i'r llall, rydym yn rhagweld, drwy ddeialog effeithiol ag awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach yn ystod y broses o gyflwyno'r system dros y misoedd nesaf, a'r seminarau gwybodaeth yr ydym yn eu cynnal, y bydd y cyfnod pontio'n un llyfn. Os oes ganddi unrhyw bryderon penodol am gyrsiau penodol lle mae hi'n teimlo nad oes digon o amser wyneb yn wyneb, fel y mae'n ei alw, rwyf yn awgrymu ei bod yn cynnwys hynny yn y llythyr y mae'n bygwth ei anfon ataf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:06

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I do not think that that was a threat. I think it was a promise.

Nid wyf yn meddwl mai bygythiad oedd hynny. Rwyf yn meddwl mai addewid ydoedd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:06

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad Biography](#)

It was a joke. [Laughter.]

Jôc oedd hynny. [Chwerthin.]

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



15:06

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I welcome the statement. Previous statements have been made with regard to special needs, but, with regard to this particular statement, how might provision interact with special needs provision, particularly bearing in mind the loss of considerable opportunities with regard to, for example, the closure of Remploi factories, which did not just employ disabled workers, but also provided quite a degree of training and support, particularly for post-16 students in schools? Of course, you will be aware of the issues that we raised, for example, regarding Bryn Celynnog Comprehensive School and the lack of continuity in post-16 education in schools.

Weinidog, rwyf yn croesawu'r datganiad. Cafwyd datganiadau blaenorol am anghenion arbennig, ond, o ran y datganiad penodol hwn, sut y gallai'r ddarpariaeth ryngweithio â darpariaeth anghenion arbennig, yn enwedig ac ystyried y cyfleoedd sylweddol a gollwyd yn sgil cau ffatrioedd Remploi, er enghraifft, a oedd, yn ogystal â chyfflogi gweithwyr anabl, hefyd yn darparu cryn dipyn o hyfforddiant a chymorth, yn enwedig i fyfyrwyr ôl-16 mewn ysgolion? Wrth gwrs, byddwch yn ymwybodol o'r materion a godwyd gennym, er enghraifft, ynghylch Ysgol Gyfun Bryn Celynnog a diffyg parhad mewn addysg ôl-16 mewn ysgolion.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:07

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank my colleague, the Member for Pontypridd, for raising those issues. He is right to stress the considerable training that has been undertaken through Remploi factories, including the factory at Dinas, with which he is very familiar. There is a big question for us about the provision of training for learners with additional needs post 16, which has been highlighted to me, as he said, by students at Bryn Celynnog school in his own constituency. I think that this is a subject to which we need to return. Three years ago, I convened a group to look at additional learning needs post 16, and it made several recommendations, which we have implemented. I have asked officials for a further meeting before the summer recess to discuss some of these issues in more detail, because I think that there are genuine issues that have been raised by students that we need to address.

Diolch i'm cyd-weithiwr, yr Aelod dros Bontypridd, am godi'r materion hyn. Mae'n iawn i bwysleisio'r hyfforddiant sylweddol sydd wedi ei gynnig drwy ffatrioedd Remploi, gan gynnwys y ffatri yn Dinas, y mae'n gyfarwydd iawn â hi. Mae cwestiwn mawr inni ynghylch darparu hyfforddiant i ddysgwyr ôl-16 ag anghenion ychwanegol; fel y dywedodd ef, mae myfyrwyr ysgol Bryn Celynnog yn ei etholaeth ef ei hun wedi tynnu fy sylw at hynny. Credaf y bydd angen inni ddychwelyd at y pwnc hwn. Dair blynedd yn ôl, cynullais grŵp i edrych ar anghenion dysgu ychwanegol ôl-16, a gwnaeth y grŵp hwnnw nifer o argymhellion; rydym wedi rhoi'r rhain ar waith. Rwyf wedi gofyn i swyddogion am gyfarfod arall cyn toriad yr haf i drafod rhai o'r materion hyn yn fanylach, oherwydd credaf fod materion dilys a godwyd gan fyfyrwyr y mae angen inni roi sylw iddynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:08

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad a'r diweddariad ar y broses hon. Fel Aelodau eraill, rwy'n croesawu'r broses ac yn gweld y diweddariad fel rhywbeth naturiol. Mae gennyf ychydig o gwestiynau i chi sydd yn ymwneud yn fwy â'r hinsawdd y mae'r broses yn mynd i mewn iddo na'r broses ei hun. Cefnogaf yr egwyddor o gynllunio a chyllido ar sail rhaglen yn hytrach nag ar sail cymwysterau. Serch hynny, yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ddoe, er enghraifft, mae rhestr o gymwysterau sydd yn gymwys ar gyfer y broses newydd hon, ac mae'n rhaid inni gofio eich bod am sefydlu corff cwbl newydd, Cymwysterau Cymru, a fydd yn gyfrifol am gymwysterau ôl 16. Felly, sut ydych yn gweld y broses newydd hon yn cydlynu â'r broses a fydd yn ei lle o fis Medi 2015, pan fydd Cymwysterau Cymru yn bodoli, ac ym mha ffordd rydych yn disgwyl i Gymwysterau Cymru gydweithio gyda'r fframwaith newydd hon er mwyn sicrhau bod cydlyniant a dilyniant naturiol drwy'r system?

Thank you, Minister, for the statement and the update on the process. Like other Members, I welcome this process and see the update as a natural next step. I have a few questions for you that relate more to the climate into which this process is entering than the process itself, perhaps. I support the principle of planning and funding on the basis of the programme rather than on the basis of qualifications. However, in the report published yesterday, for example, there is a list of the qualifications that qualify for this new process, and we must bear in mind that you wish to establish an entirely new body, Qualifications Wales, which will be responsible for post-16 qualifications. Therefore, how do you see this new process co-ordinating with the process that will be in place from September 2015 onwards, when Qualifications Wales will exist, and how do you expect Qualifications Wales to collaborate with this new framework in order to ensure that there is co-ordination and natural progression throughout the system?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yr ail beth sy'n newid yn yr hinsawdd hon yw eich bod yn bwriadu dod â Bil gerbron—Bil sydd wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad eisoes ac sydd wedi cychwyn ar ei daith drwy'r Cynulliad, sef y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru). Mae hyn yn golygu y bydd y colegau—nid yn unig y corff sy'n darparu, ond y prif gorff sy'n darparu'r math hwn o ddarpariaeth—yn newid yn sylweddol. Rwy'n gweld eich cynllun newydd fel un sy'n hybu cydweithio ac un sy'n dibynnu llai ar gystadleuaeth rhwng cyrff ond yn fwy ar gydweithio. Ar yr un pryd, mae Bil yn cael ei gyflwyno sy'n gwneud y cyrff hyn yn fwy annibynnol ar y Llywodraeth, o leiaf yn gyfreithiol. Yr ail gwestiwn yw: sut y byddwch yn monitro'r broses hon er mwyn sicrhau, unwaith eto, fod pethau'n gydlynol, a bod yr hyn a ddatganwyd yn eich adroddiad, sydd mor bwysig heddiw, sef eich bod yn gweld gwerth y bunt Gymraeg yn y broses hon, yn cael ei ddarparu gan gyrff a fydd yn annibynnol ar y Llywodraeth ac a fydd yn cael eu trin yn wahanol, ar ôl i'r Bil fynd drwyddo?

Mae fy nghwestiwn olaf ar y mater o brif-ffrydio a'r 'uplifts' y sonioch amdanynt. Nid wyf yn siŵr o hyd ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn neu ddwy sydd i ddod. Yn eich datganiad, dywedoch y geiriau a ganlyn:

'The final report concludes that the new system will...maintain "uplift" funding for deprivation, sparsity and Welsh-medium provision.'

Serch hynny, yn gyharach yn eich datganiad, dywedoch:

'A sub-group has met to discuss options for moving the uplift into a block grant'.

Rydym yn sôn yn benodol am addysg Gymraeg a dwyieithog yn y cyd-destun hwn. Nid wyf i na Plaid Cymru yn gwrthwynebu prif-ffrydio'r Gymraeg yn y maes hwn, ond mae'r sefyllfa o ran addysg Gymraeg ôl-16 ar hyn o bryd yn sefyllfa fregus. Mae'n gwella; nid oes dwywaith am hynny. Serch hynny, mae'n sefyllfa fregus ar hyn o bryd, a hoffwn glywed rhagor o fanylion am sut y bydd y mater hwn yn cael ei drin yn benodol. Ai eich bwriad, yn y pen draw, yw symud at brif-ffrydio? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol cyn y bydd y prif-ffrydio hynny'n digwydd?

The second thing that changes in this climate is that you intend to bring forward a Bill—it is a Bill that has already been introduced in the Assembly and has begun its passage through the Assembly, namely the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill. This means that the colleges—not only the providing bodies, but the main body making this kind of provision—will change significantly. I see your new scheme as being one that promotes collaboration and is less dependent upon competition between bodies and more dependent upon collaboration. At the same time, a Bill is being introduced that makes these bodies more independent of Government, at least legally speaking. The second question is: how are you going to monitor this process in order to ensure, once again, that things are co-ordinated, and that what is stated in your report, which is so important today, that is, that you see the value of the Welsh pound in this process, is provided by the bodies that will be independent of Government, and will be treated differently, after the Bill has gone through?

My final question is on mainstreaming and the uplifts that you mentioned. I am still not sure what will happen over the next year or so. In your statement, you said the following:

'Casgliad yr adroddiad terfynol yw y bydd y system newydd ... yn cynnal yr "ychwanegiadau" ar gyfer amddifadedd, teneurwydd y boblogaeth a darpariaeth cyfrwng Gymraeg.'

However, earlier in your statement, you said:

'Mae is-grŵp wedi cyfarfod i drafod opsiynau ar gyfer symud yr ychwanegiad i grant bloc'.

We are referring specifically to Welsh-medium and bilingual education in this context. Neither I nor Plaid Cymru oppose mainstreaming the Welsh language in this area, but the situation with regard to post-16 Welsh-medium education at the moment is fragile. It is improving; there is no doubt about that. However, the situation is fragile at the moment, and I would like to hear more details about how this matter will be dealt with specifically. Is it your intention, ultimately, to move towards mainstreaming? What steps will you take to ensure that there is adequate provision before that mainstreaming takes place?

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the comments by the Plaid Cymru spokesperson in respect of what we plan to do here. There will obviously need to be dialogue with Qualifications Wales once it is established, particularly on the range of qualifications that it sees as being relevant to our needs in Wales. I would expect that dialogue to take place between Qualifications Wales, once it is established, and my officials who manage the planning and funding system. In respect of the approach to the collaboration or partnership of post-16 providers, I agree with him that we want to see collaboration. We would expect to monitor that in any case. The planning element within this policy approach allows us to do that and, in a sense, focusing on the provision of programmes of study, rather than on individual qualifications, is likely to diminish competition rather than increase it.

Croesawaf sylwadau llefarydd Plaid Cymru am yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yma. Mae'n amlwg y bydd yn rhaid cael deialog â Chymwysterau Cymru unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn enwedig am yr ystod o gymwysterau y mae'n ystyried eu bod yn berthnasol i'n hanghenion ni yng Nghymru. Byddwn yn disgwyl i'r drafodaeth honno ddigwydd rhwng Cymwysterau Cymru, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, a'm swyddogion sy'n rheoli'r system gynllunio ac ariannu. O ran yr ymagwedd at gydweithio neu bartneriaeth rhwng darparwyr ôl-16, rwyf yn cytuno ag ef; hoffem weld cydweithio'n digwydd. Byddem yn disgwyl monitro hynny beth bynnag. Mae elfen gynllunio'r dull polisi hwn yn caniatáu inni wneud hynny ac, mewn ffordd, mae canolbwyntio ar ddarparu rhaglenni astudio, yn hytrach nag ar gymwysterau unigol, yn debygol o leihau cystadleuaeth yn hytrach na'i chynyddu.

He is right to raise the question of uplifts. Certainly, there is nothing in what I have said where I would expect that to diminish support for Welsh-medium provision or, indeed, make it less transparent. I would expect it to remain transparent. Clearly, there may be advantages to providing that through a block grant, which may be less bureaucratic, of course, and that is simply what we are looking at doing. As I have said, that sub-group is meeting, and there will be further meetings to discuss how that operates. I will be perfectly happy to offer him or any of the other party spokespeople a technical briefing on how those matters will be taken forward.

Mae'n iawn i sôn am ychwanegiadau. Yn sicr, nid oes dim yn yr hyn yr wyf wedi'i ddweud lle y byddwn yn disgwyl i hynny leihau'r gefnogaeth i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg nac, yn wir, ei gwneud yn llai tryloyw. Byddwn yn disgwyl iddi aros yn dryloyw. Yn amlwg, gall fod manteision i ddarparu hynny drwy grant bloc, a all fod yn llai biwrocataidd, wrth gwrs, a dyna, yn syml, yr ydym yn edrych ar ei wneud. Fel yr wyf wedi dweud, mae'r is-grŵp hwnnw'n cwrdd, a cheir cyfarfodydd pellach i drafod sut y mae hynny'n gweithio. Byddaf yn fwy na bodlon cynnig briff technegol iddo ef neu unrhyw un o lefarwyr y pleidiau eraill am sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r materion hynny.

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn innau ddiolch ichi hefyd am eich datganiad. Wrth wneud hynny—[Inaudible.] Codwyd nifer o faterion gan Angela Burns a Simon Thomas lle y byddai briff technegol yn help inni gyd fel llefarwyr. Credaf fod pob un ohonon yn cydnabod bod yn rhaid i unrhyw raglen gynnog y cyfleoedd gorau i fyfyrwyr, a bod yn rhaid inni, fel Cynulliad, weld bod yr arian yn cael ei wario'n effeithlon ac yn effeithiol. Ni chredaf ein bod yn gwrthwynebu unrhyw beth yn y cyd-destun hwn.

I would also like to thank you for your statement. In doing so—[Inaudible.] A number of matters were raised by Angela Burns and Simon Thomas on which a technical briefing would assist us all as spokespeople. I think that we all acknowledge that any programme has to offer the best opportunities for learners, and that we, as an Assembly, have to see that the money is spent effectively and efficiently. I do not believe that we oppose anything in this context.

Hefyd, mae'n glir bod rhan o waith y pwyllgor plant yn awgrymu bod diffyg yn y ddarpariaeth o ran cyd-fynd â'r galw o dan y system flaenorol o ran cyflogwyr, ac nid ydym yn hollol sicr ychwaith i ble yr oedd y dysgwyr yn mynd wedyn. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu hynny.

Also, it is clear that part of the work undertaken by the children's committee suggests that there is a deficiency as regards the match-up of demand and supply in the previous system in terms of employers, and we are not quite certain either as to where the learners go subsequently. The report reflects that.

Mae'r amserlen yn un uchelgeisiol—mae'n sôn am y ffaith y byddwch yn cyhoeddi dyraniadau i'r sector ym mis Ionawr 2014 ac y bydd y cynllun newydd hwn yn weithredol o hydref 2013. O ystyried pa mor uchelgeisiol yw'r amserlen hon, a ydych yn ffyddiog ei bod yn bosibl ei chyrraedd? Hefyd, rydych yn sôn yn yr adroddiad hwn bod dilyniant i ddysgwyr yn bwysig iawn. Mae problemau o ran y ffaith bod y meddalwedd mewn ysgolion yn wahanol i'r meddalwedd yn y colegau addysg bellach. A ydych yn ffyddiog ei bod yn bosibl, gyda'r meddalwedd hwnnw, gweld y dilyniant hwnnw?

The timetable is an ambitious one—it mentions the fact that you will be announcing the allocations to the sector in January 2014 and that this new scheme will be operational from the autumn 2013. Given that this timetable is so ambitious, are you confident that it is possible to adhere to it? Also, you mention in your report that progression for learners is very important. There are problems with the fact that the software within schools is different to the software within further education colleges. Are you confident that it is possible, from the point of view of the software, to see this progression taking place?

Wrth gloi, mae sôn bod angen i chi ymgynghori â chyflogwyr. Wrth gwrs, rhan o'r broblem a oedd gennym ni ar y pwyllgor plant oedd bod y 'sector skills council' wedi cael ei ddileu. Felly, sut byddwch yn ymgynghori â chyflogwyr ynghylch y ffordd ymlaen? Hefyd, os yw'r dyraniad ariannol i golegau unigol yn creu newidiadau enfawr yn y sector, a oes gennych gynlluniau i gael rhyw fath o system dampio fel yr hyn sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer grantiau llywodraeth leol?

In closing, the need for you to consult with employers has been mentioned. Of course, part of the problem that we had as the children's committee was that the sector skills council has been abolished. So, how will you be consulting with employers regarding the way forward? Also, if the financial allocation to individual colleges creates huge changes in the sector, do you have any plans to have any kind of a damping system that is being introduced with regard to local government grants?

15:17

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Liberal Democrats' spokesperson and confirm that, as I said in answer to his Plaid Cymru counterpart, I am very happy to organise a technical briefing.

Career destination data are of course collected, so I do think that we have some general information, through Careers Wales and others, as to where young people are going, and I think that that is valuable in our discussions with employers.

I do not think that the timescale is too ambitious; I think that we can meet that, and my officials are certainly planning on that basis. I accept the point that he makes about different information management systems between FE colleges and schools. That is an issue in which we are engaged at the present time.

In respect of employers, it is not true to say that all sector skills councils have been abolished. A number of sector skills councils remain—they have been consolidated, of course, in some sectors—and they still provide input to us.

In respect of the implementation, will this mean radical changes for individual institutions, and would we provide measures to address any gaps that emerge on a transitional basis? I am certainly willing to look at that, and we will be working through what the allocations mean for individual institutions over the next few months.

Diolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Gallaf gadarnhau, fel y dywedais wrth ateb ei swyddog cyfatebol o Blaid Cymru, fy mod yn hapus iawn i drefnu briff technegol.

Wrth gwrs, caiff data am gyrchfannau gyrfa eu casglu, felly rwyf yn meddwl bod gennym rywfaint o wybodaeth gyffredinol, drwy Gyrfa Cymru ac eraill, o ran ble y mae pobl ifanc yn mynd, a chredaf fod hynny'n werthfawr wrth inni drafoed â chyflogwyr.

Nid wyf yn credu bod yr amserlen yn rhy uchelgeisiol; credaf y gallwn gadw ati, ac mae fy swyddogion yn sicr yn cynllunio ar sail hynny. Rwyf yn derbyn y pwynt a wnaiff am y gwahanol systemau rheoli gwybodaeth rhwng colegau addysg bellach ac ysgolion. Dyma fater yr ydym yn ymdrin ag ef ar hyn o bryd.

O ran cyflogwyr, nid yw'n wir dweud bod pob cyngor sgiliau sector wedi ei ddi-ddymu. Mae nifer o gynghorau sgiliau sector yn parhau—maent wedi cael eu cyfuno, wrth gwrs, mewn rhai sectorau—ac maent yn dal i roi mewnbwn inni.

O ran y gweithredu, a fydd hyn yn golygu newidiadau enfawr i sefydliadau unigol, ac a fyddem yn darparu mesurau i lenwi unrhyw fylchau a ddaw i'r amlwg yn y cyfnod pontio? Rwyf yn sicr yn fodlon edrych ar hynny, a byddwn yn gweithio drwy'r hyn y mae'r dyraniadau'n ei olygu i sefydliadau unigol dros yr ychydig fisoedd nesaf.

15:18

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I thank you for your statement and for the report, which I managed to read reasonably well last night. There are a couple of points that I want to raise. First of all, I am pleased with section 6 on co-investment and the change from the interim report, as it now identifies that the task and finish group will look at this. When it does look at this, can you please ensure that it identifies who will identify appropriate balance between private and public sector funding in those elements? I had great concerns about that.

Weinidog, diolch am eich datganiad ac am yr adroddiad; llwyddais i'w ddarllen yn weddol dda neithiwr. Hoffwn godi un neu ddau o bwyntiau. Yn gyntaf oll, rwyf yn hapus ag adran 6 ar gydfuddsoddi a'r newid o'r adroddiad interim, gan ei fod bellach yn nodi y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn edrych ar hyn. Pan fydd yn gwneud hynny, a wnewch chi sicrhau ei fod yn nodi pwy fydd yn nodi'r cydbwysedd priodol rhwng arian y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn yr elfennau hynny? Roedd gennyf bryderon mawr am hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I also have views that are similar to Simon Thomas's concerns about the issue over the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill that is coming through. I think that this links very tightly to that, because we are looking at creating autonomous bodies. So, how do we ensure that those autonomous bodies deliver as we want them to with our funding? I think that that is critical. In particular, paragraph 11 talks about following funding principles, but there is no reference to reserves there. I want to make sure that there is a consideration that not so much money should be put into preserves, as this money should be spent on student programmes. I have been in an institution that proudly presented the fact that it had three times the allocation of reserves than was required. That seemed to be a proud view, and I do not want that, because that funding should go towards education provision. I hope that you will look at that point about allocations.

We now turn to the validation issue. I previously had responsibility for validation—all right, at undergraduate degree and Masters levels—but the question of the programme is one that I accept. I think that it is good. However, how do we ensure that the programme is right for that particular area, those particular students and that particular college? Who is going to have overall approval of programmes? Will it be Qualifications Wales? How will it ensure consistency across Wales for the programmes that you have identified? Who should be undertaking the quality assurance? In the section on monitoring, you talk about the Welsh Government's monitoring work, but where does the information come from and who is going to go out to get it? Estyn has talked about extending its cycle by more than six years, so where is the Quality Assurance Agency for Higher Education aspect going to be?

It appears that credits are disappearing—is that the case or are they still going to be allowed? If students transfer colleges halfway through programmes, how will their progression be recognised in their new college? I will stop at that point; I am sure that I will have other questions later.

Mae gennyf hefyd safbwyntiau sy'n debyg i bryderon Simon Thomas ynglŷn â'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) sydd ar y gweill. Credaf fod cysylltiad agos iawn rhwng y ddau beth, oherwydd rydym yn edrych ar greu cyrff ymreolaethol. Felly, sut ydym ni'n sicrhau bod y cyrff ymreolaethol hyn yn darparu'r hyn yr ydym am iddynt ei ddarparu â'n harian? Credaf fod hynny'n hollbwysig. Yn benodol, mae paragraff 11 yn sôn am ddilyn egwyddorion ariannu, ond ni chyfeirir at gronfeydd wrth gefn yno. Hoffwn wneud yn siŵr y rhoddir ystyriaeth i beidio â rhoi cymaint o arian mewn cronfeydd wrth gefn, oherwydd dylid gwario'r arian hwnnw ar raglenni myfyrwyr. Bùm mewn sefydliad a oedd yn falch o'r ffaith bod ganddo dair gwaith cymaint o gronfeydd wrth gefn ag yr oedd eu hangen arno. Roedd yn ymddangos yn falch o hynny, ac nid wyf am weld hynny, oherwydd dylai'r arian hwnnw fynd tuag at ddarpariaeth addysg. Rwyf yn gobeithio yr edrychwch ar y pwynt hwnnw ynglŷn â dyraniadau.

Trown yn awr at ddilysu. Roeddwn yn gyfrifol am ddilysu o'r blaen—iawn, ar lefel graddau israddedig a graddau Meistr—ond rwyf yn derbyn y materion yn ymwneud â'r rhaglen. Rwyf yn meddwl bod hynny'n dda. Fodd bynnag, sut y gallwn sicrhau bod y rhaglen yn iawn i'r maes penodol hwnnw, y myfyrwyr penodol hynny a'r coleg penodol hwnnw? Pwy fydd yn cymeradwyo'r rhaglenni'n gyffredinol? Ai Cymwysterau Cymru? Sut y bydd yn sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer y rhaglenni a nodwyd gennyh? Pwy ddylai fod yn gwneud y gwaith sicrhau ansawdd? Yn yr adran ar fonitro, soniwyd am waith monitro Llywodraeth Cymru, ond o ble y mae'r wybodaeth yn dod a phwy sy'n mynd i fynd allan i chwilio amdani? Mae Estyn wedi sôn am estyn ei gylch fwy na chwe blynedd, felly ble y bydd agwedd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch?

Mae'n ymddangos bod credydau'n diflannu—a yw hynny'n wir ynteu a fyddant yn dal i gael eu caniatáu? Os bydd myfyrwyr yn symud o un coleg i'r llall hanner ffordd drwy eu rhaglen, sut y caiff eu cynnydd ei gydnabod yn eu coleg newydd? Rwyf yn mynd i ddirwyn i ben yn awr; rwyf yn siŵr y bydd gennyf gwestiynau eraill yn nes ymlaen.

15:21

## Leighton Andrews [Bywgraffiad Biography](#)

My colleague the Member for Aberavon has a worryingly detailed knowledge of this sector, which always frightens me when I come to answer his questions, because I suspect that he knows rather more about how this operates on the ground than most of us. In respect of the allocation of funding, I am pretty confident that the grant conditions that we impose will allow us the necessary controls in relation to how that money is spent. However, he raises a good point on reserves that I want to reflect upon and discuss with officials further. I would welcome him writing to me on his point about the balance between private and public sector funding to clarify the point that he was making.

Mae gan fy nghyd-weithiwr, yr Aelod dros Aberafan, wybodaeth ddychrynlyd o fanwl am y sector hwn; pan fyddaf yn ateb ei gwestiynau, byddaf yn amau ei fod yn gwybod ychydig yn fwy na'r rhan fwyaf ohonom am sut y mae hyn yn gweithio ar lawr gwlad. O ran dyrannu cyllid, rwyf yn eithaf hyderus y bydd yr amodau grant y byddwn yn eu gosod yn rhoi inni'r mesurau rheoli angenrheidiol o ran y ffordd y caiff yr arian hwnnw ei wario. Fodd bynnag, mae'n codi pwynt da ynghylch cronfeydd wrth gefn, ac fe hoffwn feddwl am hynny a'i drafod ymhellach â swyddogion. Byddwn yn falch pe bai'n ysgrifennu ataf am ei bwynt ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng cyllid y sector preifat a'r sector cyhoeddus i egluro'r pwynt yr oedd yn ei wneud.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In respect of the validation of programmes, there is the validation process at the outset, which I would expect Qualifications Wales to be part of once it is established—that would currently be done by my qualifications officials. The quality assurance end will require a number of elements. It will require an inspection element through Estyn. I do not think that that is problematic as regards its own inspection regime, which works very well at present. However, it will also require validation in the sense of ensuring that those courses are being delivered. We have to do that at present, so I do not see that as being more problematic under the new system.

As regards the issue that he raised about the recognition of the credits that students have taken, I do not see that as being different from what we have to do under the current system. However, given that we are funding programmes of study, rather than individual qualifications, we will have to have a method to review and recognise the learning in which students have engaged should they change courses. In principle, that is no different from now, other than the fact that the funding was for credit equivalence units. However, we would still have had to have a credit framework to recognise the learning that has been undertaken.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.23 p.m.*

O ran dilysu rhaglenni, mae proses ddilysu ar y dechrau, a byddwn yn disgwyl i Gymwysterau Cymru fod yn rhan o hynny unwaith y caiff ei sefydlu—fy swyddogion cymwysterau sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Bydd sawl elfen i sicrhau ansawdd. Bydd angen elfen arolygu drwy Estyn. Nid wyf yn credu bod hynny'n achosi problemau o ran ei gyfundrefn arolygu ei hun, sy'n gweithio'n dda iawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd hefyd yn golygu bod angen dilysu er mwyn sicrhau bod y cyrsiau hynny'n cael eu darparu. Mae'n rhaid inni wneud hynny ar hyn o bryd, felly nid wyf yn meddwl y bydd hynny'n fwy o broblem o dan y drefn newydd.

O ran y mater a gododd am gydnabod y credydau y mae myfyrwyr wedi eu cymryd, nid wyf yn credu bod hynny'n wahanol i'r hyn y mae'n rhaid inni ei wneud o dan y system bresennol. Fodd bynnag, ac ystyried ein bod yn ariannu rhaglenni astudio, yn hytrach na chymwysterau unigol, bydd yn rhaid inni gael dull o adolygu a chydabod y dysgu y mae myfyrwyr wedi ei wneud os byddant yn newid cyrsiau. Mewn egwyddor, nid yw hynny'n wahanol i'r hyn yr ydym yn ei wneud yn awr, heblaw am y ffaith yr arferai'r cyllid fod ar gyfer unedau credyd cyfwerth. Fodd bynnag, byddai angen fframwaith credydau arnom o hyd i gydnabod y dysgu sydd wedi ei wneud.

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.23 p.m.*

15:24

## **Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Adroddiad Guilford**

**Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

On 12 March the then Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, Alun Davies, provided Members with an initial response to Dr Grahame Guilford's report into the implementation arrangements for the 2014–20 European structural fund programmes. As part of the statement, he broadly welcomed Dr Guilford's findings and recommendations, and committed to making a formal response in June as part of the Welsh Government's response to the public consultation exercise on the future structural and rural development fund programmes. With the consultation now closed, I have brought forward the statement so that it can be considered by Members at the earliest opportunity and so that the Welsh European Funding Office can progress its work with Government departments and partners on the future delivery arrangements. This is important so that we can hit the ground running in early 2014.

Before I turn to the recommendations, like my predecessor, I would like to thank Dr Guilford for his hard work and commitment to this vital piece of work and also thank those who contributed their time and expertise to his review.

## **Statement: The Welsh Government Response to the Guilford Report Recommendations**

Ar 12 Mawrth darparodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar y pryd, Alun Davies, ymateb cychwynnol i'r Aelodau i adroddiad Dr Grahame Guilford ar y trefniadau ar gyfer gweithredu rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd 2014–20. Yn ei ddatganiad, croesawodd ganfyddiadau ac argymhellion Dr Guilford yn gyffredinol, ac ymrwymodd i ymateb yn ffurfiol ym mis Mehefin fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar raglenni'r cronfeydd strwythurol a'r gronfa datblygu gwledig yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad hwnnw bellach ar ben, ac rwyf wedi dwyn y datganiad ymlaen fel y gall yr Aelodau ei ystyried cyn gynted â phosibl ac fel y gall Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fwrw ymlaen â'i gwaith gydag adrannau'r Llywodraeth a phartneriaid ar y trefniadau darparu yn y dyfodol. Mae hyn yn bwysig er mwyn inni allu dechrau gweithio'n gynnar yn 2014.

Cyn imi droi at yr argymhellion, hoffwn innau, fel fy rhagflaenydd, ddiolch i Dr Guilford am ei waith caled a'i ymroddiad i'r darn hollbwysig hwn o waith a diolch hefyd i'r rhai a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd i'r adolygiad hwn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The main conclusion of the review is that we have strong foundations in place on which to build. We must draw upon them and learn from our significant collective experience of delivering the EU programmes over the last decade, including the importance of deploying structural funds effectively to maximise their longer term economic impact; the importance of a clear overall strategy to guide the implementation of the funds, building on our current strategic approach with fewer projects and clearer economic prioritisation; the need to balance the requirements of compliance and delivery, to ensure delivery mechanisms are adequately enabled and appropriately supported; and the need to increase the effectiveness of European programmes—structural, rural and fisheries programmes, as well as externally managed funding streams such as Horizon 2020 and Life+—by integrating management processes, systems and governance. These are observations that I fully support, as I believe that they will help us to build on the progress that we have already made with our structural fund programmes and achieve genuine transformational change. European Union projects funded through the 2007-13 programme have already helped 48,000 people into work and nearly 128,000 people to gain qualifications, and have created 18,000 jobs and over 5,000 enterprises.

Turning to Dr Guilford's fourteen recommendations that address a range of strategic, operational, environmental and organisational issues, I believe that there is great merit in accepting them all. Indeed, we have already implemented or started work on implementation in a number of cases. For example, ministerial responsibility for the WEFO now falls within my portfolio, in recognition of the importance of deploying structural funds effectively with other public funding streams to maximise their impact.

For the purpose of this statement, however, I would like to mainly focus on Grahame Guilford's key recommendation—the development of an economic prioritisation framework, from which several other recommendations evolve. There are key benefits to developing an economic prioritisation framework. It will help us to plan and deliver investments that can maximise the potential for growth and jobs and is consistent with the principles that guide our EU programmes—partnership, concentration, harmonisation and simplification. Indeed, I have agreed with the Minister for Natural Resources and Food that we should go further than recommended and develop a framework that covers all our EU funding programmes, including the rural development and fisheries funds.

Prif gasgliad yr adolygiad yw bod gennym sylfeini cadarn y gallwn adeiladu arnynt. Mae'n rhaid inni eu defnyddio a dysgu o'n profiad cyfunol sylweddol o gyflwyno rhaglenni'r UE dros y degawd diwethaf, gan gynnwys pwysigrwydd defnyddio cronfeydd strwythurol yn effeithiol i sicrhau eu bod yn cael cymaint o effaith economaidd â phosibl yn y tymor hwy, pwysigrwydd strategaeth gyffredinol glir i lywio'r broses o weithredu'r cronfeydd, gan adeiladu ar ein dull strategol presennol gyda llai o brosiectau a blaenoriaethu economaidd cliriach, yr angen i gadw cydbwysedd rhwng gofynion cydymffurfio a chyflwyno er mwyn sicrhau bod mecanweithiau cyflwyno'n cael eu galluogi'n ddigonol a'u cefnogi'n briodol, a'r angen i wneud y rhaglenni Ewropeaidd yn fwy effeithiol—yn rhaglenni strwythurol, gwledig a physgodfeydd, yn ogystal â ffrydiau ariannu a reolir yn allanol megis Horizon 2020 a Life+—drwy integreiddio prosesau rheoli, systemau a llywodraethu. Rwyf yn cefnogi'n llawn y sylwadau hyn, oherwydd credaf y byddant o gymorth inni adeiladu ar y cynnydd yr ydym eisoes wedi ei wneud â'n rhaglenni cronfeydd strwythurol a sicrhau gweddnewidiad gwirioneddol. Mae prosiectau'r Undeb Ewropeaidd a ariennir drwy raglen 2007–13 eisoes wedi helpu 48,000 o bobl i gael gwaith a bron i 128,000 o bobl i ennill cymwysterau, ac wedi creu 18,000 o swyddi a thros 5,000 o fentrau.

A throi at y pedwar ar ddeg o argymhellion a wnaed gan Dr Guilford sy'n ymdrin ag ystod o faterion strategol, gweithredol, amgylcheddol a chyfundrefnol, credaf fod gwerth mawr i dderbyn pob un ohonynt. Yn wir, rydym eisoes wedi gweithredu neu wedi dechrau gweithio i weithredu nifer ohonynt. Er enghraifft, mae cyfrifoldeb gweinidogol dros Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru bellach yn rhan o'm portffolio i, er cydnabod pwysigrwydd defnyddio cronfeydd strwythurol yn effeithiol ynghyd â ffrydiau arian cyhoeddus eraill i sicrhau eu bod yn cael cymaint o effaith â phosibl.

Yn y datganiad hwn, fodd bynnag, hoffwn ganolbwyntio'n bennaf ar argymhelliad allweddol Grahame Guilford, sef y dylid datblygu fframwaith blaenoriaethu economaidd, ac mae nifer o argymhellion eraill yn deillio o hynny. Mae manteision allweddol i ddatblygu fframwaith blaenoriaethu economaidd. Bydd yn ein cynorthwyo i gynllunio a chyflwyno buddsoddiadau a all hybu potensial twf a swyddi i'r eithaf ac mae'n cyd-fynd â'r egwyddorion sy'n llywio ein rhaglenni Ewropeaidd—partneriaeth, canolbwyntio, cysoni a symleiddio. Yn wir, rwyf wedi cytuno â'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd y dylem fynd ymhellach na'r hyn a argymhellir a datblygu fframwaith sy'n cwmpasu holl raglenni cyllid yr UE, gan gynnwys y cronfeydd datblygu gwledig a physgodfeydd.

The framework provides the opportunity for us to achieve greater alignment of the structural funds and rural and fisheries funds with the Welsh Government's programme for government and policies for growth and jobs, including the Wales infrastructure investment plan and our new innovation strategy to support smart specialisation; to help plan and direct project development and selection to ensure that they support key economic and social drivers; to develop a project appraisal process that has long-term impact at the heart of its agenda and effectively discriminates between compliance risk and business risk; to develop a suite of projects, involving strategic backbone projects complemented by those that address emerging strategic and economic opportunities and circumstances; and to support integration between the European programmes, where they can work together to support common goals.

The economic prioritisation framework will be produced and maintained by WEFO in line with the programme for government and will be updated throughout the programme period to reflect emerging opportunities, economic circumstances and strategic developments. Key to its success, however, will be collaborative working and ongoing input across the Welsh Government and from our partners.

The principle of the framework has already been endorsed by the European programmes partnership forum and I have discussed the development of the framework with ministerial colleagues over the last few weeks. A draft framework document will be available for publication in the autumn to facilitate timely and constructive stakeholder discussions on project development in parallel with the negotiation of our operational programmes with the European Commission.

Turning to the other recommendations, I can also confirm the Government's support for the use of credible regional and thematic planning mechanisms to support project development and delivery; the need for the timely publication, review and continuous improvement of effective and clear guidance for sponsors; the sharing of the expertise and experience within WEFO and among external stakeholders; the development of enhanced management and performance data to show progress at a strategic programme level; and the need for streamlined and common management processes for the European programmes within the parameters of commission regulations, and due diligence of public funds.

Action to take forward all of the Guilford review recommendations will take place in consultation with our partners, including the European Commission. Discussions with the Commission are particularly important in relation to recommendation 11 on audit and evaluation, as these functions are closely regulated. In this respect, Wales has been instrumental in identifying opportunities for simplifying and harmonising the draft regulations, but, until further discussions are held, I am accepting recommendation 11 in principle.

Mae'r fframwaith yn gyfle inni sicrhau bod y cronfeydd strwythurol a'r cronfeydd gwledig a physgodfeydd yn cydfynd yn well â rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru a'i pholisïau ar gyfer twf a swyddi, gan gynnwys y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru a'n strategaeth arloesi newydd i gefnogi arbenigo doeth; i helpu i gynllunio a chyfeirio gwaith datblygu a dethol prosiectau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi sbardunau economaidd a chymdeithasol allweddol; i ddatblygu proses arfarnu prosiectau y mae sicrhau effaith hirdymor wrth wraidd ei hagenda ac sy'n gwahaniaethu'n effeithiol rhwng risg cydymffurfio a risg busnes; i ddatblygu cyfres o brosiectau, gan gynnwys prosiectau meingefn strategol sy'n mynd law yn llaw â phrosiectau sy'n ymdrin â chyfleoedd ac amgylchiadau strategol ac economaidd newydd; ac i gefnogi integreiddio rhwng y rhaglenni Ewropeaidd, lle y gallant weithio gyda'i gilydd i gefnogi nodau cyffredin.

Bydd y fframwaith blaenoriaethu economaidd yn cael ei lunio a'i gynnal gan WEFO yn unol â'r rhaglen lywodraethu, a bydd yn cael ei ddiweddarw drwy gydol cyfnod y rhaglen i adlewyrchu cyfleoedd, amgylchiadau economaidd a datblygiadau strategol newydd. Er hynny, bydd cydweithio a mewnbwn parhaus ar draws Llywodraeth Cymru a chan ein partneriaid yn allweddol i'w lwyddiant.

Mae egwyddor y fframwaith eisoes wedi ei chymeradwyo gan fforwm partneriaeth y rhaglenni Ewropeaidd ac rwyf wedi trafod datblygiad y fframwaith â chyd-weithwyr gweinidogol yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Bydd dogfen fframwaith ddrafft ar gael i'w chyhoeddi yn yr hydref i hwyluso trafodaethau amserol ac adeiladol â rhanddeiliaid ar ddatblygu prosiectau ochr yn ochr â thrafod ein rhaglenni gweithredol â'r Comisiwn Ewropeaidd.

A throi at yr argymhellion eraill, gallaf hefyd gadarnhau bod y Llywodraeth yn cefnogi defnyddio mecanweithiau cynllunio rhanbarthol a thematig credadwy i gefnogi gwaith i ddatblygu a chyflwyno prosiectau; yr angen am gyhoeddi amserol, adolygu a pharhau i wella arweiniad effeithiol a chlir i noddwyr; rhannu arbenigedd a phrofiad o fewn WEFO ac ymhlith rhanddeiliaid allanol; datblygu data rheoli a pherfformiad gwell i ddangos cynnydd ar lefel rhaglenni strategol; a'r angen am brosesau rheoli symlach a chyffredin ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd o fewn ffiniau rheoliadau'r comisiwn, a diwydrwydd dyladwy o ran arian cyhoeddus.

Byddwn yn gweithredu i frw ymlaen â phob un o argymhellion adolygiad Guilford drwy ymgynghori â'n partneriaid, gan gynnwys y Comisiwn Ewropeaidd. Mae trafodaethau â'r Comisiwn yn arbennig o bwysig mewn perthynas ag argymhelliad 11 ar archwilio a gwerthuso, gan fod y swyddogaethau hyn yn cael eu rheoleiddio'n ofalus. Yn hyn o beth, mae Cymru wedi bod yn rhan allweddol o nodi cyfleoedd i symleiddio a chysoni'r rheoliadau drafft, ond hyd nes y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal, rwyf yn derbyn argymhelliad 11 mewn egwyddor.



To conclude, we are now almost halfway through 2013, and we have been working hard with our partners so that the programmes can start on time in early 2014. However, important EU and UK milestones remain, including the agreement by the European Council and Parliament on the EU budget and the legislative package, and the UK Government's submission of the UK partnership agreement to the European Commission. I will be making a statement to Members in July on these developments, as well as on our analysis of the public consultation responses to our future investment proposals, and our work with the UK Government on regional financial allocations between west Wales and the Valleys and east Wales. These milestones must be met before we can submit our operational programmes to the Commission for negotiation and agreement over the autumn. Together with the implementation of Dr Guilford's recommendations, these programmes will be key to meeting our goals for supporting jobs and sustainable growth in Wales.

I gloi, rydym bellach bron hanner ffordd drwy 2013, ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed gyda'n partneriaid fel y gall y rhaglenni ddechrau'n brydlon yn gynnar yn 2014. Fodd bynnag, mae cerrig milltir pwysig o hyd o ran yr UE a'r DU, gan gynnwys cytundeb Cyngor a Senedd Ewrop ar gyllideb yr UE a'r pecyn deddfwriaethol, a chyflwyno cytundeb partneriaeth y DU i'r Comisiwn Ewropeaidd gan Lywodraeth y DU. Byddaf yn gwneud datganiad i'r Aelodau yn mis Gorffennaf ar y datblygiadau hyn, ac ar ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynigion buddsoddi at y dyfodol, a'n gwaith gyda Llywodraeth y DU ar ddyraniadau ariannol rhanbarthol rhwng gorllewin Cymru a'r Cymoedd a dwyrain Cymru. Rhaid cyrraedd y cerrig milltir hyn cyn cyflwyno ein rhaglenni gweithredol i'r Comisiwn eu trafod a chytuno arnynt yn ystod yr hydref. Bydd y rhaglenni hyn, ynghyd â rhoi argymhellion Dr Guilford ar waith, yn allweddol er mwyn cyflawni ein nodau i gefnogi swyddi a thwf cynaliadwy yng Nghymru.

15:31

## Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

First, I wish to thank the Minister for her statement outlining the Welsh Government's response to Dr Guilford's review. I also wish to thank Dr Guilford for his hard work in undertaking this review.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Dr Guilford. Hoffwn ddiolch hefyd i Dr Guilford am ei waith caled yn ystod yr adolygiad hwn.

As a member of the Assembly's Finance Committee, I am pleased that our report into the effectiveness of European structural funds in Wales has formed part of the evidence base for Dr Guilford's work. As the Minister said, the Guilford report highlights 14 recommendations, and I note that the Minister states that she believes that there is great merit in accepting them all. Can she confirm for the record that the Government is accepting all the recommendations, apart from recommendation 11, which is being accepted in principle?

Fel aelod o Bwyllgor Cyllid y Cynulliad, rwyf yn falch bod ein hadroddiad ar effeithiolrwydd y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwaith Dr Guilford. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae adroddiad Guilford yn tynnu sylw at 14 o argymhellion, a sylwaf fod y Gweinidog yn datgan ei bod yn credu bod gwerth mawr i dderbyn pob un ohonynt. A all hi gadarnhau ar gofnod fod y Llywodraeth yn derbyn yr holl argymhellion, ar wahân i argymhelliad 11, sy'n cael ei dderbyn mewn egwyddor?

I also wish to look at the report's strategic recommendation that calls for the development of an economic prioritisation framework that identifies areas in which structural funds can contribute more effectively to overall Welsh Government economic development policy. I note that the Government has accepted this recommendation. I am sure that all Members will recognise the benefits of creating an economic prioritisation framework. Today's statement makes it clear that work is already under way with regard to this framework, and I note that the Minister states that the key to its success will be collaborative working and ongoing input across the Welsh Government. Can the Minister tell us how exactly this collaborative working will take place? Perhaps she would be good enough to expand on this point.

Rwyf hefyd am edrych ar argymhelliad strategol yr adroddiad sy'n galw am ddatblygu fframwaith blaenoriaethu economaidd sy'n nodi meysydd lle y gall cronfeydd strwythurol gyfrannu'n fwy effeithiol at bolisi datblygu economaidd Llywodraeth Cymru yn gyffredinol. Sylwaf fod y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Rwyf yn siŵr y bydd pob Aelod yn cydnabod manteision creu fframwaith blaenoriaethu economaidd. Mae datganiad heddiw yn ei gwneud yn glir bod gwaith eisoes ar y gweill o ran y fframwaith hwn, a sylwaf fod y Gweinidog yn datgan y bydd cydweithio a mewnbwn parhaus ar draws Llywodraeth Cymru'n allweddol i'w lwyddiant. A all y Gweinidog ddweud wrthym sut yn union y bydd y cydweithio'n digwydd? Efallai y byddai cystal ag ymhelaethu ar y pwynt hwn.

In relation to the report's operational recommendations, I wish to ask the Minister about the idea of a real-time monitoring process, which is mentioned in recommendation 6 and which we on this side of the Chamber welcome. I presume that this recommendation has been accepted by the Government, therefore could the Minister tell us more about how this monitoring process will be implemented in her response to my comments? Furthermore, can she assure Members that this real-time monitoring process will be wholly transparent?

O ran argymhellion gweithredol yr adroddiad, hoffwn ofyn i'r Gweinidog am y syniad o broses fonitro amser real, a grybwyllir yn argymhelliad 6 ac yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambwr yn ei groesawu. Cymeraf fod y Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn, felly a all y Gweinidog ddweud mwy wrthym wrth ymateb i'm sylwadau am sut y bydd y broses fonitro hon yn cael ei rhoi ar waith? Ar ben hynny, a all hi sicrhau Aelodau y bydd y broses fonitro amser real hon yn gwbl dryloyw?

The third area of recommendations relates to environmental and organisational issues. I wish to ask two questions on this point. My first question is in relation to recommendation 8, which looks at the portfolio management approach. I note from today's statement that the Government supports:

'the development of enhanced management and performance data reporting to show progress at a strategic programme level.'

In the circumstances, I would be grateful if the Minister could update us on what work the Welsh Government has already done in this area, ahead of the next funding round. As the report goes on to detail, the portfolio management approach offers an opportunity to adjust to a more appropriate balance in terms of our approach to risk management and project selection. Dr Guilford then goes on to say,

'In Wales we have sometimes tended, I think, to interpret the best value objective too literally and, as a result, have sought to de-risk projects to a level that is difficult to achieve when one is dealing with economic development'.

Therefore, I would be grateful for the Minister's comments on this. Does she believe that this has been the case in the past? How is the Government going to change this approach?

I would like to ask a question in relation to recommendation 11. Given that it has only been accepted in principle by the Government, I note that the Minister states that Wales has been instrumental in identifying opportunities for simplifying and harmonising the draft regulations, and that further discussions will be held. Perhaps she would be kind enough to tell us when the Government will be in a position to make a further announcement on this issue.

In closing, I would like to point out that this is now the third report on the use of structural funds, and it is important that all three reports are collectively used to inform the Welsh Government accordingly. In the circumstances, perhaps the Minister will outline how she intends to take forward these reports collectively ahead of the next round of structural funds.

I once again thank the Minister for her statement, and I hope that today's Government response to the Guilford report will result in actual improvements.

Mae trydydd maes yr argymhellion yn ymwneud â materion amgylcheddol a chyfundrefnol. Hoffwn ofyn dau gwestiwn ar y pwynt hwn. Mae fy nghwestiwn cyntaf yn ymwneud ag argymhelliad 8, sy'n edrych ar y dull rheoli portffolio. Sylwaf o'r datganiad heddiw fod y Llywodraeth yn cefnogi:

'datblygu data rheoli a pherfformiad gweli i ddangos cynnydd ar lefel rhaglenni strategol.'

O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ei wneud yn y maes hwn, cyn y cylch ariannu nesaf. Fel y mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i fanylu, mae'r dull rheoli portffolio yn cynnig cyfle i addasu i gydbwysedd mwy priodol o ran ein dull o reoli risg a dewis prosiectau. Mae Dr Guilford wedyn yn mynd yn ei flaen i ddweud,

Yng Nghymru, rydym wedi tueddu weithiau, yn fy marn i, i ddehongli'r amcan gwerth gorau yn rhy lythrennol ac, o ganlyniad, wedi ceisio lleihau risg prosiectau i lefel sy'n anodd ei chyflawni pan fo rhywun yn ymdrin â datblygu economaidd.

Felly, byddai'n dda gennyf glywed sylwadau'r Gweinidog ar y mater hwn. A yw hi'n credu mai dyna oedd y sefyllfa yn y gorffennol? Sut y mae'r Llywodraeth yn mynd i newid yr ymagwedd hon?

Hoffwn ofyn cwestiwn ynghylch argymhelliad 11. O ystyried nad yw ond wedi ei dderbyn mewn egwyddor gan y Llywodraeth, sylwaf fod y Gweinidog yn datgan bod Cymru wedi bod yn rhan allweddol o nodi cyfleoedd ar gyfer symleiddio a chysoni'r rheoliadau drafft, ac y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal. Efallai y byddai cystal â dweud wrthym pryd y bydd y Llywodraeth mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad pellach ar y mater hwn.

I gloi, hoffwn nodi mai dyma'r trydydd adroddiad ar ddefnyddio cronfeydd strwythurol, ac mae'n bwysig bod y tri adroddiad yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd i lywio gwaith Llywodraeth Cymru'n unol â hynny. O dan yr amgylchiadau, efallai y gwnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r adroddiadau hyn gyda'i gilydd cyn rownd nesaf y cronfeydd strwythurol.

Unwaith eto, diolch i'r Gweinidog am ei datganiad, ac rwyf yn gobeithio y bydd ymateb y Llywodraeth heddiw i adroddiad Guilford yn arwain at welliannau gwirioneddol.

I thank Paul Davies for his constructive response and pertinent questions. I can confirm that I am accepting all the Guilford review recommendations. Indeed, there is great merit in accepting them all, as I said in my statement, in terms of a clear steer. I believe that the committee report helpfully fed into his considerations, and I think you referred, as a member of the Finance Committee, to that report. Of course, several of Dr Guilford's recommendations draw on the common theme of the need for an overall strategy to guide the implementation of the funds. We have, of course, accepted the economic prioritisation framework, as you say, to balance the perceived complexity with the need for compliance—again, a point that you raised—and to measure the impact of the funds over the long term. Clearly, those points are relevant in terms of the Guilford recommendations.

In terms of recommendation 11, as I said, we support it in principle. This is about the recommendation that we look particularly at risk-assessment processes and the resultant level of audit and evaluation work, so that these are proportionate to the actual level of risk in projects. That is important in terms of the review of audit and evaluation requirements for projects, and indeed, we have to discuss this with the European Commission—and we are at the moment—to identify what measures would be feasible. We need European Commission agreement before any proposed revisions are finalised, because we are committed to streamlining the process and to delivering proportionate monitoring and audit regimes. Of course, that has to be within the regulatory requirements imposed by the European Commission. It is work in progress to deliver on that recommendation.

It is important in terms of implementation of the current structural funds and lessons learned for the future that we look at the role that WEFO has to play, particularly at project level, where it has a dedicated resource to provide monitoring and evaluation advice and guidance to project sponsors, including on the selection and use of indicators to monitor performance. That is crucial in terms of that real-time monitoring that we have to deliver in terms of the lessons learned and the clarity that we need to take this forward.

It is also important that the economic prioritisation framework is the prerequisite, as Dr Guilford lays out, for the recommendation on delivering on the next round of structural funds. He also looked carefully at the opportunities that we have to help continuous improvement, ensuring that we maximise the potential of future programmes for jobs and growth.

In terms of the response to your questions and comments on the Guilford review, I will certainly come back to the Chamber in July, as I said, to report on the consultation that is being undertaken for the next round of structural funds, and part of that will be to update on the implementation of the recommendations of the Guilford review.

Diolch i Paul Davies am ei ymateb adeiladol a'i gwestiynau perthnasol. Gallaf gadarnhau fy mod yn derbyn holl argymhellion adolygiad Guilford. Yn wir, mae gwerth mawr i dderbyn pob un ohonynt, fel y dywedais yn fy natganiad, o ran rhoi arweiniad clir. Credaf fod adroddiad y pwyllgor wedi gwneud cyfraniad buddiol i'w ystyriaethau, a chredaf eich bod wedi cyfeirio, fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid, at yr adroddiad hwnnw. Wrth gwrs, mae nifer o argymhellion Dr Guilford yn tynnu ar thema gyffredin yr angen am strategaeth gyffredinol i arwain y gwaith o weithredu'r cronfeydd. Wrth gwrs, rydym wedi derbyn y fframwaith blaenoriaethu economaidd, fel y dywedwch, i sicrhau cydbwysedd rhwng y cymhlethdod canfyddedig a'r angen i gydymffurfio—unwaith eto, pwynt a godwyd gennych—ac i fesur effaith y cronfeydd dros y tymor hir. Yn amlwg, mae'r pwyntiau hynny'n berthnasol o ran argymhellion Guilford.

O ran argymhelliad 11, fel y dywedais, rydym yn ei gefnogi mewn egwyddor. Mae hyn yn ymwneud â'r argymhelliad ein bod yn edrych yn benodol ar brosesau asesu risg a lefel y gwaith archwilio a gwerthuso yn sgil hynny, fel bod y rhain yn gymesur â lefel wirioneddol y risg mewn prosiectau. Mae hynny'n bwysig o ran yr adolygiad o ofynion archwilio a gwerthuso prosiectau, ac yn wir, mae'n rhaid i ni drafod hyn â'r Comisiwn Ewropeaidd—ac rydym wrthi'n gwneud hynny ar hyn o bryd—i nodi pa fesurau fyddai'n ddichonadwy. Mae angen cytundeb y Comisiwn Ewropeaidd cyn i unrhyw ddiwygiadau arfaethedig gael eu cwblhau, oherwydd rydym wedi ymrwymo i symleiddio'r broses ac i ddarparu trefniadau monitro ac archwilio cymesur. Wrth gwrs, rhaid i hynny fod o fewn y gofynion rheoleiddio a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae gwaith ar y gweill i gyflawni'r argymhelliad hwnnw.

Mae'n bwysig o ran gweithredu'r cronfeydd strwythurol presennol a'r gwersi a ddysgir at y dyfodol ein bod yn edrych ar y rôl sydd gan WEFO i'w chwarae, yn enwedig ar lefel prosiectau, lle mae ganddi adnodd pwrpasol i roi cyngor ac arweiniad i noddwyr prosiectau ar fonitro a gwerthuso, ac ar ddewis a defnyddio dangosyddion i fonitro perfformiad. Mae hynny'n hollbwysig o ran y gwaith monitro amser real y mae'n rhaid inni ei gyflawni o safbwynt y gwersi a ddysgwyd a'r eglurder sydd ei angen er mwyn inni allu bwrw ymlaen â hyn.

Mae hefyd yn bwysig bod y fframwaith blaenoriaethu economaidd yn rhagofyniad, fel y mae Dr Guilford yn nodi, ar gyfer yr argymhelliad ynghylch darparu rownd nesaf y cronfeydd strwythurol. Edrychodd yn ofalus hefyd ar y cyfleoedd sydd gennym i helpu gwelliant parhaus, a sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o botensial rhaglenni yn y dyfodol ar gyfer swyddi a thwf.

O ran yr ymateb i'ch cwestiynau a'ch sylwadau ar adolygiad Guilford, byddaf yn sicr yn dod yn ôl i'r Siambr ym mis Gorffennaf, fel y dywedais, i adrodd ar yr ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar gyfer rownd nesaf y cronfeydd strwythurol, ac yn rhan o hynny byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar weithredu argymhellion adolygiad Guilford.

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwyf i hefyd yn croesawu adroddiad Grahame Guilford. Bydd llawer o'r argymhellion o werth wrth i ni geisio gwneud y gorau o'r cronfeydd strwythurol hyn.

A gaf i gyfeirio at rai pethau sy'n fy synnu braidd nad ydynt yn rhan o'r adroddiad hwn? Hyd y gwelaf i, nid yw Grahame Guilford wedi edrych yn fanwl ac yn feirniadol ar strwythurau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Yn wir, yn yr adroddiad, y mae'n diolch yn fawr iawn i WEFO am ei gynorthwyo wrth roi'r adroddiad at ei gilydd. Mae'r cyfaddefiad hwnnw yn codi amheuaeth fawr ynglŷn â'r berthynas agos iawn rhwng awdur yr adroddiad a'r sefydliad ei hun. Does bosibl, os byddwn yn edrych ar sut y gallwn facsimeiddio'r cronfeydd hyn, rhaid i ni edrych ar y corff sy'n delio â'r ceisiadau hynny mewn ffordd feirniadol iawn hefyd.

Roeddwn i mewn cynhadledd ym Mrwsel ddoe a oedd yn sôn am gronfeydd strwythurol a chyllid Ewrop yn gyffredinol. Roedd y gynhadledd yn edrych yn benodol ar waith Banc Buddsoddi Ewrop. Unwaith eto, os ydym yn gofyn sut y gallwn wneud y gorau o'r cronfeydd hyn, does bosibl bod y banc hwn yn allweddol i hynny i gyd, yn enwedig gan fod y banc wedi cael €10 biliwn yn ychwanegol i'w fuddsoddi mewn gwledydd a rhanbarthau sy'n cael cyllid Ewropeaidd. Eto i gyd, nid oes cyfeiriad at y banc hwnnw yn yr adroddiad hwn.

Eto, yn y gynhadledd ddoe, mewn adran yr oeddwn yn digwydd ei chadeirio, roedd trafodaeth hir gyda rhanddeiliaid trwy Ewrop ynglŷn â chytundebau preifat a chyhoeddus, sy'n bartneriaethau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Y pwyslais a wnaed oedd, y dyddiau hyn—gyda'r cyd-destun economaidd yr ydym yn gorfod byw oddi fewn iddo a'r mesurau sy'n cael eu defnyddio i geisio mynd i'r afael â'r problemau hynny—yr unig ffordd y gellir gwneud defnydd llawn o'r cronfeydd strwythurol hyn ydy drwy sicrhau bod partneriaeth rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Eto, nid wyf yn gweld cyfeiriadau at hynny yn yr adroddiad. Rwy'n croesawu'r hyn sydd yn yr adroddiad, ond yr hyn rwy'n ei gwestyynu ydy pa mor ymarferol yw'r argymhellion ac i ba raddau y maent yn ein galluogi i wneud y gorau o'r cronfeydd strwythurol hyn.

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad that you welcome Dr Grahame Guilford's review and his recommendations. It is a robust and independent review that was commissioned by the former Deputy Minister for European programmes. It has been widely welcomed. It is important to acknowledge that WEFO has a good record of management appraisal and financial control, for what are complex programmes involving millions of pounds of investment. It is also important to recognise that the systems have improved significantly since the previous programmes and that WEFO is highly regarded by the European Commission and held up as an exemplar to other EU regions. However, clearly, we have to recognise that there are strong recommendations in the review that WEFO will have to respond to and deliver upon. I assure you that I, as the Minister, will be making sure that that is delivered.

Minister, I also welcome Grahame Guilford's report. Many of the recommendations will be very useful as we try to make the most of these structural funds.

May I refer to certain issues that surprise me in that they have been omitted from this report? As far as I can see, Grahame Guilford has not looked in detail or looked critically at the structures of the Welsh European Funding Office. Indeed, in the report, he thanks WEFO very much for assisting him in putting the report together. That admission does raise some great concerns about the very close relationship between the author of the report and the institution itself. Surely, if we are to look at how we can maximise the impact of these funds, we must also look at the body that administers those applications in a critical way.

I was at a conference in Brussels yesterday that was discussing structural funds and European funding in general. The conference looked specifically at the work of the European Investment Bank. Once again, if we are asking how we can maximise the impact of these funds, then surely this bank is crucial to that, particularly as the bank has received an additional €10 billion for investment in nations and regions that receive European funding. Again, there is no reference to that bank in this report.

Again, in yesterday's conference, during a session that I happened to be chairing, there was a lengthy discussion with stakeholders from all parts of Europe on public-private partnerships. Those are partnerships between the public and private sectors. The emphasis was on the fact that, these days—with the current economic climate that we have put up with and the steps being taken to try to tackle the problems—the only way that we can make full use of structural funds is by ensuring that there is partnership between the private and public sectors. Again, I see no reference to that in the report. I welcome what is contained within the report, but what I am questioning is how practical these recommendations are and to what extent they will enable us to make the most of these structural funds.

Rwyf yn falch eich bod yn croesawu adolygiad Dr Grahame Guilford a'i argymhellion. Mae'n adolygiad trylwyr ac annibynnol a gomisiynwyd gan y cyn Ddirprwy Weinidog dros raglenni Ewropeaidd. Mae wedi cael croeso eang. Mae'n bwysig cydnabod bod gan WEFO hanes da o arfarnu rheoli a rheolaeth ariannol, ar gyfer rhaglenni cymhleth yn ymwneud â buddsoddiadau gwerth miliynau o bunnoedd. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod y systemau wedi gwella'n sylweddol ers y rhaglenni blaenorol a bod parch mawr i WEFO yn y Comisiwn Ewropeaidd a'i bod yn esiampl i ranbarthau eraill yr UE. Fodd bynnag, yn amlwg, mae'n rhaid inni gydnabod bod argymhellion cryf yn yr adolygiad y bydd yn rhaid i WEFO ymateb iddynt a'u cyflawni. Gallaf eich sicrhau y byddaf i, fel Gweinidog, yn sicrhau bod hynny'n cael ei gyflawni.

I am interested to talk to you, perhaps bilaterally, about the discussions that you have had, particularly in relation to the papers that you discussed most recently at the conference in terms of the European Investment Bank, because, as you know, in terms of our engagement and WEFO's engagement in that, the European Investment Bank has already invested £75 million in the form of a loan to Finance Wales to deliver the existing JEREMIE fund, as well as providing that significant contribution to the Swansea bay innovation hub project. Post 2013, those draft financial instrument regulations appear to support a wider scope of financial products, and I want to take this forward.

We will continue to engage with key private sector match funders, including the European Investment Bank, to explore potential options. However, it is quite clear, as Grahame Guilford acknowledges in his report, that businesses are major beneficiaries of the structural funds in Wales. Indeed, Dr Guilford has extensive experience in the business environment, which made him well-placed to consider these issues. However, once again, in response to his recommendations and points made today, and by you, I can assure you that we will continue to work with the private sector to develop the 2014-20 programmes with strong private sector representation.

Byddai'n dda gennyf gael cyfle i siarad â chi, un ag un efallai, am y trafodaethau yr ydych wedi'u cael, yn enwedig ynghylch y papurau y buoch yn eu trafod yn fwyaf diweddar yn y gynhadledd o ran Banc Buddsoddi Ewrop, oherwydd, fel y gwyddoch, o ran ein hymwneud ni ac ymwneud WEFO â hyn, mae Banc Buddsoddi Ewrop eisoes wedi buddsoddi £75 miliwn ar ffurf benthyciad i Gyllid Cymru i gyflwyno'r gronfa JEREMIE gyfredol, yn ogystal â darparu'r cyfraniad sylweddol hwnnw i brosiect canolfan arloesi bae Abertawe. Ar ôl 2013, mae'n ymddangos bod y rheoliadau offeryn ariannol drafft hynny'n cefnogi cwmmpas ehangach o gynnyrch ariannol, ac rwyf am frwr ymlaen â hynny.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag arianwyr cyfatebol allweddol yn y sector preifat, gan gynnwys Banc Buddsoddi Ewrop, i edrych ar opsiynau posibl. Fodd bynnag, mae'n ddigon amlwg, fel y mae Grahame Guilford yn cydnabod yn ei adroddiad, fod busnesau'n elwa'n fawr ar y cronfeydd strwythurol yng Nghymru. Yn wir, mae gan Dr Guilford brofiad helaeth ym myd busnes, ac roedd felly mewn sefyllfa dda i ystyried y materion hyn. Fodd bynnag, unwaith eto, mewn ymateb i'w argymhellion a phwyntiau a wnaed heddiw, a phwyntiau a wnaethoch chi, gallaf eich sicrhau y byddwn yn parhau i gydweithio â'r sector preifat i ddatblygu rhaglenni 2014-20 gyda chynrychiolaeth gref o'r sector preifat.

15:46

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Ken Skates.

Galwaf Ken Skates.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:46

## **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, for allowing me to speak. I should put on record that I am the current chair of the all-Wales programme monitoring committee and the European programmes partnership forum, but today I speak in a personal capacity.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd, am ganiatáu imi siarad. Dylwn gofnodi fy mod ar hyn o bryd yn cadeirio pwyllgor monitro rhaglenni Cymru gyfan a fforwm partneriaeth y rhaglenni Ewropeaidd, ond rwyf yn siarad heddiw o safbwynt personol.

Minister, I thank you for your statement today and for the meetings that you have allowed me with both you and your officials since taking up my new role. I also thank Dr Grahame Guilford and his entire review team for the huge amount of work that they have carried out. It follows extensive research and detailed discussions with stakeholders right across Wales, and I firmly believe that the report lays the foundations for the next round of structural funds.

Weinidog, diolch ichi am eich datganiad heddiw ac am y cyfarfodydd yr ydych wedi caniatáu imi eu cael â chi a'ch swyddogion ers dechrau yn fy rôl newydd. Hoffwn ddiolch hefyd i Dr Grahame Guilford a'i dîm adolygu am y gwaith enfawr y maent wedi'i wneud. Mae'n dilyn llawer iawn o ymchwil a thrafodaethau manwl â rhanddeiliaid ledled Cymru, a chredaf yn gryf fod yr adroddiad yn gosod y sylfeini ar gyfer rownd nesaf y cronfeydd strwythurol.

Wales has been and remains a significant beneficiary of structural funds. EU-funded projects have already helped to create 18,000 jobs; they have helped 47,000 people into work; and they have helped nearly 128,000 people to gain qualifications. An exercise at the end of the last round of structural funds resulted in the decision to move to a simplified, more strategic delivery model, with a focus on fewer projects, and I am pleased that Dr Guilford's review, although it offers up some strong operational and organisational points about the way in which the programme has been implemented, does consider that these objectives were, and remain, appropriate.

Mae Cymru wedi elwa'n sylweddol ar y cronfeydd strwythurol, ac mae'n dal i wneud hynny. Mae prosiectau a ariennir gan yr UE eisoes wedi helpu i greu 18,000 o swyddi, maent wedi helpu 47,000 o bobl i gael gwaith, ac maent wedi helpu bron i 128,000 o bobl i ennill cymwysterau. Yn sgil ymarfer ar ddiwedd cylch diwethaf y cronfeydd strwythurol, penderfynwyd newid i fodel cyflwyno symlach, mwy strategol, a chanollbwyntio ar lai o brosiectau, ac rwyf yn falch bod adolygiad Dr Guilford, er ei fod yn cynnig rhai pwyntiau gweithredol a chyfundrefnol cryf o ran y ffordd y mae'r rhaglen wedi cael ei rhoi ar waith, yn ystyried bod yr amcanion hyn yn briodol, a'u bod yn dal i fod yn briodol.

Minister, I have a couple of questions that I would like to ask you. In his report, Dr Guilford has recognised the vital importance of creating early momentum in the next round of structural funds. Many of the findings in the Guilford report are time-critical, and it will be important that the 14 recommendations are moved to the implementation stage in very short order. I am aware that the Welsh Government has already begun work on some of the recommendations and their implementation, but I would appreciate your commitment today that all of the recommendations accepted in the report will be prioritised in order to help to retain the early momentum that Dr Guilford rightly identifies in his review.

Secondly, the report findings recommend the use of an economic prioritisation framework to help to plan and direct project selection on key areas of the economy. This, he outlines, would help to achieve greater synergy with current Welsh Government strategies as we head towards 2020. I would be very grateful if you could outline what discussions you have had with departmental and ministerial colleagues about this, as well as regional partners, with particular reference to the early implementation stage that Dr Guilford talked about in his report.

My third and final point relates to lessons from similar experiences across Europe. We are not the only ones facing these issues. I have no doubt, as it is clear from the Guilford review, that we are closer now to getting the overall structure right and that our central focus should be on the delivery mechanisms that we need to put in place to help to make structural funds effective. With that in mind, Minister, what lessons have been and are being learned from across Europe, where similar complex delivery vehicles have been or are being set up to help with the implementation of a successful 2014-20 funding round?

Weinidog, mae gennyf ychydig gwestiynau yr hoffwn eu gofyn ichi. Yn ei adroddiad, mae Dr Guilford yn cydnabod pwysigrwydd allweddol creu momentwm cynnar yn rownd nesaf y cronfeydd strwythurol. Mae llawer o'r canfyddiadau yn adroddiad Guilford yn benodol iawn o ran amser, a bydd yn bwysig bod y 14 argymhelliad yn symud i'r cam gweithredu ar fyrder. Gwn fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau gweithio ar rai o'r argymhellion a'u gweithredu, ond byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymrwymo heddiw y bydd yr holl argymhellion a dderbyniwyd yn yr adroddiad yn cael eu blaenoriaethu er mwyn helpu i gynnal y momentwm cynnar y mae Dr Guilford, yn briodol iawn, yn ei nodi yn ei adolygiad.

Yn ail, mae canfyddiadau'r adroddiad yn argymhell y dylid defnyddio fframwaith blaenoriaethu economaidd i helpu i gynllunio a chyfeirio gwaith dethol prosiectau at feysydd allweddol o'r economi. Byddai hyn, meddai, yn helpu i sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd yn well â strategaethau cyfredol Llywodraeth Cymru wrth inni symud tuag at 2020. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech amlinellu pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â chyd-weithwyr adrannol a gweinidogol ynghylch hyn, yn ogystal â phartneriaid rhanbarthol, gan gyfeirio'n benodol at y cam gweithredu cynnar y mae Dr Guilford yn sôn amdano yn ei adroddiad.

Mae fy nhrydydd pwynt, a'r olaf, yn ymwneud â gwersi o brofiadau tebyg ar draws Ewrop. Nid ni yw'r unig rai sy'n wynebu'r materion hyn. Rwyf yn sicr ein bod yn agosach yn awr at sicrhau bod y strwythur cyffredinol yn iawn, ac y dylem ganolbwyntio'n anad dim ar y mecanweithiau cyflwyno y mae angen inni eu rhoi ar waith i helpu i sicrhau bod y cronfeydd strwythurol yn effeithiol—mae hynny'n glir o adolygiad Guilford. O gofio hynny, Weinidog, pa wersi sydd wedi eu dysgu, ac sy'n dal i gael eu dysgu, o wahanol rannau o Ewrop, lle mae trefniadau cyflwyno cymhleth tebyg wedi eu sefydlu neu wrthi'n cael eu sefydlu i helpu i roi cylch cyllido llwyddiannus 2014-20 ar waith?

15:49

## Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Ken Skates for his response, and I warmly welcome the early discussions that I have had with him in his role as the chair of the programme monitoring committee. I assure Members that I am fully committed to maintaining momentum for the implementation of these recommendations and to aligning the work on the recommendations with the timetable outlined for the submission of the programmes to the Commission, as I said in my statement. I have held discussions with Cabinet colleagues. I have secured agreement and support for the development and use of the economic prioritisation framework. That will be in the mechanism that guides the implementation of the programmes. Regional partners have also had an opportunity to consider the Guilford report, which they endorsed at the European partnership forum on 17 April. They will be fully engaged in the discussions on implementing the recommendations.

Diolch i Ken Skates am ei ymateb, ac rwyf yn croesawu'n fawr y trafodaethau cynnar yr wyf wedi'u cael ag ef yn ei rôl fel cadeirydd pwyllgor monitro'r rhaglenni. Gallaf sicrhau Aelodau fy mod wedi ymrwymo'n llawn i gynnal momentwm ar gyfer gweithredu'r argymhellion hyn ac i sicrhau bod y gwaith ar yr argymhellion yn cyd-fynd â'r amserlen a amlinellwyd ar gyfer cyflwyno rhaglenni i'r Comisiwn, fel y dywedais yn fy natganiad. Rwyf wedi cynnal trafodaethau â chyd-weithwyr yn y Cabinet. Rwyf wedi sicrhau cytundeb a chefnogaeth i ddatblygu a defnyddio'r fframwaith blaenoriaethu economaidd. Bydd hynny yn y mecanwaith sy'n llywio gweithrediad y rhaglenni. Mae partneriaid rhanbarthol hefyd wedi cael cyfle i ystyried adroddiad Guilford, ac fe'i cymeradwywyd ganddynt yn y fforwm partneriaeth Ewropeaidd ar 17 Ebrill. Byddant yn cymryd rhan yn llawn yn y trafodaethau ar weithredu'r argymhellion.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In terms of early momentum in delivery, two of the recommendations have already been accepted, namely the recommendation on the adoption of a portfolio management approach, and recommendation 12 on the location of the Welsh European Funding Office within the Welsh Government. I also assure you that the economic prioritisation framework will be developed in line with Dr Guilford's recommendation. That is based on the overall portfolio of EU-funded projects, such as backbone projects and complementary projects that are designed to address emerging strategic and economic opportunities and circumstances.

There are lessons to be learned from across Europe, such as those that we have learned about our delivery of structural funds. We do not just receive EU funds; we are highly regarded in terms of our achievements and the way in which we manage and deliver our programmes. We work with a range of EU partnerships, such as on the financial engineering instruments, which is an example of a delivery mechanism. We are sharing good practice and gaining better knowledge of the approaches of other member states to implementation. We are also working with other regions across the EU to address common challenges under the European territorial co-operation programme.

O ran momentwm cynnar wrth gyflwyno, mae dau o'r argymhellion eisoes wedi eu derbyn, sef yr argymhelliad ar fabwysiadu dull rheoli portffolio, ac argymhelliad 12 ar leoliad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o fewn Llywodraeth Cymru. Gallaf eich sicrhau hefyd y bydd y fframwaith blaenoriaethu economaidd yn cael ei ddatblygu'n unol ag argymhelliad Dr Guilford. Mae hynny'n seiliedig ar bortffolio cyffredinol y prosiectau a ariennir gan yr UE, megis prosiectau meingefn a phrosiectau cyflenwol sydd wedi'u cynllunio i roi sylw i ymdrin â chyfleoedd ac amgylchiadau strategol ac economaidd newydd.

Mae gwersi i'w dysgu o bob cwr o Ewrop, megis y rhai yr ydym wedi'u dysgu am gyflwyno'r cronfeydd strwythurol. Rydym yn gwneud mwy na dim ond derbyn arian yr UE; rydym yn uchel ein parch o ran yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni a'r ffordd yr ydym yn rheoli ac yn cyflwyno ein rhaglenni. Rydym yn gweithio ag ystod o bartneriaethau'r UE, megis ar yr offerynnau peiriannu ariannol, sy'n enghraifft o fecanwaith cyflwyno. Rydym yn rhannu arferion da ac yn dod i wybod mwy am ddulliau gweithredu aelod-wladwriaethau eraill. Rydym hefyd yn cydweithio â rhanbarthau eraill ar draws yr UE i fynd i'r afael â heriau cyffredin o dan y rhaglen cydweithredu tiriogaethol Ewropeaidd.

15:52

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am eich datganiad heddiw, Weinidog.

I welcome your acceptance of the report's recommendations. After reading the Guilford report in length, the clear theme is that we need to refine and streamline not only our processes and procedures, but also the way in which we think about European funding, to make sure that we have a better sense of focus and drive behind the programmes. This is to ensure that we never allow talk about mechanisms to overshadow an understanding of what we are trying to achieve. There is a danger sometimes when we talk about these things that that happens.

I also welcome that the Welsh Government is taking forward the economic prioritisation framework. That is a key methodology for making that streamlining happen. However, you talk about extending the framework to include other European funding sources. How will you ensure that extending it will not dilute the purpose of streamlining it—if the two things are not contradictory?

Dr Guilford, in his report, looked at the balance of areas of spending between different kinds of priorities. The spend on knowledge infrastructure was 13% in the last round of structural funds. Is there an opportunity for further investment in this particular area, because that can draw down additional funding sources from EU and UK research funding? Will you look at that?

Thank you for your statement today, Minister.

Rwyf yn falch eich bod yn derbyn argymhellion yr adroddiad. Ar ôl darllen adroddiad Guilford yn fanwl, y thema amlwg yw bod angen inni fireinio a symleiddio nid yn unig ein prosesau a'n gweithdrefnau, ond hefyd y ffordd yr ydym yn meddwl am arian Ewropeaidd, i wneud yn siŵr bod gennym well ymdeimlad o ffocws a sbardun y tu ôl i'r rhaglenni, a hynny er mwyn sicrhau nad ydym byth yn caniatáu i sôn am fecanweithiau daflu dealltwriaeth o'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni i'r cysgod. Mae perygl weithiau i hynny ddigwydd pan fyddwn yn sôn am y pethau hyn.

Rwyf hefyd yn falch bod Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â'r fframwaith blaenoriaethu economaidd. Mae'n fethodoleg allweddol er mwyn i'r symleiddio hwn allu digwydd. Fodd bynnag, rydych yn sôn am estyn y fframwaith i gynnwys ffynonellau cyllid Ewropeaidd eraill. Sut y byddwch yn sicrhau na fyddwch, drwy ei estyn, yn glastwreiddio holl bwrpas symleiddio'r fframwaith—os nad yw'r ddau beth yn groes i'w gilydd?

Edrychodd Dr Guilford, yn ei adroddiad, ar gydbwysedd meysydd gwariant rhwng gwahanol fathau o flaenoriaethau. Roedd y gwariant ar seilwaith gwybodaeth yn 13% yn rownd ddiwethaf y cronfeydd strwythurol. A oes cyfle i fuddsoddi ymhellach yn y maes penodol hwn, oherwydd gall hynny dynnu i lawr ffynonellau cyllid ychwanegol o gyllid ymchwil y DU a'r UE? A wnewch chi edrych ar hynny?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The 2007-13 funding was also dominated, as we have heard, by the public sector and higher education sector at project sponsor level. What discussions have you had with other European regions that are using structural funds to look at ways in which they have tried to engage with the private sector and the third sector at this level? What progress can we make? What difference can we make in the next round to ensure that that engagement is deeper and more meaningful? I recognise the work of the committee in doing that.

The report highlighted the limitations of the current reporting systems, which get in the way of the ability to analyse expenditure at that kind of detailed geographical level. Can you explain to us how you propose to revise those reporting structures with the level of increased detail that will allow us to identify areas in which structural funds have had most impact? That will be helpful to us in making sure that, in the early stages, we are refining and improving the programmes that we are delivering. I do not think that there was a reference to that in your statement.

Also, there was not a reference in your statement today to something else mentioned in the report, namely the fact that there is huge complexity with the long supply chains and multi-component delivery mechanisms attached to large strategic projects. What assessment have you made of ways to simplify this area, in particular to support supply chain opportunities for small and medium-sized enterprises, which are a key target market for these kinds of funds?

Finally, on evaluation, Dr Guilford highlighted the importance of learning from experience and evaluation being used to identify indicators that are going to be crucial for success in future. I note that, in a previous statement, the then Minister said that he thought that the European Commission's new rules would insist on proper evaluation at a higher level than in the past. Have you clarified that level and what the implications of that will be for the way in which we assess our programmes in Wales?

O ran cyllid 2007–13, y sector cyhoeddus a'r sector addysg uwch oedd amlycaf, fel y clywsom, ar lefel noddi prosiectau. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â rhanbarthau eraill Ewrop sy'n defnyddio cronfeydd strwythurol er mwyn edrych ar y ffordd y maent wedi ceisio ymgysylltu â'r sector preifat a'r trydydd sector ar y lefel hon? Pa gynnydd allwn ni ei wneud? Pa wahaniaeth allwn ni ei wneud yn y rownd nesaf i sicrhau bod yr ymgysylltu'n ddyfnach ac yn fwy ystyrlon? Rwyf yn cydnabod gwaith y pwyllgor yn hynny o beth.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at gyfyngiadau'r systemau adrodd bresennol, sy'n llesteirio gallu i ddadansoddi gwariant ar y math hwn o lefel ddaearyddol fanwl. A allwch esbonio inni sut yr ydych yn bwriadu rhoi i'r strwythurau adrodd hynny y lefel uwch o fanylder a fydd yn ein galluogi i nodi ardaloedd lle mae'r cronfeydd strwythurol wedi cael yr effaith fwyaf? Bydd hynny o gymorth inni i wneud yn siŵr ein bod, yn y camau cynnar, yn mireinio ac yn gwella'r rhaglenni yr ydym yn eu cyflwyno. Nid wyf yn credu eich bod wedi cyfeirio at hynny yn eich datganiad.

Hefyd, ni chyfeiriwyd yn eich datganiad heddiw at rywbeth arall a grybwyllir yn yr adroddiad, sef bod cymhlethdod mawr o ran cadwyni cyflenwi hir a mecanweithiau cyflwyno aml-elfen sydd ynghlwm wrth brosiectau strategol mawr. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o ffyrdd o symleiddio hyn, i gefnogi cyfleoedd o ran y gadwyn gyflenwi i fentrau bach a chanolig yn benodol, sy'n farchnad darged allweddol ar gyfer y mathau hyn o gronfeydd?

Yn olaf, o ran gwerthuso, tynnodd Dr Guilford sylw at bwysigrwydd dysgu o brofiad a defnyddio gwerthuso i nodi dangosyddion a fydd yn hanfodol er mwyn llwyddo yn y dyfodol. Sylwaf fod y Gweinidog ar y pryd, mewn datganiad blaenorol, wedi dweud ei fod yn meddwl y byddai rheolau newydd y Comisiwn Ewropeaidd yn mynnu bod gwerthuso priodol yn digwydd ar lefel uwch nag yn y gorffennol. A ydych chi wedi cael gwybod yn union beth yw'r lefel honno a beth fydd goblygiadau hynny o ran y ffordd yr ydym yn asesu ein rhaglenni yng Nghymru?



I very much welcome Eluned Parrott's response and I recognise her key point: we need to get the mechanism right so that it will help us focus on the impact and the outcomes of our investment through the European structural funds. I also welcome her recognition—it was Grahame Guilford's key recommendation—that the economic prioritisation framework needs to underpin the delivery of the next stage of the programmes. We are approaching this now by having it centrally placed and more strategically focused in my portfolio. The opportunities to achieve the synergies that Grahame Guilford recommends, linked to the programme for government as a whole, mean that I believe that it is right for us to embrace and incorporate all the funds that are available to us. Of course, that involves working closely with my colleague Alun Davies, the Minister for Natural Resources and Food, in relation to the rural development plan and fisheries. That is something that I will be able to bring back to you in terms of responses to the consultations that have been taking place on the next rounds of structural funds, when I come back to the Chamber in July to look at these issues more carefully.

It is clear that we have to focus on improving guidance and advice offered to applicants. That is a key priority, not just to comply with EC requirements, but in looking at procurement for suppliers, so that programmes and projects can hit the ground running in early 2014. We need to get advice to project sponsors through that single point of contact during the project development and delivery. It is clear that the redesign of application appraisal processes for 2007-13 programmes has assisted us in terms of the way forward. It is again helpful to recognise the evidence from the Finance Committee report, which acknowledged that the two-stage collaborative development and appraisal process is helpful and relevant.

In terms of the partnership, it is important that we look not only to strong engagement with the private sector, but also the third sector. Indeed, that is delivered through the European partnership. The engagement that we have had is also important, particularly in terms of the discussions and consultation around the next round of structural funds. It is also important that we look at the strategic opportunities that we have, for example, in terms of portfolio management, working collaboratively and proactively with project sponsors, identifying and developing portfolios of projects. We need to ensure that interventions are aligned across the individual funds and that they are built around identified backbone projects, to deliver the programme objectives and targets. So, it will be more proactive, strategic and streamlined, but those synergies are critical. It will be about the impact and the outcomes of the next phase of structural funds in terms of delivery and impact, most importantly, on growth and jobs in Wales.

Rwyf yn croesawu ymateb Eluned Parrott yn fawr iawn, ac yn cydnabod ei phwynt allweddol: mae angen inni sicrhau bod y mecanwaith yn iawn er mwyn ein helpu i ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau ein buddsoddiadau drwy'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Rwyf hefyd yn croesawu ei chydabyddiaeth bod angen i'r fframwaith blaenoriaethu economaidd fod wrth wraidd cyflwyno cam nesaf y rhaglenni, sef argymhelliad allweddol Grahame Guilford. Rydym yn ymdrin â hynny yn awr drwy ei wneud yn rhan ganolog o'm portffolio, a rhoi mwy o ffocws strategol iddo. Yn sgil y cyfleoedd i gyflawni'r synergeddau y mae Grahame Guilford yn eu hargymell, sy'n gysylltiedig â'r rhaglen lywodraethu yn ei chyfanrwydd, credaf ei bod yn iawn inni gofleidio ac ymgorffori'r holl gronfeydd sydd ar gael inni. Wrth gwrs, mae hynny'n golygu gweithio'n agos â'm cyd-Aelod Alun Davies, y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, o ran y cynllun datblygu gwledig a physgodfeydd. Mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn gallu rhoi gwybod ichi amdano, o ran yr ymatebion i'r ymgynghoriadau sydd wedi bod yn digwydd ar rowndiau nesaf y cronfeydd strwythurol, pan ddof yn ôl i'r Siambr yn mis Gorffennaf i edrych ar y materion hyn yn fwy gofalus.

Mae'n amlwg bod yn rhaid inni ganolbwyntio ar wella'r arweiniad a'r cyngor a roddir i ymgeiswyr. Mae hynny'n flaenoriaeth allweddol, nid dim ond er mwyn cydymffurfio â gofynion y CE, ond o ran edrych ar gaffael i gyflenwyr, fel y gall rhaglenni a phrosiectau ddechrau gweithio'n gynnar yn 2014. Mae angen inni sicrhau bod noddwyr prosiectau'n cael cyngor drwy'r un pwynt cyswllt hwnnw wrth ddatblygu a chyflwyno'r prosiect. Mae'n amlwg bod ailgynllunio prosesau gwerthuso ceisiadau ar gyfer rhaglenni 2007-13 wedi bod o gymorth inni o ran y ffordd ymlaen. Mae'n ddefnyddiol unwaith eto cydnabod y dystiolaeth yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid, a oedd yn cydnabod bod y broses o ddatblygu a gwerthuso ar y cyd mewn dau gam yn fuddiol ac yn berthnasol.

O ran y bartneriaeth, mae'n bwysig ein bod yn edrych nid yn unig ar ymgysylltiad cryf â'r sector preifat, ond hefyd â'r trydydd sector. Yn wir, mae hynny'n digwydd drwy'r bartneriaeth Ewropeaidd. Mae'r ymgysylltu yr ydym wedi'i gael hefyd yn bwysig, yn enwedig o ran y trafodaethau a'r ymgynghori ynghylch cylch nesaf y cronfeydd strwythurol. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn edrych ar y cyfleoedd strategol sydd gennym, er enghraifft, o ran rheoli portffolios, cydweithio'n rhagweithiol â noddwyr prosiectau, a nodi a datblygu portffolios prosiectau. Mae angen inni sicrhau bod ymyriadau ar draws y cronfeydd unigol yn gyson a'u bod yn cael eu hadeiladu o amgylch prosiectau meingefn a nodwyd, i gyflawni amcanion a thargedau'r rhaglen. Felly, bydd yn fwy rhagweithiol, yn fwy strategol ac yn fwy syml, ond mae'r synergeddau hyn yn hollbwysig. Bydd yn ymwneud ag effaith a chanlyniadau cam nesaf y cronfeydd strwythurol o ran cyflwyno a'r effaith, yn anad dim, ar dwf a swyddi yng Nghymru.

Mick Antoniw is next. One question only, Mick, please.

Mick Antoniw sydd nesaf. Un cwestiwn yn unig, Mick, os gwelwch yn dda.

16:00

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I want to recognise the £3.4 billion that Wales has received over the last 12 years from the fund and the importance of the work being done by Derek Vaughan MEP in securing Wales's position at a time when, perhaps, the UK is not doing so.

With regard to the synergy and the leverage that it has raised, one of the areas that it seems to me will fall exactly within the descriptions being asked for is the metro concept, where you talk about borrowing structural funding and leveraging electrification moneys and local government moneys. Is it your view that this is exactly the sort of project that might fit within the new concept of structural funding for the future, with all the new criteria, particularly those identified within the report?

Yn gyntaf, rwyf am gydnabod y £3.4 biliwn y mae Cymru wedi'i dderbyn o'r gronfa dros y 12 mlynedd diwethaf a phwysigrwydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Derek Vaughan ASE i ddiogelu sefyllfa Cymru ar adeg pan nad yw'r DU, o bosibl, yn gwneud hynny.

O ran y synergedd a'r trosoledd y mae wedi'u creu, mae'n ymddangos i mi mai un o'r meysydd a fydd yn cyd-fynd yn union â'r disgrifiadau y gofynnir amdanynt yw'r cysyniad metro, lle rydych yn sôn am fenthycia arian strwythurol a throsoli arian trydaneiddio ac arian llywodraeth leol. Yn eich barn chi, ai dyma'n union y math o brosiect a allai gyd-fynd â'r cysyniad newydd o gyllid strwythurol at y dyfodol, gyda'r holl feini prawf newydd, yn enwedig y rhai a nodwyd yn yr adroddiad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:01

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have already mentioned the important recommendation in terms of the backbone projects that Grahame Guilford proposes: an overall portfolio of EU-funded projects that can address those emerging strategic and economic opportunities and circumstances. I would think that the project that you identify could, indeed, qualify for such a proposal.

Rwyf eisoes wedi sôn am yr argymhelliad pwysig o ran y prosiectau meingefn y mae Grahame Guilford yn eu cynnig: portffolio cyffredinol o brosiectau a ariennir gan yr UE a all fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r amgylchiadau economaidd a strategol hynny sy'n dod i'r amlwg. Credaf y gallai'r prosiect yr ydych yn cyfeirio ato, yn wir, fod yn gymwys ar gyfer cynnig o'r fath.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:01

**Datganiad: Twf Swyddi Cymru—  
Flwyddyn yn Ddiweddarach**

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I launched Jobs Growth Wales just over a year ago to support unemployed young people aged 16 to 24 into paid employment for a period of six months. The programme is an important part of this Government's response to the worrying level of youth unemployment that exists across the UK, and many other countries, and is blighting the lives of young people in Wales. We aim to create 12,000 job opportunities for young people over three years. The programme is working.

In April this year, Jobs Growth Wales reached its first birthday and exceeded its target by creating 6,000 additional jobs for young people across Wales and assisting 4,042 unemployed young people into work. I am sure that you will agree that that demonstrates excellent progress for a new programme and indicates the high demand from employers and young people, which, I am glad to say, is continuing into year two. Already in this second year, an additional 859 young people have entered a job opportunity through Jobs Growth Wales.

So, that's over 4,900 young people who have entered a job opportunity so far and well over 6,000 jobs created. To celebrate the first year of the programme, I visited a number of employers to experience at first hand the impact that Jobs Growth Wales is having on young people's lives. Vista Retail Services has employed six new staff through Jobs Growth Wales. One participant told me how Jobs Growth Wales had given her a major opportunity after several months of unemployment. The participant said,

'It's opened up an exciting new career opportunity for me.'

**Statement: Jobs Growth Wales—  
One Year In**

Lansiais Twf Swyddi Cymru ychydig dros flwyddyn yn ôl i gefnogi pobl ifanc ddi-waith rhwng 16 a 24 oed i gyflogaeth am dâl am gyfnod o chwe mis. Mae'r rhaglen yn rhan bwysig o ymateb y Llywodraeth hon i'r lefel bryderus o ddiweithdra ymysg ieuencid sy'n bodoli ar draws y DU, a llawer o wledydd eraill, ac yn difetha bywydau pobl ifanc yng Nghymru. Ein nod yw creu 12,000 o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc dros dair blynedd. Mae'r rhaglen yn gweithio.

Yn mis Ebrill eleni, cyrhaeddodd Twf Swyddi Cymru ei phen-blwydd cyntaf a rhagori ar ei tharged drwy greu 6,000 o swyddi ychwanegol i bobl ifanc ar draws Cymru a chynorthwyo 4,042 o bobl ifanc ddi-waith i gael gwaith. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod hynny'n dangos cynnydd ardderchog ar gyfer rhaglen newydd ac yn dangos y galw mawr gan gyflogwyr a phobl ifanc, sydd, yr wyf yn falch o ddweud, yn parhau i flwyddyn dau. Eisoes yn yr ail flwyddyn hon, mae 859 o bobl ifanc eraill wedi cael cyfle i gael swydd drwy Twf Swyddi Cymru.

Felly, dyna dros 4,900 o bobl ifanc sydd wedi cael cyfle i gael swydd hyd yn hyn ac mae ymhell dros 6,000 o swyddi wedi'u creu. I ddathlu blwyddyn gyntaf y rhaglen, ymwelais â nifer o gyflogwyr i brofi drosof fy hun yr effaith y mae Twf Swyddi Cymru yn ei chael ar fywydau pobl ifanc. Mae Vista Retail Services wedi cyflogi chwe aelod o staff newydd drwy Twf Swyddi Cymru. Dywedodd un cyfranogwr wrthyf sut yr oedd Twf Swyddi Cymru wedi rhoi gwir gyfle iddi ar ôl sawl mis o ddiweithdra. Dywedodd y cyfranogwr:

Mae wedi agor cyfle i mi gael gyrfa newydd gyffrous

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Jobs Growth Wales has helped Vista to deliver major new contracts. The employer said,

'There was a lot of extra work generated, which our more experienced staff dealt with, while the new recruits were on hand to support them. It has been a win-win for both parties.'

In return, they found new people with valuable skills and I am pleased to say that Vista has so far offered apprenticeship positions to four young people who have completed the six-month Jobs Growth Wales opportunity.

The next employer I met was Ludlow Street Healthcare, which has employed three young people. These individuals have also successfully secured permanent employment with healthcare. I received very positive feedback during my visit from the participants and the employer. The employer said,

'The enthusiasm, skills and use of initiative that all of the Jobs Growth Wales candidates have displayed has really helped us. We are delighted with their contributions.'

I am due to meet more employers and young people over the coming months and look forward to hearing from those who have been engaged and have benefited from the programme. I also receive regular updates on how Jobs Growth Wales has made a real difference to young people's lives. A north Wales print business has given a young graduate a career start. The employer has been really impressed by the young person, saying,

'the individual has proved a big success at the business—she fits the bill perfectly. She has rapidly built up her design and print skills and the firm decided to offer her a permanent post at the end of the six-month period.'

Aberystwyth University Students' Union has employed three young people. They have completely revamped its online communications and, as a result, they have almost tripled visitor numbers to the website in just two months. One participant feared that she would have to move away to find work, but is now hopeful that she can build a career in west Wales. As you can see, Jobs Growth Wales not only provides a valuable career opportunity, it enables young people to gain the essential skills that employers are looking for and helps companies to grow.

One of the measures of success will be how many opportunities will be sustained beyond the six-month period. Early indications are looking very promising, with 79% of young people who have completed their six-month opportunity sustaining employment, and some progressing into an apprenticeship. These data are based on the first 837 young people who completed the six-month opportunity.

Mae Twf Swyddi Cymru wedi helpu Vista i gyflawni contractau mawr newydd. Dywedodd y cyflogwr:

Cynhyrchwyd llawer o waith ychwanegol, yr oedd ein staff mwy profiadol yn ymdrin ag ef, tra bod y recriwtiaid newydd wrth law i'w cefnogi. Mae wedi bod yn sefyllfa lle mae pawb yn ennill o'r ddwy ochr.

O'r ochr arall, daethant o hyd i bobl newydd â chanddynt sgiliau gwerthfawr, ac rwy'n falch o ddweud bod Vista hyd yn hyn wedi cynnig prentisiaeth i bedwar o bobl ifanc sydd wedi cwblhau cyfle chwe mis Twf Swyddi Cymru.

Y cyflogwr nesaf y cwrddais ag ef oedd Ludlow Street Healthcare, sydd wedi cyflogi tri o bobl ifanc. Mae'r unigolion hyn hefyd wedi llwyddo i gael gwaith parhaol gyda gofal iechyd. Cefais adborth cadarnhaol iawn yn ystod fy ymweliad gan y cyfranogwyr a'r cyflogwr. Dywedodd y cyflogwr:

Mae brwdfrydedd, sgiliau a'r defnydd o fenter y mae holl ymgeiswyr Swyddi Twf Cymru wedi ei arddangos wedi ein helpu'n fawr iawn. Rydym wrth ein boddau gyda'u cyfraniadau.

Rwyf i fod i gyfarfod mwy o gyflogwyr a phobl ifanc dros y misoedd nesaf ac rwy'n edrych ymlaen at glywed gan y rhai sydd wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen ac wedi cael budd ohoni. Rwyf hefyd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar sut mae Twf Swyddi Cymru wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc. Mae busnes argraffu yng ngorlledd Cymru wedi rhoi cychwyn mewn gyrfa i berson ifanc sydd newydd raddio. Mae'r person ifanc hwn wedi cael argraff dda iawn ar y cyflogwr, a ddywedodd:

mae'r unigolyn wedi bod yn llwyddiant mawr yn y busnes—mae hi'n gweddu'n berffaith. Mae hi wedi adeiladu ei sgiliau dylunio ac argraffu yn gyflym a phenderfynodd y cwmni gynnig swydd barhaol ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis iddi.

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth wedi cyflogi tri o bobl ifanc. Maent wedi ailwampio ei gyfathrebu ar-lein yn gyfan gwbl ac, o ganlyniad, maent bron wedi treblu nifer yr ymwelwyr â'r wefan mewn dim ond dau fis. Roedd un cyfranogwr yn ofni y byddai'n rhaid iddi symud i ffwrdd i ddod o hyd i waith, ond erbyn hyn, mae'n gobeithio y gall ddatblygu gyrfa yng ngorllewin Cymru. Fel y gallwch weld, mae Twf Swyddi Cymru, nid yn unig yn cynnig cyfle gwerthfawr i gael gyrfa, ond hefyd yn galluogi pobl ifanc i gael y sgiliau hanfodol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt ac sy'n helpu cwmnïau i dyfu.

Un o fesurau llwyddiant fydd sut y bydd llawer o gyfleoedd yn cael eu cynnal y tu hwnt i'r cyfnod o chwe mis. Mae'r arwyddion cynnar yn edrych yn addawol iawn, gyda 79% o'r bobl ifanc sydd wedi cwblhau eu cyfle chwe mis yn aros mewn cyflogaeth, ac mae rhai ohonynt yn symud ymlaen i brentisiaeth. Mae'r data yn seiliedig ar yr 837 o bobl ifanc cyntaf a gwblhaodd y cyfle chwe mis.

Jobs Growth Wales can be only a part of the solution, so we are working hard to ensure that the programme fits within the wider suite of support offered by the Welsh Government to create a route-way into work for young people. We are prioritising progression onto Jobs Growth Wales from our pre-employment programmes, such as traineeships. In addition, individuals can progress from Jobs Growth Wales into an apprenticeship, where they could gain a further 12-month package of support through our Young Recruits programme, demonstrating our continued commitment to supporting young people to gain the relevant skills and experience that can help them to progress into sustained employment.

I am sure that you will agree that this is very positive and very encouraging for continued success over the next two years. However, we are not resting on our laurels. Building on the success of year one, in year two we will continue to support the creation of jobs in the private sector and the linked opportunities to develop these into sustained employment. This includes microbusinesses, where we have seen a large number of small companies create real opportunities for young people to gain valuable work experience, and for the company to recognise the benefits of employing enthusiastic young people. We will work strategically with the wider public sector to support longer term workforce planning and approaches to tackling youth unemployment at a local level. We will continue to support graduates to gain their first job opportunity. We will also continue to support young people who require a job opportunity in a more supported environment within the third sector. We are currently undertaking a procurement exercise for delivering this strand for years two and three. We will continue to support young people to set up their own businesses through a bursary delivered by the department for economy, science and transport.

I am proud of what we have achieved with Jobs Growth Wales. I am confident that we are well on course to achieving the programme's target of creating 12,000 job opportunities over three years. Our absolute priority in these tough times is to stand up for the people of Wales, creating jobs and enabling growth. The success of this programme so far proves that we are doing just that.

Gall Twf Swyddi Cymru ddim ond bod yn rhan o'r ateb, felly rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod y rhaglen yn gweddu o fewn y gyfres ehangach o gefnogaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru i greu llwybr i mewn i waith ar gyfer pobl ifanc. Rydym yn blaenoriaethu dilyniant i Twf Swyddi Cymru o'n rhaglenni cyn-gyflogaeth, megis swyddi dan hyfforddiant. Yn ogystal, gall unigolion symud ymlaen o Twf Swyddi Cymru i mewn i brentisiaeth, lle gallent gael pecyn pellach o 12 mis o gymorth trwy ein rhaglen Recriwtiaid Ifanc, sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i gefnogi pobl ifanc i gael y sgiliau a'r profiad perthnasol a all eu helpu i fynd ymlaen i gyflogaeth barhaus.

Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod hyn yn gadarnhaol iawn ac yn galonogol iawn ar gyfer llwyddiant parhaus dros y ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, nid ydym yn gorffwys ar ein bri. Gan adeiladu ar llwyddiant y flwyddyn gyntaf, yn yr ail flwyddyn byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o greu swyddi yn y sector preifat a'r cyfleoedd cysylltiedig a datblygu'r rhain i gyflogaeth barhaus. Mae hyn yn cynnwys microfusnesau, lle rydym wedi gweld nifer fawr o gwmnïau bach yn creu cyfleoedd go iawn i bobl ifanc gael profiad gwaith gwerthfawr, a'r cwmni yn cael gweld manteision cyflogi pobl ifanc frwdfrydig. Byddwn yn gweithio'n strategol gyda'r sector cyhoeddus ehangach i gefnogi cynllunio gweithlu yn y tymor hirach a dulliau i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc ar lefel leol. Byddwn yn parhau i gefnogi graddedigion i gael cyfle i gael eu swydd gyntaf. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi pobl ifanc sydd angen cyfle i gael swydd mewn amgylchedd â mwy o gymorth o fewn y trydydd sector. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymarfer caffael ar gyfer darparu'r elfen hon ar gyfer blynyddoedd dau a thri. Byddwn yn parhau i gefnogi pobl ifanc i sefydlu eu busnesau eu hunain drwy fwsariaeth a ddarperir gan adran yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth.

Rwy'n falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda Twf Swyddi Cymru. Rwy'n hyderus ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni targed y rhaglen o greu 12,000 o swyddi dros dair blynedd. Ein blaenoriaeth bendant yn y cyfnod anodd hwn yw sefyll dros bobl Cymru, gan greu swyddi a galluogi twf. Mae llwyddiant y rhaglen hon hyd yn hyn yn profi ein bod yn gwneud yn union hynny.

16:09

## **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Minister, for your statement. I very much welcome it. The Welsh Conservatives are delighted that the programme is working, and we hope that that positive trend continues. The figures quoted are encouraging, but I have a few questions about them. First, you mentioned that the early indications are looking very promising, with 79% of young people who have completed their six-month opportunity sustaining employment, and some progressing into an apprenticeship. You stated that these data are based on the first 837 young people who completed the six-month opportunity. Deputy Minister, while I agree that 79% of young people sustaining employment is extremely welcome, the dataset is only 837 individuals and I hope that this level is achieved as a minimum over the rest of the data. Will you promise to publish a running update for a more comprehensive picture on this?

Diolch yn fawr iawn i chi, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Rwy'n ei groesawu'n fawr iawn. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn falch bod y rhaglen yn gweithio, ac rydym yn gobeithio y bydd y duedd gadarnhaol yn parhau. Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn galonogol, ond mae gennyf ychydig o gwestiynau amdanynt. Yn gyntaf, soniasoch fod yr arwyddion cynnar yn edrych yn addawol iawn, gyda 79% o bobl ifanc sydd wedi cwblhau eu cyfle chwe mis yn aros mewn cyflogaeth, a rhai yn symud ymlaen i brentisiaeth. Dywedasoch fod y data hwn yn seiliedig ar yr 837 cyntaf o bobl ifanc a gwblhaodd y cyfle chwe mis. Ddirprwy Weinidog, er fy mod yn cytuno bod 79% o bobl ifanc yn aros mewn cyflogaeth yn dderbyniol iawn, 837 o unigolion yn unig sy'n cynrychioli'r data, ac rwy'n gobeithio y bydd y lefel yn cael ei chyflawni fel lleiafswm dros weddill y data. A wnech chi addo cyhoeddi diweddariad rheolaidd i roi darlun mwy cynhwysfawr ar hyn?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Secondly, you have listed the companies visited. Each one is impressive in its own right and reflects well on those who have secured permanent employment. How many have entered long-term employment since leaving their six-month placements? How is the Welsh Government supporting those who have left their placements and are unable to find long-term employment?

Thirdly, Deputy Minister, you said that individuals can progress from Jobs Growth Wales into an apprenticeship, where they could gain a further 12-month package of support through the Young Recruits programme, demonstrating your continued commitment, you say, to supporting young people to gain the relevant skills and experience. How is the Welsh Government promoting awareness of the scheme, ensuring that all young people have an opportunity for a placement? How is the Welsh Government boosting the economy to support long-term sustainable jobs, with the claimant count rate in Wales continually above the UK average since 1997? How can you demonstrate more positively what the Welsh Government is saying, that is, that it is helping people into employment?

16:11

### Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Byron Davies very much for that statement and questions. I appreciate his welcome for my statement and his general support for the programme. You ask me whether we can ensure that we maintain, as a minimum, a 79% sustainability rate. It would be very difficult for me to say that we will guarantee that that figure will remain throughout the remaining two years of the programme because, after all, it does ultimately depend on the state of the local economy. We cannot compel private sector employers, in particular, to recruit young people, but they are certainly lining up to work with us. That is the clear message.

This scheme is far exceeding any other similar schemes in any other part of the UK, and I think that we should welcome that. We will be working hard to try to maintain the rate of sustainable employment at the highest level possible, but I will not be a hostage to fortune and say that it will be this or that figure. However, we are pleased at the current success rate. You rightly point out that that is not 100% and that we will never achieve 100%. There will always be some young people who, for some reason, do not complete their six-month placement. That could be for a variety of reasons: they might decide that the opportunity is not for them; it might not work out; there could be illness; or, someone could move away. There could be a variety of reasons. I am sitting down now with my officials to consider the scheme in the light of the experience of the first year, and that is one of the issues that I will be exploring: how we can assist those young people who, for whatever reason, do not have a successful outcome from Jobs Growth Wales. We will look to see what reasons we can find, and how we can alter and improve the programme even further for the rest of the second and third years, to try to minimise the number of people that are not successful.

Yn ail, rydych wedi rhestru'r cwmnïau yr ymwelwyd â hwy. Mae pob un yn drawiadol yn ei rinwedd ei hun ac yn adlewyrchu'n dda ar y rhai sydd wedi cael gwaith parhaol. Faint sydd wedi mynd i gyflogaeth tymor hir ers gadael eu lleoliadau chwe mis? Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rheiny sydd wedi gadael eu lleoliadau ac yn methu â dod o hyd i waith yn y tymor hir?

Yn drydydd, Ddirprwy Weinidog, dywedasoeh y gall unigolion symud ymlaen o Twf Swyddi Cymru i mewn i brentisiaeth, lle gallent gael pecyn pellach o gymorth 12 mis drwy'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc, gan ddangos eich ymrwymiad parhaus, meddech chi, i gefnogi pobl ifanc i ennill y sgiliau a'r profiad perthnasol. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cynllun, gan sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle i gael lleoliad? Sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi hwb i'r economi i gefnogi swyddi cynaliadwy hirdymor, gyda chyfradd cyfrif hawlwyr yng Nghymru yn barhaus yn uwch na chyfartaledd y DU ers 1997? Sut allwch chi ddangos yn fwy cadarnhaol yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud, hynny yw, ei bod yn helpu pobl i mewn i gyflogaeth?

Diolch yn fawr iawn Byron Davies am y datganiad a'r cwestiynau. Rwy'n gwerthfawrogi ei groeso i fy natganiad a'i gefnogaeth gyffredinol i'r rhaglen. Rydych yn gofyn i mi a allwn ni sicrhau ein bod yn cynnal, fel isafswm, cyfradd cynaliadwyedd o 79%. Byddai'n anodd iawn i mi i ddweud y byddwn yn gwarantu y bydd y ffigur hwnnw'n parhau trwy gydol y ddwy flynedd sy'n weddill o'r rhaglen oherwydd, wedi'r cyfan, yn y pen draw mae'n dibynnu ar gyflwr yr economi leol. Ni allwn orfodi cyflogwyr yn y sector preifat, yn arbennig, i recriwtio pobl ifanc, ond maent yn sicr yn tyrru i weithio gyda ni. Dyna'r neges glir.

Mae'r cynllun hwn yn rhagori ar unrhyw gynlluniau tebyg eraill mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, ac rwy'n credu y dylem groesawu hynny. Byddwn yn gweithio'n galed i geisio cynnal y gyfradd gyflogaeth gynaliadwy ar y lefel uchaf bosibl, ond ni fyddaf yn wstl ffawd a dweud y bydd y ffigur fel hyn neu fel arall. Fodd bynnag, rydym yn falch ar gyfradd y llwyddiant ar hyn o bryd. Rydych yn iawn i gyfeirio at y ffaith nad yw'n 100% ac na fyddwn fyth yn cyrraedd 100%. Bydd bob amser rhai pobl ifanc nad ydynt, am ryw reswm, yn cwblhau eu lleoliad chwe mis. Gallai hynny fod am amrywiaeth o resymau: efallai y byddant yn penderfynu nad yw'r cyfle'n iawn iddynt hwy; efallai nad yw'r sefyllfa'n gweithio; gallai fod salwch; neu, gallai rhywun symud i ffwrdd. Gallai fod amryw o resymau. Rwyf yn eistedd i lawr ar hyn o bryd gyda fy swyddogion i ystyried y cynllun yng ngoleuni profiad y flwyddyn gyntaf, a dyna un o'r materion y byddaf yn edrych arnynt: sut y gallwn gynorthwyo'r bobl ifanc hynny nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn cael canlyniad llwyddiannus gan Twf Swyddi Cymru. Byddwn yn edrych i weld pa resymau y gallwn ddod o hyd iddynt, a sut y gallwn newid a gwella'r rhaglen hyd yn oed ymhellach ar gyfer gweddill yr ail a'r drydedd flwyddyn, i geisio lleihau nifer y bobl nad ydynt yn llwyddiannus.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

By the way, we will be publishing figures on the success rate. There will be management information made available. There is also a full evaluation of the first year under way, which will be published later this year.

As I said, the Young Recruits programme is also a successful scheme. As you will recall, following the agreement with Plaid Cymru, we announced an additional £20 million for each of the next two financial years, which includes an element of further support for the Young Recruits programme. Certainly, the indications are that this is welcomed by businesses, particularly smaller businesses that may find it difficult to take on young people, but the necessary subsidies are attractive. The indications that we have are that those schemes are welcomed.

Gyda llaw, byddwn yn cyhoeddi ffigurau ar gyfradd y llwyddiant. Bydd gwybodaeth reoli ar gael. Mae hefyd gwerthusiad llawn o'r flwyddyn gyntaf ar y gweill, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Fel y dywedais, mae'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc yn gynllun llwyddiannus hefyd. Fel y byddwch yn cofio, yn dilyn cytundeb â Phlaid Cymru, rydym wedi cyhoeddi £20 miliwn ychwanegol ar gyfer pob un o'r ddwy flynedd ariannol nesaf, sy'n cynnwys elfen o gymorth pellach ar gyfer y rhaglen Recriwtiaid Ifanc. Yn sicr, mae'r arwyddion yn awgrymu bod hyn yn cael ei groesawu gan fusnesau, yn enwedig busnesau bach a all ei chael hi'n anodd cyflogi pobl ifanc, ond mae'r cymorthdaliadau angenrheidiol yn ddeniadol. Yr arwyddion sydd gennym yw bod y cynlluniau hynny yn cael eu croesawu.

16:15

## **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Deputy Minister for his statement and update today. Plaid Cymru, like the Welsh Government, believes that we need a scheme like this at this time to act as interface with a very difficult jobs market, particularly in relation to young people with few skills in Wales and the confidence of employers to take on people in that jobs market, as the economy still bumps along. Recession or not, the economy is bumping along—that is for certain. We view this programme as something that needs to be part of a wider context of dealing with the fact that Wales has the second-highest unemployment rate in the UK, that the number of NEETs in Wales is higher, unfortunately, than in the other constituent parts of the UK, and that the level of qualifications held by working-age adults in Wales is the second lowest in the UK. There is a real difficulty with skills, training, qualifications and access to the jobs market. We need to view Jobs Growth Wales through that prism and through the prism of the plan that Plaid Cymru produced today, for example, Plan C for economic recovery and growth. Also, as you just mentioned, Deputy Minister, we need this to be a gateway to success for young people. Apprenticeships are a particularly positive example of that, and there is an agreement between my party and your party to grow the ability for and access to apprenticeships in Wales.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad a'i ddiweddiariad heddiw. Mae Plaid Cymru, fel Llywodraeth Cymru, yn credu bod arnom angen cynllun o'r fath ar hyn o bryd i weithredu fel rhyngwyneb gyda marchnad swyddi anodd iawn, yn enwedig o ran pobl ifanc sydd nad oes ganddynt fawr o sgiliau yng Nghymru, a hyder cyflogwyr i gyflogi pobl yn y farchnad swyddi honno, wrth i'r economi ddal i ymlusgo yn ei blaen. Dirwasgiad ai peidio, mae'r economi yn ymlusgo ymlaen—mae hynny'n sicr. Rydym yn ystyried y rhaglen hon fel rhywbeth y mae angen iddi fod yn rhan o'r cyd-destun ehangach o ymdrin â'r ffaith mai Cymru sydd â'r gyfradd ddiweithdra ail-uchaf yn y DU, bod nifer y bobl ifanc NEET yng Nghymru yn uwch, yn anffodus, nag yn rhannau cyfansoddol eraill y Deyrnas Unedig, a bod lefel y cymwysterau sydd gan oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yr ail isaf yn y DU. Mae gwir anhawster gyda sgiliau, hyfforddiant, cymwysterau a mynediad i'r farchnad swyddi. Mae angen i ni edrych ar Twf Swyddi Cymru drwy'r prism hwnnw a thrwy brism y cynllun a gynhyrchodd Plaid Cymru heddiw, er enghraifft, Cynllun C ar gyfer adferiad economaidd a thwff. Hefyd, fel yr ydych newydd ei grybwyll, Ddirprwy Weinidog, mae angen i hyn fod yn borth i lwyddiant ar gyfer pobl ifanc. Mae prentisiaethau yn enghraifft arbennig o gadarnhaol o hynny, ac mae cytundeb rhwng fy mhlaid i a'ch plaid chi i dyfu'r gallu ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru a'r mynediad atynt.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Deputy Minister, do you agree that, for Jobs Growth Wales to be true to its title, it needs to lead, at the end of the day, to genuine jobs and to economic growth? That is why we will be very keen to see how the programme delivers up to, and in excess of, the current 79% target, which is something that you have been able to state today. I understand that you do not want to be a hostage to fortune. However, if the programme slips significantly lower than that, it is not delivering on one of its key objectives, which is to get our young people into jobs. I would like to ask a few questions around some of the figures that you have given us today. I accept completely that you have created more opportunities than you expected, and that you have filled at least the number of places that you thought that you would fill in the first year. However, opportunities and completion are two different things, and I would like to ask how many young people have now completed the six months of the Jobs Growth Wales programme. From reading your statement carefully, I think that the answer is 837. What I would particularly like to know, however, is how many young people have failed to complete the six months. I have been informed that 375 people left the Jobs Growth Wales opportunity prior to completion of their full six months. Of those, only about a third had a positive outcome. That suggests that a significant number of young people—some 300, perhaps, of the thousands who entered the scheme—are leaving, as opposed to succeeding. A ratio of 3:1, or even 2:1, would not be success for Jobs Growth Wales. Could you please confirm how many people are leaving before completing their six months? Could you also confirm why they are leaving? It does not seem to be the case that many of them are leaving for jobs, as such.

Could you also say a little more about the gender balance in the places created in Jobs Growth Wales and in the uptake by young people? You will be aware that both the Bevan Foundation and Chwarae Teg have produced recent reports about the difficulties that women, and young women in particular, have in accessing the jobs market at the moment. That is with regard to their skills, in particular, and how they fit into that. We would like an assurance that Jobs Growth Wales, as a scheme, is aware of these issues and is actively encouraging girls and young women to come into Jobs Growth Wales and to take advantage of it to increase and enrich their skills, as part of meeting those requirements. I also want to ask about the four strands of Jobs Growth Wales. You have been quite specific today about the main private sector strand—about the creation of several thousand opportunities and the uptake of up to 4,000. I am not sure what is happening with the third sector at the moment. The website of the Wales Council for Voluntary Action, which is running the third-sector strand, says that the WCVA

‘can no longer process job vacancies through the Jobs Growth Wales programme. Opportunities to recruit staff and access funding through WCVA may become available again later this year’.

Ddirprwy Weinidog, a ydych yn cytuno, er mwyn i Twf Swyddi Cymru fod yn driw i'w deitl, mae angen iddo arwain, ar ddiwedd y dydd, at swyddi go iawn ac at dwf economaidd? Dyna pam y byddwn yn awyddus iawn i weld sut y mae'r rhaglen yn darparu hyd at, ac yn uwch na'r targed cyfredol o 79%, sydd yn rhywbeth yr ydych wedi gallu ei ddweud heddiw. Rwy'n deall nad ydych am fod yn wystl ffawd. Fodd bynnag, os bydd y rhaglen yn llithro'n sylweddol is na hynny, nid yw'n cyflawni un o'i hamcanion allweddol, sef cael ein pobl ifanc i mewn i swyddi. Hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau ynghylch rhai o'r ffigurau yr ydych wedi'u rhoi i ni heddiw. Rwy'n derbyn yn llwyr eich bod wedi creu mwy o gyfleoedd nag oeddech chi'n ei ddisgwyl, ac eich bod wedi llenwi o leiaf y nifer o leoedd yr oeddech yn meddwl y bydddech yn eu llenwi yn y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, mae cyfleoedd a chwblhau yn ddau beth gwahanol, a hoffwn ofyn faint o bobl ifanc sydd wedi cwblhau'r chwe mis o raglen Twf Swyddi Cymru erbyn hyn. O ddarllen eich datganiad yn ofalus, rwy'n meddwl mai'r ateb yw 837. Yr hyn yr hoffwn ei wybod yn benodol, fodd bynnag, yw faint o bobl ifanc sydd wedi methu â chwblhau'r chwe mis. Rwyf wedi cael gwybod bod 375 o bobl wedi gadael y cyfle Twf Swyddi Cymru cyn cwblhau eu chwe mis llawn. O'r rheini, dim ond tua thraean gafodd ganlyniad cadarnhaol. Mae hynny'n awgrymu bod nifer sylweddol o bobl ifanc—tua 300, efallai, o'r miloedd a aeth i mewn i'r cynllun—yn gadael, yn hytrach na llwyddo. Ni fyddai cymhareb o 3:1, neu 2:1 hyd yn oed, yn llwyddiant ar gyfer Twf Swyddi Cymru. A fydddechystal â chadarnhau faint o bobl sy'n gadael cyn cwblhau eu chwe mis? A allech hefyd gadarnhau pam mae nhw'n gadael? Nid yw'n ymddangos i fod yn wir bod llawer ohonynt yn gadael i fynd i swyddi, fel y cyfryw.

Allech chi hefyd ddweud ychydig mwy am y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y lleoedd a grëwyd yn Twf Swyddi Cymru a'r gyfran dderbyn gan bobl ifanc? Byddwch yn ymwybodol bod Sefydliad Bevan a Chwarae Teg wedi cynhyrchu adroddiadau diweddar am yr anawsterau y mae menywod, a merched ifanc yn arbennig, yn eu profi o ran cael mynediad i'r farchnad swyddi ar hyn o bryd. Mae hynny o ran eu sgiliau, yn arbennig, a sut y maent yn ffitio i mewn i hynny. Byddem yn hoffi cael sicrwydd bod Twf Swyddi Cymru, fel cynllun, yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn annog menywod a merched ifanc i ddod i mewn i Twf Swyddi Cymru, ac i gymryd mantais ohoni i gynyddu a chyfoethogi eu sgiliau, fel rhan o fodloni'r gofynion hynny. Rwyf hefyd am ofyn am bedair elfen Twf Swyddi Cymru. Rydych wedi bod yn eithaf penodol heddiw am brif elfen y sector preifat—am greu miloedd o gyfleoedd a'r gyfran dderbyn hyd at 4,000. Nid wyf yn siŵr beth sy'n digwydd gyda'r trydydd sector ar hyn o bryd. Mae gwefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sy'n rhedeg yr elfen trydydd sector, yn dweud na all y CGGC

brosesu swyddi gwag mwyach drwy raglen Twf Swyddi Cymru. Efallai y bydd cyfleoedd i recriwtio staff a chael mynediad at gyllid drwy CGGC ar gael eto yn ddiweddarach eleni.

From your statement today, I take it that a procurement exercise is going on. In that case, what is the time lag here? How are you going to ensure that the third sector, which provides a particularly valuable role in encouraging NEETs to come into Jobs Growth Wales, is up and running as soon as possible? Is that procurement based on an evaluation of the first year with WCVVA? Is it based on any evidence of performance, or lack thereof, by that organisation, and can you give us any indication today of how that third sector provision will be rolled out in future?

I have some final questions, if I may, Deputy Presiding Officer. You mentioned again the young entrepreneur bursary of £6,000 to support start-up ideas. It is a very good idea, but I would like to know how many people have actually taken it up, please. Similarly, you mentioned the support package for graduates as part of the GO Wales scheme: how many people have taken advantage of this? It is not stated in your statement, and we would like to know a little more about the details of that.

We will give you our support for the scheme, as we do see the need for soft schemes such as this to come between young people and the jobs market. However, we will also want to ensure that it does deliver and that it leads to genuine growth in the economy and genuine jobs, or apprenticeship opportunities or further training. That is the way that we will eventually measure your success in this, Deputy Minister, and not just by the number of places that you have created.

16:21

### **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Simon Thomas very much for what he has just said. I appreciate his welcome and support for the programme. Certainly, we acknowledge the difficult economic context in which this programme is running—that is, of course, why it was created and designed in the way it was, which very much draws the employer in. Before any employer is accepted into the Jobs Growth Wales programme, they have to produce a business plan that will show that, all things being equal, their business will expand as a result of the extra resource provided and that the young people will then be retained in those jobs. It is not a guarantee, because we cannot predict with certainty what the state of the economy will be, or, indeed, the success of their business.

With goodwill, however, as you can see, we have managed to secure a 79% success rate at this point. Again, I am not going to stand here and say that we can guarantee that that will be the percentage that will be retained in full employment from now until the end of the scheme; we cannot do that. We will work very hard, however, to make sure of a high success rate. We will keep our noses to the grindstone on that.

I agree with you that it certainly should be seen as a gateway to progression. In particular, we encourage participants to go on to apprenticeships, as well as into employment. Also, as I have tried to outline, these are genuinely new jobs; they are not substituting for other jobs or taking the place of other jobs. That is part of the business arrangement and agreement.

O'ch datganiad heddiw, rwy'n cymryd bod ymarfer caffael yn digwydd. Os felly, beth yw'r bwch amser yma? Sut ydych chi'n mynd i sicrhau bod y trydydd sector, sy'n cyflawni swyddogaeth arbennig o werthfawr o ran annog NEETs i ddod i Twf Swyddi Cymru, yn weithredol cyn gynted ag y bo modd? A yw'r caffael hwnnw'n seiliedig ar werthusiad y flwyddyn gyntaf gyda CGGC? A yw'n seiliedig ar unrhyw dystiolaeth o berfformiad, neu ddiffyg hynny, gan y sefydliad hwnnw, ac a allwch chi roi unrhyw syniad inni heddiw sut y bydd y ddarpariaeth trydydd sector yn cael ei chyflwyno yn y dyfodol?

Mae gennyf rai cwestiynau olaf, os caf, Ddirprwy Lywydd. Roeddech yn sôn eto am y bwrsari entrepreneur ifanc o £ 6,000 i gefnogi syniadau cychwyn busnes. Mae'n syniad da iawn, ond hoffwn wybod faint o bobl sydd wedi eu derbyn mewn gwirionedd, os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, rydych yn sôn am y pecyn cymorth i raddedigion fel rhan o gynllun GO Wales: faint o bobl sydd wedi manteisio ar hyn? Nid yw'n cael ei nodi yn eich datganiad, a byddem yn hoffi gwybod ychydig mwy am fanylion hynny.

Byddwn yn rhoi ein cefnogaeth i chi ar gyfer y cynllun, gan ein bod yn gweld yr angen am gynlluniau meddal fel hyn i ddod rhwng pobl ifanc a'r farchnad swyddi. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn awyddus i sicrhau ei fod yn cyflawni a'i fod yn arwain at dwf gwirioneddol yn yr economi a swyddi dilys, neu gyfleoedd am brentisiaeth neu hyfforddiant pellach. Dyna'r ffordd y byddwn yn y pen draw yn mesur eich llwyddiant yn hyn o beth, Ddirprwy Weinidog, ac nid dim ond yn ôl y nifer o leoedd yr ydych wedi'u creu.

Diolch i Simon Thomas yn fawr iawn am yr hyn y mae newydd ei ddweud. Rwy'n gwerthfawrogi ei groeso a'i gefnogaeth i'r rhaglen. Yn sicr, rydym yn cydnabod y cyddestun economaidd anodd y mae'r rhaglen hon yn rhedeg ynddo—dyna, wrth gwrs, pam y cafodd ei chreu a'i dylunio yn y modd y gwnaed hynny, sydd yn tynnu'r cyflogwr i mewn. Cyn i unrhyw gyflogwr gael ei dderbyn i raglen Twf Swyddi Cymru, mae'n rhaid iddynt lunio cynllun busnes a fydd yn dangos, a derbyn bod popeth arall yn gyfartal, y bydd eu busnes yn ehangu o ganlyniad i'r adnoddau ychwanegol a ddarperir ac wedyn bydd y bobl ifanc yn cael eu cadw yn y swyddi hynny. Ni ellir gwarantu hynny, oherwydd na allwn ragweld gyda sicrwydd beth fydd cyflwr yr economi, neu, yn wir, lwyddiant eu busnes.

Gydag ewyllys da, fodd bynnag, fel y gwelwch, rydym wedi llwyddo i sicrhau cyfradd llwyddiant o 79% ar hyn o bryd. Unwaith eto, nid wyf yn mynd i sefyll yma a dweud y gallwn warantu mai honno'n fydd y ganran a gedwir mewn cyflogaeth lawn o hyn tan ddiwedd y cynllun; ni allwn wneud hynny. Byddwn yn gweithio'n galed iawn, fodd bynnag, i wneud yn siŵr y bydd cyfradd llwyddiant uchel. Byddwn yn dyfalbarhau yn hynny o beth.

Rwy'n cytuno â chi y dylid yn sicr ei weld fel porth i ddilyniant. Yn benodol, rydym yn annog cyfranogwyr i fynd ymlaen i brentisiaethau, yn ogystal ag i gyflogaeth. Hefyd, fel yr wyf wedi ceisio amlinellu, mae'r rhain yn swyddi gwirioneddol newydd; nid ydynt yn swyddi yn lle swyddi eraill neu yn cymryd lle swyddi eraill. Mae hynny'n rhan o'r trefniant a'r cytundeb busnes.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



As for the figures, I have to remind people that the promise made for this programme was that 4,000 job opportunities would be created for each of the three years. We have done that; we have exceeded it. We have actually managed to get 4,000 young people into places, certainly in terms of the first year on a rolling programme basis. So, it built up over the months and it is now at a level that I think it is fair to say we find very pleasing, and we have exceeded our initial estimations. You are right: there are about 400 young people who did not complete in the first six months. I am sitting down with officials now, now that we are aware of that figure, to analyse why that is. I outlined some of the reasons earlier in my response to Byron Davies, but, clearly, we cannot be content with that. Overall, a far greater number are in post, and we trust that they will complete their six months, but we do need to understand for years 2 and 3 what caused those 400 young people, or thereabouts, to leave so that we can try to reduce the impact. We will always have some who will leave for a variety of reasons, but we want to keep that figure as low as possible, and we are certainly not ignoring that.

On the issue of gender balance, yes, I agree. In fact, I think that the majority of those I visited and met on the scheme were young women, although they were not selected for that reason. So, there is certainly no evidence of gender bias. If anybody here is aware of where that may be the case, I would be very pleased to have information on that and we will certainly look into it. However, we will link this in to the approach to apprenticeships. For example, on the importance of STEM subjects, earlier today, I went to GE Aviation in the Pontypridd constituency. I met about 50 girls, I think, from four comprehensive schools who had been invited to the company to learn a bit more about careers in engineering. Linking these things together is very important.

As regards your questions on the strands, the agreement for the third sector was 1,000 opportunities. It is true that, in the first year, that was down to the WCVA to manage. We are now moving away from that and will be tendering for individual third-sector organisations to contract with us. I can tell you that, during this current year, the WCVA has created and filled an additional 123 job opportunities to try to ensure that there will be no break in delivery while the new contract is being agreed. I will happily write to you with timelines on that. There have been 74 applications for the bursary strand, which provides £6,000 for those who qualify, and 68 of those have been approved.

O ran y ffigurau, mae'n rhaid i mi atgoffa pobl mai'r addewid a wnaed ar gyfer y rhaglen hon oedd y byddai 4,000 o gyfleoedd am swyddi yn cael eu creu ar gyfer pob un o'r tair blynedd. Rydym wedi gwneud hynny, rydym wedi rhagori arno. Rydym mewn gwirionedd wedi llwyddo i gael 4,000 o bobl ifanc i mewn i leoedd, yn sicr o ran y flwyddyn gyntaf ar sail rhaglen dreigl. Felly, mae wedi adeiladu dros y misoedd ac y mae erbyn hyn ar lefel yr wyf yn credu ei bod yn deg i ddweud y byddem yn ei hystyried fel bod yn dda iawn, ac rydym wedi rhagori ar ein hamcangyfrifon cychwynol. Rydych yn iawn: mae tua 400 o bobl ifanc na wnaethant gwblhau yn ystod y chwe mis cyntaf. Rwy'n eistedd i lawr gyda swyddogion ar hyn o bryd, nawr ein bod yn ymwybodol o'r ffigur hwnnw, i ddadansoddi pam mae hynny'n digwydd. Amlinellais rai o'r rhesymau yn gynharach yn fy ymateb i Byron Davies, ond, yn amlwg, ni allwn fod yn fodlon ar hynny. At ei gilydd, mae nifer llawer mwy ohonynt mewn swydd, a hyderwn y byddant yn cwblhau eu chwe mis, ond mae angen i ni ddeall ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 beth achosodd i'r 400 o bobl ifanc, neu oddeutu hynny, i adael er mwyn i ni geisio lleihau'r effaith. Byddwn bob amser yn cael rhai a fydd yn gadael am amryw o resymau, ond rydym am gadw'r ffigur mor isel ag y bo modd, ac yn sicr nid ydym yn anwybyddu hynny.

Ar y mater o gydbwysedd rhwng y rhywiâu, ydw, rwy'n cytuno. Yn wir, rwy'n credu bod y mwyafrif o'r rhai yr ymwelais ac y cwrddais â hwy ar y cynllun yn ferched ifanc, er nad dyna'r rheswm dros eu dewis. Felly, nid oes unrhyw dystiolaeth o ragfarn ar sail rhyw yn sicr. Os oes unrhyw un yma yn ymwybodol o ble y gallai hynny fod yn digwydd, byddwn yn falch iawn o gael gwybod am hynny a byddwn yn sicr yn edrych i mewn iddo. Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu hyn â'r ymagwedd ar brentisiaethau. Er enghraifft, ar bwysigrwydd pynciau STEM, yn gynharach heddiw, es i GE Aviation yn etholaeth Pontypridd. Cwrddais â thua 50 o ferched, rwy'n meddwl, o bedair ysgol gyfun a oedd wedi eu gwahodd i'r cwmni i ddysgu ychydig mwy am yrfaeodd ym maes peirianeg. Mae cysylltu'r pethau hyn gyda'i gilydd yn bwysig iawn.

O ran eich cwestiynau ar yr elfennau, y cytundeb ar gyfer y trydydd sector oedd 1,000 o gyfleoedd. Mae'n wir, yn y flwyddyn gyntaf, bod hynny'n fater i CGGC ei reoli. Rydym bellach yn symud i ffwrdd oddi wrth hynny a byddwn yn tendro ar gyfer sefydliadau trydydd sector unigol i gontractio gyda ni. Gallaf ddweud wrthyh fod y CGGC yn ystod y flwyddyn gyfredol, wedi creu a llenwi 123 o gyfleoedd gwaith ychwanegol i geisio sicrhau na fydd dim bwlch yn y ddarpariaeth tra bod y contract newydd yn cael ei gytuno. Byddaf yn falch o ysgrifennu atoch gydag amserlen ar hynny. Cafwyd 74 o geisiadau ar gyfer yr elfen bwrsariaeth, sy'n darparu £6,000 ar gyfer y rhai sy'n gymwys, ac mae 68 o'r rheini wedi cael eu cymeradwyo.

I, too, would like to thank the Deputy Minister for the anecdotal evidence that he has provided today about the impact of the programme on individuals. Seventy-nine per cent of the first 837 to complete a six-month placement are now in work. We would all welcome that and it is a very important achievement for those individuals. It is very encouraging but, perhaps, Deputy Minister, I could ask for more statistical evidence to demonstrate the success of your programme, as you say in your statement that it is a success.

I hope that, when your evaluation report is published, it will include all of the indicators that I am about to mention. Perhaps you could give us more information today, as you have given us some mid-term data, but those data do not match the statistics that I have received from the Research Service, which I believe Simon Thomas has also received. According to those statistics, of the 6,000 plus placements that have been created, only about 65% have been filled and 66% of those filled have been completed. That is not a 79% success rate for the programme: in fact, it is more like 44% of the placements created have been completed. Can you give a more detailed analysis of that?

Of that first cohort, we have heard that 837 have completed. Could you give us a statistic for exactly how many did not complete, up to the date on which you are basing that statistic, and what the completion rate was as a percentage? If you could also give us more detail on the destination statistics for those who have not completed their placements, that would be very helpful, because I believe the date on which you are basing your statistics may be a few weeks away from the date on which I am basing mine, so there are a couple of variations that I would be interested in ironing out.

As regards the cost-effectiveness of the programme, can you give us indication of what the cost of the programme has been over the first year? Was that in line with your expectations? For the first cohort, what was the cost per placement created? What was the cost per placement filled? What was the cost per placement completed? Finally, perhaps you can give us an idea of what the cost was per sustainable job created, as I think that will be the biggest indicator of the success of the programme. Finally, in terms of the success of the programme, it is very important that it is able to deliver a consistent level of opportunities for young people across Wales. There are some regional variations in the number of places that have been created under Jobs Growth Wales. For example, the best performing local authority created nearly 900 opportunities, but there are places such as Merthyr Tydfil, which is a place of real need, where only 134 places were created. That is obviously a cause for concern. Can tell us what action the Welsh Government is taking to make sure that all local authority areas are creating opportunities for young people, be that in an urban or a rural location? Also, what are you doing to assess the difference in take-up and completion rates in those places on a regional basis? If there were to be significant differences, that would reflect badly on the opportunities for some young people in some locations.

Hoffwn innau hefyd ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am y dystiolaeth anecdotaidd y mae wedi'i darparu heddiw am effaith y rhaglen ar unigolion. Mae saith deg naw y cant o'r 837 cyntaf i gwblhau lleoliad chwe mis bellach mewn gwaith. Byddem i gyd yn croesawu hynny ac mae'n gyflawniad pwysig iawn i'r unigolion hynny. Mae'n galonogol iawn, ond, efallai, Ddirprwy Weinidog, y gallwn ofyn am dystiolaeth fwy ystadegol i ddangos llwyddiant eich rhaglen, gan eich bod yn dweud yn eich datganiad ei bod yn llwyddiant.

Gobeithio, pan fydd eich adroddiad gwerthuso yn cael ei gyhoeddi, y bydd yn cynnwys pob un o'r dangosyddion yr wyf am eu crybwyll. Efallai y gallech roi mwy o wybodaeth i ni heddiw, gan eich bod wedi rhoi rhywfaint o ddata canol tymor i ni, ond nid yw'r data hwnnw'n cyd-fynd â'r ystadegau yr wyf wedi'u cael gan y Gwasanaeth Ymchwil, yr wyf yn credu y mae Simon Thomas hefyd wedi'u derbyn. Yn ôl yr ystadegau hynny, o'r 6,000 o leoliadau a mwy sydd wedi cael eu creu, dim ond tua 65% sydd wedi eu llenwi ac mae 66% o'r rhai a lenwyd wedi cael eu cwblhau. Nid yw hynny'n gyfradd llwyddiant 79% ar gyfer y rhaglen: yn wir, mae'n fwy tebyg i 44% o'r lleoliadau a grëwyd wedi cael eu cwblhau. A allwch chi roi dadansoddiad mwy manwl o hynny?

O'r garfan gyntaf, rydym wedi clywed bod 837 wedi cwblhau. A allech chi roi ystadegyn i ni am union faint na wnaeth gwblhau, hyd at y dyddiad yr ydych yn seilio'r ystadegyn hwnnw arno, a beth oedd y gyfradd gwblhau fel canran? Pe gallech hefyd roi mwy o fanylion am yr ystadegau cyrchfan ar gyfer y rhai nad ydynt wedi cwblhau eu lleoliadau, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn, oherwydd yr wyf yn credu y gall y dyddiad yr ydych yn seilio'ch ystadegau arno fod ychydig wythnosau i ffwrdd oddi wrth y dyddiad yr wyf yn seilio fy rhai i, felly mae ychydig o amrywiadau y byddai gennyf ddiddordeb eu hunioni.

O ran cost effeithiolrwydd y rhaglen, a allwch chi roi syniad o gost y rhaglen dros y flwyddyn gyntaf i ni? A oedd hynny'n unol â'ch disgwyliadau? Ar gyfer y garfan gyntaf, beth oedd y gost fesul lleoliad a grëwyd? Beth oedd y gost fesul lleoliad a lenwyd? Beth oedd y gost fesul lleoliad a gwblhawyd? Yn olaf, efallai y gallwch roi syniad i ni o beth oedd y gost fesul swydd gynaliadwy a grëwyd, gan fy mod yn credu mai dyna fydd y dangosydd mwyaf o lwyddiant y rhaglen. Yn olaf, o ran llwyddiant y rhaglen, mae'n bwysig iawn ei bod yn gallu darparu lefel gyson o gyfleoedd i bobl ifanc ledled Cymru. Ceir rhai amrywiadau rhanbarthol yn nifer y lleoedd sydd wedi eu creu o dan Twf Swyddi Cymru. Er enghraifft, creodd yr awdurdod lleol sy'n perfformio orau bron i 900 o gyfleoedd, ond ceir manau fel Merthyr Tudful, sydd â gwir angen, lle mai dim ond 134 o leoedd gafodd eu creu. Mae hynny'n amlwg yn achos pryder. A allwch chi ddweud wrthym pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wneud yn siŵr bod yr holl ardaloedd awdurdod lleol yn creu cyfleoedd i bobl ifanc, boed hynny mewn ardal drefol neu ardal wledig? Hefyd, beth ydych chi'n ei wneud i asesu'r gwahaniaeth mewn niferoedd a chyfraddau cwblhau yn y lleoedd hynny ar sail ranbarthol? Pe byddai gwahaniaethau sylweddol, byddai hynny'n adlewyrchu'n wael ar y cyfleoedd i rai pobl ifanc mewn rhai lleoliadau.

I thank Eluned Parrott for those comments. I think that somewhere in there was a welcome for the scheme. I had to listen hard. This is a successful scheme. We are not suggesting that it is perfect in any sense, and that is why we are having the full evaluation. We will see what changes need to be made for years 2 and 3 to make it even better.

I am interested to hear that the Research Service has different figures; I will ask my officials to find out why that is. However, I can assure you that the figures I have are live, and are very recent. Possibly the Research Service figures are lagging a little. In the earlier days the careers service—because it had to collate things rather differently—was a little bit behind our figures. However, the figures I have quoted are quite accurate.

In terms of the destinations of those who do not succeed, for whatever reason—who do not complete their six months and leave the scheme—as I have already said in response to a number of other Members, we will be looking at that in some detail, and it will be part of the evaluation process.

In terms of the costings, I can assure you that the moneys that have been allocated within the budgets have been utilised. There is nothing that I am concerned about in terms of the cost. You went rather quickly through a number of specific costs that you wanted detail for; I cannot answer those points now. I therefore invite you to write to me with a written question for the precise answers that you want, and I will undertake to get you that information.

We want the scheme to apply in all parts of Wales and it does. Clearly, and not surprisingly, some bits will be better than others. That will depend on the structure of the area, the social make-up and the nature of jobs that might be available. I will certainly be looking carefully at which occupational sectors are more successful than others, to see what lessons that tells us. I do not think that it is an issue of local geography, particularly, but it may be a reflection of the nature of the types of industries and services that exist there. We will need to draw certain conclusions then as to whether we focus on those occupational sectors that are the most successful—because the important bit is creating jobs—or provide additional resources for those that are a little behind. These are issues that will certainly be addressed in the full evaluation.

Diolch i Eluned Parrott am y sylwadau yna. Credaf fod croeso i'r cynllun yno yn rhywle. Bu'n rhaid i mi wrando'n astud. Mae hwn yn gynllun llwyddiannus. Nid ydym yn awgrymu ei fod yn berffaith mewn unrhyw ffordd, a dyna pam ein bod yn cael y gwerthusiad llawn. Byddwn yn gweld pa newidiadau y mae angen eu gwneud ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 i'w wneud hyd yn oed yn well.

Mae gennyf ddi-ddordeb i glywed bod gan y Gwasanaeth Ymchwil ffigurau gwahanol; byddaf yn gofyn i fy swyddogion i gael gwybod pam y mae hynny'n bod. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau bod y ffigurau sydd gennyf yn fyw, ac yn ddiweddar iawn. Efallai bod ffigurau'r Gwasanaeth Ymchwil ar ei hôl hi ychydig. Yn y dyddiau cynharach roedd y gwasanaeth gyrfaoedd—oherwydd bod yn rhaid iddi grynhoi pethau mewn modd braidd yn wahanol—ychydig y tu ôl i'n ffigurau ni. Fodd bynnag, mae'r ffigurau yr wyf wedi'u dyfynnu yn eithaf cywir.

O ran cyrchfannau y rhai nad ydynt yn llwyddo, am ba bynnag reswm—nad ydynt yn cwblhau eu chwe mis ac yn gadael y cynllun—fel yr wyf eisoes wedi dweud mewn ymateb i nifer o Aelodau eraill, byddwn yn edrych ar hynny mewn peth manylder, a bydd yn rhan o'r broses werthuso.

O ran y costau, gallaf eich sicrhau bod yr arian sydd wedi ei neilltuo o fewn y cyllidebau wedi ei ddefnyddio. Nid oes unrhyw beth yn fy mhryderu o ran y gost. Aethoch braidd yn gyflym trwy nifer o gostau penodol yr oeddech am gael manylion amdanynt; ni allaf ateb y pwyntiau hynny yn awr. Felly, rwy'n eich gwahodd i ysgrifennu ataf gyda chwestiwn ysgrifenedig ar gyfer yr union atebion yr ydych eu heisïau, a byddaf yn ymrwymo i gael y wybodaeth honno i chi.

Rydym am i'r cynllun fod yn berthnasol ym mhob rhan o Gymru ac y mae'n berthnasol. Yn amlwg, ac nid yw'n syndod, mae rhai manau yn well nag eraill. Bydd hynny'n dibynnu ar strwythur yr ardal, cyfansoddiad cymdeithasol a natur y swyddi a allai fod ar gael. Byddaf yn sicrhau edrych yn ofalus ar ba sectorau galwedigaethol sy'n fwy llwyddiannus nag eraill, i weld pa wersi y mae hynny'n eu dysgu i ni. Nid wyf yn credu ei fod yn fater o ddaearyddiaeth leol, yn benodol, ond gall fod yn adlewyrchiad o natur y mathau o ddiwydiannau a gwasanaethau sy'n bodoli yno. Bydd angen i ni ddod i gasgliadau penodol wedyn ynghylch pa un a ydym yn canolbwyntio ar y sectorau galwedigaethol sydd fwyaf llwyddiannus—oherwydd mai'r peth pwysig yw creu swyddi—neu ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer y rhai sydd ychydig ar ei hôl hi. Mae'r rhain yn faterion a fydd yn sicrhau yn cael sylw yn y gwerthusiad llawn.

Deputy Minister, I think that some of those detailed questions do not need further elaboration, so I would urge you to reply to the Member and make that reply available to the library. It is of course reasonable to have to defer in that way on very detailed questions, but I do not think the Member needs to repeat herself in writing to you. She is at liberty to do so if she wishes, but it would be a courtesy on your part to reply to those questions in writing.

Ddirprwy Weinidog, nid wyf yn credu bod angen ymhelaethu ymhellach ar rai o'r cwestiynau manwl hynny, felly byddwn yn eich annog i ymateb i'r Aelodau a sicrhau bod yr ymateb hwnnw ar gael i'r llyfrgell. Wrth gwrs, mae'r rhesymol gorfod gohirio yn y ffordd honno ar gwestiynau manwl iawn, ond nid wyf yn credu bod angen i'r Aelod ailadrodd ei hun yn ysgrifenedig i chi. Mae hi yn rhydd i wneud hynny os yw'n dymuno, ond byddai'n gwrteisi ar eich rhan i ymateb i'r cwestiynau hynny yn ysgrifenedig.

16:33

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

At a time when the policies of the Conservative-led Government in Westminster are having a devastating impact on young people throughout Wales, I will congratulate you and the Welsh Government on delivering a programme that will help get jobless young people into quality employment and training. I am sure that you have seen the report by the International Labour Organization last week making clear that today's generation of young people are bearing more than their fair share of the cost of the economic crisis and austerity measures. Indeed, we all know that lack of financial security for young people can and does have a devastating impact on their lives, making it hard for them to settle down, start a family, and even to plan for any future that they might be considering. Further research by the former Bank of England policy maker Danny Blanchflower and Professor David Bell of the University of Stirling shows, in their words, the long-term 'scarring' effect of unemployment on young people's future careers. A young person out of work for a period of time in their 20s is likely to be earning considerably less on average than colleagues in employment.

One thing is clear: the report by the ILO points out that economies with higher levels of investment and public employment programmes tend to create more jobs, and the programme by the Welsh Labour Government through Jobs Growth Wales has exceeded its initial job creation target by nearly 50%. Maybe this is an example that the Westminster coalition could follow instead of the decision that it took to scrap Labour's Future Jobs Fund. Will the Minister please reaffirm the Welsh Government's commitment to help young people into quality employment and not to simply turn its back on them, like the Conservative-led coalition?

Ar adeg pan mae polisiau'r Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan yn cael effaith ddinistriol ar bobl ifanc ledled Cymru, rwyf yn eich llongyfarch chi a Llywodraeth Cymru ar gyflwyno rhaglen a fydd yn helpu i gael pobl ifanc ddi-waith i gael gwaith a hyfforddiant o ansawdd. Rwy'n siŵr eich bod wedi gweld yr adroddiad gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yr wythnos diwethaf yn ei gwneud yn glir bod y genhedlaeth bresennol o bobl ifanc yn ysgwyddo mwy na'u cyfran deg o gost yr argyfwng economaidd a'r camau cynilo. Yn wir, rydym i gyd yn gwybod y gall diffyg diogelwch ariannol ar gyfer pobl ifanc gael effaith andwyol ar eu bywydau, gan ei gwneud yn anodd iddynt setlo i lawr, dechrau teulu, a hyd yn oed gynllunio ar gyfer unrhyw ddyfodol y gallent fod yn ei ystyried. Mae ymchwil pellach gan gyn luniwr polisi Banc Lloegr Danny Blanchflower a'r Athro David Bell o Brifysgol Stirling yn dangos, yn eu geiriau nhw, effaith 'greithiol' tymor hir diweithdra ar yrfaedd pobl ifanc yn y dyfodol. Mae person ifanc allan o waith am gyfnod o amser yn eu 20au yn debygol o fod yn ennill cryn dipyn yn llai ar gyfartaledd na chyfoedion mewn cyflogaeth.

Mae un peth yn glir: mae'r adroddiad gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn nodi bod economïau sydd â lefelau uwch o raglenni buddsoddi a chyflogaeth gyhoeddus yn tueddu i greu mwy o swyddi, ac mae'r rhaglen gan Lywodraeth Lafur Cymru drwy Twf Swyddi Cymru wedi rhagori ar ei tharged creu swyddi cychwynnol o bron i 50%. Efallai fod hyn yn enghraifft y gallai'r glymblaid yn San Steffan ei dilyn yn hytrach na'r penderfyniad a gymerodd i gael gwared ar Gronfa Swyddi'r Dyfodol Llafur. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu pobl ifanc i mewn i gyflogaeth o ansawdd a pheidio â throï ei chefn arnynt, fel y glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:35

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Joyce Watson for those comments and for her congratulations. I assure everybody here that we will not turn our backs on young people. That is exactly why we have developed Jobs Growth Wales. We accept, without doubt, that probably the most devastating introduction to adult life is to be unemployed, because your self-esteem crashes and there is a feeling of worthlessness. We have never suggested that this scheme is a solution to youth unemployment, but it is an important step in the right direction. It is about setting a good example, and we would certainly encourage the Government and the rest of the United Kingdom to have a close look at what we are doing and to try to follow our model.

Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am y sylwadau yna ac am ei llongyfarchiadau. Rwy'n sicrhau pawb yma na fyddwn yn troi ein cefnau ar bobl ifanc. Dyna'n union pam ein bod wedi datblygu Twf Swyddi Cymru. Rydym yn derbyn, heb os, mae'n debyg mai'r cyflwyniad mwyaf dinistriol i fywyd oedolyn yw bod yn ddi-waith, oherwydd bod eich hunanbarch yn chwalu a cheir teimlad o fod yn ddiwerth. Nid ydym erioed wedi awgrymu bod y cynllun hwn yn ateb i ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, ond mae'n gam pwysig i'r cyfeiriad cywir. Mae'n ymwneud â gosod esiampl dda, a byddem yn sicr yn annog y Llywodraeth a gweddill y Deyrnas Unedig i edrych yn fanwl ar yr hyn yr ydym yn ei wneud ac i geisio dilyn ein model.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:36

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also warmly welcome your statement today, Deputy Minister, and I note the difference that Jobs Growth Wales is making to the lives of young people across Wales.

Rwyf innau hefyd yn croesawu eich datganiad heddiw, Ddirprwy Weinidog, yn gynnes, a nodaf y gwahaniaeth y mae Twf Swyddi Cymru yn ei wneud i fywydau pobl ifanc ledled Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I particularly wanted to raise the issue of equitable access on grounds of rurality and gender, so I was pleased to hear your comments to previous speakers on those. Therefore, I just have one further issue to raise with you, and that is to welcome the part of the statement where you outlined the commitment to continue to support young people in need and more supportive working environments in partnership with the third sector. Is there any scope to learn lessons, based on the success of Jobs Growth Wales, to help other groups of people into work who have traditionally found it hard to get into employment, particularly some disabled people over the age of 24? The vast majority of those people would dearly love to work but have never been given the chance, and they have a great deal to offer prospective employers.

Rwy'n arbennig o awyddus i godi'r mater o fynediad cyfartal ar sail natur wledig a rhyw, felly roeddwn yn falch o glywed eich sylwadau wrth siaradwyr blaenorol ar hynny. Felly, dim ond un mater pellach sydd gennyf i'w godi gyda chi, sef croesawu rhan o'r datganiad lle y gwnaethoch amlinellu'r ymrwymiad i barhau i gefnogi pobl ifanc mewn angen ac amgylcheddau gwaith mwy cefnogol mewn partneriaeth â'r trydydd sector. A oes unrhyw gyfle i ddysgu gwersi, yn seiliedig ar lwyddiant Twf Swyddi Cymru, i helpu grwpiau eraill o bobl i mewn i waith sydd yn draddodiadol wedi ei chael hi'n anodd mynd i mewn i gyflogaeth, yn enwedig rhai pobl anabl dros 24 oed? Byddai mwyafrif llethol y bobl hynny yn wirioneddol wrth eu boddau yn gweithio ond nid ydynt erioed wedi cael y cyfle, ac mae ganddynt lawer i'w gynnig i ddarpar gyflogwyr.

16:37

## Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Rebecca Evans for those comments. Equitable access is important. We work with a range of agencies, including the careers service, local authorities and employer organisations right across Wales to make sure that there is not only support for the scheme, but that every attempt is made to make sure that those harder-to-reach young people are encouraged to take part in the scheme. We have avoided setting targets for particular groups of people to be recruited because we expect employers to follow the law and to follow good practice in terms of recruiting young people to Jobs Growth Wales, as if they were recruiting full-time employees straight away. We expect that, and if there is any evidence that disabled young people, or those in remoter areas of Wales, are not really getting a fair crack of the whip, I would certainly be keen to have details of that evidence so that I can pursue it.

I note your comments about the third sector, which is there to provide a more supported environment for those who are perhaps faced with greater barriers to getting into employment. That is the reason why we have that third sector strand.

## Cryfhau Democratiaeth Llywodraeth Leol

*Deholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham, gwelliannau 4 a 5 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 6 and 7 yn enw Aled Roberts.*

Cynnig NDM5237 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod gwerth hyrwyddo democratiaeth leol sy'n agored, yn dryloyw ac yn atebol a phwysigrwydd annog mwy o amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Diolch i Rebecca Evans am y sylwadau yna. Mae mynediad teg yn bwysig. Rydym yn gweithio gydag ystod o asiantaethau, gan gynnwys y gwasanaeth gyrfaoedd, awdurdodau lleol a sefydliadau cyflogwyr ledled Cymru i wneud yn siŵr bod nid yn unig cefnogaeth i'r cynllun, ond bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod y bobl ifanc y mae'n anodd eu cyrraedd yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y cynllun. Rydym wedi osgoi gosod targedau ar gyfer grwpiau penodol o bobl sydd i'w recriwtio oherwydd ein bod yn disgwyl i gyflogwyr ddilyn y gyfraith a dilyn arfer da o ran recriwtio pobl ifanc i Twf Swyddi Cymru, fel pe byddent yn recriwtio gweithwyr llawn-amser yn syth. Rydym yn disgwyl hynny, ac os oes unrhyw dystiolaeth nad yw pobl ifanc anabl, neu rai mewn ardaloedd mwy anghysbell o Gymru, yn cael chwarae teg, rwy'n sicr yn awyddus i gael manylion y dystiolaeth honno er mwyn i mi allu mynd ar drywydd hynny.

Nodaf ar eich sylwadau am y trydydd sector, sydd yno i ddarparu amgylchedd â mwy o gymorth ar gyfer y rhai sydd efallai yn wynebu mwy o rwystrau i fynd i mewn i gyflogaeth. Dyna'r rheswm pam y mae gennym yr elfen trydydd sector.

## Strengthening Local Government Democracy

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham, amendments 4 and 5 in the name of Jocelyn Davies and amendments 6 and 7 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5237 Lesley Griffiths

To propose the National Assembly for Wales:

Recognises the value of promoting open, transparent and accountable local democracy and the importance of encouraging greater diversity in Local Government.

16:38

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiad y cynnig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

As elected Members, we all recognise the importance of efficient, open, transparent and accountable local democracy. We also support the principle that those who represent us should reflect the make-up of our communities.

Today, I will take this opportunity to set out my programme to promote strong and accountable local democracy. The Local Government (Wales) Measure 2011 put in place a framework that is unique to Wales. It has two clear aims: to support greater diversity and to promote more effective scrutiny. Our commitment to implementing this framework is set out in our programme for government, and much of the guidance and regulations have now been put in place, or will be in place shortly. These cover practical matters, such as the timing of council meetings, family absence, remote attendance and training and support for elected members. Such practical matters can really make a difference in influencing whether people feel that they can stand for election in the first place. The Measure also introduced the requirement for a survey of candidates to take place at each local government election. On 3 May, I published the results of this survey and they make for very interesting reading. Some 28% of county council elected representatives were female, compared with 22% identified in a similar survey by the Welsh Local Government Association in 2004; 57% of those elected as county councillors and 61% of those elected as community councillors were over the age of 60; 99.5% of elected councillors and 99% of candidates were white; around 2% of elected councillors identified themselves as lesbian, gay, bisexual or transgender; and 14% of elected councillors considered themselves to be disabled. When the survey was published, I stated that, while I welcomed the increase in some aspects of diversity, progress could be better. More needs to be done to encourage women, younger people, those from black minority ethnic communities and other minority groups to stand for election to ensure that our county and community councils reflect the make-up of modern Welsh society—a view shared by many local councillors.

When the survey results were published, I also stated that I would make a further announcement on my plans to build on the work already under way to broaden participation in democracy. Today, I am pleased to announce that I intend to establish an expert group to consider the results of the survey in detail, take evidence from interested groups, and set out a plan of action for the Welsh Government and political parties to ensure that, between now and 2017, we collectively do our best to encourage greater diversity in local government. I welcome Members' views on how to ensure that the panel has the right remit, and I will publish a written statement on this and on the membership of the panel before the summer recess.

Working to promote greater diversity in local government has a strong link to promoting accountability and openness. This is because the most important accountability is to the public. It is important that people vote and that turnout is high enough to provide a democratic mandate. This is why, in its evidence to the Silk commission, the Welsh Government has requested that control over local elections should be clearly devolved to Wales.

Fel Aelodau etholedig, rydym i gyd yn cydnabod pwysigrwydd democratiaeth leol effeithlon, agored, dryloyw ac atebol. Rydym hefyd yn cefnogi'r egwyddor y dylai'r rhai sy'n ein cynrychioli adlewyrchu cyfansoddiad ein cymunedau.

Heddiw, byddaf yn cymryd y cyfle hwn i amlinellu fy rhaglen i hyrwyddo democratiaeth leol gref ac atebol. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi sefydlu fframwaith sy'n unigryw i Gymru. Mae ganddo ddau nod clir: cefnogi mwy o amrywiaeth a hyrwyddo gwaith craffu mwy effeithiol. Mae ein hymrwymiad i weithredu'r fframwaith hwn wedi'i nodi yn ein rhaglen lywodraethu, ac mae llawer o'r canllawiau a rheoliadau wedi cael eu rhoi ar waith, neu byddant ar waith yn fuan. Mae'r rhain yn cwmpasu materion ymarferol, megis amseriad cyfarfodydd cynghorau, absenoldeb teuluol, presenoldeb a hyfforddiant o bell a chefnogaeth i aelodau etholedig. Gall materion ymarferol o'r fath wneud gwir wahaniaeth wrth ddylanwadu ar p'un a yw pobl yn teimlo y gallant sefyll i gael eu hethol yn y lle cyntaf. Hefyd roedd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal arolwg o'r ymgeiswyr ym mhob etholiad llywodraeth leol. Ar 3 Mai, cyhoeddais ganlyniadau'r arolwg hwn ac maent yn ddiddorol iawn i'w darllen. Roedd rhyw 28% o'r cynrychiolwyr etholedig mewn cynghorau sir yn fenywod, o'i gymharu â 22% a nodwyd mewn arolwg tebyg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2004; roedd 57% o'r rhai a etholwyd fel cynghorwyr sir a 61% o'r rhai a etholwyd fel cynghorwyr cymuned dros 60 oed; roedd 99.5% o gynghorwyr etholedig a 99% o ymgeiswyr yn wyn; roedd tua 2% o gynghorwyr etholedig yn nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol; ac roedd 14% o gynghorwyr etholedig yn ystyried eu hunain yn anabl. Pan gafodd yr arolwg ei gyhoeddi, dywedais fy mod yn croesawu'r cynnydd mewn rhai agweddau ar amrywiaeth, ond y gallai'r cynnydd fod yn well. Mae angen gwneud mwy i annog menywod, pobl ifanc, pobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau lleiafrifol eraill i sefyll i gael eu hethol i sicrhau bod ein cynghorau sir a chymuned yn adlewyrchu cyfansoddiad cymdeithas fodern Cymru—barn a rennir gan lawer o gynghorwyr lleol.

Pan gyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg, dywedais hefyd y byddwn yn gwneud cyhoeddiad ychwanegol ar fy nghynlluniau i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill i ehangu cyfranogiad mewn democratiaeth. Heddiw, rwyf yn falch o gyhoeddi fy mod yn bwriadu sefydlu grŵp arbenigol i ystyried canlyniadau'r arolwg yn fanwl, cymryd tystiolaeth gan grwpiau sydd â diddordeb, ac amlinellu cynllun gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a phleidiâu gwleidyddol i sicrhau ein bod ar y cyd, rhwng nawr a 2017, yn gwneud ein gorau i annog mwy o amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Rwyf yn croesawu barn yr Aelodau ar sut i sicrhau bod gan y panel y cylch gorchwyl iawn, a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar hyn ac ar aelodaeth y panel cyn toriad yr haf.

Mae cyswllt cryf rhwng gweithio i hyrwyddo mwy o amrywiaeth mewn llywodraeth leol a hyrwyddo atebolrwydd a dull gweithio agored. Mae hyn oherwydd mai'r atebolrwydd pwysicaf yw atebolrwydd i'r cyhoedd. Mae'n bwysig bod pobl yn pleidleisio a bod y nifer sy'n pleidleisio yn ddigon uchel i roi mandad democrataidd. Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru, yn ei thystiolaeth i gomisiwn Silk, wedi gofyn am ddatganoli rheolaeth dros etholiadau lleol yn eglur i Gymru.

However, good democracy should not simply be about public involvement and interest in the ballot box. If people can see their local councillors as truly representing their views and interests, there will be more dialogue and engagement with the process of democracy between elections. This strengthens democracy. I do not just want elected representatives to say, 'I was voted in'; I want each to earn the right to say, 'I represent my community because I understand the people who live there and I know what their views are'.

The 2011 Measure makes it a requirement for local authorities to enable their elected members to publish annual reports. I would like to take this opportunity to encourage all local authorities to support their members to do this and for all members to publish a report. Regaining people's trust and faith in democracy has to start somewhere. Therefore, while some may view this as a small step individually, collectively, it makes a big statement, namely that elected members do not focus on their electorate just when there is an election around the corner. This is also the reason why I strongly urge local authorities to make arrangements to broadcast their meetings and why the Welsh Government has already provided funding to move this agenda forward. This subject has generated much public and press interest recently, and I welcome decisions by a number of authorities to move forward with this and to allow the use of social media by members of the public attending meetings. This shifts council business from appearing to take place behind closed doors to something with which the whole community can engage. There is no legal barrier to authorities taking the lead on this for themselves, and I urge them to do so.

As well as county councils, I expect town and community councils to embrace this agenda. Community councils should see the provisions in the Local Government (Democracy) (Wales) Bill for websites as a minimum requirement. How can we expect large parts of our communities to be interested in the work of democracy at this level if the only way to find out who their representatives are and what is happening is to attend a meeting or request a written copy of the minutes? Public interest in the democratic process is essential for effective scrutiny—not only in terms of providing evidence of their experience of public services, but providing the momentum to drive forward service improvement. This is where elected members, through scrutiny, can make a real difference to their communities.

I have met a number of local authority leaders recently and they all, irrespective of party political background, agree that openness, accountability and transparency should be core values in the way in which local government conducts its business. The 2011 Measure put the framework in place to ensure that scrutiny receives the professional support and resources needed to do its job effectively. This includes the creation of democratic services committees and the duty to appoint a head of democratic services.

Fodd bynnag, ni ddylai democratiaeth dda ymwneud yn unig â chynnwys y cyhoedd a diddordeb yn y blwch pleidleisio. Os gall pobl weld bod eu cynghorwyr lleol yn wirioneddol gynrychioli eu barn a'u diddordebau, bydd mwy o ddeialog ac ymgysylltu â phroses democratiaeth rhwng etholiadau. Mae hyn yn cryfhau democratiaeth. Nid wyf eisiau i gynrychiolwyr etholedig fodloni ar ddweud, 'Cefais fy ethol'; rwyf am i bob un ennill yr hawl i ddweud, 'Rwyf yn cynrychioli fy nghymuned oherwydd fy mod yn deall y bobl sy'n byw yno ac yn gwybod beth yw eu barn'.

Mae Mesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol alluogi eu haelodau etholedig i gyhoeddi adroddiadau blynyddol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i annog pob awdurdod lleol i gefnogi eu haelodau i wneud hyn, ac i annog pob aelod i gyhoeddi adroddiad. Rhaid dechrau adennill ymddiriedaeth a ffydd pobl mewn democratiaeth yn rhywle. Felly, tra bod rhai'n gweld hyn fel cam bach yn unigol, mae'n gwneud datganiad mawr ar y cyd, sef nad yw aelodau etholedig yn canolbwyntio ar eu hetholwyr pan fo etholiad yn agosáu yn unig. Dyma pam yr wyf yn annog awdurdodau lleol yn gryf i wneud trefniadau i ddarlledu eu cyfarfodydd a pham y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu cyllid i symud yr agenda hon yn ei blaen. Mae'r pwnc hwn wedi creu llawer o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd ac yn y wasg yn ddiweddar, ac rwyf yn croesawu penderfyniadau gan nifer o awdurdodau i symud ymlaen â hyn ac i ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynd i gyfarfodydd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn symud busnes y cyngor o fod yn rhywbeth sy'n ymddangos fel pe bai'n digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig, i fod yn rhywbeth y gall y gymuned gyfan ymwneud ag ef. Nid oes unrhyw rwystr cyfreithiol i awdurdodau arwain ar hyn drostynt eu hunain, ac rwyf yn eu hannog i wneud hynny.

Yn ogystal â chynghorau sir, rwyf yn disgwyl i gynghorau tref a chymuned goleddu'r agenda hon. Dylai cynghorau cymuned weld y darpariaethau yn y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) ar gyfer gwefannau fel safon ofynnol. Sut gallwn ni ddisgwyl i rannau mawr o'n cymunedau fod â diddordeb yng ngwaith democratiaeth ar y lefel hon os mai'r unig ffordd i gael gwybod pwy yw eu cynrychiolwyr a beth sy'n digwydd yw mynd i gyfarfod neu ofyn am gopi ysgrifenedig o'r cofnodion? Mae'n hanfodol ennyn diddordeb y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd er mwyn sicrhau gwaith craffu effeithiol—nid yn unig o ran darparu tystiolaeth o'u profiad o wasanaethau cyhoeddus, ond o ran darparu'r momentwm i fwrw ymlaen â gwelliannau i wasanaethau. Dyma lle y gall aelodau etholedig, drwy graffu, wneud gwahaniaeth go iawn i'w cymunedau.

Rwyf wedi cwrrd â nifer o arweinwyr awdurdodau lleol yn ddiweddar, ac maent i gyd, waeth beth fo'u plaid wleidyddol, yn cytuno y dylai agwedd agored, atebolrwydd a thryloywder fod yn werthoedd craidd yn y ffordd y mae llywodraeth leol yn cynnal ei busnes. Roedd Mesur 2011 yn sefydlu'r fframwaith i sicrhau bod gwaith craffu'n derbyn y cymorth proffesiynol a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn bod yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys creu pwyllgorau gwasanaethau democrataidd a'r ddyletswydd i benodi pennaeth gwasanaethau democrataidd.

Each councillor has an important and crucial role to play in ensuring that their authority is actively seeking to improve and to be more efficient. Effective scrutiny adds value, is constructive and provides alternatives; it should not condemn plan A without having a plan B. This means that the executive leadership in the form of the cabinet and those in scrutiny roles need to work together in support of effective scrutiny.

Scrutiny is essential not only to hold the executive to account, but to challenge and drive public service performance from the perspective of those who use public services. I will, therefore, invest £660,000 over three years to provide a national resource for local authorities to draw upon in order to build capacity and capability in scrutiny.

I encourage local authorities to make the most of the opportunities presented by the scrutiny development fund and the support on offer from the centre for public scrutiny. These programmes will enable the scrutiny community—members and officers—to share good practice and to consider new challenges together. I also suspect that there is much to be learned by sharing appropriately between the scrutiny community in this Assembly and in local authorities. I would welcome Members' views on how this might be facilitated.

Open, transparent and accountable democracy is important to us all. This is a comprehensive agenda that will drive efficient, open, transparent and accountable local government. It will also ensure that we are collectively making every effort to improve the diversity of local government. I look forward to Members' contributions.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Dileu 'Yn cydnabod gwerth hyrwyddo democratiaeth leol sy'n agored, yn dryloyw ac yn atebol a phwysigrwydd annog mwy o amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol' a rhoi 'Yn gwerthfawrogi angenrheidrwydd dadlau dros ddemocratiaeth leol sy'n effeithlon, yn agored, yn dryloyw ac yn atebol a phwysigrwydd annog mwy o amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol' yn ei le.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Ar ôl 'amrywiaeth' cynnwys 'ac ymgysylltu â rhanddeiliad'.*

*Gwelliant 3—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y pen draw i hwyluso ffyddio byw yn ystod pob un o gyfarfodydd craffu a chabinet cynghorau.*

Mae gan bob cynghorydd rôl bwysig a hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod ei awdurdod yn mynd ati i geisio gwella a bod yn fwy effeithlon. Mae gwaith craffu effeithiol yn ychwanegu gwerth, mae'n adeiladol ac yn darparu dewisiadau; ni ddylai gondemnio cynllun A heb gynnig cynllun B. Mae hyn yn golygu bod angen i'r arweinyddiaeth weithredol ar ffurf y cabinet, a'r rheiny mewn rolau craffu weithio gyda'i gilydd i gefnogi gwaith craffu effeithiol.

Mae craffu yn hanfodol er mwyn dwyn y weithrediaeth i gyfrif, ond hefyd er mwyn herio a sbarduno perfformiad gwasanaethau cyhoeddus o safbwynt y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Byddaf felly'n buddsoddi £660,000 dros dair blynedd i ddarparu adnodd cenedlaethol y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio er mwyn meithrin gallu ym maes craffu.

Rwyf yn annog awdurdodau lleol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan y gronfa datblygu gwaith craffu a'r gefnogaeth sydd ar gael gan y ganolfan craffu cyhoeddus. Bydd y rhaglenni hyn yn galluogi'r gymuned graffu—yn aelodau a swyddogion—i rannu arfer da ac i ystyried heriau newydd gyda'i gilydd. Rwyf hefyd yn amau bod llawer i'w ddysgu trwy rannu'n briodol rhwng y gymuned graffu yn y Cynulliad hwn ac mewn awdurdodau lleol. Byddwn yn croesawu barn yr Aelodau ynglŷn â sut y gellid hwyluso hyn.

Mae democratiaeth agored, dryloyw ac atebol yn bwysig i bob un ohonom. Mae hon yn agenda gynhwysfawr a fydd yn gyrru llywodraeth leol effeithlon, agored, dryloyw ac atebol. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod ar y cyd yn gwneud pob ymdrech i wella amrywiaeth llywodraeth leol. Edrychaf ymlaen at gyfraniadau'r Aelodau.

*Amendment 1—William Graham*

*Delete 'Recognise the value of promoting' and replace with 'Appreciates the necessity of advocating efficient,'*

*Amendment 2—William Graham*

*After 'diversity' insert 'and stakeholder engagement'*

*Amendment 3—William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Welcomes the Welsh Government's eventual commitment to facilitating live streaming during all council scrutiny and cabinet meetings.*

16:47

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

Cynigaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



It was music to our ears when we saw this motion, because we have been calling for efficient, open, transparent and accountable local democracy across local authorities for a long time in this Chamber.

I am proud to move the amendments, which are not contrary to the spirit in which you proposed the motion, but they seek to encompass efficiency in stronger terms. Amendment 1 centres on the key word of 'efficiency' and the necessity to be efficient. Being efficient in the way in which we spend taxpayers' money is a necessity. Being open in our democratic processes is a necessity. Maintaining transparency in our work is a necessity. Being accountable for our actions as decision makers is a necessity. When councils feel the scrutinising gaze of their electors, it makes them far less likely to be frivolous with their trust.

Minister, only yesterday I attended Conwy County Borough Council's principal scrutiny committee, where I witnessed a report that had taken some years to come along. A decision had been taken for this report to be held back because of legal constraints, but, in the end, it turned out that no legal action was being taken. It highlighted a bridge that was to be built based on an original quote of £1.1 million but which came in at almost £4 million. Fingers were pointed at yesterday's meeting about political leadership and the onus of responsibility when you see repeated systemic failures during phases of construction projects. That is about efficiency, openness and transparency in local democracy.

The UK Government has published a fantastic resource called '50 ways to save', which local councils in Wales would do well to look at. It provides common-sense approaches to tightening fiscal management in local government. The ideas are not radical; it includes ideas on tackling duplicate payments and improving procurement processes, which are so often discussed here. In relation to the national procurement service that our Minister, Jane Hutt, has brought in, I hope that local authorities embed the philosophy across their workings.

These are thought processes that should be encouraged and fostered by local authorities and the Welsh Government. Democracy is a continuous process, and it is with this in mind that we stress the importance of maintaining stakeholder involvement in as many aspects of local democracy as possible, as in amendment 2. Currently, there are many who feel that many decisions are made about them and for them, but without them. Going back to the diversity aspect, I welcome the survey and I look forward to the findings of that. Minister, what is your Government doing in real terms to promote electoral representation and that those employed in the areas of service delivery come from a hugely diverse background?

Roeddem wrth ein boddau pan welsom y cynnig hwn, oherwydd inni fod yn galw am ddemocratiaeth leol effeithlon, agored, dryloyw ac atebol ar draws awdurdodau lleol am gyfnod hir yn y Siambr hon.

Rwyf yn falch i gynnig y gwelliannau. Nid ydynt yn groes i'r ysbryd y cynigiwyd y cynnig ynddo, ond maent yn ceisio cwmpasu effeithlonrwydd mewn termau cryfach. Mae gwelliant 1 yn canolbwyntio ar y gair allweddol 'effeithlonrwydd' a'r angen i fod yn effeithlon. Mae'n angenrheidiol bod yn effeithlon yn y ffordd yr ydym yn gwario arian trethdalwyr. Mae'n angenrheidiol bod yn agored yn ein prosesau democrataidd. Mae'n angenrheidiol parhau i fod yn dryloyw yn ein gwaith. Mae'n angenrheidiol bod yn atebol am ein gweithredoedd fel rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Pan fydd cynghorau yn teimlo llygaid craff eu hetholwyr, mae'n eu gwneud yn llawer llai tebygol o fod yn wamal gyda'u hymddiriedaeth.

Weinidog, roeddwn yn bresennol ym mhwyllgor craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddoe ddiwethaf, lle'r oeddwn yn dyst i adroddiad a oedd wedi cymryd rhai blynnyddoedd i gyrraedd. Roedd penderfyniad wedi'i wneud i ddal yr adroddiad hwn yn ei ôl oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol, ond, yn y diwedd, nid oedd unrhyw gamau cyfreithiol yn cael eu cymryd. Roedd yn tynnu sylw at bont a oedd i gael ei hadeiladu yn seiliedig ar ddyfynbris gwreiddiol o £1.1 miliwn ond a ddaeth i bris o bron i £4 miliwn. Cafodd bysedd eu pwyntio yn y cyfarfod ddoe ynglŷn ag arweinyddiaeth wleidyddol a baich cyfrifoldeb pan fyddwch yn gweld methiannau systemig dro ar ôl tro yn ystod camau prosiectau adeiladu. Mae hynny'n ymwneud â bod yn effeithlon, agored a thryloyw mewn democratiaeth leol.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi adnodd gwych o'r enw '50 ways to save', a byddai'n syniad da i gynghorau lleol yng Nghymru edrych arno. Mae'n darparu dulliau synnwyr cyffredin i dynhau rheolaeth ariannol mewn llywodraeth leol. Nid yw'r syniadau'n rhai radical; mae'n cynnwys syniadau ar fynd i'r afael â thaliadau dyblyg a gwella prosesau caffael, sy'n cael eu trafod yma mor aml. Mewn perthynas â'r gwasanaeth caffael cenedlaethol y mae ein Gweinidog, Jane Hutt, wedi ei gyflwyno, rwyf yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ymgorffori'r athroniaeth ar draws eu gwaith.

Mae'r rhain yn brosesau meddwl y dylid eu hannog a'u meithrin gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae democratiaeth yn broses barhaus, a gyda hyn mewn cof rydym yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal cyfranogiad rhanddeiliaid mewn cynifer o agweddau ar ddemocratiaeth leol ag y bo modd, fel yng ngwelliant 2. Ar hyn o bryd, mae llawer yn teimlo bod llawer o benderfyniadau yn cael eu gwneud amdanynt ac ar eu cyfer, ond hebddynt. Gan fynd yn ôl at amrywiaeth, rwyf yn croesawu'r arolwg ac edrychaf ymlaen at ei ganfyddiadau. Weinidog, beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud mewn termau real i hyrwyddo cynrychiolaeth etholiadol a sicrhau bod y rhai a gyflogir yn meysydd darparu gwasanaeth yn dod o gefndir hynod amrywiol?

16:50

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I will carry on. If I have time later, I will give way.

What we are trying to ensure here is that this is not just a matter of paying lip service. We want to see the implementation of the spirit of openness and transparency. Last Thursday during the meeting of the Communities, Equality and Local Government Committee—I was not alone in this—I witnessed really good amendments coming forward by Rhodri Glyn Thomas AM and Peter Black AM, supported by me and Mark Isherwood, in terms of opening up transparency and bringing this forward. One was on the live streaming of council meetings, another was on the filming of meetings and another was on regulation as regards the levels of senior pay and the independent remuneration panel. However, you and every single Member of the Labour group opposed these amendments. You have a tool that is coming through the Assembly quite soon, yet you opposed us in every which way you could in terms of turning your talk into actions. Minister, I welcome the rhetoric that I have just heard and I hope that it turns into action. However, I suspect that I will be here another day to remind you of where it is not happening in reality.

*Gwelliant 4—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno agenda gynhwysfawr a fydd yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â bod yn agored, tryloywder ac atebolrwydd mewn democratiaeth leol a llywodraeth leol.*

*Gwelliant 5—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau ei bod yn cefnogi datganoli cyfrifoldeb dros etholiadau llywodraeth leol i'r Cynulliad Cenedlaethol.*

Na, byddaf yn parhau. Os oes gennyf amser yn ddiweddarach, byddaf yn ildio.

Yr hyn yr ydym yn ceisio'i sicrhau yma yw bod hyn yn fwy na dim ond siarad gwag. Rydym am i'r syniad o fod yn agored a thryloyw gael ei roi ar waith yn ymarferol. Ddydd lau diwethaf yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol—nid oeddwn ar fy mhen fy hun yn hyn o beth—gwelais welliannau gwirioneddol dda yn cael eu cyflwyno gan Rhodri Glyn Thomas AC a Peter Black AC, wedi'u cefnogi gennyf fi a Mark Isherwood, o ran cyflwyno tryloywder a symud hyn yn ei flaen. Roedd un yn ymwneud â ffrydio cyfarfodydd cynghorau'n fyw, roedd un arall yn ymwneud â ffilmio cyfarfodydd ac roedd un arall yn ymwneud â rheoleiddio o ran lefelau cyflog uwch swyddogion a'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol. Fodd bynnag, roeddech chi a phob Aelod o'r grŵp Llafur yn gwrthwynebu'r gwelliannau hyn. Mae gennych arf sy'n dod drwy'r Cynulliad cyn bo hir, ac eto roeddech yn ein gwrthwynebu ym mhob ffordd y gallech o ran troi eich geiriau'n weithredoedd. Weinidog, rwyf yn croesawu'r rhethreg yr wyf newydd ei chlywed ac yn gobeithio y bydd yn troi'n weithredu. Fodd bynnag, rwyf yn amau y byddaf yma ar ddiwrnod arall i'ch atgoffa o ble nad yw'n digwydd mewn gwirionedd.

*Amendment 4—Jocelyn Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to bring forward a comprehensive agenda that will tackle issues around openness, transparency and accountability in local democracy and local government.*

*Amendment 5—Jocelyn Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to confirm its support for devolving responsibility for local government elections to the National Assembly.*

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiaf welliannau 4 a 5 yn enw Jocelyn Davies.

I move amendments 4 and 5 in the name of Jocelyn Davies.

Rydym yn nhrydedd flwyddyn y Cynulliad presennol ac mae cynnig wedi ei osod ger ein bron yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod gwerth hyrwyddo democratiaeth leol sy'n agored, yn dryloyw ac yn atebol. A oes unrhyw un yn y fan hon yn anghytuno â'r datganiad hwn? Os ydym yn mynd i gael dadl, does bosibl bod yn rhaid inni gael dwy ochr i'r ddadl a bod pobl naill ai yn cytuno neu'n anghytuno â'r hyn sydd wedi cael ei osod gerbron. Ddirprwy Lywydd, mae'n warth ein bod ni'n trafod y math hwn o gynnig cwbl wan a chwbl ddiystyr. Soniodd Janet Finch-Saunders am rethreg—rhetreg wag. Nid oes dim byd yn y cynnig hwn sy'n haeddu unrhyw fath o drafodaeth yn y lle hwn. A dweud y gwir, mae'n haeddu, ar y gorau, ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi bod grŵp arbenigol wedi cael ei sefydlu, oherwydd nid ydym wedi clywed unrhyw beth arall yn ychwanegol at hynny. Rydym wedi gwneud yr ymdrech yn ein gwelliannau i geisio ychwanegu rhywbeth at y cynnig cyffredinol hwn sy'n dweud dim.

Yn ein gwelliant cyntaf, rydym yn sôn am yr angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno agenda manwl. Os ydych yn mynd i sôn am y pethau cyffredinol hyn, o leiaf dewch â dogfennau gerbron y Cynulliad i ddweud beth yn union rydych yn bwriadu ei wneud. Dyma'r ail wythnos yn olynol inni gael ein gosod yn y sefyllfa hon, gyda chynnig cwbl wag a dim byd i'w gefnogi o gwbl. Pan fyddwch chi'n dechrau dweud wrthym beth yn union rydych chi'n golygu gyda 'hyrwyddo democratiaeth', 'sicrhau sefyllfa o dryloywder' a 'bod yn agored', a sut yn ymarferol yr ydych yn mynd i weithredu hynny ar lawr daear yn ein hawdurdodau lleol ni, yna gallwn ni gael trafodaeth a chael dadl ynglŷn â sut yn union y mae modd gwneud hynny. Ni allwn gael dadl am ddatganiad sy'n dderbyniol ar y wyneb i bawb.

O ran ein hail welliant—ac rwy'n edrych ymlaen at glywed beth sydd gan y Gweinidog i ddweud am hyn—a ydych mewn gwirionedd yn dymuno gweld y cyfrifoldeb am etholiadau lleol yn cael ei drosglwyddo i'r lle hwn? Mae dadl ynglŷn â hyn, oherwydd roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn Atodlen 5, yn dweud yn benodol nad oedd yr etholiadau hyn yn dod o fewn cyfrifoldebau'r Cynulliad. Fodd bynnag, yn 2011, fe newidiodd y sefyllfa—mae Atodlen 7 yn cymryd lle Atodlen 5, ac nid oes unrhyw gyfeiriad o gwbl at hyn. Felly, mae modd dadlau, fel mae Simon Thomas wedi ei wneud mwy nag unwaith yn y lle hwn, fod gan Lywodraeth Cymru cyfrifoldeb dros y materion hyn.

Yn y pwyllgor yr wythnos diwethaf, roeddech chi'n ymwrthod â'r angen i wneud rhywbeth ynglŷn â nifer o sefyllfaoedd sy'n ymwneud ag etholiadau ac y mae consŷrn mawr amdanynt yn drawsbleidiol yma, oherwydd nad oeddent o fewn cyfrifoldebau'r Cynulliad. Pam na wnewch chi wthio'r ffiniau yn y fan hon? Pam na wnewch chi geisio ffeindio mas beth yn union yw'r sefyllfa? Os nad ydych yn barod i wneud hynny, ni fyddwn ni byth yn cael gwybod a oes gennym y cyfrifoldebau hynny ai peidio. O leiaf, Weinidog, gallech chi ddweud wrthym y prynhawn yma a ydych chi'n dymuno cael y cyfrifoldebau hynny.

We are now into the third year of this Assembly and we see laid before us a motion that proposes that the National Assembly for Wales recognises the value of promoting open, transparent and accountable local democracy. Is there anyone here who could disagree with such a statement? If we are to have a debate, surely we need two sides to it, where people either agree or disagree with what is laid out. Deputy Presiding Officer, it is disgraceful that we are discussing this sort of weak and wholly meaningless motion. Janet Finch-Saunders mentioned rhetoric—it is empty rhetoric. Nothing in this motion deserves any sort of debate in this place. Indeed, at best, it deserves a written statement announcing that an expert group has been established, because we have heard nothing else in addition to that. We have made the effort in our amendments to try to add something to this very general motion that says nothing at all.

In our first amendment, we talk about the need for the Welsh Government to bring forward a comprehensive agenda. If you are going to discuss these general issues, then at least bring documents before the Assembly that say exactly what you intend to do. This is the second week on the bounce that we have been placed in this situation, with an entirely meaningless motion with nothing to support it in terms of documentation. When you start to tell us exactly what you mean by 'promoting democracy' and 'ensuring a position of transparency and openness', and when you tell us how in practical terms you will make that a reality in our local authorities, then we will be able to have a discussion and debate as to how exactly we can achieve that. What we cannot have is a debate about a statement that is, on the face of it, acceptable to everyone.

In terms of our second amendment—and I look forward to hear what the Minister has to say on this issue—do you truly want to see the responsibility for local elections being devolved to this place? There is an argument about this, because Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 stated specifically that these elections were not within the Assembly's remit. However, in 2011, the situation changed—Schedule 7 replaced schedule 5, and there is no reference whatsoever to this. Therefore, one could argue, as Simon Thomas has done on more than one occasion in this place, that the Welsh Government does have responsibility for these matters.

In committee last week, you refused to do anything about several issues relating to elections, about which there is cross-party concern, because they were not within the Assembly's responsibilities. Why will you not push the boundaries here? Why do you not try to find out exactly what the situation is? If you are not willing to do that, then we will never know whether or not these responsibilities are ours. At least, Minister, you could tell us this afternoon whether you would wish to see those powers devolved?

O ran gwelliannau'r Ceidwadwyr, nid wyf yn gweld bod newid geiriau'r cynnig hwn yn gwneud fawr o wahaniaeth. Mae'r cynnig yn aros yr un mor wag a diystyr hyd yn oed gyda newidiadau'r Ceidwadwyr, felly ni fyddwn yn cefnogi gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham. Fe wnawn ni gefnogi gwelliant 3 gan fod hwnnw yn ychwanegu rhywbeth at y cynnig hwn. Fe fyddwn hefyd yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Felly, rwy'n cyflwyno gwelliannau Plaid Cymru yn y gobaith y byddwch chi yn eu derbyn, yn eu cefnogi ac yn gweithredu arnynt, gan y byddai hynny'n golygu bod rhyw werth wedi bod i'r ddadl hon y pryhawn yma. Heblaw am hynny, a bod yn berffaith onest, rydym yn mynd i wastraffu'n hamser yn llwyr yma am yr awr nesaf. Gobeithio i'r nefoedd na chawn ni gynnig arall fel hwn yr wythnos nesaf eto.

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cefnogi cyflwyno system etholiadol deg a chyfrannol i sicrhau bod canlyniadau yn cyfleu'r ffordd y mae pobl yn pleidleisio ac yn cynrychioli eu cymunedau lleol yn well, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu argymhelliaid Comisiwn Sunderland yn 2002 drwy hyrwyddo deddfwriaeth i gyflwyno system un bleidlais drosglwyddadwy ar gyfer cynghorau lleol.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu nad yw oddeutu 77,000 o bobl ifanc 16 a 17 oed yng Nghymru yn cael pleidleisio ar hyn o bryd ac yn credu y byddai atebolrwydd democrataidd yn cael ei gryfhau drwy ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol.*

On the Conservatives' amendments, I do not see that changing the wording of the motion would make much difference. The motion would be just as empty and meaningless even with the Conservative amendments, therefore we will not be supporting amendments 1 and 2 in the name of William Graham. We will support amendment 3 because this amendment at least adds something to the motion. We will be supporting the Liberal Democrats' amendments.

So, I propose the Plaid Cymru amendments in the hope that you will accept them, support them and take action on them, as that would mean that there would have been some value to this debate this afternoon. Without doing that, to be perfectly honest, we are going to be wasting our time completely for the next hour. I sincerely hope that we will not have such a motion again next week.

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Supports the introduction of a fair and proportional electoral system to ensure that outcomes reflect the way that people vote and are more representative of their local communities and calls on the Welsh Government to implement the recommendation of the Sunderland Commission in 2002 by promoting legislation to introduce the single transferable vote system for local councils.*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that around 77,000 16 and 17 year olds in Wales are currently denied the vote and believes that democratic accountability would be strengthened by allowing 16 and 17 year olds to vote in elections to local councils.*

16:57

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 6 and 7 in the name of Aled Roberts.

In agreeing with Rhodri Glyn Thomas, I would like to say that the motion in front of us is very much in favour of motherhood and apple pie but does not actually define what motherhood is or tell you how to make apple pie, or, indeed, the custard. That is part of the problem

In an attempt to bring some substance to this debate, I think that we and Plaid Cymru have tabled amendments that we believe would take us some way towards introducing better transparency and accountability; the sort of things of which the Minister says she is in favour but is not quite clear how to define them.

Cynigiau welliannau 6 a 7 yn enw Aled Roberts.

Wrth gytuno â Rhodri Glyn Thomas, hoffwn ddweud bod y cynnig ger ein bron yn sicr o blaid cariad mam a phastai afal ond nid yw mewn gwirionedd yn diffinio beth yw cariad mam nac yn dweud wrthyf sut i wneud pastai afal, nac, yn wir, y cwstard. Mae hynny'n rhan o'r broblem.

Mewn ymgais i ddod â rhywfaint o sylwedd i'r ddadl hon, rwyf yn meddwl ein bod ni a Phlaid Cymru wedi cyflwyno gwelliannau a fyddai, yn ein barn ni, yn mynd â ni rywfaint o'r ffordd tuag at gyflwyno gwell tryloywder ac atebolrwydd; y math o bethau y mae'r Gweinidog yn dweud ei bod o'u plaid, ond nad yw'n hollol siŵr sut i'w diffinio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I will concentrate on those issues of substance as part of this debate, because we have an opportunity to debate local government and local democracy. I think that it is important, therefore, that we talk about how those particular concepts can be improved.

My party believes—and I think that Plaid Cymru also believes—that the single transferrable vote system should be introduced for local elections. We want to see the power given to the Welsh Government to introduce that, and we would like to see the Welsh Government introducing that. We say that because reforming local democracy is about more than simply whether or not a council requires additional powers. It is also about overhauling completely how they represent their communities. STV empowers electors by giving them a wider choice, it makes councils more proportional and it ensures that a greater proportion of the electorate is represented by the party of their choice in their ward. Let us face it, a representative council is a more responsive, open and accountable one. That underpins why this reform is necessary.

In Scotland, they have empowered local communities by introducing STV, which has reduced the number of uncontested elections. In 2003, there were 61 uncontested elections in Scotland. In 2007, there were zero—no uncontested elections. Perhaps, if the previous Minister had thought about doing that in Anglesey, we would not have had to have gone through the fiasco that has effectively seen the independents resume control of that local council.

16:59 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With a Liberal Democrat in their group.

16:59 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that is right. [Laughter.]

We believe that reducing uncontested councils doubles voter choice. There is consistent evidence that STV improves the diversity of candidates and elected councillors. This is something from which the Minister could well learn if she puts the right experts on her group and starts to look at what happens in other places, apart from just Wales and England. In Northern Ireland and Scotland, STV has assisted with that diversity, which is necessary.

In terms of our second amendment and voting at the age of 16 in local government elections, we have had this debate in the Assembly before, and I hope that we will get support for that amendment because of that. Votes at 16 will strengthen democratic accountability by making sure that a wider section of the community is represented on the local council. Community empowerment comes, in part, by making sure that as many people in the community are heard by the local council as possible.

Rwyf am ganolbwyntio ar y materion hynny o sylwedd fel rhan o'r ddadl hon, oherwydd bod gennym gyfle i drafod llywodraeth leol a democratiaeth leol. Credaf ei bod yn bwysig, felly, ein bod yn siarad am sut y gellir gwella'r cysyniadau penodol hynny.

Mae fy mhlaid yn credu—ac rwyf yn meddwl fod Plaid Cymru hefyd yn credu—y dylai'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy gael ei chyflwyno ar gyfer etholiadau lleol. Rydym am weld y pŵer yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru gyflwyno hynny, a byddem yn hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn cyflwyno hynny. Rydym yn dweud hynny oherwydd bod a wnelo diwygio democratiaeth leol â mwy na dim ond penderfynu a oes ar gyngor angen pwerau ychwanegol ai peidio. Mae hefyd yn ymwneud â gweddnewid yn llwyr sut y maent yn cynrychioli eu cymunedau. Mae pleidlais sengl drosglwyddadwy yn grymued etholwyr drwy roi dewis ehangach iddynt, mae'n gwneud cynghorau'n fwy cyfrannol ac mae'n sicrhau bod cyfran uwch o etholwyr yn cael ei chynrychioli gan y blaid o'u dewis yn eu ward. Gadewch inni wynebu'r gwir, mae cyngor cynrychiadol yn un mwy ymatebol, agored ac atebol. Mae hynny wrth wraidd pam fod y diwygio hwn yn angenrheidiol.

Yn yr Alban, maent wedi grymuso cymunedau lleol drwy gyflwyno pleidlais sengl drosglwyddadwy, sydd wedi lleihau nifer yr etholiadau diwrthwynebiad. Yn 2003, roedd 61 o etholiadau diwrthwynebiad yn yr Alban. Yn 2007, nid oedd yr un—dim etholiadau diwrthwynebiad. Efallai, pe byddai'r Gweinidog blaenorol wedi meddwl am wneud hynny yn Ynys Môn, na fyddem wedi gorfod mynd drwy'r llanast sydd wedi gweld aelodau annibynnol i bob pwrpas yn ailgydio yn awenau'r cyngor lleol hwnnw.

Gydag aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn eu grŵp.

Wel, mae hynny'n wir. [Chwerthin.]

Rydym yn credu y gellir dyblu'r dewis i'r pleidleisiwr trwy leihau cynghorau diwrthwynebiad. Gwelir tystiolaeth gyson bod pleidlais sengl drosglwyddadwy'n gwella amrywiaeth ymgeiswyr a chynghorwyr etholedig. Mae hyn yn rhywbeth y gallai'r Gweinidog ddysgu ohono pe byddai'n rhoi'r arbenigwyr iawn ar ei grŵp ac yn dechrau edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill, ar wahân i Gymru a Lloegr yn unig. Yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, mae pleidlais sengl drosglwyddadwy wedi cynorthwyo gyda'r amrywiaeth hwnnw, sy'n angenrheidiol.

O ran ein hail welliant a phleidleisio yn 16 oed mewn etholiadau llywodraeth leol, rydym wedi cael y ddadl hon yn y Cynulliad o'r blaen, ac rwyf yn gobeithio y byddwn yn cael cefnogaeth i'r gwelliant oherwydd hynny. Bydd pleidleisiau i rai 16 oed yn cryfhau atebolrwydd democrataidd drwy wneud yn siŵr bod cyfran ehangach o'r gymuned yn cael ei chynrychioli ar y cyngor lleol. Mae cymunedau'n cael eu grymuso, yn rhannol, trwy wneud yn siŵr bod cymaint o bobl ag y bo modd yn y gymuned yn cael eu clywed gan y cyngor lleol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Briefly, in terms of STV again, and its benefits, there is no more single-party dominance of local authorities across Scotland as a result of the introduction of STV, because there is no single-party dominance in the way that people vote. The way that people vote is reflected in the outcome in local councils. There is real competition for seats; councillors have to work hard to maintain support. The member/ward link has been strengthened because of that, despite predictions to the contrary, and there is real choice. Voters are able to choose from a list of candidates from all parties, so that they can decide openly who represents them, not in terms of small, unseen party cliques, as is the case with other forms of proportional representation.

On a few other points in terms of how we can improve accountability and democracy, whatever your view on proportional representation, I hope that we can agree that the National Assembly has that power, as per amendment 5, which we will support. In terms of the role of councillors, we need to improve scrutiny and oversight. We need to make sure that the chairs of scrutiny committees reflect the political composition of the council. We need to make sure that there are transparent call-in procedures, so that people understand how things are called in, and that standing orders do not effectively prevent proper scrutiny. We need to make sure that there is a minimum number of scrutiny committees, so that ruling groups cannot reduce the level of scrutiny by reducing the number of committees to just one or two. For openness and transparency, I would like to see more use being made of social media; only four councils in Wales allow Twitter and Facebook during meetings. I would like to see the broadcasting of proceedings, and I know that the Minister is definitely moving in that direction. Finally, in terms of the scrutiny of partnerships, including local service boards, city regions and joint working, we need to find ways of making sure that they are properly scrutinised too.

Yn fyr, o ran y bleidlais sengl drosglwyddadwy unwaith eto, a'i manteision, ni welir awdurdodau lleol ar draws yr Alban dan ddylanwad un blaid mwyach o ganlyniad i gyflwyno'r bleidlais sengl drosglwyddadwy, gan nad oes goruchafiaeth gan un blaid yn y ffordd y mae pobl yn pleidleisio. Mae'r ffordd y mae pobl yn pleidleisio yn cael ei hadlewyrchu yn y canlyniad mewn cyngorau lleol. Ceir cystadleuaeth go iawn ar gyfer seddi; rhaid i gynghorwyr weithio'n galed i gynnal cefnogaeth. Mae'r cyswllt rhwng aelodau a wardiau wedi cael ei gryfhau oherwydd hynny, er bod pobl wedi rhagweld i'r gwrthwyneb, ac mae dewis go iawn. Mae pleidleiswyr yn gallu dewis o restr o ymgeiswyr o bob plaid, fel y gallant benderfynu'n agored pwy sy'n eu cynrychioli, nid o ran cliciau pleidiau bach, anweledig, fel sy'n wir gyda mathau eraill o gynrychiolaeth gyfrannol.

Ar ychydig o bwyntiau eraill o ran sut y gallwn wella atebolrwydd a democratiaeth, beth bynnag yw eich barn ar gynrychiolaeth gyfrannol, rwyf yn gobeithio y gallwn gytuno bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer hwnnw, yn unol â gwelliant 5, y byddwn yn ei gefnogi. O ran rôl cynghorwyr, mae angen i ni wella gwaith craffu a goruchwyllo. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod cadeiryddion pwyllgorau craffu yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y cyngor. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod gweithdrefnau tryloyw ar gael ar gyfer galw i mewn, fel bod pobl yn deall sut y caiff pethau eu galw i mewn, ac nad yw rheolau sefydlog i bob pwrpas yn atal gwaith craffu priodol. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod isafswm o bwyllgorau craffu, fel na all grwpiau rheoli leihau lefel y gwaith craffu drwy leihau nifer y pwyllgorau i un neu ddau yn unig. Er mwyn bod yn agored a thryloyw, hoffwn weld mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o gyfryngau cymdeithasol; dim ond pedwar cyngor yng Nghymru sy'n caniatáu Twitter a Facebook yn ystod cyfarfodydd. Hoffwn weld trafodion yn cael eu darlledu, a gwn fod y Gweinidog yn bendant yn symud i'r cyfeiriad hwnnw. Yn olaf, o ran craffu ar bartneriaethau, gan gynnwys byrddau gwasanaethau lleol, dinas-ranbarthau a gwaith ar y cyd, mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o wneud yn siŵr y creffir yn briodol ar y rhain hefyd.

17:02

## Joyce Watson [Bywgraffiad Biography](#)

On strengthening local democracy, we have heard everybody say here this afternoon that nobody would be against such a proposition. There are three key areas on which I would like to focus. First is the role of scrutiny. I very much welcome the development fund of £300,000 that has been made available. I ask the Minister to find a way of ensuring that some of that is spent in two areas. One is to give members adequate support to carry out meaningful scrutiny—however that support is delivered, whether it is by an officer or support worker. The other part of that must be about training packages that are put together to give members, especially new members, a real opportunity to look at the papers in front of them, to be taught to pick out the critical information and then how to put that together in a package of scrutiny that, hopefully, leads to positive outcomes for the people whom they represent. That is particularly true if you are in opposition. Therefore, I would like to focus on the scrutiny by opposition members of councils being strengthened.

Ar gryfhau democratiaeth leol, rydym wedi clywed pawb yn dweud yma brynawn heddiw na fyddai neb yn erbyn cynnig o'r fath. Hoffwn ganolbwyntio ar dri maes allweddol. Y cyntaf yw swyddogaeth craffu. Croesawaf yn fawr iawn y gronfa ddatblygu o £300,000 sydd wedi'i darparu. Gofynnaf i'r Gweinidog ddod o hyd i ffordd o sicrhau bod rhywfaint o'r arian hwnnw'n cael ei wario mewn dau faes. Un yw rhoi cymorth digonol i aelodau gyflawni gwaith craffu ystyrllon—sut bynnag y caiff y cymorth hwnnw ei ddarparu, boed hynny gan swyddog neu weithiwr cymorth. Mae'n rhaid i'r rhan arall ymwneud â'r pecynnau hyfforddi sy'n cael eu paratoi i roi cyfle gwirioneddol i aelodau, ac aelodau newydd yn enwedig, edrych ar y papurau o'u blaenau, cael eu dysgu i ddethol y wybodaeth hanfodol ac yna sut i roi hynny at ei gilydd mewn pecyn craffu a fydd, gobeithio, yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y bobl y maent yn eu cynrychioli. Mae hynny'n arbennig o wir os ydych yn yr wrthblaid. Felly, hoffwn ganolbwyntio ar gryfhau'r gwaith craffu gan aelodau'r wrthblaid ar gyngorau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Another area that I would like to focus on—I used to be, as some of you might know, a Pembrokeshire county councillor—is timing meetings to allow a little diversity to exist in council chambers. It is not satisfactory in any way that every single council meeting takes place during the day; if you have an additional job, you have no opportunity of becoming a county councillor. I feel strongly about that; we definitely need to look at allowing some flexibility or insisting on flexibility that allows a different make-up.

The other issue—I said that there were three—is executive pay. I remember, when I was leader of the opposition on Pembrokeshire County Council, arguing for 12 years about executive pay being discussed in the public arena. Lo and behold, the argument went that it was a private matter that could never be discussed in public. Funnily enough, it was actually paid out of the public purse. I hope that you, Minister, will finally ensure that executive pay, which rises so fast that it is ridiculous, is discussed and qualified in public, because I think that people have had quite enough of massive pay rises that have ended up with such a vast difference between those at the bottom and those at the top—

Maes arall yr hoffwn ganolbwyntio arno—roeddwn i'n arfer bod, fel y mae rhai ohonoch yn gwybod, yn gynghorydd sir yn Sir Benfro—yw amseru cyfarfodydd er mwyn caniatáu ar gyfer ychydig o amrywiaeth mewn siambrau cynghorau. Nid yw'n foddhaol mewn unrhyw ffordd bod pob cyfarfod cyngor yn cael ei gynnal yn ystod y dydd; os oes gennych swydd ychwanegol, nid oes cyfle i chi ddod yn gynghorydd sir. Mae gennyf deimladau cryf ynglŷn â hynny; mae angen i ni'n bendant edrych ar ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd neu fynnu hyblygrwydd sy'n caniatáu gwahanol gyfansoddiad.

Y mater arall—dywedais fod tri—yw cyflog swyddogion gweithredol. Pan oeddwn yn arweinydd yr wrthblaid ar Gyngor Sir Penfro, cofiaf ddadlau am 12 mlynedd dros drafod cyflog swyddogion gweithredol yn gyhoeddus. A'r ddadl oedd, er mawr syndod, ei fod yn fater preifat na ellid ei drafod yn gyhoeddus. Yn rhyfedd iawn, roedd yn cael ei dalu mewn gwirionedd o'r pwr cyhoeddus. Mae'n chwerthinlyd pa mor gyflym y mae cyflogau swyddogion gweithredol yn codi, ac rwyf yn gobeithio y byddwch chi, Weinidog, yn sicrhau o'r diwedd y cânt eu trafod a'u cymhwyso'n gyhoeddus, gan fy mod yn meddwl bod pobl wedi cael llond bol ar godiadau cyflog enfawr sydd wedi arwain at y fath wahaniaeth mawr rhwng y rhai ar y gwaelod a'r rhai ar y brig—

- 17:05 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 17:06 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
No, because you did not. It is as simple as that. If you had, I would. You did not. Na, oherwydd na wnaethoch chi. Mae mor syml â hynny. Pe byddech chi wedi, fe fyddwn i'n gwneud. Ni wnaethoch chi.
- 17:06 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Would you take an intervention from me? A wnewch chi gymryd ymyriad oddi wrthyf i?
- 17:06 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
In a minute. I will, from you. [Laughter.] Mewn munud. Fe wnaif, gennych chi. [Chwerthin.]
- 17:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
You will have to hurry up. Bydd rhaid i chi frysio.
- 17:06 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
If it is the case that we must ask people to have pay freezes and to have low pay, we must then—at the other end—justify paying people huge amounts of money to do a bad job. Os oes rhaid inni ofyn i bobl gael rhewi eu cyflog a chael cyflog isel, yna mae'n rhaid i ni—yn y pen arall—gyfiawnhau talu symiau enfawr o arian i bobl am wneud gwaith gwael.
- 17:06 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Joyce, there was an amendment last week to this end, to ensure that chief executives and senior managers did not get additional pay for being returning officers. Could you tell me how you voted on that? Joyce, gwnaed gwelliant yr wythnos diwethaf i'r perwyl hwn, er mwyn sicrhau nad yw prif weithredwyr ac uwch reolwyr yn cael tâl ychwanegol am fod yn swyddogion canlyniadau. A allwch ddweud wrthyf sut y gwnaethoch bleidleisio ar hynny?

17:06	<b>Joyce Watson</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I was not on the committee. Are you talking about committee amendments?	Nid oeddwn ar y pwyllgor. A ydych yn sôn am ddiwygiadau pwyllgor?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
17:06	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Were you not at the committee?	Onid oeddech chi yn y pwyllgor?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
17:06	<b>Joyce Watson</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I am not on that committee.	Nid wyf ar y pwyllgor hwnnw.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
17:06	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	This is not a discussion; it is a debate.	Dadl yw hon, nid trafodaeth.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
17:06	<b>Joyce Watson</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I could not amend something when I was not at the discussion because I was at another committee meeting.	Ni allwn newid rhywbeth pan nad oeddwn yn rhan o'r drafodaeth oherwydd fy mod mewn cyfarfod pwyllgor arall.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
17:07	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I call on the Minister to reply to the debate. [Interruption.] I beg your pardon; I am glad that I have the clerk here. I call on Alun Ffred Jones.	Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddatl. [Torri ar draws.] Rwy'n erfyn eich maddeuant; rwyf yn falch fod y clerc yma. Galwaf ar Alun Ffred Jones.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
17:07	<b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Byddwch yn falch iawn o fod wedi gwrandao ar fy araith i.	You will be very pleased to have listened to my speech.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
		Gwn ei bod yn anodd credu, ond mae rhai pobl sy'n cyhuddo'r lle hwn o fod yn siop siarad. O edrych ar y cynnig tila hwn sydd o'n blaenau ni heddiw, ni allwch eu beio nhw chwaith. Ond gadewch inni fod yn garedig ac yn gadarnhaol, gan ystyried yr enghraifft ddiweddaraf o ddemocratiaeth ar waith yng Nghymru, sef etholiadau Ynys Môn, yn dilyn ymdrechion y Llywodraeth a'r cyn Weiniog, Carl Sargeant, i greu strwythur democrataidd cadarn ar yr ynys. Un peth cadarnhaol oedd y diddordeb mawr yn yr etholiadau a'r lluo o ymgeiswyr o bob lliw a llun a barn.	I know that it is difficult to believe, but some people accuse this place of being a talking shop. From looking at the weak motion before us today, you cannot blame them either. However, let us be kind and positive, and consider the latest example of democracy at work in Wales, namely the Anglesey elections. Those elections followed efforts by the Government and the former Minister, Carl Sargeant, to establish a strong democratic structure on the island. One positive thing was the great interest in the elections and the vast number of candidates from all political colours and opinions.	
		Rwy'n siŵr, Weiniog, y byddech am ymuno â mi i longyfarch ymgeiswyr Plaid Cymru ar gipio 12 o'r 30 sedd, gan ennill mwy o bleidleisiau, mae'n debyg, na'r Torïaid, y Rhyddfrydwyr Democrataidd a'r Blaid Lafur gyda'i gilydd—tipyn o gamp—mewn ymgyrch gadarnhaol, fywiog iawn.	I am sure, Minister, that you would join me in congratulating the Plaid Cymru candidates on securing 12 of the 30 seats, winning more votes, it seems, than the Tories, the Liberal Democrats and the Labour Party together—quite an achievement—in a positive and lively campaign.	
		Peth arall cadarnhaol am yr etholiadau hynny oedd y ffaith bod UKIP wedi methu â chael troedle nac ennill cefnogaeth fel ag y gwnaeth yn Lloegr, er i Radio Cymru, o leiaf, geisio honni hynny, mae'n debyg, am mai hynny oedd stori Radio 4 ar yr un bore. Wrth gwrs, ni fydd Plaid Cymru yn rhan o gabinet Ynys Môn, gan fod y triawd sydd wedi'i ethol o'r Blaid Lafur wedi penderfynu neidio at yr annibynnwyr heb drafod o gwbl. Wrth gwrs, mae'r grŵp annibynnol yn cynnwys Rhyddfrydwyr Democrataidd a oedd yno yn barod, am ryw reswm, a'r anfarwol Peter Rogers; rwy'n siŵr y byddant yn hapus iawn gyda'i gilydd.	The other positive thing about those elections was the fact that UKIP did not manage to get a foothold nor gain any support, as in England, although Radio Cymru, at least, tried to claim that, apparently, as that was the story on Radio 4 on the same morning. Of course, Plaid Cymru will not be part of the cabinet in Anglesey, as the trio elected from the Labour Party have decided to jump into bed with the independents, without any discussion. Of course, it is an independent group that includes the Liberal Democrats who were already there, for some reason, and the unforgettable Peter Rogers; I am sure that they will be very happy together.	



I offren ar nodyn llai cadarnhaol mewn un ystyr, o'r 30 o bobl a etholwyd yn Ynys Môn, dim ond tri sy'n fenywod. Yn gadarnhaol o safbwynt y Plaid, mae'r tair ohonynt yn ferched egniol a gweithgar yn eu cymunedau, ac yn aelodau o Plaid Cymru. Felly, mae cwestiwn i bob un ohonom, mae'n debyg: sut mae sicrhau amrywiaeth ar ein cyngorau er mwyn hyrwyddo democratiaeth go iawn, a chynrychioli pobl mewn ffordd sy'n llawer iawn mwy ystyrlon na'r drefn bresennol?

To finish on a less positive note in one sense, of the 30 people elected in Anglesey, only three are women. Positively, from Plaid's perspective, the three women are energetic and proactive in their communities, and are members of Plaid Cymru. Therefore, there is a question for each one of us, it seems: how do we ensure diversity on our councils in order to promote proper democracy, and to represent people in a way that is much more meaningful than the current system?

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Now I do call on the Minister to reply to the debate.

Yn awr rwyf yn galw ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:09 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I am disappointed with the stance that certain Members have taken. The debate is general in nature, but it is an important debate. I pledged money for scrutiny, for instance, in my opening remarks, as I believe that it is an area that needs to be strengthened.

Rwyf yn siomedig â safbwynt rhai Aelodau. Mae'r ddadl yn gyffredinol ei natur, ond mae'n ddadl bwysig. Addewais arian ar gyfer craffu, er enghraifft, yn fy sylwadau agoriadol, gan fy mod yn credu ei fod yn faes y mae angen ei gryfhau.

I will now turn to Members' comments. Janet Finch-Saunders mentioned a paper: '50 ways to save: examples of sensible savings in local government'. I have had a look at that paper. It suggests that we scrap trade union posts and do away with facility time. I do not want to see any local authority do that. It also suggests closing council cash offices. That would just bring about a great deal of staff losses. It suggests scrapping the executive entirely, but who would run it? It suggests stopping translating documents into foreign languages, and only publishing in English. I do not think that I would encourage that in Welsh local authorities either. However, we will be supporting the three Conservative amendments.

Trof yn awr at sylwadau'r Aelodau. Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at bapur: '50 ways to save: examples of sensible savings in local government'. Rwyf wedi edrych ar y papur. Mae'n awgrymu ein bod yn dileu swyddi undebau llafur a gwneud i ffwrdd ag amser cyfleuster. Nid wyf am weld unrhyw awdurdod lleol yn gwneud hynny. Mae hefyd yn awgrymu cau swyddfeydd arian parod cyngorau. Byddai hynny'n golygu colli llawer iawn o staff. Mae'n awgrymu cael gwared ar y weithrediaeth yn gyfan gwbl, ond pwy fyddai'n ei redeg? Mae'n awgrymu rhoi'r gorau i gyfeithu dogfennau i ieithoedd tramor, a dim ond cyhoeddi yn Saesneg. Nid wyf yn meddwl y byddwn yn annog hynny mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ychwaith. Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi tri gwelliant y Ceidwadwyr.

Rhodri Glyn Thomas, we want to see matters relating to local government elections, with the exception of registration and franchise, devolved to the Welsh Government. You talked about competence. I have to take my legal advice and I have to rely on that advice. That is where I am coming from on that. Again, we accept both Plaid Cymru amendments. What I want from the panel is for it to look at the survey. There is no point having a survey and not taking any action on it. The panel will take on board what comes from that survey, and it will bring forward responses, following an examination of the survey results.

Rhodri Glyn Thomas, rydym am weld materion yn ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol, ac eithrio cofrestru ac etholfraint, yn cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Roeddech yn sôn am gymhwysedd. Rhaid i mi gymryd fy nghyngor cyfreithiol a rhaid i mi ddiabyddu ar y cyngor hwnnw. Dyna fy safbwynt yn hynny o beth. Unwaith eto, rydym yn derbyn dau welliant Plaid Cymru. Yr hyn yr wyf ei eisiau gan y panel yw iddo edrych ar yr arolwg. Nid oes diben cael arolwg a pheidio â chymryd unrhyw gamau yn ei sgil. Bydd y panel yn ystyried yr hyn a ddaw o'r arolwg hwnnw, a bydd yn cyflwyno ymatebion, ar ôl archwilio canlyniadau'r arolwg.

Peter Black, the Welsh Government does not support proportional representation in local government, so we will not be supporting amendment 6. Regarding amendment 7, this is not a devolved issue, and Members of the Labour group will be having a free vote on that amendment. You are quite right: I want to see social media being used in local government meetings. I also want to promote the broadcasting of meetings. I am very pleased that Carmarthenshire County Council has announced today that it will be broadcasting meetings from tomorrow.

Peter Black, nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynrychiolaeth gyfrannol mewn llywodraeth leol, felly ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 6. O ran gwelliant 7, nid yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, a bydd aelodau o'r grŵp Llafur yn cael pleidlais rydd ar y gwelliant hwnnw. Rydych yn llygad eich lle: rwyf am weld cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio mewn cyfarfodydd llywodraeth leol. Rwyf hefyd am hyrwyddo'r syniad o ddarlledu cyfarfodydd. Rwyf yn falch iawn bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi heddiw y bydd yn darlledu cyfarfodydd o yfory ymlaen.

Joyce Watson, you referred to meaningful scrutiny. In going around the local authorities, as I have been doing over the past six or seven weeks, it is very clear that a large number of new councillors were elected last year. It is therefore very important that I put funding in place to enable councillors to access training. You referred to the timing of meetings. The Local Government (Wales) Measure 2011 requires councils to survey their members on the timing of meetings, and a lot of meetings have moved into the daytime as a result of councillors' views on that issue. You also referred to executive pay. The most important thing on this issue is that local authorities are absolutely transparent in the way that they set their council officers' pay.

Alun Ffred Jones, you referred to the election last week in Ynys Môn. You are right: a lot of positives came out of that election. We had a large number of candidates—I think that there were 106 across the island. Every seat was contested, and that is the first time that that has happened for many years.

Janet Finch-Saunders referred to the amendments that were brought forward—

Joyce Watson, rydych yn cyfeirio at graffu ystyrion. Wrth fynd o amgylch yr awdurdodau lleol, fel yr wyf wedi bod yn ei wneud dros y chwech neu saith wythnos diwethaf, mae'n amlwg iawn bod nifer fawr o gynghorwyr newydd wedi cael eu hethol y llynedd. Mae'n bwysig iawn, felly, fy mod yn darparu arian i alluogi cynghorwyr i fanteisio ar hyfforddiant. Fe wnaethoch gyfeirio at amseriad y cyfarfodydd. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gynnal arolwg o'u haelodau ynglŷn ag amseriad cyfarfodydd, ac mae llawer o gyfarfodydd wedi symud i gael eu cynnal yn ystod y dydd o ganlyniad i farn cynghorwyr ar y mater hwnnw. Cyfeiriwyd hefyd at gyflog swyddogion gweithredol. Y peth pwysicaf ar y mater hwn yw bod awdurdodau lleol yn gwbl dryloyw yn y ffordd y maent yn gosod cyflogau swyddogion y cyngor.

Alun Ffred Jones, fe wnaethoch gyfeirio at yr etholiad yr wythnos diwethaf yn Ynys Môn. Rydych yn iawn: daeth llawer o bethau cadarnhaol o'r etholiad hwnnw. Cawsom nifer fawr o ymgeiswyr—credaf fod 106 ar draws yr ynys. Bu cystadleuaeth am bob sedd, a dyna'r tro cyntaf i hynny ddigwydd ers blynnyddoedd lawer.

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at y newidiadau a gafodd eu dwyn ymlaen—

17:13

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On the Anglesey point, we all want to see the widest possible representation in local government, with people from all backgrounds. It has been widely reported that the leader of the Labour group on Anglesey has said that the reason that he could not work with Plaid was that the Plaid representatives were too young and too radical. We need to get past these attitudes and get people genuinely working on policies in local government. [Interruption.]

O ran y pwynt ynglŷn ag Ynys Môn, rydym i gyd am weld y gynrychiolaeth ehangaf bosibl mewn llywodraeth leol, gyda phobl o bob cefndir. Clywyd llawer o adroddiadau bod arweinydd y grŵp Llafur ar Ynys Môn wedi dweud mai'r rheswm na allai weithio gyda Phlaid Cymru oedd bod cynrychiolwyr Plaid Cymru yn rhy ifanc ac yn rhy radical. Mae angen i ni fynd y tu hwnt i'r agweddau hyn a chael pobl i weithio mewn gwirionedd ar bolisiau mewn llywodraeth leol. [Torri ar draws.]

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:13

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was not party to any discussions, and I have not heard that said.

Janet Finch-Saunders referred to amendments at Stage 2 of the scrutiny process on the Bill last week. I absolutely want to support any amendment that makes sure that we have the best legislation possible. Janet, you referred to the amendment brought forward by Rhodri Glyn Thomas about filming. With respect, I understand the sentiment behind it, but I think that it was a badly worded amendment, citing reasonable facilities for everyone to film. If 200 people turn up and want to start filming, maybe that would not be possible. You do not want 200 people in your public gallery with mobile phones. That is not allowed in this public gallery, and we would not want it in local government. Open, transparent and accountable local democracy, where members reflect the communities that they represent, is essential to promoting Wales as a great place to live, work and run a business. I very much look forward to working with Members to bring this about over the coming months.

Ni chymerais ran mewn unrhyw drafodaethau, ac nid wyf wedi clywed hynny'n cael ei ddweud.

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at y gwelliannau yng Nghyfnod 2 y broses graffu ar y Bil yr wythnos diwethaf. Rwyf yn bendant eisiau cefnogi unrhyw welliant sy'n gwneud yn siŵr ein bod yn cael y ddeddfwriaeth orau bosibl. Janet, fe wnaethoch gyfeirio at y gwelliant a gyflwynwyd gan Rhodri Glyn Thomas ynglŷn â ffilmio. Gyda phob parch, rwyf yn deall y teimlad y tu ôl iddo, ond rwyf yn meddwl ei fod yn welliant sydd wedi ei eirio'n wael, gan nodi cyfeusterau rhesymol i bawb i ffilmio. Os yw 200 o bobl yn cyrraedd ac yn awyddus i ddechrau ffilmio, efallai na fyddai hynny'n bosibl. Nid ydych am gael 200 o bobl yn eich oriel gyhoeddus â ffonau symudol. Ni chaniateir hynny yn yr oriel gyhoeddus hon, ac ni fyddem am ei gael mewn llywodraeth leol. Mae democratiaeth leol agored, dryloyw ac atebol, lle mae aelodau'n adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli, yn hanfodol er mwyn hyrwyddo Cymru fel lle gwydych i fyw, gweithio a rhedeg busnes. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'r Aelodau i gyflawni hyn dros y misoedd nesaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:14	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection. I therefore defer all voting under this item until voting time.</p> <p><i>Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.</i></p>	<p>Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.</p> <p><i>Voting deferred until voting time.</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:15	<p><b>Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau</b></p> <p><b>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call on a member of the Business Committee to move the motions.</p> <p>Cynnig NDM5241 Rosemary Butler</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Bethan Jenkins (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau yn lle Elin Jones (Plaid Cymru).</p> <p>Cynnig NDM5242 Rosemary Butler</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Elin Jones (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Jocelyn Davies (Plaid Cymru).</p>	<p><b>Motions to Elect Members to Committees</b></p> <p>Yrwyf yn galw ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig y cynigion.</p> <p>Motion NDM5241 Rosemary Butler</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Bethan Jenkins (Plaid Cymru) as a member of the Petitions Committee in place of Elin Jones (Plaid Cymru).</p> <p>Motion NDM5242 Rosemary Butler</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Elin Jones (Plaid Cymru) as a member of the Business Committee in place of Jocelyn Davies (Plaid Cymru).</p>	<p><b>Y</b> Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:15	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business</i></p> <p>I move the motions.</p>	<p>Cynigiaf y cynigion.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:15	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Unless there are any objections, I propose that the votes on the motions are grouped. I see that there are no objections. The proposal is to agree the motions. Does any Member object? I see that there are no objections. The motions are therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.</p> <p>Before we move to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.</p> <p><i>Derbyniwyd y cynigion.</i></p>	<p>Oni bai bod unrhyw wrthwynebiadau, cynigiaf fod y pleidleisiau ar y cynigion yn cael eu grwpio. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Y cynnig yw cytuno ar y cynigion. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynigion yn cael eu derbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.</p> <p>Cyn i ni symud at y cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.</p> <p><i>Motions agreed.</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
	<p><b>Cyfnod Pleidleisio</b></p> <p><a href="#">Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5237.</a></p> <p><i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 14, Ymatal 0.</i></p> <p><a href="#">Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5237.</a></p> <p><i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 44, Yn erbyn 10, Ymatal 0.</i></p> <p><a href="#">Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5237.</a></p>	<p><b>Voting Time</b></p> <p><a href="#">Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5237.</a></p> <p><i>Amendment agreed: For 39, Against 14, Abstain 0.</i></p> <p><a href="#">Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5237.</a></p> <p><i>Amendment agreed: For 44, Against 10, Abstain 0.</i></p> <p><a href="#">Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5237.</a></p>	

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5237.](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5237.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5237.](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5237.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.

Amendment agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5237.](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5237.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 40, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 14, Against 40, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5237.](#)

[Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5237.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 5, Ymatal 7.

Amendment agreed: For 41, Against 5, Abstain 7.

Cynnig NDM5237 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5237 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

Yn gwerthfawrogi angenrheidiol dadlau dros ddemocratiaeth leol sy'n effeithlon, yn agored, yn dryloyw ac yn atebol a phwysigrwydd annog mwy o amrywiaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliad mewn Llywodraeth Leol.

Appreciates the necessity of advocating efficient, open, transparent and accountable local democracy and the importance of encouraging greater diversity and stakeholder engagement in Local Government.

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y pen draw i hwyluso ffrydio byw yn ystod pob un o gyfarfodydd craffu a chabinet cynghorau.

Welcomes the Welsh Government's eventual commitment to facilitating live streaming during all council scrutiny and cabinet meetings.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno agenda gynhwysfawr a fydd yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â bod yn agored, tryloywder ac atebolrwydd mewn democratiaeth leol a llywodraeth leol.

Calls on the Welsh Government to bring forward a comprehensive agenda that will tackle issues around openness, transparency and accountability in local democracy and local government.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau ei bod yn cefnogi datganol cyfrifoldeb dros etholiadau llywodraeth leol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Calls on the Welsh Government to confirm its support for devolving responsibility for local government elections to the National Assembly.

Yn gresynu nad yw oddeutu 77,000 o bobl ifanc 16 a 17 oed yng Nghymru yn cael pleidleisio ar hyn o bryd ac yn credu y byddai atebolrwydd democrataidd yn cael ei gryfhau drwy ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol.

Regrets that around 77,000 16 and 17 year olds in Wales are currently denied the vote and believes that democratic accountability would be strengthened by allowing 16 and 17 year olds to vote in elections to local councils.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5237 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5237 as amended.](#)

Derbyniwyd cynnis NDM5237 fel y'i diwygiwyd: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.

Motion NDM5237 as amended agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.

17:18

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.18 p.m.*

*The meeting ended at 5.18 p.m.*